



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 12 Mawrth 2008  
Wednesday, 12 March 2008**

## Cynnwys Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol  
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
- 21 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth  
Questions to the Minister for Heritage
- 40 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai  
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing
- 58 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad  
Questions to the Assembly Commission
- 59 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cyllideb Diogelwch ar y Ffyrdd  
Welsh Conservatives Debate: Road Safety Budget
- 80 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Iaith Gymraeg  
Welsh Conservatives Debate: The Welsh Language
- 100 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Deintyddiaeth yng Nghymru  
Welsh Liberal Democrats Debate: Dentistry in Wales
- 125 Amser Pleidleisio  
Voting Time
- 136 Dadl Fer: Gwleidyddiaeth Boblogaidd—Ailddyfeisio Democratiaeth drwy Roi'r Bobl  
wrth y Llyw  
Short Debate: Popular Politics —Reinventing Democracy by Putting the People in  
Charge

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been  
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government**

### **The Voluntary Sector**

**C1 Jeff Cuthbert:** What is the Welsh Assembly Government doing to promote a strong voluntary sector in Wales?  
OAQ(3)0282(SJL)

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** We have worked with the sector to develop a new strategic action plan for the Assembly's voluntary sector scheme. Progress is being monitored by us along with the voluntary sector partnership council in Wales.

**Jeff Cuthbert:** The voluntary sector often provides services that the public and private sectors cannot provide. One such organisation in my constituency, the Centre for Help and Advice for the Disabled, commonly known as CHAD, is sadly facing closure should it fail to acquire adequate funding. Would you join me in hoping that funding can be secured, and meet with me or ask your officials to look into options that may be available?

**Brian Gibbons:** I know that this is an issue that you have raised with me before. I also think that this was one of the issues raised when we met at the CHAD annual general meeting last month. As an Assembly Government, we have provided almost £0.5 million to CHAD over the last five years. We hoped that some of that funding would provide the opportunity for CHAD staff to generate revenue for the organisation. The present revenue is in place until 2008; so, hopefully, CHAD will be able to use some of that staffing revenue plus the time that is available to it to pursue alternative funding arrangements. I will be happy to meet with you to explore further options in that regard.

### **Y Sector Gwirfoddol**

**C1 Jeff Cuthbert:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu sector gwirfoddol cryf yng Nghymru?  
OAQ(3)0282(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Yr ydym wedi gweithio gyda'r sector i ddatblygu cynllun gweithredu strategol newydd ar gyfer cynllun sector gwirfoddol y Cynulliad. Yr ydym ni a chyngor partneriaeth y sector gwirfoddol yng Nghymru yn monitro'r cynnydd.

**Jeff Cuthbert:** Mae'r sector gwirfoddol yn aml yn darparu gwasanaethau na all y sector cyhoeddus na'r sector preifat eu darparu. Yn anffodus, mae un mudiad o'r fath yn fy etholaeth, y Ganolfan er Cymorth a Chyngor i Bobl Anabl, a adwaenir yn gyffredinol fel CHAD, yn wynebu cael ei chau oni lwydda i gael gafael ar arian digonol. A fydddech yn ymuno â mi i obeithio y gellir sicrhau arian, a chyfarfod â mi neu ofyn i'ch swyddogion edrych ar ddewisiadau a all fod ar gael?

**Brian Gibbons:** Gwn fod hwn yn fater yr ydych wedi'i godi â mi o'r blaen. Yr wyf hefyd yn meddwl bod hwn yn un o'r materion a godwyd pan gyfarfuom yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol CHAD fis diwethaf. Yr ydym, fel Llywodraeth Cynulliad, wedi darparu £0.5 miliwn bron i CHAD dros y pum mlynedd diwethaf. Gobeithiem y byddai rhywfaint o'r arian hwnnw'n rhoi cyfle i staff CHAD gynhyrchu refeniw ar gyfer y mudiad. Mae'r refeniw presennol ar gael hyd 2008; felly, gobeithio y gall CHAD ddefnyddio rhywfaint o'r refeniw staff yn ogystal â'r amser sydd ar gael i fynd ar drywydd trefniadau ariannu eraill. Byddaf yn falch o gyfarfod â chi i archwilio opsiynau

eraill yn y cyswllt hwnnw.

**William Graham:** You will have seen the recent Gweini report that reveals the truly remarkable contribution that faith communities make to life through volunteering in Wales. Standard techniques indicate that just a part of the service provided to local communities is estimated to be worth at least £102 million per annum. Examples of the sort of volunteering undertaken by faith communities throughout Wales include counselling drug abuse charities, free Welsh language lessons and charities providing aid to alleviate the threat of hunger and disease in the third world. Will you pay tribute to this report?

**William Graham:** Mae'n siŵr y byddwch wedi gweld adroddiad diweddar Gweini sy'n dangos y cyfraniad gwirioneddol ryfeddol a wna cymunedau ffydd i fywyd drwy wirfoddoli yng Nghymru. A defnyddio technegau safonol, amcangyfrifir bod rhan yn unig o'r gwasanaeth a ddarperir i gymunedau lleol werth £102 miliwn o leiaf bob blwyddyn. Mae enghreifftiau o'r math o wirfoddoli a wneir gan gymunedau ffydd ledled Cymru yn cynnwys elusennau sy'n cynnig gwasanaethau cwnsela ym maes camddefnyddio cyffuriau, dosbarthiadau iaith Gymraeg am ddim ac elusennau sy'n cynorthwyo i liniaru bygythiadau a ddaw yn sgil newyn ac afiechydon yn y trydydd byd. A roddwch deyrnged i'r adroddiad hwn?

**Brian Gibbons:** Yes, William. Yesterday, I had the pleasure of being at the formal launch of the Gweini report. It was heartening to see the turnout at the event, and equally to hear scientific evidence on the sheer scale of the contribution that faith groups are making in Wales. Religion obviously has an inward-looking aspect, but the outward engagement with society, evidenced by that report, is heartening.

**Brian Gibbons:** Gwnaf, William. Ddoe, cefais y pleser o fod yng nghinio ffurfiol adroddiad Gweini. Yr oedd yn galonogol gweld faint o bobl a oedd yn y digwyddiad, ac yr un mor galonogol clywed tystiolaeth wyddonol am raddfa anferthol cyfraniad grwpiau ffydd yng Nghymru. Yn amlwg, mae agwedd fewnblyg yn gysylltiedig â chrefydd, ond mae'r modd y mae'n estyn allan ac yn ymwneud â'r gymdeithas, fel y profa'r adroddiad hwnnw, yn codi calon rywun.

**David Lloyd:** A gredu y dylai'r system o ariannu'r sector gwirfoddol adlewyrchu'r bartneriaeth gyfartal sydd i fod i ddigwydd yn y Cynulliad, ac, yn benodol, darparu arian craidd sicr, tymor hir yn hytrach na gorfodi ceisiadau aml, tymor byr yn gysylltiedig â gwahanol brosiectau?

**David Lloyd:** Do you believe that the funding regime for the voluntary sector should reflect the equal partnership that should exist within the Assembly, and, specifically, provide guaranteed, long-term core funding rather than force different projects to apply repeatedly for short-term funding?

**Brian Gibbons:** As the voluntary sector and the third sector develop in Wales, there will be development in the plurality of provision. Main organisations need core funding, but, equally, as many of these organisations are involved in delivering particular projects, depending on the nature of the project, specific, time-limited funding may be available. With the voluntary sector partnership council, we have a sub-committee that monitors the funding arrangements between the Assembly and the sector.

**Brian Gibbons:** Wrth i'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector ddatblygu yng Nghymru, ceir datblygiad yn amlblwyfaeth y ddarpariaeth. Mae angen arian craidd ar y prif fudiadau, ond, yn yr un modd, gan fod cynifer o'r mudiadau hyn yn ymwneud â darparu prosiectau neilltuol, yn dibynnu ar natur y prosiect, efallai y bydd arian penodol ar gael, a hwnnw ar gael am amser penodol. Gyda chyngor partneriaeth y sector gwirfoddol, mae gennym is-bwyllgor sy'n monitro'r trefniadau ariannu rhwng y Cynulliad a'r sector.

## Post Office Network

**C2 Mick Bates:** What discussions has the Minister had on the future of the post office network in mid Wales? OAQ(3)0290(SJL)

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** Post office policy is non-devolved. I continue to have discussions with Post Office Ltd, making clear that I expect our vulnerable communities, in the Valleys and rural areas, to be given greater safeguards on the accessibility of services.

**Mick Bates:** Thank you for mentioning the word 'vulnerable'. Do you accept that the Labour Party has been the cause of the destruction of the post office network and the latest wave of closures just announced in mid Wales? Labour removed business worth £168 million from the post office network in 2005-06. The same year, the Post Office ran at a deficit of £111 million. Labour's erosion of services in the Post Office turned a potential profit of £50 million into a deficit of twice that. That sucked the life out of this invaluable network. Do you accept that your party is responsible for the mess that we are now in?

**Leighton Andrews:** Labour's Assembly Government has extended rate relief to post offices, the last Labour Assembly Government extended the post office development fund, and this Labour-led Government will reopen the post office development fund from 1 January 2009—*[Interruption.]*

**The Presiding Officer:** Order. The Deputy Minister can answer only for this Minister's responsibilities. If leaders of opposition parties persist in saying 'Party, party, party' I shall have to consider the matter further.

**Alun Davies:** You will be aware of the post office closure programme in mid Wales announced this week. Will you have discussions with the Post Office and local

## Rhwydwaith Swyddfa'r Post

**C2 Mick Bates:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol rhwydwaith swyddfa'r post yn y canolbarth? OAQ(3)0290(SJL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Mae polisiau swyddfa'r post yn fater nas datganolwyd. Parhaf i gael trafodaethau gyda Swyddfa'r Post Cyf, gan ei gwneud yn glir fy mod yn disgwyl i'n cymunedau sy'n agored i niwed, yn y Cymoedd ac mewn ardaloedd gwledig, gael gwell mesurau diogelu yng nghyswllt mynediad at wasanaethau.

**Mick Bates:** Diolch ichi am grybwyll yr ymadrodd 'agored i niwed'. A dderbyniwch mai'r Blaid Lafur sydd wedi dinistrio rhwydwaith swyddfa'r post ac mai hi sydd wedi achosi'r don ddiweddaraf o gau sydd newydd ei chyhoeddi yn y canolbarth? Tynnodd Llafur werth £168 miliwn o fusnes o rwydwaith swyddfa'r post yn 2005-06. Yn yr un flwyddyn, gweithredodd y Swyddfa Post ar £111 miliwn o ddiffyg ariannol. Llwyddodd Llafur, drwy erydu gwasanaethau'r Swyddfeydd Post, i droi elw posibl o £50 miliwn yn ddiffyg dwywaith cymaint â hynny. Sugnodd hynny'r bywyd o'r rhwydwaith amhrisiadwy hwn. A dderbyniwch mai eich plaid chi sy'n gyfrifol am y llanastr yr ydym ynddo yn awr?

**Leighton Andrews:** Mae Llywodraeth Cynulliad Llafur wedi ymestyn y rhyddhad ardrethi i swyddfeydd post, ymestynnodd Llywodraeth Lafur ddiwethaf y Cynulliad y gronfa datblygu swyddfeydd post, a bydd y Llywodraeth hon dan arweiniad Llafur, yn ailagor y gronfa datblygu swyddfeydd post ar 1 Ionawr 2009—*[Torri ar draws.]*

**Y Llywydd:** Trefn. Dim ond am gyfrifoldebau'r Gweinidog hwn y gall y Dirprwy Weinidog fod yn atebol. Os bydd arweinyddion y gwrthbleidiau'n mynnu dweud 'Plaid, plaid, plaid', bydd yn rhaid imi ystyried y mater ymhellach.

**Alun Davies:** Mae'n siŵr y gwyddoch am y rhaglen cau swyddfeydd post yn y canolbarth a gyhoeddwyd yr wythnos hon. A wnewch gynnal trafodaethau gyda Swyddfa'r Post ac

authorities to ensure that public transport is available for people who no longer have a post office in their village? With your permission, Presiding Officer, I would like to read from a letter that I received from a constituent this week—

**The Presiding Officer:** If the Member has a letter from a constituent, I suggest that he e-mails it to the Minister—

**Alun Davies:** I was simply going to point out that, in the case of this constituent, the travelling time to her nearest post office in Brecon could be as much as two hours and 55 minutes, which is an unacceptable situation for any member of our vulnerable population.

**Leighton Andrews:** I encourage your constituent to make the case very strongly in the current consultation procedure on post office closures in your area. As you are aware, there are proposals in the current round of closures for a number of outreach services to be provided. As we have said, we will reopen the post office development fund from 1 January next year. We are aware that the fund has benefited a large number of post offices all over Wales in the past, as has the extension of rate relief that we have provided.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** The Minister well knows that the closure programme—it is a closure programme—announced yesterday for Brecon and Radnorshire, Montgomeryshire and Ceredigion in mid Wales, was brought about by the Labour Government at Westminster. There is no doubt about that; it holds all the shares in Post Office Ltd. There are responsibilities here in relation to the Post Office, and I hope that the Minister is going to ensure that he has discussions with his Labour colleagues in Westminster too to impress upon them what they are doing to vulnerable communities throughout Wales, specifically mid Wales, as announced yesterday.

Many of the post offices that are to be closed are in isolated communities where there are

awdurdodau lleol i sicrhau bod trafniadaeth gyhoeddus ar gael i bobl nad oes ganddynt swyddfa bost yn eu pentref mwyach? Gyda'ch caniatâd chi, Lywydd, hoffwn ddarllen llythyr a gefais gan etholwr yr wythnos hon—

**Y Llywydd:** Os oes gan yr Aelod lythyr gan etholwr, awgrymaf ei fod yn ei anfon dros yr e-bost at y Gweinidog—

**Alun Davies:** Yr hyn yr oeddwn yn mynd i dynnu sylw ato, yn syml, oedd, yn achos yr etholwr hwn, y gallai'r amser teithio i'w swyddfa bost agosaf yn Aberhonddu fod gymaint â dwy awr a 55 munud, sy'n sefyllfa annerbyniol i unrhyw aelod o'n poblogaeth agored i niwed.

**Leighton Andrews:** Anogaf eich etholwr i gyfleu hynny'n gadarn iawn yn y drefn ymgynghori bresennol ar gau swyddfeydd post yn eich ardal. Fel y gwyddoch, ceir cynigion yn y cylch diweddaraf o gau swyddfeydd post i ddarparu nifer o wasanaethau allgymorth. Fel yr ydym wedi'i ddweud, byddwn yn ailagor y gronfa datblygu swyddfeydd post ar 1 Ionawr y flwyddyn nesaf. Yr ydym yn ymwybodol y bu'r gronfa o fudd i nifer helaeth o swyddfeydd post ym mhob cwr o Gymru yn y gorffennol, yn yr un modd ag y mae ymestyn y rhyddhad ardrethi yr ydym wedi'i ddarparu wedi bod yn fuddiol.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Gŵyr y Gweinidog yn dda mai'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan sy'n gyfrifol am y rhaglen cau—rhaglen cau ydyw—a gyhoeddwyd ddoe ar gyfer Brycheiniog a sir Faesyfed, sir Drefaldwyn a Cheredigion yn y canolbarth. Nid oes amheuaeth ynghylch hynny; hi yw unig gyfranddaliwr Swyddfa'r Post Cyf. Ceir yma gyfrifoldebau yng nghyswllt Swyddfa'r Post, a gobeithiaf fod y Gweinidog yn mynd i sicrhau ei fod yn cael trafodaethau gyda'i gyd-Aelodau Llafur yn San Steffan hefyd i ddangos iddynt beth y maent yn mynd i'w wneud i gymunedau agored i niwed ledled Cymru, yn arbennig yn y canolbarth, fel y cyhoeddwyd ddoe.

Mae llawer o'r swyddfeydd post sydd i'w cau mewn cymunedau ynysig lle nad oes

no effective public transport links with other communities. It is going to hit these communities extremely hard. This situation has been brought about by a Labour Government in Westminster. What discussions is the Deputy Minister having with his Labour colleagues at Westminster to impress upon them the social function of the post office, so that we do not see the withdrawal of services in places such as Pontsian, Llanfarian, Talybont in Ceredigion, and Evanjobb in mid Wales? What is he doing to impress upon them the seriousness of these proposals so that they can be changed even at this eleventh hour? If they do not listen, which I suspect they may not, what is he doing about providing a rescue package and looking at other ways of tackling this, such as the Pub is the Hub initiative, with new ways of providing post office services?

**Leighton Andrews:** I have had regular conversations, as have other Assembly Ministers, with UK Government Ministers regarding the future of the post office network. We have made our case over many years; indeed, the previous Minister for Social Justice and Regeneration, Edwina Hart, secured changes in the accessibility criteria that were adopted by Post Office Ltd.

12.40 p.m.

The UK Government continues the £150-million-a-year subsidy. We are open to a range of ideas in respect of new futures for post offices. We have, for example, explored the possibility of linking credit unions with post offices and we are willing to listen to ideas, whatever the source, in respect of the future of post offices in vulnerable areas.

**Nerys Evans:** A ydych yn fodlon bod San Steffan yn gwranddo ar lais Llywodraeth y Cynulliad yn yr ymgynghoriad ar gau swyddfeydd post?

**Leighton Andrews:** As I have said, the changes in accessibility criteria were a response to representations made by the

cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus effeithiol â chymunedau eraill. Mae'n mynd i fod yn ergyd drom iawn i'r cymunedau hyn. Llywodraeth Lafur yn San Steffan sy'n gyfrifol am y sefyllfa hon. Pa drafodaethau y mae'r Dirprwy Weinidog yn eu cael gyda'i gyd-Weinidogion Llafur yn San Steffan i gyfleu swyddogaeth gymdeithasol swyddfa'r post iddynt, fel na fyddwn yn gweld gwasanaethau mewn lleoedd megis Pontsian, Llanfarian, Tal-y-bont yng Ngheredigion, ac Einsiob yn y canolbarth yn cael eu diddymu? Beth mae'n ei wneud i'w siarsio ynghylch difrifoldeb y cynigion hyn er mwyn gallu eu herio hyd yn oed ar yr unfed awr ar ddeg hon? Os na fyddant yn gwranddo, ac yr wyf yn tybio na fyddant, beth mae'n ei wneud ynghylch darparu pecyn achub ac edrych ar ffyrdd eraill o fynd i'r afael â hyn, megis cynllun 'the Pub is the Hub', gyda ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau swyddfa'r post?

**Leighton Andrews:** Yr wyf fi, fel Gweinidogion eraill o'r Cynulliad, wedi cael sgysiau rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU am ddyfodol rhwydwaith swyddfa'r post. Yr ydym wedi egluro ein sefyllfa dros flynyddoedd lawer; yn wir, sicrhaodd y cyn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart, newidiadau yn y meini prawf hygyrchedd a fabwysiadwyd gan Swyddfa'r Post Cyf.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i roi'r cymhorthdal gwerth £150 miliwn y flwyddyn. Yr ydym yn agored i amrywiol syniadau o ran dyfodol newydd i swyddfeydd post. Yr ydym, er enghraifft, wedi archwilio posibilrwydd cysylltu undebau credyd â swyddfeydd post ac yr ydym yn barod i wrando ar syniadau, o ba ffynhonnell bynnag y deuant, yng nghyswllt dyfodol swyddfeydd post mewn ardaloedd agored i niwed.

**Nerys Evans:** Are you satisfied that Westminster is listening to the Assembly Government in relation to the consultation on post office closures?

**Leighton Andrews:** Fel yr wyf wedi'i ddweud, ymateb i sylwadau a wnaethpwyd gan y cyn Weinidog dros Gyfiawnder

previous Minister for Social Justice and Regeneration in the last Labour Assembly Government.

### **Benefit Take-up**

**C3 Val Lloyd:** What is the Welsh Assembly Government doing to improve benefit take-up in Wales? OAQ(3)0240(SJL)

**Brian Gibbons:** We are working with local authorities, Jobcentre Plus, the third sector and the Legal Services Commission to achieve our 'One Wales' commitment to improve access to a comprehensive benefits advice system as part of a wider financial inclusion strategy. I recently announced an additional £3 million for local authorities, over three years, to increase the take up of council tax benefit and relevant housing benefits.

**Val Lloyd:** That announcement is very welcome and I am sure that it will help the most disadvantaged people in our communities. You will, however, be aware, as I wrote to you recently on the issue, that Age Concern Swansea has been providing a vital benefit information and assistance service to elderly people. This service, to my knowledge, has helped many vulnerable households across Swansea to claim the benefits to which they are entitled and, consequently, make their lives more comfortable. However, this service is now under threat, as no funding has been identified for this year. This, Minister, is an example of the uncertainty faced by advice services in Wales. What is the Welsh Assembly Government doing to ensure that citizens in Wales have access to a consistent and constant advice network, wherever they live?

**Brian Gibbons:** The latter point is very important and I hope that the mapping exercise in which we are involved will give us a clear picture as to the requirements of a comprehensive advice service across Wales.

Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth Llafur diwethaf y Cynulliad oedd y newidiadau yn y meini prawf hygrychedd.

### **Hawlio Budd-daliadau**

**C3 Val Lloyd:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gynyddu'r nifer sy'n hawlio eu budd-daliadau yng Nghymru? OAQ(3)0240(SJL)

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y Ganolfan Byd Gwaith, y trydydd sector a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i gyflawni ein hymrwymiad 'Cymru'n Un' i wella mynediad at system gynhwysfawr sy'n rhoi cyngor am fudd-daliadau fel rhan o strategaeth cynhwysiant ariannol ehangach. Cyhoeddais yn ddiweddar £3 miliwn ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol, dros gyfnod o dair blynedd, i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-dal y dreth gyngor a budd-daliadau tai perthnasol.

**Val Lloyd:** Croesewir y cyhoeddiad hwnnw'n fawr iawn ac yr wyf yn siŵr y bydd yn helpu'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymunedau. Fodd bynnag, mae'n siŵr y gwyddoch, gan imi ysgrifennu atoch yn ddiweddar ynghylch y mater, fod Age Concern Abertawe wedi bod yn darparu gwasanaeth hanfodol wrth roi gwybodaeth am fudd-daliadau i bobl hŷn ac yn rhoi cymorth iddynt gyda hwy. Mae'r gwasanaeth hwn, hyd y gwn, wedi helpu llawer o aelwydydd agored i niwed ledled Abertawe i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt ac, yn sgil hynny, wedi gwneud eu bywydau yn fwy cyffyrddus. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth hwn yn awr dan fygythiad, gan nad oes unrhyw arian wedi cael ei ganfod ar gyfer y flwyddyn hon. Mae hyn, Weinidog, yn enghraifft o'r ansicrwydd a wynebier gan wasanaethau cynghori yng Nghymru. Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gan ddinasyddion yng Nghymru fynediad at rwydwaith cynghori cyson a pharhaus, pa le bynnag y maent yn byw?

**Brian Gibbons:** Mae'r pwynt diwethaf yn bwysig iawn a gobeithiaf y bydd yr ymarfer mapio yr ydym yn rhan ohono yn rhoi darlun clir inni o ofynion gwasanaeth cynghori cynhwysfawr ledled Cymru. Ac edrych ar



Turning more specifically to Swansea, when I launched the benefits up-take programme, I was particularly impressed by the presentation made by the Swansea welfare rights unit. I think that that is one of the most successful welfare rights organisations in Wales. Indeed, under a previous scheme, it increased the number of council-tax-benefit recipients by over 1,000 claimants. One of the keys to its success was its wide involvement with the voluntary sector as well as the work that its staff was doing. I hope that the additional money that I announced a few weeks ago will give Age Concern Swansea an opportunity to have further discussions with the City and County of Swansea Council on this matter.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, I met representatives of British Gas the other day and they mentioned the problem that they have with getting people to take up the warm front benefit-related allowance that is provided for people to lag their homes. It comes under the Here to Help scheme, which is run across the United Kingdom. In Wales, in particular, local authorities are failing to engage with British Gas as a private company. Could you give me some inkling as to how you, as a Government, will be looking to transcend boundaries and allow people to access the Here to Help scheme and to work the initiatives so that the private and public sectors will work together to bring warmth to people's homes?

**Brian Gibbons:** I certainly would not think that that situation was universal. I know that many local authorities have been very proactive in working with private-sector companies to promote awareness of schemes such as those that you have mentioned, and have been working actively on the ground to promote them. Equally, the work that is going on with the home energy efficiency scheme has been an outstanding success, not to mention the winter fuel allowance that is available from the UK Government in this regard.

**Bethan Jenkins:** I also welcome the £3 million in extra resources going in to an awareness campaign on benefit take-up. My only concern is that the recent centralisation

Abertawe yn benodol, pan gyhoeddias y rhaglen i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau, cafodd cyflwyniad gan uned hawliau lles Abertawe gryn argraff arnaf. Credaf mai hwnnw yw un o'r mudiadau hawliau lles mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Yn wir, fel rhan o gynllun blaenorol, llwyddodd i gael mwy na 1,000 o bobl yn ychwanegol i hawlio budd-dal y dreth gyngor. Un allwedd i'w lwyddiant oedd y ffaith ei fod yn ymwneud yn helaeth â'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r gwaith yr oedd ei staff yn ei wneud. Gobeithiaf y bydd yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd gennyf ychydig wythnosau'n ôl yn rhoi cyfle i Age Concern Abertawe gael mwy o drafodaethau gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch y mater hwn.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, cyfarfûm â chynrychiolwyr Nwy Prydain y dydd o'r blaen a chrybwyllasant y broblem a gânt wrth gael pobl i hawlio'r lwfans Warm Front sy'n seiliedig ar fudd-dal ac a ddarperir i bobl i lagio'u cartrefi. Daw dan adain y cynllun Yma i Helpu, sy'n cael ei gynnal ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, yn arbennig, mae awdurdodau lleol yn methu â gweithio gyda Nwy Prydain fel cwmni preifat. A allech roi syniad imi sut y byddwch chi, fel Llywodraeth, yn edrych ar bontio ffiniau a chaniatáu i bobl fanteisio ar y cynllun Yma i Helpu ac i weithio'r cynlluniau fel y bydd y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gynhesu cartrefi pobl?

**Brian Gibbons:** Yn sicr ni fyddwn yn meddwl bod y sefyllfa honno'n gyffredinol. Gwn fod llawer o awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth weithio gyda chwmnïau sector preifat i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gynlluniau megis y rheini a grybwyllasoch, ac wedi bod yn gweithio'n frwd ar lawr gwlad i'w hyrwyddo. Yn yr un modd, mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi bod yn llwyddiant ysgubol, heb sôn am y lwfans tanwydd gaeaf sydd ar gael gan Lywodraeth y DU yn y cyswllt hwn.

**Bethan Jenkins:** Yr wyf finnau'n croesawu'r £3 miliwn o adnoddau ychwanegol i'w rhoi mewn ymgyrch i godi ymwybyddiaeth pobl o hawlio budd-daliadau. Yr unig bryder sydd

of services through the Department for Work and Pensions will severely hinder any development that we will be able to undertake in Wales. The Public and Commercial Services union has said that the new system is rigid and bureaucratic and that we are now moving towards telephone lines where 20 million people have been reported as not being able to claim benefits. What representations will you be making to your colleagues in the Department for Work and Pensions in relation to this situation?

**Brian Gibbons:** There is an awareness that one of the big problems is not so much that people are unaware of their entitlements but of how to access those entitlements. Certainly, in the previous scheme on benefit uptake, the more successful organisations were those that gave real practical help to the claimants rather than simply attempting to increase awareness about entitlement. So, I would expect this scheme to build on that good practice and for the individual schemes to give real practical, pragmatic help to claimants so that they can overcome many of the problems that you have outlined.

**Jenny Randerson:** According to your own estimates, almost £100 million in council tax benefit goes unclaimed in Wales every year. A joint report today from the Bevan Foundation and Save the Children UK says that 90,000 children in Wales—around 13 per cent—are living in households that have below half the average income. Do you agree that it would be fairer and more sensible if we moved away from an extremely complicated tax and benefits system and instead simply taxed the poorest people in society less? Is it not a scandal that since your party came to power in Westminster, the poorest members of society pay more of their income in tax than the richest and that the gap has grown since 1997?

**Brian Gibbons:** The joint report, produced by the Bevan Foundation and Save the Children UK, and which the Assembly Government helped to fund, showed the

gennyf yw y gwnaiff y broses ddiweddar o ganoli gwasanaethau drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau lesteirio'n ddifrifol unrhyw ddatblygiad y gallwn ei gyflawni yng Nghymru. Mae Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol wedi dweud bod y system newydd yn anhyblyg ac yn fiwrocataidd a'n bod yn awr yn symud at linellau ffôn lle mae 20 miliwn o bobl wedi'u cofnodi fel pobl na allant hawlio budd-daliadau. Pa sylwadau y byddwch yn eu gwneud i'ch cyd-Weinidogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau yng nghyswllt y sefyllfa hon?

**Brian Gibbons:** Cydnabyddir mai un o'r problemau mawr yw nad yw pobl yn gwybod sut mae cael gafael ar eu hawliau yn hytrach na'r ffaith nad ydynt yn ymwybodol o'r hawliau hynny. Yn sicr, yn y cynllun blaenorol ar hawlio budd-daliadau, y mudiadau mwyaf llwyddiannus oedd y rheini a roddodd help ymarferol gwirioneddol i'r hawlwydwr yn hytrach na chodi ymwybyddiaeth yn unig am hawliau. Felly, byddwn yn disgwyl i'r cynllun hwn adeiladu ar yr arfer da hwnnw a bod y cynlluniau unigol yn rhoi cymorth ymarferol, pragmatig, gwirioneddol i'r hawlwydwr er mwyn iddynt allu goresgyn llawer o'r problemau yr ydych wedi'u hamlinellu.

**Jenny Randerson:** Yn ôl eich amcangyfrifon eich hun, ni hawlir bron £100 miliwn o fudd-dal y dreth gyngor yng Nghymru bob blwyddyn. Mae adroddiad ar y cyd heddiw gan Sefydliad Bevan ac Achub y Plant y DU yn datgan bod 90,000 o blant yng Nghymru—tua 13 y cant—yn byw mewn aelwydydd sy'n cael llai na hanner yr incwm cyfartalog. A ydych yn cytuno y byddai'n decach ac yn fwy synhwyrol pe byddem yn symud oddi wrth y system dreth a budd-daliadau hynod gymhleth hon ac, yn syml, yn codi llai o dreth ar ein pobl dlotaf mewn cymdeithas? Onid yw'n warthus, ers i'ch plaid ddod i rym yn San Steffan, bod aelodau tlotaf cymdeithas yn talu mwy o'u hincwm mewn treth na'r bobl gyfoethocaf a bod y bwlech hwnnw wedi tyfu er 1997?

**Brian Gibbons:** Dangosodd yr adroddiad ar y cyd hwn, a luniwyd gan Sefydliad Bevan ac Achub y Plant y DU, ac a gafodd help ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad, y

progress being made in Wales, particularly in relation to tackling child poverty. The report specifically states that the progress in Wales was the best in the UK, so the picture is nothing like as gloomy as you wish to paint. However, it is true that it would be desirable—going back to Bethan’s point—if there were more automaticity in the uptake of benefits. Often, the knowledge and information is in the system, but despite that, the claimant has to make a fresh claim even though his or her information is already in the system. I think that the Department for Work and Pensions recognises that and hopefully, later in the year, it will bring forward some initiatives to address that issue. However, you are right to say that the system is complex.

**Jenny Randerson:** Thank you for your answer, but do not listen to me; listen to Victoria Winkler of the Bevan Foundation who said,

‘The deadline for halving child poverty is fast approaching and it is vital that the Assembly Government makes tackling child poverty a top priority’.

What is clear is that carrying on as now will not get children out of poverty fast enough. One of the most damaging and unfair policies that I have seen coming out of the bank of Brown and Darling is the shifting of millions of very poor people from the 10 per cent to the 20 per cent tax rate. Your Government acknowledges that it cannot get children out of poverty on its own and that it must work with the UK Government because it has the powerful levers in this case. What will you do to impress your case on the UK Labour Government, which has put your Government in a position of trying to operate with one hand tied behind its back?

**Brian Gibbons:** There is no doubt that we have to work in partnership with the UK Government, but I think that you are being unduly gloomy about this—there is no doubt that the number of children in poverty has dramatically reduced under this Labour Government as compared with the doubling

cynnydd sy’n cael ei wneud yng Nghymru, yn enwedig o ran mynd i’r afael â thlodi ymhlith plant. Mae’r adroddiad yn datgan yn benodol mai’r cynnydd yng Nghymru oedd y gorau yn y DU, felly nid yw’r darlun mor dywyll ag yr ydych yn ceisio’i ddisgrifio. Fodd bynnag, mae’n wir y byddai’n ddymunol—gan fynd yn ôl at bwynt Bethan—petai mwy o awtomatigrwydd yn y broses hawlio budd-daliadau. Yn aml, mae’r wybodaeth yn y system, ond er hynny, rhaid i’r hawlydd hawlio o’r newydd er bod ei wybodaeth neu ei gwybodaeth eisoes ar y system. Credaf fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod hynny a, gobeithio, yn nes ymlaen yn y flwyddyn, bydd yn cyflwyno rhai cynlluniau i fynd i’r afael â’r mater hwnnw. Fodd bynnag, yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod y system yn gymhleth.

**Jenny Randerson:** Diolch yn fawr am eich ateb, ond nid ydych yn gwrando arnaf; gwrandewch ar Victoria Winkler o Sefydliad Bevan a ddywedodd,

Mae’r terfyn amser ar gyfer haneru tlodi ymhlith plant ar ein gwarthaf ac mae’n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi’r flaenoriaeth bennaf i fynd i’r afael â thlodi ymhlith plant.

Yr hyn sy’n amlwg yw na fydd parhau fel ag yr ydym yn awr yn codi plant allan o dlodi yn ddigon cyflym. Un o’r polisiâu mwyaf niweidiol ac annheg a welais yn dod allan o fanc Brown a Darling oedd symud y miliynau o bobl dlawd iawn o’r gyfradd dreth 10 y cant i 20 y cant. Mae eich Llywodraeth yn cydnabod na all godi plant allan o dlodi ar ei phen ei hun a rhaid iddi weithio gyda Llywodraeth y DU oherwydd yn ei dwylo hi y mae’r grymoedd pwerus yn yr achos hwn. Beth fyddwch yn ei wneud i gyflwyno’ch achos i Lywodraeth Lafur y DU, sydd wedi rhoi eich Llywodraeth mewn sefyllfa o geisio gweithredu gydag un fraich wedi’i chlymu?

**Brian Gibbons:** Nid oes dim amheuaeth nad oes rhaid inni weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth y DU, ond credaf eich bod yn rhy anobeithiol am hyn—nid oes dwywaith bod nifer y plant mewn tlodi wedi lleihau’n sylweddol dan y Llywodraeth Lafur hon o’i gymharu â dyblu’r rhif hwnnw dan y

of that number under the previous Conservative Government. Furthermore, there is no doubt that pensioner poverty has been reduced from being a scandal to the overall national average of poverty, which is not acceptable, but is, nevertheless, an indication of the improvement that has been made. We know that the single most important factor in tackling poverty is getting people into work, and there are more people in work in Wales and in the UK than ever before.

### **Cyflog Cyfartal**

**C4 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyflog cyfartal yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy? OAQ(3)0234(SJL)

**Brian Gibbons:** This is, first and foremost, the responsibility of Conwy County Borough Council. The council is making good progress towards reaching a final position on equal pay, but it has yet to reach a final assessment of its full liability. However, it is continuing to work hard with the trade unions to achieve a negotiated settlement.

12.50 p.m.

**Gareth Jones:** Fel y gwyddoch, mae'r maes hwn yn faes o risg enfawr, yn sicr i Gonwy ac i nifer o awdurdodau eraill. Rhaid i mi ganmol Conwy oherwydd yr wyf yn gwybod rhywfaint am y gwaith y mae wedi'i wneud i gynllunio'n ariannol a pharatoi ar gyfer y taliad, ond mae posibilrwydd y bydd y taliad yn anferth wrth ystyried y setliad a'r gofyn ar ddiwedd y daith. Gan dderbyn eich bod yn cydnabod y gwaith y mae Conwy yn ei wneud, a fyddai eich Llywodraeth yn fodlon cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at y setliad terfynol, yn enwedig os bydd y swm y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dalu y tu hwnt i'r balansau a'r arian sydd wrth gefn?

**Brian Gibbons:** We have already invested somewhere in the region of £54 million in the overall revenue support grant as a contribution to local authorities' equal pay bill. We have indicated to local authorities that if they need assistance, for example on capitalisation, we would be willing to

Llywodraeth Geidwadol flaenorol. Ar ben hynny, nid oes dwywaith bod tlodi ymhlith pensynwyr hefyd wedi lleihau o fod yn sefyllfa warthus i'r lefel genedlaethol gyffredinol gyfartalog o dlodi, sydd yn annerbyniol, ond serch hynny, mae'n dangos y gwelliant sydd wedi'i gyflawni. Gwyddom mai'r un ffactor pwysicaf wrth fynd i'r afael â thlodi yw cael pobl i weithio, ac mae mwy o bobl yn gweithio yng Nghymru ac yn y DU nag erioed o'r blaen.

### **Equal Pay**

**C4 Gareth Jones:** Will the Minister make a statement on the provision for equal pay in Conwy Borough County Council? OAQ(3)0234(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae hwn, yn gyntaf oll, yn gyfrifoldeb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r cyngor yn cymryd camau breision at gyrraedd pwynt terfynol ar gyflog cyfartal, ond nid ydyw eto wedi dod i asesiad terfynol o'i rwymedigaeth lawn. Fodd bynnag, mae'n parhau i weithio'n galed gyda'r undebau llafur i ddod i setliad drwy gytundeb y ddwy ochr.

**Gareth Jones:** As you know, this is an area of enormous risk, certainly for Conwy and a number of other authorities. I must praise Conwy, because I do know a bit about the work that it has done on financial planning and preparing for the payment, but there is a possibility that the payment could be enormous given the settlement and the ultimate demand. While accepting that you acknowledge the work that Conwy is undertaking on this, would your Government be willing to contribute in any way towards the final settlement, particularly if the amount that the council is required to pay goes beyond the balances and the reserves?

**Brian Gibbons:** Yr ydym eisoes wedi buddsoddi oddeutu £54 miliwn yn y grant cynnal refeniw cyffredinol fel cyfraniad at fil cyflog cyfartal awdurdodau lleol. Yr ydym wedi datgan wrth awdurdodau lleol os oes angen cymorth arnynt, er enghraifft ar gyfalafu, yna byddem yn barod i ystyried

consider that. In this year's round of capitalisation bids, Conwy has not put in a bid, and the opportunity has gone now because the closing date was in December. However, this can be revisited next year if Conwy feels that that is an appropriate avenue for it to pursue and we would be receptive to whatever approaches it wants to make.

**Darren Millar:** Given the poor settlement, albeit improved for Conwy, from the Welsh Assembly Government this year and the challenges that the settlements over the next three years present to the local authority, do you accept that unless you are prepared to dip into the coffers of the Welsh Assembly Government and provide some greater assistance to Conwy to help it meet the cost of equal pay, there will be an unacceptable and significant burden on local council tax payers in the county borough who are already going to have to pay 5 per cent more council tax in this financial year?

**Brian Gibbons:** Local authorities have made provision for equal pay within their reserves, as part of their basic financial management, because local authorities' responsibility in relation to equal pay did not come about this year or last year; it is a responsibility that goes back five or six years at a minimum, and possibly a decade. Therefore, I would expect prudent and responsible local authorities to have been making provision for that contingency. We know that many local authorities have built up a reserve to address equal pay issues, as well as having the opportunity to approach us for capitalisation.

### Local Government

**C5 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** Has the Minister made any assessment of best and worst practice in transparency and openness in local government? OAQ(3)0273(SJL)

**Brian Gibbons:** Local authorities are subject to detailed scrutiny by a range of regulators across their areas of responsibility. They are

hynny. Yn rownd eleni o'r ceisiadau am gyfalafu, nid yw Conwy wedi cyflwyno cais, ac mae'r cyfle wedi'i gollu gan fod y dyddiad cau ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, gellir ailedrych ar hyn y flwyddyn nesaf os yw Conwy'n teimlo bod hynny'n llwybr priodol i'w ddilyn a byddem yn agored i unrhyw sylwadau yr hoffai'r cyngor eu cyflwyno.

**Darren Millar:** A chofio'r setliad gwael a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eleni, er y gwellwyd y sefyllfa yng Nghonwy, a'r heriau a ddaw yn sgil y setliadau dros y tair blynedd nesaf y bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol eu hwynebu, a ydych yn derbyn oni bai eich bod yn barod i fynd i goffrau Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhoi rhywfaint o gymorth ychwanegol i Gonwy i'w helpu i ddiwallu'r gost sy'n codi yn sgil cyflog cyfartal, yna bydd baich annerbyniol ac arwyddocaol yn disgyn ar ysgwyddau'r rheini sy'n talu'r dreth gyngor yn y fwrdeistref sirol ac sydd eisoes yn gorfod talu 5 y cant yn fwy o dreth gyngor yn y flwyddyn ariannol hon?

**Brian Gibbons:** Mae awdurdodau lleol wedi gwneud darpariaethau yn eu cronfeydd wrth gefn ar gyfer cyflog cyfartal, fel rhan o'u gwaith rheoli ariannol sylfaenol, oherwydd ni ddaeth y cyfrifoldeb cyflog cyfartal ar awdurdodau lleol i'r golwg eleni nac ychwaith y llynedd; mae'n gyfrifoldeb sy'n deillio'n ôl pump neu chwe blynedd o leiaf, degawd o bosibl. Felly, byddwn yn disgwyl bod awdurdodau lleol craff a chyfrifol wedi bod yn gwneud darpariaethau wrth gefn. Gwyddom fod llawer o awdurdodau lleol wedi cronni cronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â materion cyflog cyfartal, yn ogystal â chael cyfle i gyflwyno cais inni am gyfalafu.

### Llywodraeth Leol

**C5 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** A yw'r Gweinidog wedi asesu'r arferion gorau a'r gwaethaf o ran bod yn dryloyw ac yn agored mewn llywodraeth leol? OAQ(3)0273(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae awdurdodau lleol yn cael eu craffu'n fanwl gan amrywiol reoleiddwyr ar draws eu meysydd

required to operate in a way that fosters transparency to the public, with clear lines of accountability. In addition, a wide range of local authority performance data is published annually.

**Michael German:** You will know that the Assembly has taken a dim view of councils that allocate all of their scrutiny committee chairs to the same political party. In Newport City Council, for example, not only are all the chairs from the Labour Party, but the agendas are controlled by the panel of chairs, which is chaired by a cabinet member who ensures that only Labour Party business comes before committees. In view of the guidance that has been issued by the Welsh Assembly Government to local authorities, are you prepared to consider even stronger guidance or using the legislative tool if you cannot get errant councils like this to follow that guidance?

**Brian Gibbons:** The 'One Wales' agreement includes proposals for further legislation in relation to local government accountability and scrutiny, and many of the points that you make will be considered as part of that overall approach.

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn falch o nodi bod Cyngor Gwynedd, ers ei sefydlu, wedi rhannu'r gwaith o gadeirio pwyllgorau rhwng y grwpiau i gyd ac yn cynnal cyfarfodydd y pwyllgor gwaith, neu'r cabinet, yn agored. A ydych yn barod i roi cyfarwyddyd i gynghorau lleol y dylent gynnal cyfarfodydd cabinet neu gyfarfodydd bwrdd yn agored fel y gall y cyhoedd wrando ar yr hyn a drafodir?

**Brian Gibbons:** That is certainly the expectation, and I would be very interested if there are deviations from that in practice. Cabinet meetings should be in the public domain, and I would be interested to hear whether Alun Ffred has any examples of where that is not adhered to, as I would certainly be willing to follow them up.

**Nick Ramsay:** In the same way that the role

cyfrifoldeb. Mae gofyn eu bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n meithrin tryloywder i'r cyhoedd, gyda llinellau atebolrwydd clir. Ar ben hynny, caiff amrywiaeth eang o ddata perfformiad awdurdodau lleol ei chyhoeddi'n flynyddol.

**Michael German:** Gwyddoch nad yw'r Cynulliad wedi edrych yn ffafriol ar gynghorau sy'n neilltuo swyddi cadeiryddion eu holl bwyllgorau archwilio i'r un blaid wleidyddol. Yng Nghyngor Dinas Casnewydd, er enghraifft, nid yn unig bod yr holl gadeiryddion yn aelodau o'r Blaid Lafur, ond caiff yr agendâu eu rheoli gan banel o gadeiryddion, a gaiff ei gadeirio gan aelod cabinet sy'n sicrhau mai busnes y Blaid Lafur yn unig sy'n dod gerbron y pwyllgorau. A chofio'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol, a ydych yn barod i ystyried llunio arweiniad cryfach eto neu ddefnyddio'r offeryn deddfwriaethol oni allwch gael cynghorau cyfeiliornus fel hyn i ddilyn yr arweiniad hwnnw?

**Brian Gibbons:** Mae'r cytundeb 'Cymru'n Un' yn cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth bellach o ran trefn archwilio ac atebolrwydd llywodraeth leol, a bydd llawer o'r pwyntiau a wnaethoch yn cael eu hystyried fel rhan o'r dull cyffredinol hwnnw.

**Alun Ffred Jones:** I am pleased to note that Gwynedd Council, since its inception, has shared the work of chairing committees between all political groups and holds all its executive, or cabinet, meetings in public. Are you willing to give guidance to local councils that cabinet or board meetings be held in public so that the public can listen to the proceedings?

**Brian Gibbons:** Dyna fydd y disgwyliad yn sicr, a byddai gennyf ddiddordeb mawr clywed am unrhyw achos lle nad yw hyn yn digwydd. Dylai cyfarfodydd cabinet fod ar agor i'r cyhoedd, a byddai gennyf ddiddordeb clywed a oes gan Alun Ffred unrhyw enghreifftiau lle na lynir wrth y drefn hon, oherwydd byddwn yn barod iawn i drafod y mater ymhellach.

**Nick Ramsay:** Yn yr un modd ag y mae

of Assembly Members has been changing recently, the role of local authority councillors is changing, and scrutiny is a large part of that change. I know of many councillors who are concerned about the effectiveness of the scrutiny that is currently being undertaken in authorities across Wales. How are your policies helping councillors, particularly new councillors who will be starting work in May, to undertake scrutiny more effectively in a way that better represents the people whom they serve?

**Brian Gibbons:** We are in a period of transition, and I think that some councillors have found the transition towards an executive-type of local government governance difficult. Consequently, up until now, they have not been fully engaged in the scrutiny process. The new legislative framework that we will hopefully be able to bring in over the four years of this Assembly will start to change that terrain. Welsh local government is very much up for that change; it will not have to be forced upon it. One of the most exciting tools is the Ffynnon performance monitoring software programme, which all local authorities are working towards implementing. It provides clear graphics as well as data on performance for individual local authorities. Underpinning that will be more detailed information on the wider performance issues. That will be a very powerful tool for local government over the next four years.

**Nick Ramsay:** Those are very fine words, and I hope that what is practised matches those words.

I support the comments made earlier on the importance of having independent scrutiny within local authorities. What are you doing with regard to the burden placed on local authorities under the Freedom of Information Act 2000? We all understand the importance of freedom of information, but, from my discussions with local authorities, it seems that the burden of the requests made under the Act has grown to such an extent that many councillors and cabinet members are finding it increasingly difficult to do their work and feel that they are disappearing

swyddogaeth Aelodau Cynulliad wedi bod yn newid yn ddiweddar, mae swyddogaeth cynghorwyr awdurdod lleol hefyd yn newid, ac mae'r drefn archwilio yn rhan fawr o'r newid hwnnw. Gwn fod nifer o gynghorwyr yn poeni am effeithiolrwydd y drefn archwilio a gynhelir mewn awdurdodau ledled Cymru ar hyn o bryd. Sut y mae eich polisiau'n helpu cynghorwyr, yn enwedig cynghorwyr newydd a fydd yn dechrau yn eu swyddi ym mis Mai, er mwyn rhoi'r drefn archwilio ar waith yn fwy effeithiol ac mewn ffordd sy'n cynrychioli'r bobl a wasanaethant yn well?

**Brian Gibbons:** Yr ydym mewn cyfnod o newid, a chredaf fod rhai cynghorwyr wedi'i chael yn anodd newid i ddull gweithredol o lywodraethu llywodraeth leol. O'r herwydd, hyd yn hyn, nid ydynt wedi cymryd rhan lawn yn y broses archwilio. Bydd y fframwaith deddfwriaethol newydd y byddwn yn gobeithio ei gyflwyno dros bedair blynedd y Cynulliad hwn yn dechrau newid y sefyllfa honno. Mae llywodraeth leol Cymru yn barod iawn ar gyfer y newid hwnnw; ni fydd yn rhaid ei wthio arnynt. Un o'r offerynnau mwyaf cyffrous yw'r rhaglen feddalwedd monitro perfformiad, Ffynnon, y mae pob awdurdod lleol yn gweithio at ei rhoi ar waith. Mae'n darparu graffigau clir yn ogystal â data am berfformiad awdurdodau lleol unigol. Yn sail i hynny bydd gwybodaeth fwy manwl am y materion perfformiad ehangach. Bydd hwnnw'n offeryn pwerus iawn i lywodraeth leol dros y pedair blynedd nesaf.

**Nick Ramsay:** Geiriau purion iawn, a gobeithiaf y bydd y gweithredu lawnystal â'r geiriau.

Cefnogaf y sylwadau a wnaethpwyd yn flaenorol ar bwysigrwydd cael trefn archwilio annibynnol o fewn awdurdodau lleol. Beth ydych yn ei wneud o ran y baich a roddwyd ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000? Mae pob un ohonom yn deall pwysigrwydd rhyddhau gwybodaeth, ond, o'm trafodaethau gydag awdurdodau lleol, mae'n debyg bod baich y ceisiadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf wedi tyfu i'r fath raddau fel bod llawer o gynghorwyr ac aelodau cabinet yn ei chael yn fwyfwy anodd gwneud eu gwaith ac maent yn teimlo eu bod

under the weight of the requests. They are necessary, but how are you ensuring that councillors have the time and the resources in place to deal with those requests effectively?

**Brian Gibbons:** This is the first time that this issue has been raised with me. I have many meetings with Welsh local government representatives and bilateral meetings, and this has not been raised with me as an issue. If you have further information on it, please write to me and I would be happy to look into it.

**Joyce Watson:** Thank you for your comments. Scrutiny in local government is very important as it builds confidence in authorities. I am pleased to hear what you said about the new system of monitoring performance. Scrutiny, ultimately, is about monitoring the performance of local authorities. If people are to believe that services are being delivered equitably within local government, they must also have belief in the scrutiny that underpins that and ensures that that is happening. I welcome what you said about the new system that will be in place, but I take note of the plea made by Members about the chairs of scrutiny committees coming from opposition parties. For me, that is not the key, but rather agenda setting. I would welcome your comments.

**The Presiding Officer:** Order. May we have a question?

**Joyce Watson:** Certainly. Would the Minister agree with me on that? [*Laughter.*]

1.00 p.m.

**Brian Gibbons:** The point that Joyce makes is important. It has surprised me that, on the number of occasions on which local authorities have had serious, adverse reports about their performance, the first they have known about it is when the independent regulator produces a report. That indicates a failure in the governance of that organisation. In that context, Members will be pleased to

yn cael eu llethu gan yr holl geisiadau. Maent yn angenrheidiol, ond sut ydych yn sicrhau bod gan gynghorwyr amser ac adnoddau ar gyfer delio â'r ceisiadau hyn yn effeithiol?

**Brian Gibbons:** Hwn yw'r tro cyntaf i rywun godi'r mater hwn â mi. Mynychaf nifer o gyfarfodydd â chynrychiolwyr llywodraeth leol Cymru a chyfarfodydd dwyochrog, ac nid oes neb wedi codi'r mater hwn â mi. Os oes gennych ragor o wybodaeth arno, mae croeso ichi ysgrifennu ataf a byddwn yn fwy na bodlon ymchwilio i'r mater.

**Joyce Watson:** Diolch yn fawr am eich sylwadau. Mae'r drefn archwilio mewn llywodraeth leol yn bwysig iawn oherwydd mae'n magu hyder mewn awdurdodau. Yr oeddwn yn falch o glywed yr hyn a ddywedaso ch ynghylch y system newydd o fonitro perfformiad. Wedi'r cyfan, mae archwilio'n ymwneud â monitro perfformiad awdurdodau lleol. Os yw pobl am gredu bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n deg o fewn llywodraeth leol, yna rhaid iddynt hefyd gredu yn y drefn archwilio sy'n sail i hynny ac sy'n sicrhau bod hynny'n digwydd. Croesawaf yr hyn a ddywedaso ch ynghylch y system newydd gaiff ei rhoi ar waith, ond hoffwn dynnu sylw at y cais a wnaethpwyd gan Aelodau ynghylch cael cadeiryddion pwyllgorau archwilio o'r gwrthbleidiau. Yn bersonol, nid hynny yw'r pwynt allweddol, ond yn hytrach llunio'r agenda. Byddwn yn croesawu eich sylwadau.

**Y Llywydd:** Trefn. A gawn gwestiwn?

**Joyce Watson:** Wrth gwrs. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno â mi ar hynny? [*Chwerthin.*]

**Brian Gibbons:** Mae'r pwynt a wna Joyce yn bwynt pwysig. Ar yr achlysuron lle mae awdurdodau lleol wedi cael adroddiadau anffafriol difrifol am eu perfformiad—ac mae hynny wedi digwydd droeon—mae wedi fy synnu mai'r tro cyntaf iddynt gael gwybod amdano yw pan fydd y rheolydd annibynnol yn cynhyrchu adroddiad. Mae hynny'n arwydd o fethiant yn y modd y llywodraethir



note that I published a written statement yesterday on a local government performance measure framework for 2008-09, which gives some indication of the performance framework for the next 12 months. Members may wish to study that to get a feel for the direction that we want to travel in.

### Debt

**C6 Eleanor Burnham:** How is the Welsh Assembly Government helping to prevent increases in household debt? OAQ(3)0287(SJL)

**Brian Gibbons:** Our financial inclusion strategy, which we hope to publish later this year, will propose a range of actions to tackle unmanageable debt, including increasing financial awareness and education, improving access to advice services and affordable credit, and increasing benefit take-up.

**Eleanor Burnham:** I am delighted about that, but you must realise the severity of the situation. There were 2,968 bankruptcies in Wales last year, which is an increase of 168 per cent compared with the number in 2000. There were 2,218 individual voluntary agreements, which is an increase of 446 per cent compared with the number in 2000. We have some wonderful pupils from Ysgol Maes Garmon in the public gallery this afternoon, and I am sure that they do not want to become indebted like others. The Consumer Credit Counselling Service says that 44 per cent of homeowners are overindebted. What will you do about that?

**Brian Gibbons:** I am pleased that the pupils are here. One measure that we propose is to improve financial literacy in schools, and the curriculum will be changed from September to place increased emphasis on financial literacy. However, there is no doubt that the problem of growing debt in British society is of serious concern. In part, it is due to a lack of financial literacy, with people struggling to cope with the day-to-day demands of life, but there is also an issue with regulation and the responsible attitude of lenders. This is not a

y sefydliad hwnnw. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd Aelodau'n falch o glywed imi gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ddoe am fframwaith mesur perfformiad llywodraeth leol ar gyfer 2008-09, sy'n rhoi rhyw awgrym inni ynghylch y fframwaith perfformiad ar gyfer y 12 mis nesaf. Efallai yr hoffai Aelodau astudio hwnnw er mwyn cael syniad o'r trywydd yr ydym am ei ddilyn.

### Dyled

**C6 Eleanor Burnham:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n helpu i atal cynnydd mewn dyled aelwydydd? OAQ(3)0287(SJL)

**Brian Gibbons:** Bydd ein strategaeth cynhwysiant ariannol, y gobeithiwn ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni, yn cynnig ystod o gamau i fynd i'r afael â dyledion na ellir eu rheoli, gan gynnwys cynyddu addysg ac ymwybyddiaeth ariannol, gwella mynediad at wasanaethau cynghori a chredyd fforddiadwy a chynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau.

**Eleanor Burnham:** Mae hynny'n fy mhlesio'n fawr, ond rhaid ichi sylweddoli pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa. Cafwyd 2,968 o achosion methdalau yng Nghymru'r llynedd, sy'n gynydd o 168 y cant o'i gymharu â'r nifer yn 2000. Cafwyd 2,218 cytundeb gwirfoddol unigol, sy'n gynydd o 446 y cant o'i gymharu â'r nifer yn 2000. Mae gennym rai o ddisgyblion gwych Ysgol Maes Garmon yn yr oriel gyhoeddus y prynhawn yma, ac yr wyf yn siŵr nad ydynt yn dymuno llithro i ddyled fel pobl eraill. Dywed y Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd i Ddefnyddwyr fod 44 y cant o berchnogion tai mewn gor-ddyled. Beth a wnewch ynghylch hynny?

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn falch bod y disgyblion yma. Un mesur a gynigiwn yw gwella llythrennedd ariannol mewn ysgolion, a bydd y cwricwlwm yn cael ei newid ym mis Medi er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar lythrennedd ariannol. Fodd bynnag, nid oes dim amheuaeth nad yw dyledion cynyddol yng nghymdeithas Prydain yn broblem sy'n peri pryder difrifol. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg llythrennedd ariannol, gyda phobl yn straffaglu i ymdopi â gofynion bywyd o ddydd i ddydd. Ond, ceir hefyd

one-way street.

**Irene James:** Do you agree that a major cause of household debt for poorer families can be fuel costs? Some residents in Hollybush in my constituency, which is a Communities First area, pay up to £500 a month for liquefied petroleum gas, as they are not able to receive mainline gas. What can be done to help those families?

**Brian Gibbons:** Homes that are not linked to the mains gas system have a particular problem, and I know that, in previous years, programmes have been available to address the matter. It does not come within my portfolio, so I cannot give you a detailed answer, but I will ask my colleague, Jane Davidson, to address the issue. Schemes such as those in the private sector, which we have heard about previously, as well as Government schemes, such as the home energy efficiency scheme, the winter fuel allowance and the winter tax payments, all contribute to addressing this problem, which is growing because of the increasing cost of fuel to ordinary householders.

**Mark Isherwood:** As you know, Wales has the highest debt poverty in the UK, and much of that is secured on people's homes. Mortgage possession orders increased by 14.5 per cent in Wales last year, compared with 4.7 per cent in England. The biggest rise was seen in north Wales. How do you respond to the call by Shelter for the Assembly Government to develop an arrears protocol, to encourage dialogue and to examine alternatives that could prevent people from having to go to court?

**Brian Gibbons:** That goes back to the point that I made about putting in place a comprehensive advice system in Wales, which is part of our 'One Wales' commitment in this regard. We are also working with the UK Government, and significant investment is coming into Wales that allows us to put debt advisers in place. Citizens Advice has some 33 or 34 face-to-face, personal debt advisers operating in

problem gyda rheoleiddio ac agwedd gyfrifol benthycwyr. Nid stryd unffordd yw hon.

**Irene James:** A gytunwch y gall costau tanwydd fod yn un o brif achosion dyled aelwydydd ymhlith teuluoedd tlotach? Mae rhai trigolion yn Llwynecelyn yn fy etholaeth, sy'n ardal Cymunedau yn Gyntaf, yn talu hyd at £500 y mis am nwy petrolewm hylifedig, gan na allant gael nwy o'r prif gyflenwad. Beth ellir ei wneud i gynorthwyo'r teuluoedd hynny?

**Brian Gibbons:** Mae gan gartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â'r system nwy gyflenwol broblem neilltuol, a gwn, yn y blynyddoedd a fu, fod rhaglenni wedi bod ar gael i fynd i'r afael â'r broblem. Nid yw'n rhan o'm portffolio, felly ni allaf roi ateb manwl ichi, ond gofynnaf i'm cyd-Weinidog, Jane Davidson, fynd i'r afael â'r mater. Mae cynlluniau megis y rheini yn y sector preifat yr ydym wedi clywed amdanynt o'r blaen, yn ogystal â chynlluniau'r Llywodraeth, megis y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, y lwfans tanwydd gaeaf a'r taliadau treth gaeaf, i gyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r broblem hon, sy'n broblem gynyddol oherwydd cost gynyddol tanwydd i aelwydydd cyffredin.

**Mark Isherwood:** Fel y gwyddoch, Cymru sydd â'r lefelau tloidi oherwydd dyledion uchaf yn y DU, ac mae llawer o'r ddyled honno wedi'i gwarantu ar gartrefi pobl. Cynyddodd gorchmynion adfeddiannu morgais 14.5 y cant yng Nghymru'r llynedd, o'i gymharu â 4.7 y cant yn Lloegr. Yng ngogledd Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf. Sut yr ymatebwech i'r alwad gan Shelter i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu protocol ôl-ddyledion, er mwyn annog ymddiddan ac archwilio i ddulliau eraill a allai atal pobl rhag gorfod mynd i'r llys?

**Brian Gibbons:** Cyfeiria hynny'n ôl at y pwynt a wneuthum am roi system gynghori gynhwysfawr ar waith yng Nghymru, sy'n rhan o'n hymrwymiad 'Cymru'n Un' yn hyn o beth. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, a daw buddsoddiad sylweddol i Gymru, sy'n ein galluogi i gyflogi cynghorwyr dyled. Mae gan Cyngor ar Bopeth 33 neu 34 o gynghorwyr dyled personol yng Nghymru—a'r rheini'n rhoi

Wales, due to assistance from the UK Government's Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform. This is a significant issue, and we need to take a joined-up approach to tackle it.

**Ann Jones:** One way in which we can help households to manage debt is by promoting good, strong and successful credit unions, such as Clwyd Coast Credit Union, which operates from Rhyl and serves a vast area. The Denbighshire bond bank is an example of another way of helping. Those organisations and many more were set up by the dedicated and valued work of the community development team in Denbighshire. Do you share my dismay that recent decisions by Denbighshire County Council to decimate that team will serve only to prevent many organisations from assisting those who most need their help?

**Brian Gibbons:** You have raised this issue with me on a previous occasion, and the point that you make is valid. As local authorities develop their community strategies and health, social care and wellbeing strategies, tackling fuel poverty must be a priority for them. One would expect local authorities, as they develop those strategies, to address this important area.

#### Post Office Network

**C7 William Graham:** Will the Minister outline how the Welsh Assembly Government analyses the ongoing impact on communities arising from the post office network change programme? OAQ(3)0249(SJL)

**Leighton Andrews:** As I said earlier, Post Office policy is non-devolved. The impact of the network change programme on local communities will be considered in the consultation on the new post office development fund.

**William Graham:** Thank you for your reply, Deputy Minister. We welcome the opening of the post office development fund, but, as you will know, it comes far too late for many post offices in Wales, particularly those in south-

cyngor wyneb yn wyneb—yn sgil cymorth gan Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio Llywodraeth y DU. Mae hon yn broblem sylweddol, ac mae angen inni fynd i'r afael â hi mewn modd cydlynol.

**Ann Jones:** Un ffordd y gallwn gynorthwyo aelwydydd i reoli dyled yw drwy hyrwyddo undebau credyd da, cadarn a llwyddiannus, megis Undeb Credyd Arfordir Clwyd, sydd wedi'i leoli yn y Rhyl, ac yn gwasanaethu ardal eang. Mae banc bond sir Ddinbych yn enghraifft arall o gynorthwyo. Cafodd y sefydliadau hynny, a llawer mwy ohonynt, eu sefydlu gan waith gwerthfawr ac ymroddgar y tîm datblygu cymunedol yn sir Ddinbych. A ydych mor siomedig â mi na fydd penderfyniadau diweddar Cyngor Sir Ddinbych i ddistrywio'r tîm hwnnw'n gwneud dim ond atal llawer o sefydliadau rhag cynorthwyo'r rheini y mae angen eu cymorth arnynt fwyaf?

**Brian Gibbons:** Yr ydych wedi sôn am y mater hwn wrthyf o'r blaen, ac mae'r pwnt a wnewch yn un dilys. Wrth i awdurdodau lleol ddatblygu eu strategaethau cymunedol a'u strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn gorfod bod yn flaenoriaeth iddynt. Byddai rhywun yn disgwyl i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r maes pwysig hwn wrth iddynt ddatblygu'r strategaethau hynny.

#### Rhwydwaith Swyddfa'r Post

**C7 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dadansoddi'r effaith barhaus ar gymunedau sy'n deillio o raglen newid rhwydwaith swyddfa'r post? OAQ(3)0249(SJL)

**Leighton Andrews:** Fel y dywedais yn gynharach, mae polisïau Swyddfa'r Post yn faes nas datganolwyd. Caiff effaith y rhaglen newid rhwydwaith ar gymunedau lleol ei hystyried yn yr ymgynghoriad am y gronfa ddatblygu newydd ar gyfer swyddfeydd post.

**William Graham:** Diolch am eich ateb Ddirprwy Weinidog. Croesawn agor y gronfa datblygu swyddfeydd post, ond fel y gwyddoch, daw'n rhy hwyr o lawer i nifer o swyddfeydd post yng Nghymru, yn enwedig

east Wales. In trying to monitor the difficulties that communities face, has your Government suggested helping local authorities who are doing this in England in many areas? Why are we always late with help for people?

**Leighton Andrews:** I do not think that we have been late in any way on this. There has been a range of innovative schemes to encourage the development of post office services in co-operation with a number of different agencies in Wales. In respect of local authorities, we believe that they have the powers that they require should they wish to enter into specific schemes with post offices.

**Mohammad Asghar:** On the weekend, I heard that Essex County Council is entering formal negotiations with Post Office Ltd to service post offices. I note that a number of Labour-controlled councils in South Wales East and local Labour MPs are defying their Government's policy and speaking out in favour of keeping their local post offices open. Will the Minister join me in urging these councils not just to wring their hands in grief and despair, but to follow the lead of Essex County Council to see whether they can take practical steps to save these post offices?

**Leighton Andrews:** I believe that it is entirely appropriate for local constituency representatives to make the best possible case for the retention of the post offices in their communities. In respect of the approaches of local authorities, we are aware from media reports that two local authorities have already been in contact with Essex County Council to discuss its plans. We have not had any direct contact from local authorities in Wales.

**Kirsty Williams:** Under the previous Conservative Government, 3,542 post offices were closed; you have managed to top that record, with more than 4,000 post offices being closed in recent years. The plans announced yesterday for Brecon and Radnorshire are quite bizarre: the Government intends to close the post office at Pendre, which is in the largest social

y rheini yn y de-ddwyrain. Wrth geisio monitro'r anawsterau y mae cymunedau'n eu hwynebu, a yw'ch Llywodraeth wedi awgrymu cynorthwyo awdurdodau lleol sy'n gwneud hyn mewn nifer o ardaloedd yn Lloegr? Pam ydym bob amser ar ei hôl hi o ran cynorthwyo pobl?

**Leighton Andrews:** Ni chredaf inni fod ar ei hôl hi mewn unrhyw ffordd yn hyn o beth. Cafwyd ystod o gynlluniau arloesol i annog datblygu gwasanaethau swyddfa'r post mewn cydweithrediad â llawer o wahanol asiantaethau yng Nghymru. Parthed awdurdodau lleol, credwn fod ganddynt y pwerau y byddai eu hangen arnynt petaent yn dymuno ymuno â chynlluniau penodol gyda swyddfeydd post.

**Mohammad Asghar:** Yn ystod y penwythnos, clywais fod Cyngor Sir Essex yn cynnal negodiadau ffurfiol gyda Swyddfa'r Post Cyf i wasanaethu swyddfeydd post. Sylwaf fod nifer o gynghorau dan reolaeth Lafur yn Nwyrain De Cymru ac ASau Llafur lleol yn herio polisi eu Llywodraeth, ac yn lleisio'u barn o blaid cadw eu swyddfeydd post lleol ar agor. A ymuna'r Gweinidog â mi i annog y cynghorau hyn i beidio â rhoi'r ffidil yn y to ac anobeithio, ond dilyn arweiniad Cyngor Sir Essex i weld a allant gymryd camau ymarferol i arbed y swyddfeydd post hyn?

**Leighton Andrews:** Credaf ei bod yn gwbl briodol i gynrychiolwyr etholaethau lleol gyflwyno'r achos gorau posibl dros gadw'r swyddfeydd post yn eu cymunedau. O ran dulliau'r awdurdodau lleol, yr ydym yn ymwybodol yn sgil adroddiadau yn y cyfryngau bod dau awdurdod lleol eisoes wedi cysylltu â Chyngor Sir Essex i drafod ei gynlluniau. Nid oes unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cysylltu â ni'n uniongyrchol.

**Kirsty Williams:** Dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol, caewyd 3,542 o swyddfeydd post; yr ydych wedi llwyddo i ragori ar y record honno, gyda dros 4,000 o swyddfeydd post yn cael eu cau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r cynlluniau a gyhoeddwyd ddoe ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed yn eithaf rhyfedd: bwriada'r Llywodraeth gau swyddfa bost Pendre, sydd

housing estate in Brecon and so is one of the most deprived communities, while planning to park a post office van outside the shop that currently houses the post office that it intends to close. Do you agree that the Post Office's approach to this rationalisation is bizarre in the extreme? What will you do to ensure that deprived communities such as Pendre in Brecon, and rural communities such as Fochriw do not suffer because of these proposals?

**Leighton Andrews:** My colleague, Alun Davies, raised questions earlier about some of the proposals that are being made by Post Office Ltd in Brecon and Radnorshire. I urge all Assembly Members who have concerns about the proposals in their area to make representations to the Post Office Ltd by the close of the consultation period.

1.10 p.m.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage**

### **Defnyddio'r Gymraeg yn yr UE**

**C1 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn meysydd penodol o fusnes yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(3)0236(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn gofyn iddi gychwyn trafodaethau â sefydliadau'r UE i ganiatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn amgylchiadau penodol. Gobeithiaf y caiff y cytundeb cyntaf ei fabwysiadu cyn diwedd yr haf.

**Eleanor Burnham:** A yw hyn yn golygu y bydd cynnydd yn nefnydd y Gymraeg yn digwydd yn fuan, a pha fath o fanylion y gallwch eu rhoi i ni yn ychwanegol at yr hyn yr ydych newydd ei ddweud?

**Rhodri Glyn Thomas:** Bydd cynnydd yn y defnydd yn sicr, gan nad oes defnydd o gwbl ohoni ar hyn o bryd yn sefydliadau'r UE. Fodd bynnag, yr ydym yn mawr obeithio y

ar yr ystad tai cymdeithasol fwyaf yn Aberhonddu, ac sydd, felly, yn un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig, gan fwriadu parcio fan swyddfa'r post y tu allan i'r siop sydd, ar hyn o bryd, yn gartref i'r swyddfa bost y bwriada ei chau. A gytunwch fod agwedd Swyddfa'r Post at y rhesymoli hwn yn eithriadol o ryfedd? Beth a wnewch i sicrhau na fydd cymunedau difreintiedig megis Pendre yn Aberhonddu a chymunedau gwledig megis Fochriw, yn dioddef yn sgil y cynigion hyn?

**Leighton Andrews:** Cododd fy nghyd-Aelod, Alun Davies, gwestiynau'n gynharach am rai o'r cynigion a wneir gan Swyddfa'r Post Cyf ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Anogaf holl Aelodau'r Cynulliad a chanddynt bryderon am y cynigion yn eu hardal, i gyflwyno sylwadau i Swyddfa'r Post Cyf erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

### **Use of the Welsh Language in the EU**

**Q1 Eleanor Burnham:** What discussions has the Minister had on the use of the Welsh language in specific fields of European Union business? OAQ(3)0236(HER)

**The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas):** The First Minister has written to the UK Government requesting that it commences negotiations with EU institutions to allow Welsh to be used under specified circumstances. I hope that the first agreement will be adopted before the end of the summer.

**Eleanor Burnham:** Does this mean that there will soon be an increase in the use made of Welsh, and what kind of details can you give us in addition to what you have just stated?

**Rhodri Glyn Thomas:** There will certainly be an increase, given that it is not used at all in the EU institutions at present. However, we sincerely hope that the principle will have

bydd yr egwyddor wedi'i sefydlu erbyn yr haf, ac y bydd pob cyfle i bobl ohebu â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Eleanor Burnham:** A ydych yn cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chyrrff academiaidd ar y materion hyn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydym yn cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ond nid wyf yn glir o ran sut y dylem gydweithio â sefydliadau addysg uwch ar y mater hwn. Fodd bynnag, bydd cyfle i gyrff cyhoeddus o bob sector yng Nghymru ddefnyddio'r iaith gyda sefydliadau'r undeb, a hynny o'r haf ymlaen, gobeithio.

**Sandy Mewies:** Thank you, Minister, for making the position clear that we have made an application for Welsh to be considered an official language of Europe. One problem is the lack of translators. As has been mentioned, we welcome pupils from Ysgol Maes Garmon, in my constituency here today. They are wonderful ambassadors for the Welsh language, and it is such schools that will produce the politicians and translators of the future, as well as the other people who can spread the Welsh language far and wide.

**Rhodri Glyn Thomas:** Welsh-medium schools in north-east Wales have produced many prominent people—and I say that as someone who studied at Ysgol Morgan Llwyd, Wrexham. [*Laughter.*] I congratulate the pupils of Ysgol Maes Garmon on their achievements, and I look forward to seeing many more such achievements in future.

The lack of translators is a matter of great seriousness. To qualify as a translator in the EU is a real achievement, and several countries have failed to ensure that they have enough qualified translators. However, I am confident that we have people in Wales who have the qualifications and the capabilities to ensure that they qualify as official translators.

**Paul Davies:** Fel y gwyddom, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn cymhwysedd

been established by the summer, and that people will be given every opportunity to correspond with the European Union's institutions through the medium of Welsh.

**Eleanor Burnham:** Are you collaborating with the Welsh Language Board and with academic institutions on these issues?

**Rhodri Glyn Thomas:** We are collaborating with the Welsh Language Board, though I am not clear about how we should collaborate with higher education institutions on this issue. However, there will be an opportunity for public bodies from all sectors in Wales to use the language with the union's institutions, hopefully from the summer onwards.

**Sandy Mewies:** Diolch Weinidog am wneud y sefyllfa'n glir, ein bod wedi gwneud cais i'r Gymraeg gael ei hystyried yn un o ieithoedd swyddogol Ewrop. Prinder cyfieithwyr yw un broblem. Fel y soniwyd eisoes, croesawn yma heddiw ddisgyblion o Ysgol Maes Garmon yn fy etholaeth. Maent yn llysgenhadon gwych dros y Gymraeg, ac ysgolion fel hyn a fydd yn meithrin gwleidyddion a chyfieithwyr y dyfodol, ynghyd â'r bobl eraill a all ledaenu'r Gymraeg i bedwar ban byd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg y gogledd-ddwyrain wedi meithrin nifer o bobl flaenllaw—a dywedaf hynny fel rhywun a astudiodd yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam. [*Chwerthin.*] Llongyfarchaf ddisgyblion Ysgol Maes Garmon am eu cyflawniadau, ac yr wyf yn edrych ymlaen at weld llawer iawn mwy o gyflawniadau o'r fath yn y dyfodol.

Mae prinder cyfieithwyr yn fater difrifol tu hwnt. Mae cymhwyso yn gyfieithydd yn yr UE yn dipyn o gamp, ac mae nifer o wledydd wedi methu â sicrhau bod ganddynt ddigon o gyfieithwyr cymwys. Fodd bynnag, yr wyf yn ffyddiog bod gennym bobl yng Nghymru sydd â'r cymwysterau a'r gallu i sicrhau eu bod yn cymhwyso i fod yn gyfieithwyr swyddogol.

**Paul Davies:** As we know, the Assembly Government plans to introduce a legislative competence Order with the intention of

deddfwriaethol er mwyn creu Cymru mwy dwyieithog ym mhob maes. Mae'n bwysig cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Byddai rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yn cryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg, a byddai'n gam symbolaidd a phwysig. O dan yr amgylchiadau, a all y Gweinidog ddweud wrthym pryd y mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r Gorchymyn hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** Caiff y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ei gyflwyno yn y gwanwyn. Unwaith y bydd y pwerau sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad, byddwn yn symud tuag at Fesurau a fydd yn sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Paul Davies:** Mae comisiynydd sy'n gyfrifol am bolisi iaith yn yr Undeb Ewropeaidd, a'i brif rôl yw hybu dysgu ieithoedd er mwyn galluogi pobl i gyfathrebu a symud yn haws y tu fewn i Ewrop. Deallaf fod sefydlu comisiynydd iaith yn rhan o gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad pan gaiff y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol am y Gymraeg ei gyflwyno.

Gobeithiaf y bydd gan y comisiynydd newydd bŵer i ymdrin â chwynion, sefydlu ymchwiliadau a chymryd camau cyfreithiol yn erbyn unrhyw gorff nad yw'n ymddwyn yn briodol. A all y Gweinidog esbonio sut y bydd y comisiynydd newydd yn rhan o fframwaith yr Undeb Ewropeaidd, a sut y bydd ef neu hi yn gweithio gyda chomisiynydd yr UE?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru'n Un sefydlu comisiwn a chomisiynydd dros y Gymraeg i ymdrin â'r materion a amlinellwyd gan Paul. Wrth reswm, bydd y comisiwn a'r comisiynydd yn cydweithredu â'r Undeb Ewropeaidd ar faterion sy'n ymwneud â ieithoedd lleiafrifol.

**Nerys Evans:** Croesawn y datblygiadau hyn yn fawr. Sut fydd pobl Cymru yn cael gwybod am eu hawliau newydd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â sefydliadau Ewrop? A fydd ymgyrch i godi

creating a more bilingual Wales in all respects. It is important to increase the use made of Welsh in all aspects of life. Awarding Welsh official status would strengthen the rights of Welsh speakers, and it would be a symbolic and important step. Under the circumstances, can the Minister tell us when the Government intends to introduce this Order?

**Rhodri Glyn Thomas:** The legislative competence Order will be introduced in the spring. Once powers involving the Welsh language have been transferred to the Assembly, we will move towards making Measures that safeguard the rights of Welsh speakers to receive services through the medium of Welsh.

**Paul Davies:** The European Union has a commissioner who is responsible for language policy, and his main role is to promote language learning to enable people to communicate and to move more freely within Europe. I understand that establishing a language commissioner is part of the Assembly Government's plans when the legislative competence Order on the Welsh language is introduced.

I hope that the new commissioner will have the power to deal with complaints, to establish inquiries and to take legal action against any organisation that does not act appropriately. Can the Minister explain where the new commissioner will sit within the framework of the European Union, and how he or she will work with the EU commissioner?

**Rhodri Glyn Thomas:** The One Wales Government intends to establish a Welsh language commission and commissioner to deal with the issues that Paul has just outlined. Naturally, the commission and the commissioner will collaborate with the European Union on issues relating to minority languages.

**Nerys Evans:** We greatly welcome these developments. How will the people of Wales find out about their new rights to use the Welsh language when contacting European institutions? Will there be an awareness-

ymwybyddiaeth, ac a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn manteisio ar y cyfle i ohebu yn Gymraeg?

**Rhodri Glyn Thomas:** Cefais gyfarfod â'r comisiynydd yn Ewrop sy'n gyfrifol am ieithoedd lleiafrifol, ac yr oedd yn awyddus i weld sefydlu'r egwyddor hon. Yr oedd yn awyddus hefyd i weld sefydliadau yn manteisio ar y cyfle i ohebu â'r Undeb Ewropeaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn manteisio ar y sefyllfa honno, ac yn gohebu'n swyddogol â'r Undeb Ewropeaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn amlwg, mae cyfrifoldeb arnom fel Llywodraeth i sicrhau bod cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn ymwybodol o'r cyfle hwn i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

#### **Funding for Arts Organisations**

**Q2 Angela Burns:** Will the Minister give an update on the funding available to arts organisations in Wales? OAQ(3)0242(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Welsh Assembly Government funding for the arts is channelled through the Arts Council of Wales, working within the strategic framework that we provide. In 2008-09 the arts council will receive direct Government funding of £27 million to spend on the arts in Wales.

**Angela Burns:** I have received several representations from constituents concerned at the impact of funding cuts on the Welsh Jazz Society. I am aware that you cannot intervene while there is an appeal in progress, but I am concerned that there are a great many people across Wales for whom this is extremely important, and who are desperately seeking to secure funding. If these cuts are not reversed, we will be left with talented students coming out of university with nowhere to turn to. What discussions have you had with the Arts Council for Wales about this matter, and how can you reassure members of the Welsh Jazz Society, and students training or intending to train in this area, that funding for the future is secure?

raising campaign, and will the Assembly Government take advantage of the opportunity to correspond in Welsh?

**Rhodri Glyn Thomas:** I had a meeting with the European commissioner responsible for minority languages, and he was eager to see this principle established. He was also eager to see institutions taking advantage of the opportunity to correspond with the European Union through the medium of Welsh. I hope that the Welsh Assembly Government will take advantage of that situation, and correspond officially with the European Union through the medium of Welsh. There is a clear responsibility on us as a Government to ensure that other public bodies in Wales are aware of this opportunity to use the Welsh language within the European Union institutions.

#### **Cyllid i Fudiadau Celfyddydau**

**C2 Angela Burns:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid sydd ar gael i fudiadau celfyddydau yng Nghymru? OAQ(3)0242(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Caiff cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r celfyddydau ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn gweithio o fewn y fframwaith strategol a ddarparwn. Yn 2008-09 bydd cyngor y celfyddydau'n cael cyllid uniongyrchol o £27 miliwn gan y Llywodraeth i'w wario ar y celfyddydau yng Nghymru.

**Angela Burns:** Yr wyf wedi cael nifer o negeseuon gan etholwyr sy'n bryderus am effaith toriadau ariannol ar Gymdeithas Jazz Cymru. Yr wyf yn ymwybodol na allwch ymyrryd tra mae apêl yn digwydd, ond yr wyf yn bryderus bod hyn yn eithriadol o bwysig i nifer fawr o bobl ar hyd a lled Cymru, sydd yn ceisio'u gorau glas i sicrhau cyllid. Os na chaiff y toriadau hyn eu gwrthdroi, fe'n gadewir â myfyrwyr dawnus yn dod allan o'r brifysgol heb unman i droi iddo. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ynglŷn â'r mater hwn, a sut y gallwch dawelu meddyliau aelodau Cymdeithas Jazz Cymru, a myfyrwyr sy'n hyfforddi neu'n bwriadu hyfforddi yn y maes hwn, fod sicrwydd arian



ar gyfer y dyfodol?

**Rhodri Glyn Thomas:** Not only are you right in saying that I cannot intervene while there is an appeal pending, but it would also be wrong for a Minister to intervene in any issue of direct funding from the Arts Council of Wales. I have established the arms'-length principle, and it is for the arts council to decide on these issues. There is a finite sum of money available to fund the arts in Wales, and the arts council must take funding decisions based on the strategies that it has put in place for developing the arts in Wales. We have increased the amount of money that is available for the arts in Wales, and the arts council is now looking at these issues and taking decisions on how the arts should be funded. As a Government, we have discussed with the arts council through the strategy board how our policies can be implemented in terms of the arts.

**Alun Davies:** A key recommendation of the Stephens review of the arts was that enhanced funding should be made available for what Stephens described as beacon companies. Could you give us an update on your thinking as to how you will identify these beacon companies, how you intend to fund them, and whether you have any proposals on how to measure the impact of that funding in future success?

1.20 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** During the budget discussions, we were successful in securing £1.5 million per annum for a merit pot for beacon companies, and that has two elements. First, it is a pot of money that rewards excellence within those companies that we see as being beacon companies, which offer excellent services to the people of Wales. However, it is also a merit pot in the sense that companies with new ideas can bid for that money. We are currently discussing with the arts council the criteria to allow people to apply for that pot of money. However, that is over and above the general

**Rhodri Glyn Thomas:** Nid yn unig yr ydych yn iawn pan ddywedwch na allaf ymyrryd tra mae apêl dan ystyriaeth, ond ni fyddai'n iawn ychwaith i Weinidog ymyrryd mewn unrhyw gwestiwn ynghylch cyllid uniongyrchol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Yr wyf wedi sefydlu'r egwyddor hyd braich, a mater i gyngor y celfyddydau yw penderfynu ar y cwestiynau hyn. Mae pen draw ar yr arian sydd ar gael i ariannu'r celfyddydau yng Nghymru, a rhaid i gyngor y celfyddydau wneud penderfyniadau cyllido ar sail y strategaethau y mae wedi'u sefydlu ar gyfer datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Yr ydym wedi cynyddu'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, ac mae cyngor y celfyddydau bellach yn edrych ar y materion hyn ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut y dylid ariannu'r celfyddydau. Fel Llywodraeth, yr ydym wedi trafod gyda chyngor y celfyddydau drwy'r bwrdd strategaeth sut y gellir gweithredu ein polisiau yn nhermau'r celfyddydau.

**Alun Davies:** Un o argymhellion allweddol adolygiad Stephens o'r celfyddydau oedd y dylid darparu cyllid ychwanegol ar gyfer yr hyn a ddisgrifiodd Stephens fel cwmnïau disglair. A allech ein diweddarau am eich syniadau ynghylch sut y byddwch yn nodi pa rai yw'r cwmnïau disglair hyn, sut y bwriadwch eu hariannu, ac a oes gennych unrhyw gynigion ynghylch sut i fesur effaith y cyllid hwnnw o ran llwyddiant yn y dyfodol?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn ystod trafodaethau'r gyllideb, llwyddasom i sicrhau £1.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer pwrs teilyngdod i gwmnïau disglair, ac mae dwy elfen i hynny. Yn gyntaf, pwrs o arian ydyw sy'n gwobrwyo rhagoriaeth o fewn y cwmnïau hynny sy'n gwmnïau disglair yn ein golwg ni, sy'n cynnig gwasanaethau rhagorol i bobl Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwrs teilyngdod hefyd yn yr ystyr y gall cwmnïau â syniadau newydd wneud cais am yr arian hwnnw. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn trafod gyda chyngor y celfyddydau y meini prawf ar gyfer caniatáu i bobl wneud cais am

sum of money that has been allocated to the Arts Council of Wales for the next three financial years.

**Chris Franks:** I have spoken to you previously about the campaign to save St Donats Arts Centre, which is facing closure after the Arts Council of Wales withdrew its annual grant. Do you agree that the arts centre is one of few cultural amenities in the rural Vale of Glamorgan and provides an important arts and educational resource for the community, not least through its hosting of the annual international storytelling festival? Is this not another case of the arts in Wales being sacrificed to pay for the Olympics in London?

**Rhodri Glyn Thomas:** No, this is not a case of an arts centre in Wales suffering for a lack of lottery funding, although we are well aware of the effect of money from the lottery going to the Olympics in London in 2012. The decision has been taken by the Arts Council of Wales, and is now the subject of an appeal. As that process is in place, I cannot comment about the merits of the case that St Donats Arts Centre is putting forward. However, I am aware of the situation, and I have discussed it with members of the board of St Donats Arts Centre.

### Promoting Welsh Football

**Q3 Ann Jones:** What is the Welsh Assembly Government doing to help promote Welsh football in the national media? OAQ(3)0267(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The Sports Council for Wales promotes widely the projects that it supports, including football, to the local and national media.

**Ann Jones:** Thank you very much for that answer. On national television, we see the clubs operating in the English leagues—the very successful Cardiff and Swansea, and Wrexham, which we hope will remain in the English leagues—but there is very little,

y pwrs arian hwnnw. Fodd bynnag, mae hynny'n ychwanegol at y swm cyffredinol o arian sydd wedi'i ddyrannu i Gyngor Celfyddydau Cymru am y tair blynedd ariannol nesaf.

**Chris Franks:** Yr wyf wedi siarad â chi o'r blaen am yr ymgyrch i achub Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd, sydd yn debygol o gau wedi i Gyngor Celfyddydau Cymru ddileu ei grant blyneddol. A gytunwch mai'r ganolfan gelfyddydau yw un o'r ychydig gyfleusterau diwylliannol ym Mro Morgannwg wledig a'i bod yn darparu adnodd celfyddydol ac addysgol pwysig i'r gymuned, nid lleiaf drwy gynnal yr ŵyl adrodd straeon ryngwladol flynyddol? Onid achos arall yw hyn o aberthu'r celfyddydau yng Nghymru i dalu am y Gemau Olympaidd yn Llundain?

**Rhodri Glyn Thomas:** Na, nid achos yw hyn o ganolfan gelfyddydau yng Nghymru'n dioddef oherwydd diffyg arian loteri, er ein bod yn llawn ymwybodol o effaith rhoi arian loteri i'r Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012. Mae'r penderfyniad wedi'i wneud gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac mae bellach yn destun apêl. Gan fod y broses honno'n mynd rhagddi, ni allaf roi sylw am rinweddau'r achos y mae Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd yn ei gyflwyno. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac yr wyf wedi'i thrafod gydag aelodau o fwrdd Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd.

### Hyrwyddo Pêl-Droed Cymru

**C3 Ann Jones:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i helpu i hyrwyddo pêl-droed Cymru yn y cyfryngau cenedlaethol? OAQ(3)0267(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n hyrwyddo'r prosiectau a gefnogir ganddo'n eang, gan gynnwys pêl-droed, i'r cyfryngau lleol a chenedlaethol.

**Ann Jones:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw. Ar deledu cenedlaethol, gwelwn y clybiau sy'n chwarae yng nghynghreiriau Lloegr—timau llwyddiannus iawn Caerdydd ac Abertawe, a Wrecsam, y gobeithiwn y llwyddant i aros yng nghynghrair Lloegr—

either on the BBC or ITV, about the Welsh premier league and pyramid leagues below that. Last night's Football Association of Wales premiership cup final was shown by the BBC—you would have expected it to have been, as it was sponsored by the BBC—and I congratulate Newport on its success, but many football supporters are resigned to only having a half-hour slot through the medium of Welsh. I know that you have taken part in that programme, *Y Clwb Pêl-Droed*, and are therefore aware of it. What can we do to ensure that football in the lower leagues is covered across the nation in both of the languages of our country so that all supporters can see the successes of some of their teams?

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you, Ann, for that question. Obviously, we would want to congratulate Newport County Football Club on its success last night in the Welsh cup, and Cardiff City on its success over the weekend in the FA Cup. We look forward to the semi-finals and, hopefully, the finals of the FA Cup. In terms of promoting Welsh football, I share your concerns, because the standard of football in the Welsh premier league has developed over the last few years; it has reached a very high standard. I know of your own fervent support for Rhyl Football Club. It is nice to see a number of the clubs in the premier league reaching very high levels in terms of the management of the clubs and the development of youth football within their areas. I assure you that I will do everything within my ability to ensure that that message is purveyed to the media and, hopefully, we will get better coverage not only of the football action from the premier league, but of the work that those clubs do in their communities in future.

**David Melding:** Minister, I am sure that you will join me—a lifelong Swansea City supporter who now happens to represent Cardiff—in wishing Cardiff very well in the semi-finals of the FA Cup. Do you believe, as I do, that we need to market the Millennium Stadium now? It no longer hosts the FA Cup final, and the semi-finals are held at Wembley, which is a boon for the fans, but perhaps takes something special away from

and nid oes fawr ddim, nac ar y BBC nac ITV, am uwch gynghrair Cymru a'r cynghreiriau pyramid oddi tani. Dangoswyd rownd derfynol cwpan Cymdeithas Bêl-droed Cymru gan y BBC—fel y disgwyliech, gan mai'r BBC oedd yn ei noddi—ac yr wyf yn llongyfarch Casnewydd ar ei llwyddiant, ond mae llawer o gefnogwyr pêl-droed wedi hen dderbyn cael dim ond slot hanner awr yn y Gymraeg. Gwn eich bod chi wedi cymryd rhan yn y rhaglen honno, *Y Clwb Pêl-droed*, a'ch bod felly'n ymwybodol ohoni. Beth y gallwn ei wneud i sicrhau y caiff pêl-droed yn y cynghreiriau is sylw ar draws y genedl yn nwy iaith ein gwlad fel y gall yr holl gefnogwyr weld llwyddiannau rhai o'u timau?

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch, Ann, am y cwestiwn hwnnw. Yn amlwg, byddem yn dymuno llongyfarch Clwb Pêl-droed Casnewydd am ei lwyddiant neithiwr yng nghwpan Cymru, a chlwb Dinas Caerdydd am ei lwyddiant dros y penwythnos yng Nghwpan FA Lloegr. Edrychwn ymlaen at rownd gynderfynol a, gobeithio, rownd derfynol Cwpan yr FA. O ran hyrwyddo pêl-droed Cymru, rhannaf eich pryderon, oherwydd mae safon y bêl-droed yn uwch gynghrair Cymru wedi datblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; mae wedi cyrraedd safon uchel iawn. Gwn am eich cefnogaeth frwd chi i Glwb Pêl-droed y Rhyl. Mae'n braf gweld nifer o'r clybiau yn yr uwch gynghrair yn cyrraedd lefelau uchel iawn o ran rheolaeth y clybiau a datblygiad pêl-droed ieuenctid yn eu hardaloedd. Rhoddaf sicrwydd ichi y gwnaf bopeth o fewn fy ngallu i sicrhau y cyflëir y neges honno i'r cyfryngau a gobeithio y cawn well sylw nid yn unig i'r bêl-droed o'r uwch gynghrair, ond hefyd i'r gwaith a wna'r clybiau hynny yn eu cymunedau yn y dyfodol.

**David Melding:** Weinidog, yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi—cefnogwr oes i Ddinas Abertawe sy'n awr yn digwydd cynrychioli Caerdydd—i ddymuno pob hwyl i Gaerdydd yn rownd gynderfynol Cwpan yr FA. A ydych yn credu, fel fi, fod angen inni farchnata Stadiwm y Mileniwm yn awr? Ni chynhelir rownd derfynol Cwpan yr FA yno mwyach, a chynhelir y rowndiau cynderfynol yn Wembley, sydd yn beth da i'r cefnogwyr,

the FA Cup. This point is definitely being debated extensively in the media in England. We could market Cardiff as the ideal place for the FA Cup semi-finals.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is interesting to hear a Swansea City supporter congratulating Cardiff. I hope that you can continue that missionary work of bringing the supporters of those two clubs together. They may well find themselves in the same league next season, which would be good for Wales.

You make an interesting point about the Millennium Stadium. The feedback we had from fans who came to the FA cup finals held in Cardiff was positive. They found that they could come to Cardiff station, get off the train and they were in the middle of the city. They could enjoy everything the city had to offer and then walk to the stadium. I am sure that fans throughout the UK would welcome the opportunity to return to Cardiff. I am happy, on the basis of what you have asked me, to write to the FA, suggesting that future semi-finals should be held in Cardiff in the Millennium Stadium.

**Alun Ffred Jones:** Fel y gwyddoch, caiff Cynghrair Cymru sylw ar raglenni *Y Clwb Pêl-droed* a *Sgorio*. Ar un o'r rhaglenni hynny, gwelais dîm pêl-droed Ysgolion Cymru yn chwarae, ond ychydig yw'r nawdd y mae'r tîm yn ei gael—rhyw £10,000 y flwyddyn, tra bod gwledydd eraill yn aml yn talu cymaint â £100,000 i gynnal eu timoedd. Canlyniad hynny yw bod teuluoedd tlawd y bechgyn sy'n chwarae dros y tîm yn gorfod talu cannoedd o bunnoedd mewn costau teithio. A oes rhywbeth y gallwch ei wneud i hyrwyddo a rhoi mwy o gefnogaeth i dîm Ysgolion Cymru, sy'n gwneud gwaith ardderchog ymhlith ieuenctid?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn hapus iawn i drafod y mater gyda Chymdeithas Pêl-droed Cymru. Llongyfarchaf Gymdeithas Pêl-droed Cymru ar ychwanegu'n sylweddol at yr arian y mae'n ei roi i'r Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, sydd yn

ond sydd efallai'n tynnu rhywbeth arbennig i ffwrdd oddi wrth Gwpan yr FA. Mae'r pwynt hwn yn bendant yn cael ei drafod yn helaeth yn y cyfryngau yn Lloegr. Gallem farchnata Caerdydd fel y lle delfrydol ar gyfer rowndiau cynderfynol Cwpan yr FA.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n ddiddorol clywed cefnogwr Dinas Abertawe'n llongyfarch Caerdydd. Gobeithiaf y gallwch barhau'r gwaith cenhadol o ddod â chefnogwyr y ddau glwb hynny ynghyd. Efallai'n wir y canfyddant eu hunain yn yr un gynghrair y tymor nesaf, a fyddai'n beth da i Gymru.

Mae gennych bwynt diddorol am Stadiwm y Mileniwm. Yr oedd yr ymateb a gawsom gan gefnogwyr a ddaeth i rowndiau terfynol Cwpan yr FA a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn gadarnhaol. Gwelsant y gallent ddod i orsaf Caerdydd, dod oddi ar y trê'n ac yr oeddent yng nghanol y ddinas. Gallent fwynhau popeth a oedd gan y ddinas i'w gynnig ac wedyn cerdded i'r stadiwm. Yr wyf yn siŵr y byddai cefnogwyr ledled Prydain yn croesawu'r cyfle i ddod yn ôl i Gaerdydd. Yr wyf yn hapus, ar sail yr hyn a ofynasoch imi, i ysgrifennu at y Gymdeithas Bêl-droed, yn awgrymu y dylid cynnal rowndiau cynderfynol yn y dyfodol yng Nghaerdydd yn Stadiwm y Mileniwm.

**Alun Ffred Jones:** As you know, the League of Wales features on the programmes *Y Clwb Pêl-droed* and *Sgorio*. On one of those programmes, I saw the Welsh Schools football team playing, but the team receives very little sponsorship—some £10,000 a year, while other countries often pay as much as £100,000 to support their teams. As a result, the poor families of the boys who play for the team have to pay hundreds of pounds in travelling costs. Is there anything that you can do to promote and give better support to the Welsh Schools team, which does excellent work with young people?

**Rhodri Glyn Thomas:** I would be more than happy to discuss the issue with the Football Association of Wales. I congratulate the Football Association of Wales on giving substantial extra funds to the Football Association of Wales Trust, which does

gwneud gwaith eithriadol o bwysig o ran pêl-droed yn y gymuned a phêl-droed ieuenctid. Gallwn fod yn falch o gyflawniadau tîm dan 21 Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus o dan reolaeth Brian Flynn. Wrth reswm, y mae'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen gyda thîm yr ysgolion yn bwydo i mewn i'r system honno. Felly, cysylltaf â Chymdeithas Pêl-droed Cymru i gyfleu iddi'r dymuniad i weld llawer mwy o arian yn cael ei fuddsoddi yn nhîm yr ysgolion.

### Electronic Ticket Touting

**Q4 Jenny Randerson:** What discussions has the Minister had on dealing with electronic ticket touting for rugby internationals in Wales? OAQ(3)0277(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** I have had no such discussions. However, my officials have had a number of meetings with the Welsh Rugby Union on the subject of ticket touting. This is a non-devolved matter, and I will raise your concerns when I next meet with my Whitehall colleagues.

**Jenny Randerson:** I am pleased to hear that you are prepared to raise this issue. My colleagues and I have spent a long time on the internet gathering information on this. Tickets for the Wales versus France game on 15 March have long since sold out, but were on sale through official sites for a maximum of £60. An hour's internet research revealed that at least 13 on-line ticket companies are selling hundreds of tickets for over £300, which is a 500 per cent mark-up. Some tickets are being sold for as much as £500, which is an 800 per cent mark-up. Hundreds of tickets are available for more than four times their original value. We all eagerly anticipate another Welsh triumph on Saturday, and demand for tickets is exceptionally high. Will you talk in person to the Welsh Rugby Union with a view to introducing some kind of regulation and guidance on how many tickets it can sell to individuals, and perhaps renewed guidance on hospitality tickets, many of which find their way on to online websites?

extremely important work on football in the community and youth football. We can take pride in the achievements of the Wales under-21 team during the past year, which has been highly successful under the management of Brian Flynn. Of course, the work undertaken with the schools' team feeds into that system. Therefore, I will contact the Football Association of Wales to convey the desire to see much more funding invested in the schools' team.

### Towtio Tocynnau Electronig

**C4 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch delio â thowtio tocynnau electronig ar gyfer gemau rygbi rhyngwladol yng Nghymru? OAQ(3)0277(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath. Fodd bynnag, mae fy swyddogion wedi cael nifer o gyfarfodydd gydag Undeb Rygbi Cymru ar destun towtio tocynnau. Mater sydd heb ei ddatganoli yw hwn, a chodaf eich pryderon pan gyfarfyddaf â'm cyd-Weinidogion yn Whitehall nesaf.

**Jenny Randerson:** Mae'n dda gennyf glywed eich bod yn fodlon codi'r mater hwn. Mae fy nghyd-Aelodau a mi wedi treulio amser maith ar y we'n casglu gwybodaeth am hyn. Mae tocynnau ar gyfer gêm Cymru a Ffrainc ar 15 Mawrth wedi hen werthu allan, ond yr oeddent ar werth drwy wefannau swyddogol am uchafswm o £60. Dangosodd ymchwil awr ar y we fod o leiaf 13 o gwmnïau tocynnau ar-lein yn gwerthu cannoedd o docynnau am dros £300, sef 500 y cant gwerth y tocyn. Mae rhai tocynnau'n cael eu gwerthu am gymaint â £500, sy'n 800 y cant yn fwy na'u gwerth. Mae cannoedd o docynnau ar gael am fwy na phedair gwaith eu gwerth gwreiddiol. Yr ydym i gyd yn edrych ymlaen yn eiddgar at fuddugoliaeth arall i Gymru ddydd Sadwrn, ac mae'r galw am docynnau'n eithriadol o uchel. A wnewch chi siarad yn bersonol ag Undeb Rygbi Cymru i geisio'i gael i gyflwyno rhyw fath o reolaeth a chanllawiau ar nifer y tocynnau y gall eu gwerthu i unigolion, ac efallai adnewyddu'r canllawiau ynglŷn â thocynnau lletygarwch, wrth i nifer ohonynt ymddangos

ar wefannau ar-lein?

1.30 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** You raise an important issue. I have had discussions with the Welsh Rugby Union about the concern that the ability of ordinary fans to get tickets and to attend matches is being diminished at the moment. The way in which ticket touting has developed plays a part in that. I would be very happy to have those discussions. All of us here would join you in wishing the Welsh team the best for Saturday's game and we are looking forward to further success and to a possible Grand Slam. However, the issue that you raise about the availability of tickets to ordinary fans is very important; I am happy to take it forward with the WRU.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydych yn codi mater pwysig. Yr wyf wedi cael trafodaethau gydag Undeb Rygbi Cymru ynghylch y pryder bod gallu cefnogwyr cyffredin i gael tocynnau i fynd i gemau'n cael ei leihau ar hyn o bryd. Mae'r ffordd y mae towtio tocynnau wedi datblygu'n chwarae rhan yn hynny. Byddwn yn fodlon iawn cael y trafodaethau hynny. Byddai pob un ohonom yma yn ymuno â chi i ddymuno'r gorau i dîm Cymru ar gyfer y gêm ddydd Sadwrn ac yr ydym yn edrych ymlaen at ragor o lwyddiant ac, o bosibl, Camp Lawn. Fodd bynnag, mae'r mater a godwch ynghylch gallu cefnogwyr cyffredin i gael gafael ar docynnau yn bwysig dros ben; yr wyf yn fodlon mynd ar drywydd hyn gydag Undeb Rygbi Cymru.

**David Lloyd:** Gan barhau â'r un thema, yr ydym i gyd yn disgwyl diwrnod mawr ddydd Sadwrn, ac, yn naturiol, gyda'r holl ddi-ddordeb yn y posibilrwydd y bydd Cymru'n ennill y Gamp Lawn, disgwylir mwy na 200,000—efallai 250,000—o bobl ychwanegol yng Nghaerdydd. Mae'r tocynnau eisoes wedi'u gwerthu, ac ni fydd y rhan fwyaf o'r bobl hynny'n cael mynediad i Stadiwm y Mileniwm. Beth allwch chi ei wneud i sicrhau darpariaeth ddigonol o sgriniau mawrion—maent wedi darlledu gemau'n fyw o'r blaen—i'r miloedd a fydd y tu allan i Stadiwm y Mileniwm am 5 p.m. ddydd Sadwrn?

**David Lloyd:** Continuing on the same theme, we are all expecting a big day on Saturday and, naturally, with all the interest surrounding the possibility of Wales winning the Grand Slam, more than 200,000—even 250,000—extra people are expected in Cardiff. Naturally, the tickets have long sold out, and most of those people will not gain access to the Millennium Stadium. What can you do to ensure the adequate provision of big screens—which have broadcast live games in the past—to the thousands of people who will be outside the Millennium Stadium at 5 p.m. on Saturday?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae ychydig yn hwyr yn y dydd erbyn hyn i ni wneud trefniadau ychwanegol. Mawr obeithiaf y bydd digon o sgriniau mawr ar gael yng Nghaerdydd ar gyfer y degau o filoedd o bobl a fydd yn methu â mynd i mewn i'r stadiwm. Fodd bynnag, yr wyf yn barod iawn i edrych ar y ddarpariaeth ddydd Sadwrn i weld, yn y dyfodol, a oes modd inni ddatblygu ar hynny, er mwyn i'r bobl hynny a fydd yn dod i Gaerdydd fwynhau'r awyrgylch. Mae'r awyrgylch ar ddiwrnod gêm rygbi ryngwladol yn arbennig, a bydd yn arbennig iawn ddydd Sadwrn nesaf gan ein bod eisoes wedi llwyddo yn barod i ennill y Goron Driphlyg a'n bod yn edrych ymlaen at Gamp

**Rhodri Glyn Thomas:** It is rather late in the day to make additional arrangements. I very much hope that there will be a sufficient number of big screens available in Cardiff for the tens of thousands of people who will be unable to access the stadium. However, I am willing to consider the provision this Saturday and whether it would be possible to develop that in future, so that people coming to Cardiff can enjoy the atmosphere. The atmosphere on the day of an international rugby match is fantastic, and the atmosphere next Saturday will be very special indeed as we have already succeeded in winning the Triple Crown and we are looking forward to the Grand Slam. I will ask my officials to

Lawn o bosibl. Gofynnaf i'm swyddogion edrych ar y ddarpariaeth i weld a oes modd gwella ar hynny ar gyfer y tymor nesaf.

**Alun Cairns:** I hope that the Minister agrees that ticket touting is illegal and that it requires firm action. Going to an international rugby match is expensive, even when people pay the face value of tickets, which is £60 or so. When we then consider the sort of figures that Jenny Randerson highlighted, with tickets costing four or five times that amount, it clearly disenfranchises and excludes genuine supporters. I appreciate that it may not be a devolved matter, but it needs some strong leadership from relevant quarters. I would look to the Minister to offer that sort of leadership and to discuss with the WRU and other authorities what action can be taken to prevent touting and to ensure that genuine fans get to go to the game.

**Rhodri Glyn Thomas:** All genuine rugby fans would agree with your remarks this afternoon, Alun. Ticket touting is unacceptable, but how do we regulate it and ensure that it does not happen? As I said to Jenny Randerson, I am happy to raise the issue with the WRU. I am also seeing Andy Burnham, the new Secretary of State for Culture, Media and Sport next week, and I will raise the issue with him. It is a not devolved issue, but it is certainly a matter for him and his department.

### **Wales as a Tourist Destination**

**Q5 Kirsty Williams:** Will the Minister outline what the Welsh Assembly Government is doing to promote Wales as a tourist destination? OAQ(3)0247(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Visit Wales has a wide range of marketing campaigns and activities within the UK and overseas. During 2006, additional value generated for the Welsh economy by Visit Wales marketing was circa £200 million. It is believed that the 2007 campaigns will deliver similar levels of additional value.

look at the provision to see whether it would be possible to improve on it for next season.

**Alun Cairns:** Gobeithiaf fod y Gweinidog yn cytuno bod towtio tocynnau'n anghyfreithlon a bod angen cymryd camau cadarn yn ei erbyn. Mae mynd i gêm rygbi ryngwladol yn ddrudd, hyd yn oed pan fydd pobl yn talu gwerth gwreiddiol y tocynnau, sydd oddeutu £60. Pan fyddwn yn ystyried y math o ffigurau a amlygodd Jenny Randerson, gyda thocynnau'n costio bedwar neu bum gwaith yn gymaint â hynny, mae'n amlwg yn difreinio ac yn allgáu cefnogwyr go iawn. Yr wyf yn gwerthfawrogi nad yw hwn efallai'n fater a ddatganolwyd, ond mae angen arweiniad clir o'r parthau perthnasol. Byddwn yn disgwyl i'r Gweinidog gynnig y math hwnnw o arweiniad a chynnal trafodaethau gydag Undeb Rygbi Cymru ac awdurdodau eraill i weld pa gamau y gellid eu cymryd i atal towtio a sicrhau bod cefnogwyr go iawn yn cael mynd i'r gêm.

**Rhodri Glyn Thomas:** Byddai pob cefnogwr rygbi go iawn yn cytuno â'ch sylwadau'r prynhawn yma, Alun. Mae towtio tocynnau'n annerbyniol, ond sut y mae ei reoleiddio a sicrhau nad yw'n digwydd? Fel y dywedais wrth Jenny Randerson, yr wyf yn fodlon codi'r mater gydag Undeb Rygbi Cymru. Yr wyf hefyd yn gweld Andy Burnham, yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, yr wythnos nesaf, a byddaf yn codi'r mater gydag ef. Nid yw'n fater a ddatganolwyd, ond mae'n sicr yn fater iddo ef a'i adran.

### **Cymru fel Cyrchfan i Dwristiaid**

**C5 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid? OAQ(3)0247(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae gan Croeso Cymru ystod eang o weithgareddau ac ymgyrchoedd marchnata yn y DU a thramor. Yn ystod 2006, yr oedd y gwerth ychwanegol a gynhyrchwyd ar gyfer economi Cymru gan farchnata Croeso Cymru oddeutu £200 miliwn. Credir y bydd ymgyrchoedd 2007 yn arwain at lefelau tebyg o werth ychwanegol.

**Kirsty Williams:** Llanwrtyd Wells, in the constituency of Brecon and Radnorshire, recently made it onto a list of the top 10 event breaks in the world for its rather weird, but wonderful, bog snorkelling event. Tourism plays an increasingly important part in the economy of my constituency, yet there are aspects of the tourism infrastructure that are weak; that includes the provision of tourist information centres. The centre at Llanwrtyd Wells receives no public support, and, recently, the tourist information centre in Llandrindod Wells was temporarily closed due to staffing and funding problems. What discussions have you had with local authorities about their roles and responsibilities, and the part that you can play in ensuring that visitors to Wales receive a positive welcome when they enter tourist information centres? Those centres are there to provide much needed advice, resources and information to these visitors.

**Rhodri Glyn Thomas:** Tourist information centres are, of course, a matter for local authorities. We are discussing with local authorities how we can ensure that those centres offer the best possible information to people who come to Wales. The issue of information and interpretation is central to the promotion of tourism in Wales, particularly tourism based on our heritage and culture. I am happy to follow up on the issue that you have raised this afternoon. I will discuss with Visit Wales officials how we can work with local authorities to ensure that we promote that information in the best possible, most positive way.

**Christine Chapman:** Last week, I was delighted to take part in the Wales tourism week Heads of the Valleys tour and I had the opportunity to meet with the tour bus in Cilfynydd, which is in my constituency and boasts some of the most spectacular views of the Valleys. The Valleys have not traditionally been associated with tourism, but we need to change that. I am pleased that we now have tour guides who are able to tell

**Kirsty Williams:** Yn ddiweddar, cafodd Llanwrtyd, yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed, ei chynnwys yn rhestr 10 gwyliau digwyddiadau gorau'r byd, oherwydd ei ddigwyddiad braidd yn od ond gwych sef snorcelu mewn corsydd. Mae pwysigrwydd twristiaeth yn economi fy etholaeth i ar gynydd, er hynny, ceir agweddau ar y seilwaith dwristiaeth sy'n wan; mae hynny'n cynnwys darparu canolfannau croeso. Nid yw'r ganolfan yn Llanwrtyd yn cael dim cymorth cyhoeddus, ac, yn ddiweddar, cafodd y ganolfan groeso yn Llandrindod ei chau dros dro oherwydd problemau staffio a chyllido. Pa drafodaethau ydych wedi'u cael gydag awdurdodau lleol am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, a'r rhan y gallwch chi ei chwarae i sicrhau bod ymwelwyr â Chymru'n cael croeso cadarnhaol pan fyddant yn camu i mewn i ganolfannau croeso? Mae'r canolfannau hynny yno i ddarparu cyngor, adnoddau a gwybodaeth mawr eu hangen i'r ymwelwyr hyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ganolfannau croeso, wrth gwrs. Yr ydym yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol i weld sut y gallwn sicrhau bod y canolfannau hynny'n cynnig y wybodaeth orau bosibl i bobl a ddaw i Gymru. Mae gwybodaeth a dehongli'n ganolog i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, yn enwedig twristiaeth sy'n seiliedig ar ein treftadaeth ac ar ein diwylliant. Yr wyf yn fodlon mynd ar drywydd y mater yr ydych wedi'i godi'r prynhawn yma. Bydd swyddogion Croeso Cymru a minnau'n trafod sut y gallwn weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r wybodaeth honno yn y ffordd orau bosibl a'r ffordd fwyaf gadarnhaol.

**Christine Chapman:** Yr wythnos diwethaf, yr oeddwn yn falch iawn o gael cymryd rhan yn nhaith Blaenau'r Cymoedd wythnos twristiaeth Cymru a chefais gyfle i gwrdd â'r bws teithio yng Nghilfynydd, sydd yn fy etholaeth ac sydd â rhai o'r golygfeydd gorau o'r Cymoedd. Yn draddodiadol, nid yw'r Cymoedd wedi cael eu cysylltu â thwristiaeth, ond mae angen inni newid hynny. Yr wyf yn falch bod gennym yn awr



the story of the cultural and industrial heritage of the Valleys. Will you ensure that the Welsh Assembly Government continues to promote the Valleys as a viable and attractive tourist destination, not only for the benefit of our international and domestic visitors but also for the people who live and work there?

**Rhodri Glyn Thomas:** As you will know, Chris, my colleague, the Deputy Minister for Regeneration, was recently able to announce a major tourist incentive for the industrial valleys. I was glad to be at Blaenavon a week or so ago to announce that admission to the ironworks will be free from this April. We are giving consideration to that important industrial heritage and looking at how we can promote it and tell the story of the people of Wales. At Big Pit last week, people were talking about the contribution of workers from eastern Europe to deep mining in Wales over the past decades. It is ironic that we are now looking again at the same situation, in terms of people from eastern Europe contributing to industry in Wales and other parts of the UK. There is an important story to be told and we are looking at the opportunities to promote the history of the Valleys and to attract tourists there.

**Andrew R.T. Davies:** Wales, as a destination, offers great opportunities to many indigenous businesses in the tourism industry. With the growth of Asian economies, particularly China and India, many people with increasing wealth are looking to travel. Sadly, however, the North American market always associates us with London, England. How does the Government and its agencies actively promote Wales as a destination in its own right in those emerging economies? It is virgin territory for us and we can ensure that people see Wales standing on its own two feet as a destination.

**Rhodri Glyn Thomas:** We are working with VisitBritain in terms of attracting tourists from all parts of the world to Wales. At present, well over 90 per cent of tourists who come to Wales come from other parts of the United Kingdom. We have tourists coming from western Europe but very few come from

arweinwyr teithiau sy'n gallu adrodd hanes treftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol y Cymoedd. A wnewch sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i hyrwyddo'r Cymoedd fel cyrchfan hyfyw a deniadol i'n hymwelwyr rhyngwladol a domestig ond hefyd ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno?

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel y gwyddoch, Chris, yr oedd fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, wedi gallu cyhoeddi cymhelliant twristiaeth mawr ar gyfer y cymoedd diwydiannol yn diweddar. Yr oeddwn yn falch o fod ym Mlaenafon wythnos neu ddwy yn ôl i gyhoeddi y byddai mynediad i'r gweithfeydd haearn am ddim o fis Ebrill yma ymlaen. Yr ydym yn ystyried y dreftadaeth ddiwylliannol bwysig honno ac yn edrych i weld sut y gallwn ei hyrwyddo ac adrodd hanes pobl Cymru. Yn Pwll Mawr yr wythnos diwethaf, yr oedd pobl yn sôn am gyfraniad gweithwyr o ddwyrain Ewrop at gloddio dwfn yng Nghymru dros ddegawdau a fu. Mae'n eironig ein bod yn awr yn edrych ar yr un sefyllfa, o ran pobl o ddwyrain Ewrop yn cyfrannu at ddiwydiant yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Ceir hanes pwysig i'w adrodd ac yr ydym yn edrych ar y cyfleoedd i hyrwyddo hanes y Cymoedd a denu twristiaid yno.

**Andrew R.T. Davies:** Mae Cymru, fel cyrchfan, yn cynnig cyfleoedd gwyach i nifer o fusnesau cynhenid yn y diwydiant twristiaeth. Gyda thwf economïau Asiaidd, yn enwedig Tsieina ac India, mae nifer o bobl gyda mwy o gyfoeth yn ystyried teithio. Yn anffodus, fodd bynnag, bydd marchnad Gogledd America bob amser yn ein cysylltu â Llundain, Lloegr. Sut y mae'r Llywodraeth a'i hasiantaethau'n hyrwyddo Cymru'n weithredol fel cyrchfan yn ei rhinwedd ei hun yn yr economïau hynny sy'n datblygu? Mae'n dir newydd inni a gallwn sicrhau bod pobl yn gweld Cymru'n sefyll ar ei thraed ei hun fel cyrchfan.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydym yn gweithio gyda VisitBritain o ran denu twristiaid o bedwar ban byd i Gymru. Ar hyn o bryd, daw ymhell dros 90 o'r twristiaid a ddaw i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae gennym dwristiaid o orllewin Ewrop ond prin yw'r rheini a ddaw o'r marchnadoedd sy'n

the emerging markets of India and China and from America. The Ryder Cup in 2010 will be an opportunity to promote Wales as a destination, especially for people from America who have golfing interests.

1.40 p.m.

We have had discussions with VisitBritain and I recently met its chair, Christopher Rodrigues, and discussed with him the need for VisitBritain to act as a gateway to the whole of the UK. Rather than attracting people to London and thinking that it has done its job, VisitBritain should attract people to London and then point them towards the various parts of the United Kingdom, including Wales, informing them as to what is available elsewhere. Therefore, we are working on this in a positive way with VisitBritain and its response until now has been enthusiastic. It realises that there is a great deal of work that needs to be done.

**Mohammad Asghar:** Recently, Minister, I travelled to India and China. In the Indian community, people see Wales as a part of England—that is their perception. In China, over 90 per cent of people do not know where Wales is. That is our image in the eyes of the emerging economies of the world. What are your plans to improve our image and to introduce us to these emerging economies, to bring those people here for the purposes of tourism and investment?

**Rhodri Glyn Thomas:** As I said to Andrew, in response to his earlier question, we are working with VisitBritain, which is now looking at the emerging markets of India and China, and America. As you will know, the First Minister has just returned from a visit to China. We are actively looking at those new markets, but we have to realise that our main market for tourists to Wales is still the UK and, over and above that, western Europe. However, we will obviously take any possible opportunity to promote Wales to those emerging markets through VisitBritain. An Ashes test is coming to Cardiff next year and then we have the Ryder Cup, and they will obviously present opportunities to promote Wales and what it has to offer

datblygu yn India a Tsieina ac o America. Bydd Cwpan Ryder 2010 yn gyfle i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan, yn enwedig ar gyfer pobl o America sy'n ymddiddori mewn golff.

Yr ydym wedi cynnal trafodaethau gyda VisitBritain a chyfarfûm â'i gadeirydd yn ddiweddar, Christopher Rodrigues, gan drafod yr angen i VisitBritain weithredu fel porth ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. Yn hytrach na denu pobl i Lundain a meddwl ei fod wedi cyflawni'i waith, dylai VisitBritain ddenu pobl i Lundain ac wedyn eu cyfeirio at rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, gan roi gwybod iddynt beth sydd ar gael mewn mannau eraill. Felly, yr ydym yn gweithio gyda VisitBritain mewn ffordd gadarnhaol ac mae ei ymateb hyd yn hyn wedi bod yn frwdfrydig. Mae'n sylweddoli bod llawer o waith y mae angen ei wneud.

**Mohammad Asghar:** Yn ddiweddar, Weinidog, teithiais i India a Tsieina. Yn y gymuned Indiaidd, mae pobl yn gweld Cymru fel rhan o Loegr—dyna eu canfyddiad. Yn Tsieina nid yw dros 90 y cant o bobl yn gwybod lle mae Cymru. Dyna ein delwedd yn llygaid yr economïau sy'n datblygu yn y byd. Beth yw eich cynlluniau i wella ein delwedd a'n cyflwyno i'r economïau hyn sy'n datblygu, i ddod â'r bobl hyn yma at ddibenion twristiaeth a buddsoddiad?

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel y dywedais wrth Andrew wrth ateb ei gwestiwn cynharach, yr ydym yn gweithio gyda VisitBritain, sydd yn awr yn edrych ar y marchnadoedd sy'n datblygu yn India a Tsieina, ac America. Fel y gwyddoch, mae'r Prif Weinidog newydd ddychwelyd o ymweliad â Tsieina. Yr ydym yn ymchwilio i'r marchnadoedd newydd hynny'n weithredol, ond rhaid inni sylweddoli mai'r DU yw ein prif farchnad ar gyfer twristiaid o hyd ac, ar ben hynny, gorllewin Ewrop. Fodd bynnag, yn amlwg byddwn yn manteisio ar unrhyw gyfle i hyrwyddo Cymru i'r marchnadoedd hynny sy'n datblygu drwy VisitBritain. Mae un o gemau cyfres y Llundw yn dod i Gaerdydd y flwyddyn nesaf ac wedyn byddwn yn cynnal

throughout the world.

Cwpan Ryder, a bydd y rhain yn amlwg yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo Cymru a'r hyn sydd ganddi i'w chynnig ledled y byd.

### Use of the Welsh Language Among Young People

### Defnydd Pobl Ifanc o'r Gymraeg

**Q6 Joyce Watson:** Will the Minister make a statement on promoting the use of the Welsh language among young people? OAQ(3)0296(HER)

**C6 Joyce Watson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg? OAQ(3)0296(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The One Wales Government recognises that the future of the Welsh language lies with young people. We are working hard to maximise the opportunities available to them and to promote the use of Welsh in all aspects of their lives.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae Llywodraeth Cymru'n Un yn cydnabod bod dyfodol y Gymraeg yn nwylo pobl ifanc. Yr ydym yn gweithio'n galed i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt a hybu eu defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau.

**Joyce Watson:** We all know that since 2001, Welsh-language lessons, up to the age of 16, have been part of the national curriculum. We also know that, as a consequence of that policy, the number of people, especially young people, who can speak Welsh has risen. However, the majority of the growth has occurred in schools and it is important that that success is built on outside the school gates. As a Welsh learner, as a consequence of not having had access to Welsh lessons in my years of primary education in Pembrokeshire, and someone who chose to educate their children at Welsh-medium schools, I know how difficult it can be to make the transition from school to home life. How is the Minister working with his colleagues in education to encourage more social integration between Welsh-medium and English-medium schools, so that the Welsh language becomes part of more young people's everyday experiences? *[Interruption.]*

**Joyce Watson:** Yr ydym i gyd yn gwybod bod gwersi iaith Gymraeg wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, hyd at 16 oed, er 2001. Yr ydym hefyd yn gwybod mai un o ganlyniadau'r polisi hwnnw yw bod nifer y bobl, yn enwedig pobl ifanc, sy'n gallu siarad Cymraeg wedi codi. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd mewn ysgolion ac mae'n bwysig adeiladu ar y llwyddiant hwnnw y tu allan i glwydi'r ysgol. Fel dysgwr Cymraeg, o ganlyniad i beidio â chael mynediad at wersi Cymraeg yn ystod fy addysg gynradd yn sir Benfro, a rhywun a ddewisodd addysgu ei phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gwn pa mor anodd yw pontio'r Gymraeg o'r ysgol i fywyd y cartref. Sut y mae'r Gweinidog yn gweithio gyda'i gyd-Aelodau mewn addysg i annog rhagor o integreiddio cymdeithasol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg, er mwyn i'r Gymraeg fod yn rhan o brofiadau beunyddiol rhagor o bobl ifanc? *[Torri ar draws.]*

**Rhodri Glyn Thomas:** I hear mutterings of 'Speech' from the opposition benches, but it was a very important speech, and I would hope—*[Laughter.]*

**Rhodri Glyn Thomas:** Clywaf rai ar feinciau'r wrthblaid yn mwmlal 'Araith', ond yr oedd yn araith bwysig iawn, a byddwn yn gobeithio—*[Chwerthin.]*

**The Presiding Officer:** Order. It could not have been a speech, or I would not have allowed it.

**Y Llywydd:** Trefn. Ni allasai fod yn araith, neu ni fyddwn wedi'i chaniatáu.

**Rhodri Glyn Thomas:** It was a very important question, Presiding Officer, and I

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oedd yn gwestiwn pwysig dros ben, Lywydd, a byddwn yn

would hope that all Members would agree with the sentiments expressed by Joyce about the promotion of the Welsh language among young people. One thing that we welcome in Wales at the moment is the consensus in all political parties about the need to promote the Welsh language and its use, especially among young people. The Government of Wales is working with the Welsh Language Board on its youth strategy.

Specifically, the Welsh Language Board finances a number of partnerships with Urdd Gobaith Cymru, the Duke of Edinburgh award scheme and the Young Farmers' Association. I was glad that my colleague, Elin Jones, announced recently that she is to extend a further grant to the young farmers' clubs in Wales, which is an important organisation in terms of the use of the Welsh language and the opportunities that it offers young people in Wales to carry out various activities through the medium of Welsh.

We will continue to support those organisations and to look for new opportunities to allow young people to use the Welsh language in Wales. Obviously, Welsh-medium education is important in terms of increasing the number of Welsh speakers, but we must ensure that, once those young people have learnt the language, they have the opportunity to use it socially and in future employment.

**Nick Ramsay:** Most aspects of my question have been covered, but I wish to ask the Minister about his discussions with the Minister for education on this important issue because, as has been said, most young people's experience of Welsh will be in school, and we hope that that continues that beyond the school gates. Certainly in my part of Wales, there is a distinct problem in terms of a lack of capacity, particularly in the secondary sector. I know that this is an issue for the Minister for education, but I would be grateful if you could tell us what has come out of your discussions on improving capacity?

**Rhodri Glyn Thomas:** I have had discussions with the Minister for education about Welsh-medium education, and the One Wales Government is committed to offering

gobeithio y byddai'r holl Aelodau'n cytuno â'r sylwadau a fynegwyd gan Joyce am hybu'r Gymraeg ymysg pobl ifanc. Un peth a groesawn yng Nghymru ar hyn o bryd yw'r consensws ym mhob plaid wleidyddol am yr angen i hybu'r Gymraeg a'i defnydd, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ei strategaeth ieuencid.

Yn benodol, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyllido nifer o bartneriaethau ag Urdd Gobaith Cymru, cynllun gwobrau Dug Caeredin a Chymdeithas y Ffermwyr Ifanc. Yr oeddwn yn falch i'm cyd-Aelod, Elin Jones, gyhoeddi'n ddiweddar ei bod am roi grant pellach i'r clybiau ffermwyr ifanc yng Nghymru, sy'n fudiad pwysig o ran defnyddio'r Gymraeg a'r cyfleoedd y mae'n ei gynnig i bobl ifanc yng Nghymru i ymgymryd â gweithgareddau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r mudiadau hynny ac i edrych ar gyfleoedd newydd i ganiatáu i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Yn amlwg, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn bwysig o safbwynt cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ond rhaid inni sicrhau, ar ôl i'r bobl ifanc hynny ddysgu'r iaith, eu bod yn cael y cyfle i'w defnyddio'n gymdeithasol ac mewn cyflogaeth yn y dyfodol.

**Nick Ramsay:** Mae rhan fwyaf o agweddau ar fy nghwestiwn wedi cael sylw, ond hoffwn holi'r Gweinidog am ei drafodaethau gyda'r Gweinidog dros addysg ar y mater pwysig hwn oherwydd, fel y dywedwyd, yn yr ysgol y bydd profiad y rhan fwyaf o bobl ifanc o'r Gymraeg, a gobeithiwn fod hynny'n parhau y tu hwnt i glwydi'r ysgol. Yn sicr, yn fy rhan i o Gymru, mae problem bendant ar ffurf diffyg capasiti, yn enwedig yn y sector uwchradd. Gwn mai mater i'r Gweinidog dros addysg yw hwn, ond byddwn yn ddiolchgar pa gallech ddweud wrthym beth sydd wedi deillio o'ch trafodaethau ynglŷn â gwella capasiti?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog dros addysg am addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi ymrwymo i

people in Wales the opportunity to study through the medium of Welsh, from nursery education through to higher and further education. In the context of the Welsh language, this is the one area where it is difficult to deliver in response to the demand—there is far more demand than there is capability to deliver. You are right to highlight the issues in your area. I have had correspondence from people who tell me that although their children have had Welsh-medium education in primary school, they are not able to access Welsh-medium education in secondary school. That progression is important in terms of the future of the Welsh language. However, I assure you that we are looking at this area in order to see what we can do to meet that demand. The demand in itself is encouraging, but it is a tremendous challenge for Government to try to respond to that demand, but we have made a commitment and we will make every attempt to ensure that we can deliver on it.

#### **The New S4C Children's Channel**

**Q7 Jenny Randerson:** What discussions has the Minister had regarding the new S4C children's channel? OAQ(3)0279(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** I submitted a response to S4C's consultation last summer and I discussed the proposals with S4C at a meeting with Iona Jones last autumn.

**Jenny Randerson:** You will be aware that since January 2007, the advertising of junk food to children under the age of seven was banned during children's programmes. From January this year, it has been extended to those under 15. I am aware that a loophole has been discovered in the law whereby advertisers are using the brand name rather than the specific product and are thereby circumventing the intention of the ban on junk food advertising. Would you be prepared, since this is a non-devolved issue, to have discussions with S4C with a view to its entering into a voluntary agreement not to allow brand advertising by manufacturers who produce junk food?

gynnig y cyfle i bobl Cymru i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o addysg feithrin hyd at addysg uwch a phellach. Yng nghyd-destun y Gymraeg, dyma'r un maes lle mae'n anodd darparu mewn ymateb i'r galw—mae llawer mwy o alw nag sydd o allu i ddarparu. Yr ydych yn iawn i dynnu sylw at y problemau yn eich ardal. Yr wyf wedi cael gohebiaeth oddi wrth bobl sy'n dweud wrthyf, er bod eu plant wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd, nad ydynt yn gallu cyrchu at addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae'r dilyniant hwnnw'n bwysig o ran dyfodol y Gymraeg. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau ein bod yn edrych ar y maes hwn er mwyn gweld beth y gallwn ei wneud i ddiwallu'r galw hwnnw. Mae'r galw ynddo'i hun yn galonogol, ond mae'n her aruthrol i Lywodraeth i geisio ymateb i'r galw hwnnw, ond yr ydym wedi gwneud ymrwymiad a byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y gallwn ei wireddu.

#### **Sianel Newydd S4C i Blant**

**C7 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch sianel newydd S4C i blant? OAQ(3)0279(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Cyflwynais ymateb i ymgynghoriad S4C yr haf diwethaf a thrafodais y cynigion gydag S4C mewn cyfarfod gyda Iona Jones yr hydref diwethaf.

**Jenny Randerson:** Byddwch yn ymwybodol fod hysbysebu bwyd sothach i blant dan saith oed wedi cael ei wahardd yn ystod rhaglenni plant er mis Ionawr 2007. O fis Ionawr eleni, estynnwyd hynny i'r rhai dan 15. Yr wyf yn ymwybodol fod bwlch wedi cael ei ddarganfod yn y gyfraith lle mae'r hysbysebwr yn defnyddio'r enw brand yn hytrach na'r cynnyrch penodol ac maent felly yn trechu bwriad y gwaharddiad ar hysbysebu bwyd sothach. A fydddech chi'n barod, gan fod hwn yn fater nad yw wedi cael ei ddatganoli, i gael trafodaethau gydag S4C gyda golwg ar ei gael i ymrwymo i gytundeb gwirfoddol i beidio â chaniatáu i wneuthurwyr sy'n cynhyrchu bwyd sothach hysbysebu brandiau?

**Rhodri Glyn Thomas:** I was not aware of this matter until you drew it to my attention this afternoon. I would be happy to have those discussions with S4C and, as I said in response to an earlier question, I am meeting Andy Burnham, the Minister at the Department for Culture, Media and Sport next week, and I will raise the issue with him given that S4C is within the DCMS's portfolio.

#### **Priorities for the Next 12 Months**

**Q8 Nick Bourne:** What are the Minister's priorities for the next 12 months?  
OAQ(3)0238(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** I outlined my priorities in my statement to Plenary on 2 October 2007. These have not changed. I remain committed to delivering on the policies set out in the 'One Wales' agreement, including the introduction of a Welsh-language legislative competence Order this spring.

1.50 p.m.

**Nick Bourne:** What importance does the Minister attach to meeting members of the Olympics organising committee? Paul Davies and I have already done this, and it is important, particularly in terms of some of the consequentials that apply with regard to the financing and the hope to get some money into Wales. It is about not only getting extra money into the budget, but whether some of that money could be used on the arts outside Cardiff programme; the Minister will be aware of the representations that I have made about Celf o Gwmpas, the Wyeside centre for performance research, and so on. I do not think that the Minister has yet met with those officials—perhaps he has, and, if it has only just happened, I am sure that he will update us on that. I would be grateful if he could tell us what progress has been made in relation to Barnett consequentials in particular.

**Rhodri Glyn Thomas:** I keep trying to get the message across to the Welsh

**Rhodri Glyn Thomas:** Nid oeddwn yn ymwybodol o'r mater hwn nes ichi ei ddwyn i'm sylw y prynhawn yma. Byddwn yn hapus i gael y trafodaethau hynny gydag S4C ac, fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn cynharach, yr wyf yn cwrdd ag Andy Burnham, y Gweinidog yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yr wythnos nesaf, a byddaf yn codi'r mater hwn gydag ef ac ystyried bod S4C o fewn portffolio'r adran honno.

#### **Blaenoriaethau ar gyfer y 12 Mis Nesaf**

**C8 Nick Bourne:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y 12 mis nesaf?  
OAQ(3)0238(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Amlinellais fy mlaenoriaethau yn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 2 Hydref 2007. Nid yw'r rhain wedi newid. Yr wyf yn dal i ymrwymo i wireddu'r polisiau a nodwyd yng nghytundeb 'Cymru'n Un', gan gynnwys cyflwyno Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynglŷn â'r Gymraeg y gwanwyn hwn.

**Nick Bourne:** Pa mor bwysig ym marn y Gweinidog yw cwrdd ag aelodau pwyllgor trefnu'r Gemau Olympaidd? Mae Paul Davies a minnau eisoes wedi gwneud hyn, ac mae'n bwysig, yn arbennig o ran rhai o'r symiau canlyniadol sy'n gymwys o ran y cyllido a'r gobaith o ddenu rhywfaint o arian i Gymru. Mae'n golygu nid dim ond cael arian ychwanegol i'r gyllideb, ond y byddai modd defnyddio rhywfaint o'r arian hwnnw ar raglen y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd; bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r sylwadau yr wyf wedi'u cyflwyno ynglŷn â Celf o Gwmpas, canolfan ymchwil perfformio Glannau Gwy, ac yn y blaen. Ni chredaf fod y Gweinidog wedi cwrdd eto â'r swyddogion hynny—efallai ei fod, ac, os nad yw hynny ond newydd ddigwydd, yr wyf yn siŵr y bydd yn rhoi gwybodaeth ddiweddarar inni ar hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai ddweud wrthym pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran symiau canlyniadol Barnett yn arbennig.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn ceisio cyfleu'r neges wrth Blaid Geidwadol Cymru

Conservative Party that I have been having discussions on a regular basis with the organisers of the Olympic Games. I have said that on several occasions, but it does not seem to have registered with its Members. I had to communicate with that party on this issue through the north Wales press, where it raised the same points, and I shared the remarks that I have made here with a journalist, who recognised that it was clear that I had met the organisers.

I met the organisers of the Olympic Games prior to the discussions about the training facilities that would be approved; 31 facilities throughout Wales, including facilities in north Wales, have been approved. I have met and held discussions with the organisers, and a unit has been set up, under the leadership of Arthur Emyr, to promote Wales as a country whose facilities could be used as training venues by the teams that will participate in the Olympics and the Paralympics. We already know that the Australian Paralympic team, which is one of the biggest Paralympic teams, will come to Wales to train. According to the organisers of the Olympic Games, Wales is ahead of the game in terms of the work that has already been done and the successes that it has already achieved. I will meet Lord Sebastian Coe next week to have further discussions about Wales's part in the Olympic Games. You can rest assured, Nick, that everything is being done by the Government of Wales to ensure that Wales benefits from the Olympic Games in 2012.

**The Presiding Officer:** Order. That sounded a bit like a speech, but there we are.

### Digital Switchover

**Q9 Peter Black:** What discussions has the Minister had regarding the digital switchover? OAQ(3)0285(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** We are in regular discussions with Digital UK, the UK Government and Ofcom about digital switchover. The Welsh Assembly Government is represented on the UK

fy mod wedi bod yn cael trafodaethau'n rheolaidd gyda threfnwyr y Gemau Olympaidd. Yr wyf wedi dweud hynny droeon, ond nid yw fel petai wedi gwneud unrhyw argraff ar ei Haelodau. Bu rhaid imi gyfathrebu â'r blaid honno ar y mater hwn drwy wasg y gogledd, lle cododd yr un pwyntiau, a rhennais y sylwadau yr wyf wedi'u gwneud yma gyda newyddiadurwr, a oedd yn cydnabod ei bod yn amlwg fy mod wedi cwrdd â'r trefnwyr.

Cyfarfûm â threfnwyr y Gemau Olympaidd cyn y trafodaethau am y cyfleusterau hyfforddi a gâi eu cymeradwyo; mae 31 o gyfleusterau ledled Cymru, gan gynnwys cyfleusterau yn y gogledd, wedi cael eu cymeradwyo. Yr wyf wedi cwrdd â'r trefnwyr ac wedi cynnal trafodaethau gyda hwy, ac mae uned wedi cael ei sefydlu, dan arweinyddiaeth Arthur Emyr, i hyrwyddo Cymru fel gwlad y gallai ei chyfleusterau gael eu defnyddio fel canolfannau hyfforddi gan y timau a fydd yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd. Gwyddom yn barod y bydd tîm Paralympaidd Awstralia, sy'n un o'r timau Paralympaidd mwyaf, yn dod i Gymru i ymarfer. Yn ôl trefnwyr y Gemau Olympaidd, mae Cymru wedi achub y blaen ar bawb arall o ran y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud a'r llwyddiannau y mae eisoes wedi'u cael. Byddaf yn cwrdd â'r Arglwydd Sebastian Coe yr wythnos nesaf i gael trafodaethau pellach am ran Cymru yn y Gemau Olympaidd. Gallwch fod yn dawel eich meddwl, Nick, fod popeth yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn elwa o'r Gymau Olympaidd yn 2012.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr oedd hynny'n swnio braidd fel araith, ond dyna ni.

### Newid i'r Digidol

**C9 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch newid i'r digidol? OAQ(3)0285(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydym yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Digital UK, Llywodraeth y DU ac Ofcom ynglŷn â'r newid i'r digidol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei chynrychioli ar

Government's digital switchover group.

grŵp newid i'r digidol Llywodraeth y DU.

**Peter Black:** I have concerns about the way in which the digital switchover is being represented, particularly by retailers who are selling digital equipment. Although it is the case that many people do not need to spend that much money to convert their televisions in order to receive digital services, it is the case that many retailers are suggesting that people need to buy expensive equipment in order to do that. Have you had any discussions with the relevant Ministers in the UK Government or in the Welsh Government in trying to make information about the digital switchover more readily available in order to make it clear to people that they do not have to spend a fortune when it comes to dealing with the switchover?

**Peter Black:** Mae gennyf bryderon am y ffordd y mae'r newid i'r digidol yn cael ei gyfleu, yn enwedig gan fanwerthwyr sy'n gwerthu cyfarpar digidol. Er mai'r gwir yw nad oes angen i lawer o bobl wario llawer iawn o arian i drosi eu setiau teledu er mwyn derbyn gwasanaethau digidol, yr hyn sy'n digwydd yw bod llawer o fanwerthwyr yn awgrymu bod angen i bobl brynu cyfarpar drud er mwyn gwneud hynny. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Gweinidogion perthnasol yn Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru wrth geisio gwneud gwybodaeth am y newid i'r digidol yn haws cael gafael arni i'w gwneud yn glir i bobl nad oes rhaid iddynt wario ffortiwn wrth iddynt fynd i'r afael â'r newid?

**Rhodri Glyn Thomas:** The Deputy First Minister and I have had many meetings with Ofcom to discuss this issue. I take your point that people may be under the misapprehension that they need to change their equipment in order to take advantage of digital services. We have to look carefully at how to get the message out to people that it is possible that their existing equipment could easily cope with the digital switchover. I will talk to Ofcom about that again, and, as I said in response to another question, I am meeting Andy Burnham next week, and I will raise the issue with him in terms of what the Department for Culture, Media and Sport in Westminster can do on this issue.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau wedi cael llawer o gyfarfodydd gydag Ofcom i drafod y mater hwn. Cymeraf eich pwynt fod pobl dan gamargraff efallai fod angen iddynt newid eu cyfarpar er mwyn manteisio ar wasanaethau digidol. Rhaid inni edrych yn ofalus ar sut mae cyfleu'r neges i bobl ei bod yn bosibl y gallai eu cyfarpar presennol ymdopi'n hawdd â'r newid i'r digidol. Byddaf yn siarad ag Ofcom am hynny eto, ac, fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn arall, yr wyf yn cwrdd ag Andy Burnham yr wythnos nesaf, a byddaf yn codi'r mater gydag ef o ran yr hyn y gall yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn San Steffan ei wneud ar y mater hwn.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing**

### **Zero Carbon Buildings**

**Q1 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on meeting the Welsh Assembly Government target for zero carbon buildings? OAQ(3)0284(ESH)

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** Our aspiration is for all new buildings in Wales to be zero carbon from 2011. We are pursuing the devolution of building regulations to help us to achieve

### **Adeiladau Di-Garbon**

**C1 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyrraedd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adeiladau di-garbon? OAQ(3)0284(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Ein dyhead yw y bydd pob adeilad newydd yng Nghymru yn ddi-garbon erbyn 2011. Yr ydym yn ceisio cael y rheoliadau adeiladu wedi'u datganoli i'n helpu i gyflawni hyn ac



this, and we are using Assembly Government projects and programmes to trial technologies and methodologies and to develop our strategy for higher standards.

**Jenny Randerson:** I know that you will have been as impressed as me with Jonathon Porritt's comment on Monday night that time is of the essence in dealing with climate change; he gave us 10 to 15 years as a maximum. Your target on zero carbon buildings is an important contribution that Wales could make on this issue. It is clear now that, without legislative powers over building regulations, the Government will have absolutely zero chance of meeting its target on zero carbon buildings. There has already been considerable delay in this regard. Your own document states that you expected to get these powers by the end of 2007. Is it the case that you are meeting opposition in Westminster to the devolution of these powers to Wales? I would be grateful if you could be absolutely clear with us on this, because it would be helpful to your case if it were made clear where the problem lies in getting these powers devolved, so that those in Westminster who are resisting this devolution of powers are brought face to face with their contribution to the problems of climate change.

**Jane Davidson:** The devolution of building regulations is a 'One Wales' commitment. Discussions are ongoing and we are hopeful of achieving an early conclusion.

**Leanne Wood:** The Sustainability Committee's report on carbon reduction recommends that the Welsh Assembly Government adopts the 'Code for Sustainable Homes: A step-change in sustainable home building practice' with immediate effect. The Minister has previously indicated that she is keen to do this. Can she now confirm when we can expect the introduction of the code in Wales?

**Jane Davidson:** I have already indicated that I will adopt the code for sustainable homes, and I will be reporting shortly on the level.

**Nick Ramsay:** The 2011 target is certainly challenging, and it is much closer than the

yr ydym yn defnyddio prosiectau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad i dreialu technolegau a methodolegau ac i ddatblygu ein strategaeth o blaid safonau uwch.

**Jenny Randerson:** Gwn fod sylw Jonathon Porritt nos Lun fod amser yn brin o ran delio â newid yn yr hinsawdd wedi gwneud cymaint o argraff arnoch chi ag arnaf fi; rhoddodd 10 i 15 mlynedd inni fan bellaf. Mae eich targed o ran adeiladau di-garbon yn gyfraniad pwysig y gallai Cymru ei wneud ar y mater hwn. Mae'n amlwg bellach na fydd gan y Llywodraeth unrhyw obaith o gwbl o gyrraedd ei tharged o ran adeiladau di-garbon, heb bwerau deddfwriaethol dros y rheoliadau adeiladu. Bu oedi sylweddol eisoes yn y cyswllt hwn. Dywed eich dogfen chi eich hun eich bod wedi disgwyl cael y pwerau hyn erbyn diwedd 2007. Ai'r gwir yw eich bod yn wynebu gwrthwynebiad yn San Steffan i ddatganoli'r pwerau hyn i Gymru? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech fod yn gwbl glir wrthym ynglŷn â hyn, oherwydd byddai o gymorth i'ch achos pe gellid dangos yn glir ymhle mae'r broblem o ran cael y pwerau hyn wedi'u datganoli, fel y bydd y bobl hynny yn San Steffan sy'n gwrthsefyll datganoli'r pwerau yn cael eu gorfodi i wynebu'r cyfraniad y maent hwy yn ei wneud at broblemau newid yn yr hinsawdd.

**Jane Davidson:** Mae datganoli'r rheoliadau adeiladu yn ymrwymiad yn 'Cymru'n Un'. Mae trafodaethau ar y gweill ac yr ydym yn obeithiol y daw pethau i fwcl yn fuan.

**Leanne Wood:** Mae adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ostwng lefelau carbon yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu'r 'Code for Sustainable Homes: A step-change in sustainable home building practice', a hynny i ddod i rym ar unwaith. Mae'r Gweinidog wedi nodi cyn hyn ei bod yn awyddus i wneud hyn. A all hi gadarnhau yn awr pryd y gallwn ddisgwyl i'r cod gael ei gyflwyno yng Nghymru?

**Jane Davidson:** Yr wyf eisoes wedi nodi y byddaf yn mabwysiadu'r cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy, a byddaf yn cyflwyno adroddiad yn fuan ar y lefel.

**Nick Ramsay:** Mae targed 2011 yn sicr yn her, ac mae'n llawer nes na'r dyddiad a

date that has been adopted in other parts of Europe. There seems to be some confusion in this regard; your Government sometimes calls it a target and, at other times, an ambition. Can you be clear with us on this today? Is it a target or an ambition, because there is a clear difference between the two? What discussions have you had with the Confederation of British Industry with regard to meeting this target, as a distinction needs to be made between homes and businesses?

**Jane Davidson:** We use the word 'aspiration' in terms of delivering on the 2011 target. I have asked the Sustainable Development Commission to undertake work, which it started this week, with stakeholders, to ensure that the built environment can contribute towards our target of a 3 per cent reduction, year on year, from 2011. I have had discussions with the CBI, in my normal meeting with its representatives and at a dinner that we held to discuss climate change.

#### **Onshore Windfarms**

**Q2 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on her aspirations for onshore windfarms in north Wales? OAQ(3)0278(ESH)

**Jane Davidson:** Wales has one of the most outstanding wind resources in Europe. 'One Wales' sets out our commitment to tackling climate change, which includes a review of technical advice note 8, which will revise upwards our targets for renewables from all technologies, including wind power.

**Mark Isherwood:** In the Chamber on 3 October 2007, you stated your understanding that the Forestry Commission would give full consideration to the issue of community consultation in terms of its land-bank exercise. You have also told us that you estimate that only 500 ha of forestry will be felled if all the proposed developments go ahead, although two proposals in north Wales for 29 turbines to be erected would alone mean the felling of 431 ha. What direct consultation did the Assembly Government, or the Forestry Commission, undertake with

fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o Ewrop. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o ddrysych yn y cyswllt hwn; mae eich Llywodraeth weithiau yn ei alw'n darged a, bryd arall, yn uchelgais. A allwch fod yn glir gyda ni heddiw ynglŷn â hyn? Ai targed ydyw ynteu uchelgais, oherwydd mae gwahaniaeth amlwg rhwng y ddau? Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain o ran cyrraedd y targed hwn, gan fod angen gwahaniaethu rhwng cartrefi a busnesau?

**Jane Davidson:** Yr ydym yn defnyddio'r gair 'dyhead' o ran cyflawni targed 2011. Yr wyf wedi gofyn i'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ymgymryd â gwaith, y dechreuodd arno yr wythnos hon, gyda rhanddeiliaid, i sicrhau y gall yr amgylchedd adeiledig gyfrannu at ein targed o ostyngiad o 3 y cant, o flwyddyn i flwyddyn, o 2011. Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda'r CBI, yn fy nghyfarfod arferol â'i gynrychiolwyr ac mewn cinio a gynaliasom i drafod newid yn yr hinsawdd.

#### **Ffermydd Gwynt ar y Tir**

**C2 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei dyheadau ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir yn y gogledd? OAQ(3)0278(ESH)

**Jane Davidson:** Mae gan Gymru un o'r adnoddau gwynt mwyaf arbennig yn Ewrop. Mae 'Cymru'n Un' yn nodi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnwys adolygu nodyn cyngor technegol 8, a fydd yn adolygu ein targedau ar i fyny ar gyfer ynni adnewyddadwy o bob technoleg, gan gynnwys pŵer gwynt.

**Mark Isherwood:** Yn y Siambr ar 3 Hydref 2007, datganasoch eich bod yn deall y byddai'r Comisiwn Coedwigaeth yn rhoi ystyriaeth lawn i fater ymgynghori cymunedol o ran ei ymarferiad banc tir. Yr ydych hefyd wedi dweud wrthym eich bod yn amcangyfrif mai dim ond 500 ha o goed a gaiff eu cwmpo os aiff yr holl ddatblygiadau arfaethedig rhagdynt, er y byddai dau gynnig yn unig yn y gogledd i godi 29 tyrbin yn golygu cwmpo 431 ha. Pa ymgynghori uniongyrchol yr ymgymerodd Llywodraeth y Cynulliad, neu'r Comisiwn Coedwigaeth, ag

those communities in which Welsh forests will be turned into windfarms? Will the Minister report the results of that consultation to the Assembly?

**Jane Davidson:** The Forestry Commission's land-bank exercise is being conducted by another Minister; she will have heard your comments.

**Gareth Jones:** Un o nifer o fesurau y gellid ei ddefnyddio i ymateb i newid yn yr hinsawdd yw ffermydd gwynt ar y tir. Yn dilyn cyhoeddi'r map llwybr ynni, a allwch chi amlinellu'r amserlen a'r camau nesaf ar gyfer mewnnoli strategeth ehangach ar ynni adnewyddadwy, fel yr amlinellir yng nghytundeb 'Cymru'n Un'?

2.00 p.m.

**Jane Davidson:** Technical advice note 8 spells out that large windfarm proposals, namely those over 25 MW, are appropriate only within the seven strategic search areas, and they account for only a small proportion of upland Wales. We welcome other more community-orientated onshore wind activities, subject to the normal planning process.

### Polisiau Cynllunio

**C3 Alun Ffred Jones:** Pa newidiadau mae'r Gweinidog yn ystyried eu cyflwyno i'r polisiau cynllunio parthed tai mewn ardaloedd gwledig? OAQ(3)0269(ESH)

**Jane Davidson:** O dan 'Cymru'n Un', yr ydym yn gweithio ar ystod o gynlluniau, gan gynnwys adolygiad o nodyn cyngor technegol 6, sy'n darparu cyfarwyddyd am anheddau gwledig. Caiff polisi cynllunio ei adolygu'n gyson. Os bydd angen, byddaf yn ei ddiwygio fel bod awdurdodau lleol yn gallu dosbarthu'r tai sydd eu hangen.

**Alun Ffred Jones:** Yn ddiweddar, mae'r arolygydd cynllunio wedi gwrthod polisiau mewn cynllun datblygu unedol a fyddai wedi helpu i greu cymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad. Mae nifer o addewidion yn 'Cymru'n Un' parthed cynllunio a chefn

ef gyda'r cymunedau hynny lle bydd coedwigoedd Cymru yn cael eu troi'n ffermydd gwynt? A wnaiff y Gweinidog gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghori hwnnw i'r Cynulliad?

**Jane Davidson:** Mae ymarferiad banc tir y Comisiwn Coedwigaeth yn cael ei gynnal gan Weiniidog arall; bydd hi wedi clywed eich sylwadau.

**Gareth Jones:** One of a number of measures that could be used to respond to climate change is onshore windfarms. Following the publication of the energy route-map, could you outline the timetable and the next steps in adopting a wider strategy on renewable energy, as outlined in the 'One Wales' agreement?

**Jane Davidson:** Mae nodyn cyngor technegol 8 yn egluro nad yw cynigion am ffermydd gwynt mawr, sef rhai dros 25 MW, ond yn briodol o fewn y saith ardal chwilio strategol, ac nid yw'r rheini ond yn gyfran fach o uwchdiroedd Cymru. Croesawn weithgareddau eraill sy'n ymwneud ag ynni gwynt ar y tir sy'n fwy cyfeiriedig at ofynion y gymuned, yn ddarostyngedig i'r broses gynllunio arferol.

### Planning Policies

**Q3 Alun Ffred Jones:** What changes does the Minister plan to introduce in planning policies relating to housing in rural areas? OAQ(3)0269(ESH)

**Jane Davidson:** Under 'One Wales', we are taking forward a range of initiatives, including a review of technical advice note 6, which provides guidance on rural dwellings. Planning policy is kept under constant review. If necessary, I will amend it to ensure that local authorities deliver the housing needed.

**Alun Ffred Jones:** Recently, the planning inspector has rejected policies in a unitary development plan that would have assisted in creating sustainable rural communities. There are many pledges in 'One Wales' regarding planning and rural areas. When will the

gwlad. Pryd fydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar weithredu ar yr addewidion hynny?

**Jane Davidson:** Mae adroddiad yr arolygiaeth yn ymwneud â chynllun Cyngor Gwynedd. Byddaf yn cynnig opsiwn newydd ar gyfer TAN6 yn nes ymlaen eleni.

**Andrew R.T. Davies:** The Minister for Rural Affairs has stated that TAN 6 and the development of rural housing are an important cornerstone of sustainable agricultural and rural affairs practices. I have asked you on several occasions about TAN 6. Other than the usual ambiguous answer of 'Later this year', do you have a timescale for when that consultation will begin? I believe that many Members would agree with me that TAN 6 and the revision of it is critical to any sustainable rural housing development in future. If we could have a timeframe to work to, it would be meaningful for our negotiations and dialogue with constituents.

**Jane Davidson:** When it is published for consultation, you will have the opportunity to see it.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 3 i'w ateb yn ysgrifenedig.

### Vulnerable People

**Q4 Paul Davies:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for helping vulnerable people to live in their own homes? OAQ(3)0250(ESH)

**The Deputy Minister for Housing (Jocelyn Davies):** The Assembly Government gives high priority to providing support to enable vulnerable people to live in their own homes. That support includes the provision of disabled facilities grants, funding Care and Repair services in Wales, the rapid response adaptations programme, and Supporting People, which amount to around £176 million a year.

**Paul Davies:** It has been brought to my

Minister make a statement on the implementation of those pledges?

**Jane Davidson:** The report of the inspectorate involves the Gwynedd Council plan. I will be offering a new option for TAN6 later this year.

**Andrew R.T. Davies:** Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi dweud bod nodyn cyngor technegol 6 a datblygu tai gwledig yn gonglfaen pwysig i arferion cynaliadwy mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth a materion gwledig. Yr wyf wedi'ch holi droeon am nodyn cyngor technegol 6. Heblaw am yr ateb amwys arferol 'Yn ddiweddarach eleni', a oes gennych amserlen ar gyfer dechrau'r ymgynghori hwnnw? Credaf y byddai nifer o Aelodau'n cyd-weld â mi fod nodyn cyngor technegol 6 a'r adolygiad ohono yn hollbwysig ar gyfer unrhyw ddatblygu cynaliadwy ar dai gwledig yn y dyfodol. Pe gallem gael amserlen i'w dilyn, byddai'n ystyrlon ar gyfer ein negodiadau a'n deialog gydag etholwyr.

**Jane Davidson:** Pan gaiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori, cewch gyfle i'w weld.

**The Presiding Officer:** Question 3 has been transferred for written answer.

### Pobl sy'n Agored i Niwed

**C4 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw yn eu cartrefi eu hunain? OAQ(3)0250(ESH)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth uchel i gamau i ddarparu cymorth i alluogi pobl sy'n agored i niwed i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r cymorth hwnnw'n cynnwys darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl, ariannu gwasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, y rhaglen ymateb brys i addasiadau, a Cefnogi Pobl, sy'n gwneud cyfanswm o ryw £176 miliwn y flwyddyn.

**Paul Davies:** Tynnwyd fy sylw ei bod yn

attention that, under the home energy efficiency scheme, a heating system in a vulnerable person's home has to break down before the replacement process can start. In other words, the authorities will not look at replacing a system until it is rendered defunct. That seems to me to be a ludicrous situation, as any delays in installing the new system could well mean people going a number of weeks without heating and hot water, which could have a devastating effect on vulnerable people in our society. Will the Deputy Minister consider reviewing this problem with the scheme?

**Jocelyn Davies:** HEES does not come within my portfolio, but I am sure that Jane Davidson heard what you said. I would be grateful if you would write to Jane on that matter, so that we can take it up.

**Eleanor Burnham:** Mae problemau gyda chost tanwydd i alluogi bobl fregus i gynhesu eu cartrefi. Yr ydym yn gobeithio y bydd y Canghellor yn garedig y prynhawn yma, gan fod y gost yn cynyddu yn ddyddiol, bron iawn. Beth yn union y gallwch chi yn y Llywodraeth ei wneud i helpu gyda hynny yng Nghymru?

**Jocelyn Davies:** There is a requirement for social housing—and, in fact, all the housing that the Welsh Assembly Government is able to influence—to be in line with the Welsh housing quality standard, which means that they should be energy efficient and affordable for tenants to heat. We also have very high standards in relation to the energy efficiency of houses supported by the social housing grant, and registered social landlords must meet those standards.

### Recycling

**Q5 Rosemary Butler:** What is the Welsh Assembly Government doing to promote recycling? OAQ(3)0270(ESH)

**Jane Davidson:** Assembly Government

rhaid i system wresogi yng nghartref rhywun sy'n agored i niwed beidio â gweithio cyn y gellir dechrau gosod un yn ei lle dan y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Mewn geiriau eraill, ni fydd yr awdurdodau'n ystyried gosod system newydd nes bydd yr hen un wedi darhod amdani. Mae'r sefyllfa honno'n ymddangos i mi yn un afresymol, gan ei bod yn ddigon posibl y gallai unrhyw oedi wrth osod y system newydd olygu y byddai pobl heb wres na dŵr poeth am wythnosau lawer, a gallai hynny gael effaith drychinebus ar bobl sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas. A wnaiff y Dirprwy Weinidog ystyried adolygu'r broblem hon yn y cynllun?

**Jocelyn Davies:** Nid yw'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn rhan o'm portffolio, ond yr wyf yn siŵr fod Jane Davidson wedi clywed yr hyn a ddywedaso. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn ysgrifennu at Jane ar y mater hwnnw, fel y gallwn ei ystyried.

**Eleanor Burnham:** There are problems with fuel costs to enable vulnerable people to heat their homes. We hope the Chancellor will be kind this afternoon, since the cost is increasing almost daily. What exactly can your Government do to assist with this in Wales?

**Jocelyn Davies:** Mae gofyniad i dai cymdeithasol—ac, yn wir, yr holl dai y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddylanwadu arnynt—gydymffurfio â safon ansawdd tai Cymru, sy'n golygu y dylent ddefnyddio ynni'n effeithlon a galluogi tenantiaid i fforddio'u gwresogi. Mae gennym safonau uchel iawn hefyd mewn cysylltiad ag effeithlonrwydd ynni tai a gynhelir drwy'r grant tai cymdeithasol, a rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyrraedd y safonau hynny.

### Ailgylchu

**C5 Rosemary Butler:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo ailgylchu? OAQ(3)0270(ESH)

**Jane Davidson:** Mae polisiau Llywodraeth y

policies on recycling are set out in 'Wise About Waste'. In support of that programme, the Assembly Government has invested more than £200 million in new recycling services and to promote recycling through partnerships of local authorities and community groups.

**Rosemary Butler:** Thank you for that reply. I am sure that you will join me in congratulating the Labour-controlled Newport City Council, which is well on target to recycle more than 36 per cent of its waste this year, and for being the only local authority in Wales to be highly commended on its environmental achievements in the recent Excellence Wales awards? What is the Welsh Assembly Government doing to reduce the appalling problem that we have with plastic bags across Wales?

**Jane Davidson:** I am very happy to congratulate Newport County Council on reaching the Assembly's target more than a year early, due to its outstanding efforts in recycling. We are currently considering a legislative competence Order to seek powers from the UK Government that would enable us to take the appropriate approach to outlawing free single-use plastic bags.

**William Graham:** Minister, will you join me in welcoming the commencement of the building by Sims Recycling Solutions of what will be the world's premier recycling facility at Newport's Associated British Ports docks at a cost of £8 million, which is a real contribution by the private sector to recycling in Wales?

**Jane Davidson:** I am always happy to see good investment that contributes towards recycling in Wales, and I am pleased that we have that new facility.

**Nerys Evans:** Wales has been very successful at improving its recycling rate over the past few years, but somewhat less successful at reducing the amount of waste produced. Do you agree that it is unacceptable for Wales to export its recycling without due regard to the social and

Cynulliad ar ailgylchu wedi'u gosod allan yn 'Yn Gall gyda Gwastraff'. Er mwyn hyrwyddo'r rhaglen honno, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi dros £200 miliwn mewn gwasanaethau ailgylchu newydd ac i hybu ailgylchu drwy bartneriaethau o awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol.

**Rosemary Butler:** Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi i longyfarch Cyngor Dinas Casnewydd, dan reolaeth Llafur, sy'n agos iawn at gyrraedd ei darged o ailgylchu dros 36 y cant o'i wastraff eleni, ac am mai hwn yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru i ennill clod mawr am ei gyflawniadau amgylcheddol yn seremoni wobrwyo Rhagoriaeth Cymru yn ddiweddar? Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leddfu'r broblem ofnadwy gyda bagiau plastig sydd gennym ledled Cymru?

**Jane Davidson:** Yr wyf yn falch iawn llongyfarch Cyngor Dinas Casnewydd ar gyrraedd targed y Cynulliad fwy na blwyddyn cyn pryd, oherwydd ei ymdrechion rhagorol wrth ailgylchu. Ar hyn o bryd, yr ydym yn ystyried Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i geisio pwerau gan Lywodraeth y DU a fyddai'n ein galluogi i gymryd camau priodol i wahardd bagiau plastig rhad ac am ddim sy'n cael eu defnyddio unwaith.

**William Graham:** Weinidog, a ymunwch â mi i groesawu dechrau adeiladu'r hyn a fydd yn brif gyfleuster ailgylchu'r byd gan Sims Recycling Solutions yn nocio Associated British Ports yng Nghasnewydd am gost o £8 miliwn? Mae'n gyfraniad sylweddol gan y sector preifat i ailgylchu yng Nghymru.

**Jane Davidson:** Mae'n dda gennyf bob amser weld buddsoddiad da sy'n cyfrannu at ailgylchu yng Nghymru, ac yr wyf yn falch bod y cyfleuster newydd hwnnw gennym.

**Nerys Evans:** Mae Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth wella'i chyfradd ailgylchu dros y blynyddoedd diwethaf, ond hytrach yn llai llwyddiannus wrth leihau faint o wastraff a gynhyrchir. A ydych yn cytuno ei bod yn annerbyniol i Gymru allforio'i deunydd ailgylchu heb roi sylw dyladwy i'r

environmental impact?

**Jane Davidson:** These are complex issues, because using recycled products is better than using virgin products. Although we are always looking at ways of expanding our recycling market, I would strongly support recycling wherever it takes place.

**Mick Bates:** Minister, given that it seems to be a day for many congratulations, will you also join me in congratulating all the Liberal Democrat-run councils on increasing their recycling rates after years of Labour neglect? For example, recycling in Wrexham County Borough Council has increased from 12 to 43 per cent, and, in Cardiff Council, recycling is now available to everyone free of charge.

According to the 2006 *Living in Wales* survey, the proportion of household recycling decreases significantly in line with the increase in a householder's age, with those of pensionable age recycling the least. In reviewing the 'Wise about Waste' strategy, what action are you planning to take to make recycling easier and more convenient for the elderly, so that recycling rates can be improved among that age group?

**Jane Davidson:** Thank you, Mick. More than £200 million extra has been invested in municipal waste recycling, and we announced additional funding this year of £93 million to focus specifically on sustainable waste management, including food waste. It is extremely important when we reach the next tranche of recycling targets—and the majority of authorities are on course to meet those targets—that everyone across the population spectrum gets involved in recycling. That means local authorities providing more bring bank sites at a local level, and increasing kerb-side recycling from its current 86 per cent to 100 per cent over that period.

effaith gymdeithasol ac amgylcheddol?

**Jane Davidson:** Mae'r rhain yn faterion cymhleth, oherwydd mae'n well defnyddio cynhyrchion wedi eu hailgylchu na chynhyrchion crai. Er ein bod bob amser yn ystyried dulliau o ehangu ein marchnad ailgylchu, byddwn yn gefnogol iawn i ailgylchu ym mha le bynnag y mae'n digwydd.

**Mick Bates:** Weinidog, gan ei fod yn ddiwrnod o longyfarchiadau lu, mae'n ymddangos, a wnewch chi hefyd ymuno â mi i longyfarch yr holl gynghorau sy'n cael eu rhedeg gan y Democratiaid Rhyddfrydol am godi eu cyfraddau ailgylchu wedi blynyddoedd o esgeulustod gan Lafur? Er enghraifft, mae'r ailgylchu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi codi o 12 i 43 y cant, ac yng Nghyngor Caerdydd mae ailgylchu ar gael i bawb bellach yn rhad ac am ddim.

Yn ôl yr arolwg *Byw yng Nghymru* yn 2006, mae cyfran yr ailgylchu gan aelwydydd yn gostwng yn sylweddol yn unol â chynnydd yn oedran deiliaid tai, a phobl oed pensiwn sy'n ailgylchu leiaf. Wrth adolygu'r strategaeth 'Yn Gall gyda Gwastraff', pa gamau y bwriadwch eu cymryd i'w gwneud yn haws ac yn fwy cyfleus i'r henoed ailgylchu, fel y gellir gwella cyfraddau ailgylchu yn y grŵp oedran hwnnw?

**Jane Davidson:** Diolch i chi, Mick. Mae swm ychwanegol o dros £200 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn cyfleusterau ailgylchu gwastraff trefol, a chyhoeddwyd cyllid ychwanegol o £93 miliwn gennym eleni i ganolbwyntio'n benodol ar ddulliau rheoli gwastraff cynaliadwy, gan gynnwys gwastraff bwyd. Bydd yn bwysig iawn pan gyraeddwn y set nesaf o dargedau ailgylchu—ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau o fewn cyrraedd i'r targedau hynny—fod pawb o bob oed yn cymryd rhan mewn ailgylchu. Mae hynny'n golygu darparu mwy o safleoedd banciau ailgylchu gan awdurdodau lleol ar lefel leol, a chynyddu'r ailgylchu ar ochr y ffordd o 86 y cant, fel y mae ar hyn o bryd, i 100 y cant dros y cyfnod hwnnw.

2.10 p.m.

**Irene James:** Minister, children throughout my local authority area of Caerphilly participated in Eco Challenge, which involved workshops aimed at teaching children the importance of dealing with waste, water preservation, and energy consumption. Do you agree that such borough-led schemes are a brilliant way of promoting national recycling and conservation policies to children at a local level?

**Jane Davidson:** I agree absolutely. We are very keen for all schools in Wales to become eco-schools, and authorities such as Caerphilly, which want to ensure that 100 per cent of their schools achieve eco-schools status, are to be commended.

### **Affordable Housing**

**Q6 Kirsty Williams:** How will the Minister be taking forward plans to increase the availability of affordable housing in Wales? OAQ(3)0305(ESH)

**Jocelyn Davies:** I have already announced increased funding for the social housing grant programme, training for local authorities, and new budget lines for community land trusts and first-time buyer grants. I hope shortly to make further announcements about the introduction of affordable housing delivery plans and additional support for rural housing enablers.

**Kirsty Williams:** I am grateful that you have acknowledged the role that rural housing enablers and capacity-building within local authorities can play in helping to deliver on this agenda. Another barrier that seems to have emerged, certainly in my constituency, is the prospect of homebuyers not being able to raise finance to purchase a home that has conditions attached. What discussions have you and your officials had with potential lenders, or mortgage companies to ensure that those people who have the potential to purchase an affordable home can do so?

**Irene James:** Weinidog, bu plant o bob rhan o ardal fy awdurdod lleol i sef Caerffili, yn cymryd rhan yn Eco Challenge, a oedd yn cynnwys gweithdai i addysgu plant am bwysigrwydd delio â gwastraff, arbed dŵr, a defnyddio ynni. A ydych yn cytuno bod cynlluniau o'r fath sy'n cael eu harwain gan fwrdeistrefi yn fodd rhagorol i hybu polisiau cenedlaethol ar ailgylchu a chadwraeth ymysg plant yn lleol?

**Jane Davidson:** Cytunaf yn llwyr. Yr ydym yn awyddus iawn i'r holl ysgolion yng Nghymru ddod yn eco-ysgolion, ac mae awdurdodau fel Caerffili, sydd am sicrhau bod pob un o'u hysgolion yn cyrraedd statws eco-ysgol, i'w canmol.

### **Tai Fforddiadwy**

**C6 Kirsty Williams:** Sut y bydd y Gweinidog yn symud cynlluniau ymlaen i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru? OAQ(3)0305(ESH)

**Jocelyn Davies:** Yr wyf eisoes wedi gwneud cyhoeddiad am fwy o gyllid ar gyfer y rhaglen grant tai cymdeithasol, hyfforddiant i awdurdodau lleol, a llinellau cyllideb newydd ar gyfer ymddiriedolaethau tir cymunedol a grantiau i bobl sy'n prynu am y tro cyntaf. Gobeithiaf wneud cyhoeddiadau pellach cyn hir am gyflwyno cynlluniau darparu tai fforddiadwy a chymorth ychwanegol i swyddogion galluogi ym maes tai yng nghefn gwlad.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn ddiolchgar eich bod wedi cydnabod y rhan a all fod i swyddogion galluogi ym maes tai yng nghefn gwlad, a chymorth i feithrin gallu mewn awdurdodau lleol wrth helpu cyflawni'r agenda hon. Rhwystr arall sy'n ymddangos wedi codi, yn fy etholaeth i yn sicr, yw'r posibilrwydd na fydd prynwyr tai'n gallu sicrhau arian i brynu tŷ sydd ag amodau'n glwm wrtho. Pa drafodaethau yr ydych chi a'ch swyddogion wedi'u cael gyda benthycwyr posibl neu gwmnïau morgeisi i sicrhau bod y bobl hynny sydd â'r modd i brynu tŷ fforddiadwy yn gallu gwneud hynny?



**Jocelyn Davies:** My officials are in ongoing discussions with lenders, and we hope shortly to announce model section 106 covenants for local authorities that will be acceptable to lenders. There have been instances of local authorities developing section 106 agreements themselves, only to find that lenders are reluctant to lend for those properties. We have also found that people want to get out of the covenant when the time comes to sell the property. However, we will be issuing guidance and model section 106 covenants that are acceptable to lenders in Wales.

**Alun Davies:** During our recent discussions on the affordable housing legislative competence Order, and in the debate here in the Chamber last week, you outlined a clear timetable for developing new strategies and policies to tackle the issue of affordable housing across Wales. Some elements of that timetable cause problems and raise fears, in that we might produce very little over the next two or three years except policy documents. Would you be prepared to look again at these elements of the timescale, to bring forward new policies and initiatives to deal with the real issues that people face across Mid and West Wales?

**Jocelyn Davies:** We have said on many occasions that we are looking to the planning system to assist us in providing more affordable housing. Some local authorities are not waiting for the outcomes of strategies here and have been very good at negotiating with private developers. We have already held training seminars, and there is absolutely no reason why local authorities cannot use those negotiating powers right now.

**Darren Millar:** One factor that is often overlooked when considering affordable housing is the running costs of the home. Do you agree that a good way to reduce running costs in the home is to improve its energy efficiency, which can have a positive impact on carbon-dioxide emissions? Do you also agree that programmes such as the home energy efficiency scheme can have a positive

**Jocelyn Davies:** Mae fy swyddogion yn trafod gyda benthycwyr ar hyn o bryd, a gobeithiwn gyhoeddi cyfamodau adran 106 enghreifftiol cyn hir ar gyfer awdurdodau lleol a fydd yn dderbyniol gan fenthycwyr. Cafwyd achosion lle y mae awdurdodau lleol wedi datblygu cytundebau adran 106 eu hunain, a chael wedyn bod benthycwyr yn amharod i roi benthyg arian ar gyfer y tai hynny. Gwelsom hefyd fod pobl yn dymuno ymryddhau o'r cyfamod pan ddaw'n adeg gwerthu'r eiddo. Fodd bynnag, byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd a chyfamodau adran 106 enghreifftiol sy'n dderbyniol gan fenthycwyr yng Nghymru.

**Alun Davies:** Yn ystod ein trafodaethau'n ddiweddar am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar dai fforddiadwy, ac yn y ddadl yma yn y Siambr yr wythnos diwethaf, amlinellwyd amserlen bendant gennych ar gyfer datblygu strategaethau a pholisïau newydd i fynd i'r afael â mater tai fforddiadwy ledled Cymru. Mae rhai elfennau yn yr amserlen honno'n achosi problemau ac ofnau, i'r perwyl na allem gynhyrchu fawr ddim dros y ddwy neu dair blynedd nesaf heblaw dogfennau polisi. A fydech yn barod i ailedrych ar yr elfennau hyn yn yr amserlen, i ddod â pholisïau a mentrau newydd ymlaen i ddelio â'r anawsterau gwirioneddol sy'n wynebu pobl ledled y canolbarth a'r gorllewin?

**Jocelyn Davies:** Yr ydym wedi dweud droeon ein bod yn disgwyl i'r system gynllunio ein cynorthwyo wrth ddarparu mwy o dai fforddiadwy. Mae rhai awdurdodau lleol nad ydynt yn aros am ganlyniadau strategaethau yma ac sydd wedi llwyddo'n dda wrth negodi gyda datblygwyr preifat. Yr ydym eisoes wedi cynnal seminarau hyfforddi, ac nid oes rheswm o gwbl pam na all awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau negodi hynny'n awr.

**Darren Millar:** Un ffactor a anghofir yn aml wrth ystyried tai fforddiadwy yw costau rhedeg y cartref. A ydych yn cytuno mai un modd i leihau costau rhedeg y cartref yw gwella'i effeithlonrwydd ynni, a all gael effaith lesol ar allyriadau carbon deuocsid? A ydych hefyd yn cytuno bod rhaglenni fel y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn gallu cael effaith lesol yn y cyswllt hwn?

impact in this respect?

**Jocelyn Davies:** I would not disagree with any of that, Darren. As I mentioned earlier, a high standard of energy efficiency is expected of any housing influenced by the Assembly, whether through the discount on Assembly-owned land, the social housing grant, or social housing that is subject to the Welsh housing quality standard. It is a problem when people believe that they can afford a home, but the running costs and maintenance make that difficult. I would urge anyone who is considering buying a property to take into account the running costs and maintenance costs of the home that they intend to buy.

**Darren Millar:** Given that response, Members might get the impression that the Welsh Assembly Government fully supports the HEES initiative. However, it is not a fact that, as a Government, you are so unsupportive of the scheme that you are cutting its budget in real terms over the next three years, that it is already leading to the rationing of the support provided to householders, that there is a huge backlog of work, with an increased waiting list of hundreds, and that it cannot afford to undertake work on large parts of the Welsh housing stock because of the criteria that are applied? Will you work with the Minister for Environment, Sustainability and Housing to ensure that the budget priorities of the department are reviewed, to supply some additional funds for the HEES scheme?

**Jocelyn Davies:** As I mentioned earlier to your colleague, Paul Davies, I am not responsible for HEES. However, I disagree with everything that you said. I work closely with the Minister for Environment, Sustainability and Housing. She has heard what you have said, and I am sure that she will act on it.

**Bethan Jenkins:** I commend the work that you are doing on affordable housing. However, you must acknowledge that some people fall out of the loop altogether. I recently met NSPCC and Shelter Cymru to discuss runaways under the age of 16, and the

**Jocelyn Davies:** Ni fyddwn yn anghytuno â dim a ddywedwch, Darren. Fel y soniais yn gynharach, disgwylir safon uchel o effeithlonrwydd ynni mewn unrhyw dai sydd dan ddylanwad y Cynulliad, boed drwy'r gostyngiad ym mhris tir sy'n eiddo i'r Cynulliad, y grant tai cymdeithasol, ynteu dai cymdeithasol sy'n dod dan safon ansawdd tai Cymru. Mae'n anodd pan fydd pobl yn credu y gallant fforddio cartref, ond bod y costau rhedeg a chynnal yn gwneud hynny'n anodd. Byddwn yn annog pawb sy'n ystyried prynu tŷ i ystyried costau rhedeg a chostau cynnal a chadw'r cartref y bwriadant ei brynu.

**Darren Millar:** O gofio'r ymateb hwnnw, gallai Aelodau fod dan yr argraff fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyr gefnogi'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Fodd bynnag, onid yw'n wir eich bod chi, fel Llywodraeth, mor anghefnogol i'r cynllun fel eich bod yn lleihau ei gyllideb mewn termau real dros y tair blynedd nesaf, bod hynny eisoes yn arwain at gyfyngu'r gefnogaeth a roddir i ddeiliaid tai, bod tagfa aruthrol o waith wedi cronni, gyda rhestr aros gynyddol o gannoedd, ac na all fforddio ymgymryd â gwaith ar rannau helaeth o stoc tai Cymru oherwydd y meini prawf a ddefnyddir? A wnewch chi weithio gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i sicrhau bod blaenoriaethau cyllideb yr adran yn cael eu hadolygu, i ddarparu rhywfaint o gronfeydd ychwanegol ar gyfer y cynllun HEES?

**Jocelyn Davies:** Fel y dywedais yn gynharach wrth eich cyd-Aelod, Paul Davies, nid wyf yn gyfrifol am HEES. Fodd bynnag, yr wyf yn anghytuno â phopeth a ddywedwch. Yr wyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Mae hi wedi clywed yr hyn a ddywedasoch, ac yr wyf yn siŵr y bydd yn gweithredu arno.

**Bethan Jenkins:** Cymeradwyaf y gwaith yr ydych yn ei wneud gyda thai fforddiadwy. Fodd bynnag, rhaid ichi gydnabod bod rhai pobl yn syrthio drwy'r rhwyd yn llwyr. Yn ddiweddar, cyfarfûm ag NSPCC a Shelter Cymru i drafod pobl ifanc dan 16 sy'n rhedeg

fact that there are only six beds in the whole of England and Wales to accommodate these young people. Will there be anything in the code of guidance for local authorities on youth homelessness, so that we can tackle this issue seriously?

**Jocelyn Davies:** I am shortly to meet with the WLGA, and I will take up that point with it.

**Peter Black:** As you know, a review of homebuy was published last April by the previous Government. Is your Government now in a position to respond to that review and to set out your plans for homebuy for the rest of this Assembly?

**Jocelyn Davies:** As you know, and I discussed this in committee, there was an independent review of homebuy. It appears that, because of how homebuy was being administered, there was not a clear strategic approach to it by housing associations. For those who benefit from it, it is of huge benefit, but I believe that the situation was described as ‘very few people are blessed by the homebuy fairy’. We would want to ensure that, for those who are able to access it, there is a strategic approach, rather than the previous ad hoc approach. As soon as I am able to make a decision on this, I will let you know.

**Peter Black:** I accept that some of the criticisms of homebuy were valid. However, it has now come to the stage, nearly a year later, where we have to have a way forward on this, and see whether we can turn homebuy into an effective scheme across Wales, helping people who are on low incomes and key workers to get housing. Will you prioritise this over the next few months?

**Jocelyn Davies:** Yes. As you know, when I spoke to the committee, I said that I thought that this money helps very few families; it should be better targeted at those who could afford to run their own home—that is a requirement—but who are also in some sort

i ffwrdd, a’r ffaith mai dim ond chwe gwely sydd yng Nghymru a Lloegr gyfan i letya’r bobl ifanc hyn. A fydd unrhyw beth yn y cod arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch digartrefedd ymhlith pobl ifanc, er mwyn inni allu mynd i’r afael o ddifrif â’r mater hwn?

**Jocelyn Davies:** Byddaf yn cyfarfod â CLILC yn fuan, a chodaf y pwynt hwnnw gyda hwy.

**Peter Black:** Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd adolygiad o Gymorth Prynu fis Ebrill y llynedd gan y Llywodraeth flaenorol. A yw eich Llywodraeth mewn sefyllfa’n awr i ymateb i’r adolygiad hwnnw ac amlinellu eich cynlluniau ar gyfer Cymorth Prynu yng ngweddill oes y Cynulliad hwn?

**Jocelyn Davies:** Fel y gwyddoch, a thrafodais hyn mewn pwyllgor, cafwyd adolygiad annibynnol o Gymorth Prynu. Ymddengys, oherwydd y ffordd yr oedd Cymorth Prynu’n cael ei weinyddu, nad oedd gan gymdeithasau tai agwedd strategol glir tuag ato. I’r rhai sy’n elwa ohono, mae’n hynod fuddiol, ond credaf fod y sefyllfa wedi ei disgrifio fel un lle nad oes ond ychydig iawn o bobl yn cael eu bendithio gan dylwyth teg Cymorth Prynu. Byddem eisiau sicrhau, i’r rheini sy’n gallu cael llwybr ato, fod agwedd strategol ar waith, yn hytrach na’r agwedd ad hoc flaenorol. Cyn gynted ag y gallaf wneud penderfyniad ynghylch hyn, cewch wybod.

**Peter Black:** Yr wyf yn derbyn bod rhywfaint o’r beirniadu ar y Cynllun Prynu yn ddilys. Fodd bynnag, cyrhaeddodd y pwynt, bron i flwyddyn yn ddiweddarach, lle mae’n rhaid inni gael ffordd ymlaen gyda hyn, a gweld a allwn droi Cymorth Prynu yn gynllun effeithiol ledled Cymru, gan helpu pobl sydd ar incwm isel a gweithwyr allweddol i gael tai. A wnewch chi roi blaenoriaeth i hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf?

**Jocelyn Davies:** Gwnaf. Fel y gwyddoch, pan siaradais â’r pwyllgor, dywedais fy mod yn credu mai ychydig iawn o deuluoedd sy’n cael eu helpu gan yr arian hwn; dylai gael ei dargedu’n well at y rheini a allai fforddio rhedeg eu cartref eu hunain—mae hynny’n

of housing need. As I said, if we could offer this to existing tenants of social housing to enable them to purchase another property, that would leave a property available and so could take someone off the waiting list, and it could also be used to prevent homelessness. However, we are considering this, and I will make it a priority.

### **Planning Policy Wales**

**Q7 Nick Ramsay:** What representations has the Minister received from planning authorities regarding 'Planning Policy Wales'? OAQ(3)0291(ESH)

**Jane Davidson:** I receive regular correspondence from planning authorities on a range of planning issues. I also regularly meet local authority lead members to discuss various aspects of 'Planning Policy Wales'.

**Nick Ramsay:** I believe that there is a potential conflict between technical advice note 15 and Environment Agency Wales's involvement in planning applications. I have been contacted by a few constituents who seem to have been encouraged by the Environment Agency Wales to carry out expensive assessments of sites for potential development when, at the end of the day, they are not compatible with TAN 15. It seems that there is confusion here. I know that you have issued guidance to some local authorities in this regard. Could you comment on that guidance, and whether you believe that there is a potential conflict?

2.20 p.m.

**Jane Davidson:** TAN 15 provides a precautionary framework guiding new development on the floodplain, and uses development advice maps based primarily on Environment Agency information to enable early, transparent and consistent consideration of flooding when planning for sustainable communities. In terms of the specific issues, I have written to you very recently on this matter.

### **Microgeneration**

**Q8 Jeff Cuthbert:** Will the Minister make a

ofyniad—ond sydd hefyd â rhyw fath o angen tai. Fel y dywedais, pe gallem gynnig hwn i denantiaid presennol tai cymdeithasol i'w galluogi i brynu eiddo arall, byddai hynny'n rhyddhau eiddo a allai gymryd rywun oddi ar y rhestr aros, a gellid hefyd ei ddefnyddio i atal digartrefedd. Fodd bynnag, yr ydym yn ystyried hyn, ac fe'i gwnaf yn flaenoriaeth.

### **Polisi Cynllunio Cymru**

**C7 Nick Ramsay:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gan awdurdodau cynllunio ynghylch 'Polisi Cynllunio Cymru'? OAQ(3)0291(ESH)

**Jane Davidson:** Byddaf yn cael gohebiaeth reolaidd gan awdurdodau cynllunio ar nifer o faterion cynllunio. Byddaf hefyd yn cwrdd ag aelodau arweiniol awdurdodau lleol i drafod amrywiol agweddau ar 'Polisi Cynllunio Cymru'.

**Nick Ramsay:** Credaf fod gwrthdaro posibl rhwng nodyn cyngor technegol 15 ac ymwneud Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru â cheisiadau cynllunio. Mae rhai etholwyr wedi cysylltu â mi sydd fel pe baent wedi eu hannog gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i wneud asesiadau drud o safleoedd ar gyfer datblygu posibl pan nad ydynt, yn y pen draw, yn cydymffurfio â TAN 15. Ymddengys fod dryswch yma. Gwn ichi gyhoeddi arweiniad i rai awdurdodau lleol yng nghyswllt hyn. A allwch roi sylwadau am yr arweiniad hwnnw, ac a ydych yn credu bod yna wrthdaro posibl?

**Jane Davidson:** Mae TAN 15 yn darparu fframwaith rhagofalus i lywio datblygiad newydd ar orlifdir, ac mae'n defnyddio mapiau cyngor datblygu sy'n bennaf seiliedig ar wybodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn hwyluso ystyriaeth fuan, eglur a chyson o lifogydd wrth gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy. O ran y materion penodol, yr wyf wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar iawn ynglŷn â'r mater hwn.

### **Microgynhyrchu**

**C8 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog

statement on what the Welsh Assembly Government is doing to promote the development of microgeneration in Wales? OAQ(3)0304(ESH)

**Jane Davidson:** Current policy is set out in our microgeneration action plan. We are committed in 'One Wales' to drawing up an energy strategy to include, among other things, actions on microgeneration. Microgeneration also features strongly in our consultation on the renewable energy route-map, which we published last month.

**Jeff Cuthbert:** Thank you, Minister, for that reply. Would you also agree that microgeneration could eventually help to combat social injustice, in a similar fashion to HEES, by reducing fuel bills for those who need it most?

**Jane Davidson:** Yes, I would, especially in hard-to-heat homes in rural areas that remain off the gas network. This is why we are currently piloting the use of microgeneration technologies under HEES.

**Paul Davies:** Promoting the development of microgeneration in Wales will be essential in tackling climate change. As individuals, we all have a responsibility to take global warming seriously. Offering individuals, businesses and communities incentives to become more environmentally friendly must be the way forward. In the circumstances, will the Minister tell us what specific plans the Assembly Government has to encourage more businesses to become more environmentally friendly, especially in my constituency?

**Jane Davidson:** We give substantial funding to the Carbon Trust to advise businesses on energy efficiency. The new sustainable energy network that comes through the Energy Savings Trust specifically advises householders and communities on energy efficiency issues. In the context of the original answer that I gave to Jeff Cuthbert, we would want to strongly encourage people to use microgeneration opportunities. We have recently consulted on lifting planning barriers in that regard. That will be delivered

ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hyrwyddo datblygu microgynhyrchu yng Nghymru? OAQ(3)0304(ESH)

**Jane Davidson:** Mae polisi cyfredol wedi ei osod allan yn ein cynllun gweithredu ar ficrogynhyrchu. Yr ydym yn ymroi yn 'Cymru'n Un' i lunio strategaeth ynni a fydd yn cynnwys gweithredu ar ficrogynhyrchu, ymhlith pethau eraill. Mae microgynhyrchu hefyd yn nodwedd amlwg o'n hymgynghori ar y map llwybr ynni adnewyddadwy a gyhoeddwyd gennym fis diwethaf.

**Jeff Cuthbert:** Diolch ichi, Weinidog, am yr ateb hwnnw. A fydddech yn cytuno hefyd y gallai microgynhyrchu, maes o law, helpu atal anghyfiawnder cymdeithasol, yn debyg i HEES, drwy leihau biliau tanwydd y rheini y mae arnynt ei angen fwyaf?

**Jane Davidson:** Byddwn, yn enwedig mewn cartrefi anodd eu cynhesu mewn ardaloedd gwledig sy'n dal heb fod ar y rhwydwaith nwy. Dyna pam yr ydym, ar hyn o bryd, yn treialu defnyddio technolegau microgynhyrchu dan HEES.

**Paul Davies:** Bydd hyrwyddo datblygiad microgynhyrchu yng Nghymru yn hanfodol wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Fel unigolion, mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i gymryd cynhesu byd-eang o ddifrif. Rhaid i gynnig cymhellion i unigolion, busnesau a chymunedau ddod yn fwy ecogyfeillgar fod y ffordd ymlaen. Dan yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa gynlluniau penodol sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i annog mwy o fusnesau i fod yn fwy ecogyfeillgar, yn enwedig yn fy etholaeth i?

**Jane Davidson:** Yr ydym yn rhoi nawdd sylweddol i'r Ymddiriedolaeth Garbon i gynghori busnesau ynghylch effeithlonrwydd ynni. Mae'r rhwydwaith ynni adnewyddadwy newydd a ddaw drwy'r Ymddiriedolaeth Arbedion Ynni yn rhoi cyngor penodol i ddeiliaid tai a chymunedau ar faterion yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni. Yng nghyd-destun yr ateb gwreiddiol a roddais i Jeff Cuthbert, byddem eisiau annog pobl yn gryf i ddefnyddio cyfleoedd microgynhyrchu. Yr ydym wedi ymgynghori'n ddiweddar

in regulations later this year.

**Michael German:** One thing that you can do to help microgeneration along is to alter the planning environment and to encourage and to permit the use of microgeneration in people's homes. When do you expect the planning legislation to be in place to permit that to happen? Noting your earlier answer on building regulations, if the answer to my question is 'soon', can you indicate whether it will be one month, one year, two years, or three years?

**Jane Davidson:** I responded to that in answer to Paul Davies. We issued a planning consultation on related permitted development rights in relation to domestic properties. We are currently analysing the consultation responses, and we will bring forward legislation as soon as possible, as appropriate.

#### Community Recycling Projects

**Q9 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government support available for community recycling projects in Wales? OAQ(3)0302(ESH)

**Jane Davidson:** Cylch is a membership organisation that is core-funded by the Welsh Assembly Government. Cylch promotes and supports community-based recycling initiatives as the practical and effective solution to Welsh waste problems. It aims to position the community recycling sector as an essential partner in the future of resource management in Wales.

**Lynne Neagle:** I know that you will shortly be visiting the Circulate project, which is a part of the Garnsychan partnership, at my invitation. You will see that it is an excellent example of a community-based innovative project, which provides recycled low-cost furniture to local families. As you know, Minister, it has recently had great difficulty in securing funding, despite its excellent work and evidence that it will soon be self-sufficient. Do you agree that projects such as Circulate, which contribute to our social

ynghylch codi rhwystrau cynllunio yn hynny o beth. Darperir hynny mewn rheoliadau yn ddiweddarach eleni.

**Michael German:** Un peth y gallwch ei wneud i roi hwb ymlaen i ficrogynhyrchu yw newid yr amgylchedd cynllunio ac annog a chaniatáu defnyddio microgynhyrchu yng nghartrefi pobl. Pryd yr ydych yn disgwyl i ddeddfwriaeth cynllunio fod mewn grym i ganiatáu i hynny ddigwydd? Gan nodi eich ateb cynharach ar reoliadau adeiladu, os 'cyn hir' yw'r ateb i fy nghwestiwn, a allwch roi awgrym a fydd hynny'n fis, yn flwyddyn, yn ddwy flynedd, ynteu't dair blynedd?

cyflymder yn Hawy ei ostwng o 50 mya i 40 mya. Yr ydym yn disgwyl i ddamwain ddigwydd—mae'r ffordd yr ydym yn delio â'r pethau hyn yn golygu ein bod yn disgwyl damwain ddifrifol ac yna'n dweud, gan fod damwain ddifrifol wedi digwydd, fod yr ystadegau'n golygu y gallwn wneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa. Nid yw hynny'n ffordd foddhaol o edrych ar y problemau hyn. Mae'r gymuned honno'n berffaith iawn i ofyn am derfyn cyflymder is. Gellid defnyddio'r dull gweithredu hwnnw ledled Cymru. Mae angen inni gynnwys cymunedau yn hyn. Soniwn am ddatganoli i gymunedau lleol, ond a ydym yn golygu hynny mewn gwirionedd? Dylem ofyn i gymunedau lleol beth, yn eu barn hwy, yw derfyn cyflymder realistig ar gyfer eu cymuned, a dylem wrando arnynt. Nid ydym yn gwneud hynny'n ddigon aml.

Yr ydym yn falch cefnogi gwelliant 3. Yn amlwg, mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn gwneud synnwyr i yrwyr gymryd hoe.

**Darren Millar:** A gytunwch fod angen gwella'r arwyddion hefyd ar gyfer manau gorffwys i annog pobl i'w defnyddio, yn enwedig y rheini ar draffyrdd ac ar brif ffyrdd? Mae yna broblemau yn fy etholaeth oherwydd bod coed yn cuddio arwyddion oherwydd diffyg cynnal a chadw, ac mae'r arwyddion yn aml yn rhy fach. Mae yna anghysondeb, a byddwn yn gwerthfawrogi clywed eich safbwyntiau ar hynny.

**Nick Bourne:** Mae hwnnw'n bwynt da na fyddwch yn aml yn gweld arwydd ymhell cyn man aros ar gefnffordd neu draffordd. Mae gwledydd ar y Cyfandir, megis Ffrainc, yn gwneud hyn yn well o lawer, a bydd arwyddion da ymhell cyn cyrraedd eu manau gorffwys hwy, er nad yw eu record o ran diogelwch ar y ffyrdd yn wych mewn llawer agwedd arall. Gwnaed pwynt da gan Darren.

Wrth gloi, soniaf yn fyr am fater arall. Mae angen inni edrych ar system drwyddedu raddol i yrwyr beiciau modur. Nid wyf yn dweud o gwbl ein bod am gael gwared ar feiciau modur oddi ar ein ffyrdd, yn amlwg, ond mae angen inni wneud rhywbeth ynglŷn

some of the safety issues that arise in relation to motor bikes. Therefore, that is another thing that we could consider. I am most concerned about what this Government has done and the message that it is sending out in cutting the road safety budget, which seems to me to be complacency of the worst kind, when we should be looking at ways of reducing deaths and serious injuries on Welsh roads.

**Lorraine Barrett:** I am grateful for the opportunity to speak in this debate and I am happy to support the Welsh Liberal Democrats' amendment 2 on 20 mph zones, which, if you look at the 1998-99 figures, have made a huge contribution in halving the number of children killed or seriously injured on our roads. The 20 mph zone in front of the Albert Road Primary School in Penarth, which is situated on a very busy rat-run from Penarth town centre to the marina, has been very successful.

There are over 200 20 mph zones and 108 Safe Routes to School projects in place in Wales, but I would like to concentrate today on a concept that Members have probably heard of, which is the home zone concept. This originates from the Netherlands and focuses on achieving a balance between vehicular traffic and anyone else who uses the road, whether they are pedestrians, cyclists or residents living along those roads. Home zones work through the physical appearance of streets and roads, by removing the demarcation between motorists and pedestrians through the use of shared surfaces and the deliberate placement of things like benches, flowerbeds, play areas, lamp posts and trees, rather than just using traffic lights, crossings or cameras. They are used to alter the streets in order to force motorists to drive with greater care and at lower speeds almost naturally. Another positive side to these zones is that they do away with the need to clutter the streets with signage; there is just a home zone sign at the entrance to a road to alert motorists of the need to drive slowly and give an informal priority to other road users.

â rhai o'r problemau diogelwch sy'n codi yng nghyswllt beiciau modur. Mae hynny, felly, yn rhywbeth arall y gallem ei ystyried. Yr wyf yn hynod o bryderus am yr hyn y mae'r Llywodraeth hon wedi'i wneud a'r neges y mae'n ei rhoi wrth dorri'r gyllideb diogelwch ffyrdd. Mae'n ymddangos i mi yn hunanfodlonrwydd o'r math gwaethaf, pan ddylem fod yn ystyried sut i ostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau difrifol ar ffyrdd Cymru.

**Lorraine Barrett:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddaidl hon, ac yr wyf yn falch cefnogi gwelliant 2 gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ar barthau 20 mya. Os edrychwch ar ffigurau 1998-99, mae'r rheini wedi gwneud cyfraniad anferth i haneru nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Mae'r parth 20 mya o flaen Ysgol Gynradd Ffordd Albert ym Mhenarth, sydd ar ffordd gymudo brysur iawn o ganol tref Penarth i'r marina, wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae dros 200 o barthau 20 mya a 108 o brosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yng Nghymru, ond hoffwn ganolbwyntio heddiw ar gysyniad y mae'n debyg fod Aelodau wedi clywed amdano, sef cysyniad y parth cartrefi. Daw hwn o'r Iseldiroedd yn wreiddiol, ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau cydbwysedd rhwng traffig cerbydau ac unrhyw un arall sy'n defnyddio'r ffordd, boed yn gerddwyr, yn seiclwyr neu'n drigolion sy'n byw ar hyd y ffyrdd hynny. Mae parthau cartrefi yn gweithio drwy gyfrwng golwg ffisegol strydoedd a ffyrdd, gan ddileu'r ffin rhwng gyrwyr a cherddwyr drwy ddefnyddio arwynebau ar y cyd a gosod pethau fel meinciau, gwelyau blodau, manau chwarae, polion lamp a choed mewn manau bwriadol, yn hytrach na defnyddio goleuadau traffig, croesfannau neu gamerâu yn unig. Fe'u defnyddir i newid y strydoedd er mwyn gorfodi gyrwyr i yrru'n fwy gofalus ac yn arafach bron yn naturiol. Agwedd bositif arall ar y parthau hyn yw eu bod yn golygu nad oes angen llenwi'r strydoedd ag arwyddion; yr unig arwydd yw arwydd parth cartref ar ddechrau ffordd i dynnu sylw gyrwyr fod angen iddynt yrru'n araf a rhoi blaenoriaeth anffurfiol i bobl eraill sy'n defnyddio'r ffordd.

It would be a cultural shift and we would need to change our thinking as to why we are on the roads, who uses the roads and that they do not belong only to car drivers. However, that change would grow within our communities if we could get that message across. Home zones are a way of reclaiming the local streets for everyone, and the concept has been adopted for the Penarth Heights development in my constituency, and we hope, subject to funding, that the redevelopment of Penarth town centre can become a type of home zone that uses shared surfaces. As I said, for home zones to be successful, they will need the support of the local community, but we also need highways officials and planning authorities to start thinking more imaginatively in order to make our streets and roads safer for everyone. I will take this opportunity to ask the Minister if he will commit in his response to monitoring the impact of the nine home zone pilot schemes that are in operation in England and Wales—there is one in Monmouth, I believe. We should consider issuing local authority guidelines or legislation on planning to improve road safety and to free local streets from the dominance of cars.

**Nick Ramsay:** It is a pleasure to contribute to the debate, which has been very useful up until this point. [*Laughter.*] I will just shuffle my papers.

I wish to focus on the issue of the role of local authorities in this and what the cut in the budget will mean in practice. My colleague, Andrew R.T. Davies, mentioned his journey to north Wales and the fact that many of us rarely go on a journey without seeing flowers at the side of the road as an indication of an accident. Flowers, like statistics, often conceal the fact that we are talking about individuals of all ages who die on our roads. I fail to see how deleting the first part of our motion, which regrets the cut in the Welsh Assembly Government's road safety budget, will improve the situation on our roads. I can see the Minister laughing about that, but I fail to see what that will do. It is not being replaced with anything constructive, so it will be interesting to hear the Minister's view on that later.

Byddai'n newid diwylliant, a byddai angen inni newid ein ffordd o feddwl pam yr ydym ar y ffyrdd a phwy sy'n defnyddio'r ffyrdd, a sylweddoli nad ydynt yn berchen i yrwyr ceir yn unig. Fodd bynnag, byddai'r newid hwnnw'n tyfu yn ein cymunedau pe gallem drosglwyddo'r neges honno. Mae parthau cartrefi yn ffordd i adennill y strydoedd lleol i bawb. Mae'r cysyniad wedi'i fabwysiadu ar gyfer datblygiad Penarth Heights yn fy etholaeth, a gobeithio, gan ddibynnu ar nawdd, y gall aildatblygu canol tref Penarth fod yn fath o barth cartrefi sy'n defnyddio arwynebau ar y cyd. Fel y dywedais, er mwyn i barthau cartrefi lwyddo bydd arnynt angen cefnogaeth y gymuned leol. Ond mae angen hefyd i swyddogion priffyrdd ac awdurdodau cynllunio ddechrau meddwl yn fwy creadigol er mwyn gwneud ein strydoedd a'n ffyrdd yn fwy diogel i bawb. Manteisïaf ar y cyfle hwn i ofyn i'r Gweinidog a fydd yn ymrwymo yn ei ymateb i fonitro effaith y naw cynllun peilot parthau cartrefi sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr—mae yna un yn Nhrefynwy, mi gredaf. Dylem ystyried cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol neu ddeddfwriaeth ar gynllunio i wella diogelwch ffyrdd ac i ryddhau strydoedd lleol o oruchafiaeth ceir.

**Nick Ramsay:** Mae'n bleser cyfrannu st y ddadl: mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn hyd yn hyn. [*Chwerthin.*] Gadewch imi aildrefnu fy mhapurau.

Hoffwn ganolbwyntio ar rôl awdurdodau lleol yn hyn, ac ar yr hyn y bydd y toriad yn y gyllideb yn ei olygu'n ymarferol. Soniodd fy nghyd-Aelod, Andrew R.T. Davies, am ei daith i'r gogledd a'r ffaith mai anaml y bydd nifer ohonom yn mynd ar daith heb weld blodau ar ochr y ffordd yn dangos bod damwain wedi digwydd. Mae blodau, fel ystadegau, yn aml yn cuddio'r ffaith ein bod yn sôn am unigolion o bob oed sy'n marw ar ein ffyrdd. Ni allaf ddeall sut y bydd dileu rhan gyntaf ein cynnig, sy'n gresynu at y toriad yn y gyllideb diogelwch ffyrdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn gwella'r sefyllfa ar ein ffyrdd. Gallaf weld y Gweinidog yn chwerthin ynglŷn â hynny, ond ni allaf ddeall beth y bydd hynny'n ei gyflawni. Nid oes dim byd adeiladol yn dod yn ei le, felly, bydd yn ddiddorol clywed safbwynt y Gweinidog ar hynny'n

ddiweddarach.

I support the amendments tabled by the Liberal Democrats. I do not think that there is any argument against having a 20mph speed limit around schools. However, I was quite amazed by the comments made by the Liberal Democrats regarding the 20mph zones not applying to boarding schools. That seems incredible, so I would like to hear what the Minister has to say about that and whether we can progress a change in that regard.

It seems to me that there has been a cut in the budget of safety camera partnerships, which local authorities are heavily involved in and have done a great deal over the years to ensure a reduction in the number of accidents on our roads. It is staggering that this cut is being proposed. I know that the budget came under strain from many different areas—we all accept and appreciate that—but I do not think that the argument for this cut has been made.

The Safe Routes to School programme is a good example of partnership working to improve safety on our roads, by aiming to encourage more children to travel to school by walking, cycling and public transport, and by creating a safe environment that will make parents want to walk or cycle with their children to school, thereby making less use of their cars. There is an environmental issue in this regard, but I agree with my colleague, Andrew R.T. Davies, who said that we must consider this purely in terms of safety first and foremost—that is what people are looking for us to do here and that is what we should deliver.

The roads in Wales are our most important asset, but continual underfunding is accelerating the decline in their condition. I mentioned the road safety budget, but another issue is the state of our roads. Over and above the funding that the Government provides for the trunk road network, the amount of money that is going to councils to maintain roads, particularly rural roads in my area, is an issue. I can see the Minister shaking his head, but this is an issue that has been raised with

Cefnogaf y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Ni chredaf fod dadl o gwbl yn erbyn cael terfyn cyflymder o 20 mya o amgylch ysgolion. Fodd bynnag, yr oeddwn yn synnu braidd at sylwadau'r Democratiaid Rhyddfrydol nad yw ysgolion preswyl yn gymwys i gael parthau 20 mya. Mae hynny'n ymddangos yn rhyfeddol, felly, hoffwn glywed yr hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud am hynny ac a allwn fwrw ymlaen i newid hynny.

Ymddengys imi fod gostyngiad yng nghyllideb partneriaethau camerâu diogelwch: mae gan awdurdodau lleol ran fawr ynddynt ac maent wedi gwneud llawer iawn dros y blynyddoedd i sicrhau gostwng nifer y damweiniau ar ein ffyrdd. Mae'n syfrdanol fod y toriad hwn yn cael ei gynnig. Gwn fod y gyllideb dan bwysau o nifer o wahanol feysydd—yr ydym i gyd yn derbyn ac yn gwerthfawrogi hynny—ond ni chredaf fod y ddadl o blaid y toriad hwn wedi'i hegluro.

Mae'r rhaglen Llwybr Diogel i'r Ysgol yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth i wella diogelwch ar ein ffyrdd, drwy anelu at annog rhagor o blant i deithio i'r ysgol drwy gerdded, seiclo a defnyddio cludiant cyhoeddus, a thrwy greu amgylchedd diogel a fydd yn golygu bod rhieni eisiau cerdded neu seiclo gyda'u plant i'r ysgol, ac felly'n defnyddio llai ar eu ceir. Mae yna fater amgylcheddol yn y cyswllt hwn, ond cytunaf â'm cyd-Aelod, Andrew R.T. Davies, a ddywedodd ei bod yn rhaid inni ystyried hyn o safbwynt diogelwch yn anad dim—dyna y mae pobl yn disgwyl inni ei wneud yma, a dyna y dylem ei wneud.

Ffyrdd Cymru yw ein hased pwysicaf, ond mae tanariannu parhaus yn cyflymu eu dirywiad. Soniais am y gyllideb diogelwch ffyrdd, ond mae cyflwr ein ffyrdd yn fater arall. Yn ychwanegol at yr arian y mae'r Llywodraeth yn ei roi ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd, mae faint o arian a gaiff cynghorau i gynnal a chadw ffyrdd, yn enwedig ffyrdd gwledig yn fy ardal i, yn fater perthnasol. Gallaf weld y Gweinidog yn ysgwyd ei ben, ond mae hwn yn fater y mae

me by councils. I am sure that if you engaged with those councils, Minister, you will hear that at first hand. You must accept that there is an element of underfunding, otherwise why is it necessary—

**Eleanor Burnham:** I suspect that there will not be time for me to speak later, so I am grateful to you for allowing me to intervene.

Do you share my concern about the A55? At my party's recent conference, we submitted a very useful proposal for some rest places to be located on the road, which would not be as major as what might be possible in Powys. Will you support that campaign? We are suggesting that some 'hafanau'—which is the Welsh word for 'places'—be built. The system would be modelled on the French system of having a series of small-scale stops. We believe that the A55—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This more of a speech than an intervention.

**Nick Ramsay:** I support that proposal, along with the comments made by Darren Millar on signage for rest places, because if you are going to spend money on rest places, you also need signage.

Many of the points that I wished to make have already been covered. The roads in Wales are our most important asset. I mentioned the rural roads situation. I see, on a daily basis, the way in which rural roads are deteriorating in my constituency. The statistics relating to deaths on rural roads are quite staggering. The Institute of Advanced Motorists revealed that two thirds of deaths on rural roads occur in fine weather and during the day.

3.00 p.m.

That would not be immediately obvious, and so there must clearly be speeding on rural roads. The 60 mph national speed limit that is in place on our roads is an issue. Therefore, in responding to the debate, as well as addressing the other issues, Minister, I would be grateful to hear your thoughts on the speed

cyngorau wedi'i grybwyll wrthyf. Yr wyf yn siŵr petaech yn cysylltu â'r cyngorau hynny, Weinidog, y byddech yn clywed hynny o lygad y ffynnon. Rhaid ichi dderbyn bod elfen o danariannu, neu fel arall pam mae angen—

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn amau na fydd amser imi siarad yn ddiweddarach, felly, yr wyf yn ddiolchgar ichi am ganiatáu imi ymyrryd.

A ydych chi, fel finau, yn pryderu ynglŷn â'r A55? Yng nghynhadledd fy mhlaidd yn ddiweddar, cyflwynwyd cynnig defnyddiol iawn gennym i gael manau gorffwys ar hyd y ffordd. Ni fyddent mor sylweddol â'r hyn a allai fod yn bosibl ym Mhowys. A wnewch chi gefnogi'r ymgyrch honno? Awgrymwn y dylid codi rhai 'hafanau'. Byddai'r system wedi'i modelu ar system Ffrainc o gael cyfres o fannau aros ar raddfa fach. Credwn fod yr A55—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae hon yn fwy o araith nag o ymyriad.

**Nick Ramsay:** Cefnogaf y cynnig hwnnw, ynghyd â'r sylwadau a wnaethpwyd gan Darren Millar am arwyddion ar gyfer manau gorffwys, oherwydd os ydych am wario arian ar fannau gorffwys, mae arnoch angen arwyddion hefyd.

Mae llawer o'r pwyntiau yr oeddwn eisiau eu codi eisoes wedi'u trafod. Ffyrdd Cymru yw ein hased pwysicaf. Soniais am y sefyllfa o ran ffyrdd gwledig. Gwelaf bob dydd y modd y mae ffyrdd gwledig yn dirywio yn fy etholaeth. Mae'r ystadegau o ran marwolaethau ar ffyrdd gwledig yn gwbl syfrdanol. Datgelodd Sefydliad y Gyrwyr Safon Uwch fod dwy ran o dair o farwolaethau ar ffyrdd gwledig yn digwydd mewn tywydd braf ac yn ystod y dydd.

Ni fyddai hynny'n amlwg ar unwaith, ac mae'n amlwg felly fod pobl yn gyrru'n rhy gyflym ar ffyrdd gwledig. Mae'r terfyn cyflymdra cenedlaethol o 60 milltir yr awr sydd mewn grym ar ein ffyrdd yn broblem. Felly, wrth ymateb i'r ddadl, yn ogystal â rhoi sylw i'r problemau eraill, Weinidog,

limits operating on those roads, and whether there is any potential to vary them. Lowering speed limits would lower the number of people killed on our roads.

**Gareth Jones:** Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Mae'n syndod imi fod y Ceidwadwyr yn honni cyfres o doriadau yn ystod y tair blynedd sydd o dan sylw. Ni wn o ba le y maent wedi cael y ffigurau hyn oherwydd, yn ôl yr wybodaeth a gefais gan wasanaeth ymchwil yr Aelodau a gwybodaeth arall sydd gennyf, rhwng 2008-09 a 2010-11, bydd cyllid gwirioneddol diogelwch ffyrdd yn mynd i fyny. Mae cefnogaeth refeniw i raglenni diogelwch ffyrdd, cefnogaeth gyfalaf i wella diogelwch ffyrdd a chefnffyrdd, a grantiau cyfalaf tuag at ddiogelwch ffyrdd oll yn mynd i fyny. Cyfanswm y cynnydd hwnnw yw £56,000. Derbyniaf nad yw'r cyllid wedi mynd i fyny llawer ond, yn sicr, nid yw wedi gostwng.

**Andrew R.T. Davies:** The figures come from the draft budget on road safety measures. The indicative figure started off at £14.241 million but, once the budget was approved, that had come down to £14.108 million, and £14.225 million for each of the subsequent two years, which is a cut of £61,000 in year 1 and £16,000 in years 2 and 3, and that does not account for inflation.

**Gareth Jones:** Nid dyna'r ffigurau sydd gennyf i. Gallwn eu dyfynnu'n llawn ichi.

Ni ddeallaf pam mae'r Ceidwadwyr yn pigo ar y tair blynedd hyn. Bu i Nick Bourne gyfeirio at y darlun ehangach. Pe baech yn edrych yn ôl at 2005-06 ac ar y cynnydd hyd at 2010-11, fe welech gynnydd sylweddol yn yr arian a fuddsoddir mewn diogelwch ffyrdd. Felly, ni chytunaf â'ch ffigurau ac ni allaf gyd-fynd â phwynt cyntaf eich cynnig.

Yr ydych yn dethol rhai ystadegau. Mae'r hyn yr ydych yn ei wneud yn gamarweiniol ac yr ydych yn euog o gamddefnyddio'r ystadegau hynny. Felly, yr ydym yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones.

byddwn yn falch clywed eich barn am y terfynau cyflymdra sydd mewn grym ar y ffyrdd hynny, ac a oes unrhyw bosibilrwydd eu newid. Byddai gostwng terfynau cyflymdra yn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd ar ein ffyrdd.

**Gareth Jones:** Thank you for the opportunity to contribute to this important debate. It surprises me that the Conservatives insist that there has been a series of cuts during the three years in question. I do not know where they have obtained these figures because, according to the information I received from the Members' research service and other information that I have, between 2008-09 and 2010-11 actual funding for road safety is to increase. Revenue support for road safety programmes, capital support to improve safety on roads and trunk roads, and capital grants towards road safety are all on the increase. The total of that increase is £56,000. I accept that the funding has not increased substantially, but certainly, it has not been reduced.

**Andrew R.T. Davies:** Daw'r ffigurau o'r gyllideb ddrafft ar gyfer mesurau diogelwch ffyrdd. Yr oedd y ffigur dangosol yn £14.241 miliwn ar y cychwyn, ond ar ôl cymeradwyo'r gyllideb yr oedd hwnnw wedi dod i lawr i £14.108 miliwn, a £14.225 miliwn am bob un o'r ddwy flynedd ddilynol, sy'n ostyngiad o £61,000 ym mlwyddyn 1 ac £16,000 ym mlynnyddoedd 2 a 3, ac nid yw hynny'n ystyried chwyddiant.

**Gareth Jones:** Those are not the figures that I have. I could quote them in full for you.

I cannot understand why the Conservatives have picked on these three years. Nick Bourne referred to the wider picture. If you were to look back to 2005-06 and at the increase up to 2010-11, you would see a substantial increase in the amount invested in road safety. Therefore, I do not agree with your figures, and I cannot agree with the first point of your motion.

You are selecting certain statistics. What you are doing is misleading and you are guilty of misusing those statistics. Therefore, we support amendment 1 in the name of Carwyn Jones.



O ran pwynt 2 cynnig y Ceidwadwyr, yr ydym oll yn gwerthfawrogi pwysigrwydd rhwydwaith ffyrdd a gynhelir yn dda er mwyn sicrhau diogelwch modurwyr, ac yr wyf yn falch o gefnogi gwelliant 2 yn enw Kirsty Williams. Bu cefnogi a buddsoddi mewn parthau 20 mya o gwmpas ysgolion yn bolisi gan Blaid Cymru ers tro; yr oedd yn ein manifesto ac mae'n rhan o gytundeb 'Cymru'n Un'.

Mae'r uwch-arolygydd Geraint Anwyl wedi nodi bod cynllun yr A55 yn ddiffygiol yn y lle cyntaf a bod gwir angen gwelliannau i gael y ffordd yn addas ar gyfer trafndiaeth fodern—fel y gwyddom oll. Wrth gwrs, ni fydd hynny'n digwydd dros nos. Bûm yn siarad â chynrychiolwyr Sustrans yn ddiweddar ynghylch llwybr beicio sy'n rhedeg wrth ymyl y ffordd wrth dwnnel Pen-y-clip, a gobeithio y gwelwn welliannau yno yn fuan.

Mae angen sicrhau adnoddau gwell i yrwyr lorïau, a chytunaf â'r hyn ddywedodd Andrew ar y cychwyn. Byddai un neu ddau le iddynt gael gorffwys ar yr A55 yn fuddiol—iddynt hwy ac i deithwyr eraill.

Er hynny, ni allwn gefnogi gwelliant 3. O ystyried y problemau y mae angen eu datrys ar y A55, a gwyddom oll amdanynt, rhaid bod mor hyblyg â phosibl gyda'r ddarpariaeth. Ni allwn dderbyn geiriad y gwelliant, gan ei fod yn rhy amwys a digyfeiriad. Sawl arhosfa sydd ei hangen, ac ym mha le y dylid eu rhoi? Byddai cael tir gan lawer o wahanol dirfeddianwyr yn broses hir, costus ac anymarferol. Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ystyried y ddadl yn ddigon trwyadl, ac felly yr ydym yn amharod i gefnogi eu gwelliant 3.

**Angela Burns:** I thank Andrew R.T. Davies for tabling this important motion. I do not have much time, so I will cut to the chase. I will pick up on a point that Gareth Jones made, namely that there has been a lot of funding for road safety and how fantastic the Government is for providing it. You are absolutely right; the Government is fantastic for doing that, but there is a really important reason why we need to keep up road funding,

As for the Conservatives' second point in the motion, we all recognise the importance of a well-maintained road network to ensure the safety of drivers, and I am pleased to support amendment 2 in the name of Kirsty Williams. Supporting and investing in 20 mph zones around schools has been a Plaid Cymru policy for some time; it was in our manifesto and it is part of the 'One Wales' agreement.

Superintendent Geraint Anwyl has said that the original design for the A55 was deficient and that there is a real need for improvements to make the road suitable for modern traffic—as we are all aware. Of course, that will not happen overnight. I have been speaking recently to representatives from Sustrans regarding a cycle path alongside the road by the Pen-y-clip tunnel, and hopefully we will see improvements there soon.

We need to ensure better resources for lorry drivers, and I agree with what Andrew said at the beginning. One or two resting areas on the A55 would be beneficial—both for them and for other travellers.

Even so, we cannot support amendment 3. Considering the problems that need to be resolved on the A55, and we are all aware of them, we have to be as flexible as possible with the provision. We cannot accept the wording of the amendment, because it is too vague and lacks direction. How many stopping areas are required, and where should they be placed? Obtaining land from a number of different landowners would be a long, costly and impractical process. The Liberal Democrats have not considered the argument in sufficient detail, and therefore we are unwilling to support amendment 3.

**Angela Burns:** Hoffwn ddiolch i Andrew R.T. Davies am gyflwyno'r cynnig pwysig hwn. Nid oes gennyf lawer o amser, felly af yn syth at y pwynt. Dywedodd Gareth Jones fod llawer o arian wedi'i neilltuo ar gyfer diogelwch ffyrdd a bod y Llywodraeth i'w channol yn fawr am neilltuo'r arian hwn. Yr ydych yn llygad eich lle; mae'r Llywodraeth i'w channol am wneud hynny, ond mae yna reswm pwysig iawn pam y mae angen inni

and I will cite just one example.

In my constituency of Carmarthen West and South Pembrokeshire, Dyfed-Powys Police has taken a hard-hitting road safety campaign to local schools, targeted specifically at sixth formers. It is graphic. It includes videos, pictures and photographs of real people, real situations and real deaths. It has shocked a heck of a lot of these kids. It has enabled full and frank discussions about why so many young people are involved in road accidents. In Pembrokeshire alone, almost half of all deaths over the past five years have involved children or young people under the age of 22. They are not all mad and on the booze; a lot of it is to do with sheer inexperience. It is a rural society with winding roads, which can be dark and dangerous. Dyfed-Powys Police has been around every sixth form college and sixth form in schools, which is fantastic, but those children have grown up and moved on, so there is another bunch of 17 to 18-year-olds that need to be hit with this. We need to be in those schools every year to talk to them when they are at such a tender age about why it is so important to be careful on our roads. That is why we need this funding, so please give it back to us, Minister.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Yr wyf yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r drafodaeth hon. Er bod gwahaniaeth barn rhyngom ynglŷn â'r ffigurau, mae eithaf cytundeb rhwng y pleidiau ynglŷn â phwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd. Yr wyf am bwysleisio un neu ddau o bethau ar y dechrau.

Y broblem sydd gennyf gyda chymal cyntaf cynnig y Ceidwadwyr yw eu bod yn gresynu at y toriad yn yr arian sydd ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd, ond nid ydynt yn awgrymu o ba le y byddai'r arian yn dod i'w roi yn ôl yn y gyllideb. Byddai gennyf fwy o

barhau i neilltuo arian ar gyfer ffyrdd, ac yr wyf am roi un enghraifft ichi.

Yn fy etholaeth i, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi mynd ag ymgyrch rymus i wella diogelwch ar y ffyrdd i ysgolion lleol, gan dargedu disgyblion chweched dosbarth yn benodol. Mae'n ymgyrch afaelgar. Mae'n cynnwys fideos, lluniau a ffotograffau o bobl go iawn, sefyllfaoedd go iawn a marwolaethau go iawn. Mae wedi dychryn llawer iawn o'r plant hyn. Mae wedi arwain at drafodaethau llawn ac agored ynglŷn â pam y mae cynifer o bobl ifanc yn gysylltiedig â damweiniau ffyrdd. Yn sir Benfro yn unig, mae bron i hanner yr holl farwolaethau yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn farwolaethau plant neu bobl ifanc dan 22 oed. Nid yw pob un ohonynt yn wallgof ac ar y cwrw; diffyg profiad yw rhan o'r broblem. Mae'n gymdeithas wledig gyda ffyrdd troellog, a all fod yn dywyll ac yn beryglus. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymweld â phob coleg chweched dosbarth a phob ysgol sydd â chweched dosbarth. Mae hynny'n wych, ond mae'r plant hynny wedi tyfu a symud ymlaen, ac mae gennym griw arall o bobl ifanc 17 a 18 oed y mae angen iddynt glywed y neges hon. Mae angen inni fod yn yr ysgolion hynny bob blwyddyn i gael y disgyblion i ddeall yn ifanc iawn pam y mae mor bwysig iddynt fod yn ofalus ar ein ffyrdd. Dyna pam y mae arnom angen yr arian hwn, felly, rhowch yr arian yn ôl i ni os gwelwch yn dda, Weinidog.

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I am pleased to have the opportunity to respond to this debate. Although there is a difference of opinion between us regarding the figures, there is general agreement between the parties regarding the importance of road safety. I wish to emphasise one or two things to begin with.

The problem I have with the first part of the Conservative motion is that they regret the cut in funding for road safety, but they do not suggest where the funding would be obtained to put back into the budget. I would have much more respect for them had they been

barch o lawer atynt pe baent wedi bod yn fwy gonest, ac wedi dweud eu bod yn gresynu at y ffaith bod yr arian hwn wedi cael ei dorri yn y gyllideb benodol hon ond eu bod am weld arian yn cael ei symud o gyllideb arall i wneud iawn am y diffyg. Fodd bynnag, nid oeddent mewn sefyllfa i wneud hynny.

**Andrew R.T. Davies:** What about the £50 million held in reserves?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'n braf iawn ar y Toriaid; mae popeth yn dod o'r cronfeydd wrth gefn. Pe baent yn cael gafael ar arian y Llywodraeth, ni fyddai cronfeydd wrth gefn ar ôl, a byddem mewn twll wedyn.

**Nick Bourne:** I am grateful to the Deputy First Minister for giving way. Inherent in what he is saying is that it is true that there has been a cut in this budget, and the only reason the Government's amendment 1 sought to delete the relevant point of our motion is because it does not regret the cut. It admits that there is a cut, but it does not regret it.

He knows very well—because we had discussions on these matters—that this would not have been part of any governmental programme had we joined forces in the rainbow alliance. He also knows that all the proposals that we put forward were thoroughly costed. We would have sold some of the massive landholdings that the Government sits upon, for example, although people like Carl Sargeant do not want to do that. Therefore, there are many other ways in which you could have financed a proper road safety budget.

**The Deputy First Minister:** You can sell land only once. Revenue makes up a substantial part of the budget that the Conservatives are regretting a cut in, and that must be put in every year. There is a revenue implication to this, but it seems that the Conservatives do not understand how budgets work.

It is clear from the flow of the transport budgets that virtually all the budget heads

more honest, and said that they regretted the cut in funding in this specific budget but that they wanted to see the funding transferred from another budget to compensate for the deficit. However, they were not in a position to do that.

**Andrew R.T. Davies:** Beth am yr £50 miliwn sydd mewn cronfeydd wrth gefn?

**The Deputy First Minister:** It is very easy for the Tories; everything comes from the reserves. If they were to get hold of Government funding, there would be no reserves left, and then we would be in dire straits.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog am ildio. Yr hyn y mae'n ei ddweud yn y bôn yw ei bod yn wir bod y gyllideb hon wedi ei thorri, a'r unig reswm pam yr oedd gwelliant 1 gan y Llywodraeth yn ceisio dileu pwynt perthnasol ein cynnig yw nad yw'n gresynu bod toriad wedi'i wneud. Mae'n cyfaddef bod toriad, ond nid yw'n gresynu.

Mae'n gwybod yn iawn—oherwydd cawsom drafodaethau ar y materion hyn—na fyddai hyn wedi bod yn rhan o unrhyw raglen lywodraethol petaem wedi dod at ein gilydd yn y gynghrair enfys. Mae hefyd yn gwybod ein bod wedi rhoi ystyriaeth ofalus i gostau pob un o'r cynigion a gyflwynwyd gennym. Byddem wedi gwerthu rhai o'r tirdaliadau helaeth y mae'r Llywodraeth yn eistedd arnynt, er enghraifft, er nad yw pobl fel Carl Sargeant am wneud hynny. Felly, gallech fod wedi ariannu cyllideb briodol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd mewn llaw er o ffyrdd eraill.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Dim ond unwaith y gallwch werthu tir. Mae refeniw yn rhan sylweddol o'r gyllideb y mae'r Ceidwadwyr yn gresynu gweld toriad ynddi, a rhaid rhoi hynny i mewn bob blwyddyn. Mae goblygiadau refeniw yn y cyswllt hwn, ond mae'n ymddangos nad yw'r Ceidwadwyr yn deall sut mae cyllidebau'n gweithio.

Mae'n amlwg o lif y cyllidebau trafndiaeth bod penawdau'r gyllideb i gyd, fwy neu lai, yn cyfrannu at ddiogelwch ar y ffyrdd, ac yr

make a contribution to road safety, and I will mention them as I go through my speech.

I ddychwelyd at yr hyn y cyfeiriodd Andrew R.T. Davies ato, o ran y toriadau—a chyfeiriodd Angela Burns, Nick Ramsay ac eraill hefyd at hynny yn benodol—mae'n ffaith bod y ffigurau a'r grantiau sydd ar gael ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

3.10 p.m.

Os edrychwn, er enghraifft, ar ffigurau 2005-06, gwelwn fod £19.6 miliwn ar gael. Rhwng 2006-07, yr oedd £20 miliwn. Yr oedd cynnydd o £20 miliwn i £30 miliwn yn 2007-08, sef cynnydd o £10 miliwn mewn un flwyddyn, ac yr oedd hynny am fod arian dros dro wedi'i roi yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

Felly, mae'r cyfanswm o £28 miliwn ar gyfer 2008-09 yn cymharu'n deg â 2005-06 a 2006-07. Felly, nid yw'n wir dweud bod y toriadau hyn wedi digwydd eleni; maent yn gynydd sylweddol ar yr hyn oedd ar gael ddwy flynedd yn ôl. Cyfeiria'r Ceidwadwyr at un flwyddyn lle yr oedd un ymchwydd am un flwyddyn, ac yr oedd hynny oherwydd taliadau yn ystod y flwyddyn hyd at hynny.

Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r Ceidwadwyr y dylem edrych ar y ffigurau o safbwynt damweiniau. Yr ydym i gyd yn derbyn erbyn hyn y cymerwyd camau sylweddol. Mae unrhyw un ddamwain lle y caiff rhywun ei ladd neu ei niweidio ynddi yn un ddamwain yn ormod. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed o ran cyrraedd targedau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol erbyn 2010, sef sicrhau 40 y cant o ostyngiad yn nifer y bobl a leddir neu a niweidir yn ddifrifol, 50 y cant yn nifer y plant a leddir neu a niweidir yn ddifrifol, a 10 y cant yn nifer yr anafiadau ysgafn. Felly, gwneir cynnydd sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'n wir bod unrhyw ddamwain yn anffodus, ond gwelwyd cynnydd yn hynny o beth, a rhaid i ni dderbyn y cynnydd hwnnw.

I was intrigued by Nick Ramsay's point that the Government is giving an extra £15

wyf am gyfeirio atynt yn ystod fy araith.

To return to what Andrew R.T. Davies referred to, in terms of the cuts—and Angela Burns, Nick Ramsay and others also referred specifically to this—it is a fact that the figures and grants available for road safety have increased substantially over recent years.

For instance, if we look at the figures for 2005-06 we see that £19.6 million was available. In 2006-07, there was £20 million. There was an increase from £20 million to £30 million in 2007-08, which is an increase of £10 million in one year, and that was because temporary funding had been added to the budget during the year.

Therefore, the total of £28 million for 2008-09 compares favourably with 2005-06 and 2006-07. Therefore, it is not true to say that these cuts have occurred this year; they are a substantial increase on what was available two years ago. The Conservatives refer to one year which saw a rise for one year, and that was due to payments in the year leading up to it.

I agree entirely the Conservatives that we should look at the figures from the point of view of accidents. By now we all accept that substantial steps have been taken. Any accident where someone is killed or seriously injured is one accident too many. However, we must recognise the substantial progress made in meeting the United Kingdom Government targets by 2010, which is to secure a reduction of 40 per cent in the number of people killed or seriously injured, 50 per cent in the number of children killed or seriously injured, and 10 per cent in the number of slight injuries. Therefore, substantial progress has been made year on year. It is true that any accident is unfortunate, but there has been progress, and we must recognise that progress.

Yr oedd yn ddiddorol clywed pwynt Nick Ramsay fod y Llywodraeth yn rhoi £15

million a year to our local authorities to improve their road maintenance backlog programme, and yet but he did not give us any credit for that. If Members had listened to Nick, they would have thought that we were cutting the money to local authorities, but we are not; we are increasing it, and increasing it substantially. We have agreed this with the local authorities and with the Welsh Local Government Association. If local authorities are not—

**Nick Ramsay** *rose*—

**The Deputy First Minister:** I am not giving way; you have made your points, Nick, and I have only a few minutes left.

It is not the Government's fault if local authorities are not increasing their spend. If Nick wants a discussion about this, let him discuss it with his local authority—and all the other Conservative Members can discuss the matter with their local authorities.

I now turn to the amendments. We obviously want Members to support the Government's amendment 1, because it recognises that the Government is making a great deal of effort to reduce the number of accidents on our roads. We are achieving some substantial results on that, although we have some way to go.

We support amendment 2, in the name of Kirsty Williams, on the presumption of a 20 mph speed limit around all schools in Wales. I think that we are all united on the fact that introducing these zones will make substantial savings in relation to accidents and their impact. Therefore, I am happy to support that amendment, although we must draw a distinction between local roads and trunk roads. We accept the amendment entirely in relation to local roads; in relation to trunk roads, however, we will look at changing our guidelines to see how much progress can be made regarding schools sited on trunk roads. I am afraid that I cannot give Kirsty an answer today on residential schools, but I will write to her about that. I personally want to look at that matter, as I see no reason why

miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn i'n hawdurdodau lleol er mwyn iddynt allu gwella'u rhaglen ar gyfer gwaith cynnal a chadw ffyrdd sydd wedi cronni. Ond eto ni roddodd unrhyw glod i ni am hynny. Petai'r Aelodau wedi gwranddo ar Nick, byddent wedi meddwl ein bod yn rhoi llai o arian i awdurdodau lleol, ond nid ydym yn gwneud hynny; yr ydym yn rhoi mwy, ac yn rhoi llawer mwy. Yr ydym wedi cytuno hyn gyda'r awdurdodau lleol a chyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Os nad yw awdurdodau lleol yn—

**Nick Ramsay** *a gododd*—

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf am ildio; yr ydych wedi gwneud eich pwyntiau, Nick, a dim ond ychydig funudau sydd ar ôl imi.

Nid ar y Llywodraeth y mae'r bai os nad yw awdurdodau'n cynyddu eu gwariant. Os yw Nick yn awyddus i gael trafodaeth ar y mater hwn, byddai'n well iddo'i drafod gyda'i awdurdod lleol—a gall pob Aelod Ceidwadol arall drafod y mater gyda'i awdurdod lleol.

Trof yn awr at y gwelliannau. Yr ydym wrth reswm yn awyddus i Aelodau gefnogi gwelliant 1 gan y Llywodraeth, gan ei fod yn cydnabod bod y Llywodraeth yn ymdrechu'n galed iawn i leihau nifer y damweiniau ar ein ffyrdd. Yr ydym yn cael rhai canlyniadau sylweddol yn y cyswllt hwnnw, ond mae llawer o waith i'w wneud eto.

Yr ydym yn cefnogi gwelliant 2, yn enw Kirsty Williams, ynglŷn â'r rhagdybiaeth o derfyn cyflymdra o 20 mya o amgylch pob ysgol yng Nghymru. Credaf ein bod i gyd yn unfryd ynglŷn â'r ffaith y bydd cyflwyno'r parthau hyn yn arwain at arbedion sylweddol mewn damweiniau a'u heffeithiau. Felly, yr wyf yn falch cefnogi'r gwelliant hwnnw, ond rhaid inni wahaniaethu rhwng ffyrdd lleol a chefnffyrdd. Yr ydym yn derbyn y gwelliant yn gyfan gwbl yng nghyswllt ffyrdd lleol; yng nghyswllt cefnffyrdd, fodd bynnag, byddwn yn ystyried newid ein canllawiau er mwyn gweld faint o gynnydd y gellir ei wneud gyda golwg ar ysgolion sydd wedi'u lleoli ar gefnffyrdd. Mae gennyf ofn na allaf roi ateb i Kirsty heddiw ynglŷn ag ysgolion preswyl, ond byddaf yn ysgrifennu ati ynglŷn

that cannot be amended.

On amendment 3, on small-scale rest areas, I agree with the sentiments of the amendment, but I would like more flexibility for the Government in the way that we do this. Let me make this clear: the problem is not that rest areas are not being proposed, but that, when they are proposed, there is opposition to them. We must overcome that opposition. My advice to the Assembly is to support amendment 1, vote in favour of amendment 2, and reject amendment 3.

**Andrew R.T. Davies:** I thank everyone who contributed to the debate this afternoon, although some contributions were more meaningful and useful than others. We have had various contributions. Kirsty Williams mentioned the anomaly of the 20 mph zone in her constituency, especially in the area around Christ College, Brecon, which I know exceptionally well, as well as the road network around Howey, which, sadly, is nearly as accident-prone as many stretches of the A470 in her constituency. There has been an ongoing campaign to reduce the speed limit in that area, and we are with her on that.

Lorraine Barrett highlighted the need to respect all road users in built-up areas, and how that is a consensual issue. Road engineers, the public, and public interest bodies must work together to ensure that people are not frightened to use the roads, and that the car is not king, but just one element in the transport network. I welcome Lorraine's comments, as I know Penarth particularly well, and the initiatives that are being progressed there.

Nick Ramsay mentioned local government, which has a key role to play in delivering a well-maintained road network. There is an anomaly that I find time and again in my constituency—when I visit community councils, they tell me that they are seeking funding for traffic calming measures and road improvement measures, but the budget is not

â hynny. Yr wyf yn awyddus i edrych ar y mater hwnnw'n bersonol, gan na welaf ddim reswm pam na ellir newid hynny.

O ran gwelliant 3, parthed manau gorffwyso ar raddfa fach, cytunaf â syniadau'r gwelliant, ond hoffwn gael mwy o hyblygrwydd i'r Llywodraeth yn y ffordd y gwnawn hyn. Gadewch imi egluro hyn: nid bod manau gorffwyso'n cael eu cynnig yw'r broblem, ond bod gwrthwynebiad iddynt pan gânt eu cynnig. Rhaid inni oresgyn y gwrthwynebiad hwnnw. Fy nghyngor i'r Cynulliad yw y dylid cefnogi gwelliant 1, pleidleisio o blaid gwelliant 2, a gwrthod gwelliant 3.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl y prynhawn yma, er bod rhai cyfraniadau'n fwy ystyrlon a defnyddiol nag eraill. Yr ydym wedi cael cyfraniadau amrywiol. Crybwyllodd Kirsty Williams anghysondeb y parth 20 mya yn ei hetholaeth hi, yn arbennig yn yr ardal yr wyf yn ei hadnabod yn dda o gwmpas Coleg Crist, Aberhonddu, yn ogystal â'r rhwydwaith ffyrdd o gwmpas Hawau sydd, gwaetha'r modd, mor dueddol o gael damweiniau ag yw nifer o ddarnau o'r A470 yn ei hetholaeth hi. Mae ymgyrch barhaus wedi bod i ostwng y terfyn cyflymdra yn yr ardal honno, a chynunwn â hi ar hynny.

Tynnodd Lorraine Barrett sylw at yr angen i barchu pawb sy'n defnyddio'r ffyrdd mewn ardaloedd adeiledig, a bod hynny'n fater cydsyniol. Rhaid i beirianwyr ffyrdd, y cyhoedd, a chyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd gydweithio i sicrhau na fydd pobl yn cael eu dychryn wrth ddefnyddio'r ffyrdd, ac nad yw'r car yn frenin, ond yn un elfen yn unig yn y rhwydwaith trafndiaeth. Yr wyf yn croesawu sylwadau Lorraine, oherwydd yr wyf yn adnabod Penarth yn arbennig o dda, a'r mentrau sy'n mynd ymlaen yno.

Crybwyllodd Nick Ramsay lywodraeth leol, sydd â rôl allweddol wrth sicrhau rhwydwaith ffyrdd sy'n cael ei gadw mewn cyflwr da. Dro ar ôl tro yn fy etholaeth i gwelaf fod anghysondeb—pan ymwelaf â chynghorau cymuned, dywedant wrthyf eu bod yn ceisio cael cyllid ar gyfer mesurau tawelu traffig a mesurau gwella ffyrdd, ond nid yw'r gyllideb

there to deliver. However, the Minister said that there is extra money coming through on this.

**Nick Ramsay:** In the case of my local authority, would you agree that the £500,000 that it will receive in order to bring its roads up to standard, while welcome, will not go anywhere near to clearing the £50 million backlog in that authority? I know that there is a similar situation in other local authorities. The money is simply not enough.

**Andrew R.T. Davies:** I agree categorically, and the number of problems that many Members deal with demonstrates that what the Minister has told us today is not what is happening on the ground—when you talk to local authorities, they say that they have been starved of investment.

Nick Bourne highlighted the problems in his area, Mid and West Wales, and I think that we all empathise with him, because that is the area where the largest number of traffic accidents occur, because of the challenging terrain and the lack of investment in the road infrastructure, as well as the inability of drivers to find places to rest on what are tiring and challenging roads. Nick agreed with Kirsty about speed limits on roads in mid Wales, especially around the village of Howey, and also suggested testing motorcyclists, and addressing the motorcycle issue that blights many areas of mid Wales, especially at weekends.

Gareth then spoke in defence of the Government, saying that there had not been a cut, but the Minister contradicted him. I also put a request in to the Members' research service, Gareth, and the document that I have clearly states that there is a decrease in both the capital and revenue budgets. We might disagree on the figures, but I have a piece of paper, and you have a piece of paper, and the public can read the budget, and there is a comprehensive cut, and inflation is not factored in. You did raise the issue with the Minister when he came before your committee, Gareth, because I have read it in the transcript of the meeting.

yno i gyflawni. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod arian ychwanegol yn dod drwodd ar gyfer hyn.

**Nick Ramsay:** Yn achos fy awdurdod lleol i, a fyddech yn cytuno, er bod y £500,000 a gaiff i ddod â'i ffyrdd i safon yn cael ei groesawu, na fydd hynny'n ddigon o'r hanner i glirio'r ôl-groniad o £50 miliwn yn yr awdurdod hwnnw? Gwn fod sefyllfa debyg mewn awdurdodau lleol eraill. Yn syml, nid yw'r arian yn ddigon.

**Andrew R.T. Davies:** Cytunaf yn bendant, ac mae nifer y problemau y mae llawer o Aelodau'n delio â nhw yn dangos nad yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud wrthym heddiw yw'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad—pan siaradwch ag awdurdodau lleol, dywedant eu bod wedi'u hamddifadu o fuddsoddiad.

Tynnodd Nick Bourne sylw at y problemau yn ei ardal ef, Canolbarth a Gorllewin Cymru, oherwydd dyna'r ardal lle mae'r nifer mwyaf o ddamweiniau traffig yn digwydd, oherwydd y tir heriol a'r diffyg buddsoddi yn y seilwaith ffyrdd, yn ogystal ag anallu gyrywyr i gael manau gorffwys ar ffyrdd sy'n flinedig ac yn heriol. Cytunai Nick â Kirsty ynghylch terfynau cyflymdra ar ffyrdd yng nghanolbarth Cymru, yn arbennig o gwmpas pentref Hawau, ac awgrymodd hefyd y dylid rhoi profion i feicwyr modur, a mynd i'r afael â mater beiciau modur sy'n bla mewn nifer o ardaloedd yng nghanolbarth Cymru, yn arbennig ar benwythnosau.

Yna siaradodd Gareth o blaid y Llywodraeth, gan ddweud na fu toriad, ond cafodd ei wrthddweud gan y Gweinidog. Rhoddais innau gais i mewn i wasanaeth ymchwil yr Aelodau, Gareth, ac mae'r ddogfen sydd gennyf yn dweud yn glir bod gostyngiad yn y cyllidebau cyfalaf a refeniw. Efallai ein bod yn anghytuno ynghylch y ffigurau, ond mae gennyf ddarn o bapur, ac mae gennyf chithau ddarn o bapur, a gall y cyhoedd ddarllen y gyllideb, ac mae toriad cyffredinol, ac nid yw chwyddiant wedi'i gynnwys. Codasoch y mater gyda'r Gweinidog pan ddaeth gerbron eich pwyllgor, Gareth, oherwydd darlennais hynny yn nhrawsgrifiad y cyfarfod.

**Gareth Jones:** Will you accept that the overall figure shows a significant increase in investment in road safety between 2005-06 and 2010-11? The figures that you have, and the figures that I have, clearly indicate that.

**Andrew R.T. Davies:** You know that those are only indicative figures, and the paper that I have indicates a £16,000 cut in that budget. We have seen time and again how the Government acts, and the Minister's failure to address the intervention by my colleague, Nick Ramsay, specifically on the local government issue, emphasised how Windy Wyn does not take the issue of road safety seriously. Minister, you need to address the issue, because while progress has been made, 164 fatalities on Welsh roads is nowhere near low enough for any Member in this institution. You can shake your head, but the resources must be put in to action the policies.

3.20 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection, so we will defer the votes until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

#### **Yr Iaith Gymraeg The Welsh Language**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Carwyn Jones.

**Paul Davies:** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal ei hasesiad annibynnol ei hun o'r effaith ar y Gymraeg cyn ymgynghori ar gau unrhyw ysgolion ac i gyhoeddi'r adroddiad er mwyn iddo allu bod yn sail i'r broses*

**Gareth Jones:** A dderbyniwch fod y ffigur cyffredinol yn dangos cynnydd sylweddol mewn buddsoddi mewn diogelwch ffyrdd rhwng 2005-06 a 2010-11? Mae'r ffigurau sydd gennych chi, a'r ffigurau sydd gennyf fi, yn dangos hynny'n glir.

**Andrew R.T. Davies:** Gwyddoch mai ffigurau dangosol yn unig yw'r rheini, ac mae'r papur sydd gennyf fi yn dangos toriad o £16,000 yn y gyllideb honno. Gwelsom dro ar ôl tro sut y mae'r Llywodraeth yn gweithredu, ac yr oedd methiant y Gweinidog i fynd i'r afael ag ymyriad fy nghyd-Aelod, Nick Ramsay, ar fater llywodraeth leol yn benodol, yn pwysleisio nad yw Windy Wyn yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i fater diogelwch ffyrdd. Weinidog, rhaid ichi fynd i'r afael â'r mater, oherwydd er bod cynnydd wedi'i wneud, nid yw 164 o farwolaethau ar ffyrdd Cymru yn ddigon isel o gwbl i unrhyw Aelod yn y corff hwn. Gallwch ysgwyd eich pen, ond rhaid i'r adnoddau gael eu rhoi i mewn i droi'r polisïau'n weithredoedd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw ein bod yn cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod, felly, gohiriwn y pleidleisio tan yr amser pleidleisio.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Carwyn Jones.

**Paul Davies:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*1. calls upon the Welsh Assembly Government to undertake its own independent Welsh language impact assessment prior to consultation on any school closure and to publish the report to*



*ymgyngori;*

*2. yn credu y dylai'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg gomisiynu asesiad effaith o'r fath nes sefydlir Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, ac yn dilyn hynny dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r comisiynydd. (NDM3897)*

Mae'n bleser cynnig y ddadl hon y prynhawn yma yn enw William Graham ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Mae'r ddadl hon yn un bwysig iawn gan fod ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn chwarae rhan allweddol yn ein cymunedau. Nid ydynt ond yn addysgu ein plant, ond yn gweithredu fel canolfannau lle gall pobl gwrdd a chymdeithasu. Mewn rhai ardaloedd heb neuadd y pentref, maent yn wir ganolfannau'r gymuned, oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio i gynnal gweithgareddau cymdeithasol.

Mae cau ysgol fach wledig, yn enwedig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, fel rhwygo calon cymuned. Felly, mae'n hollbwysig fod penderfyniad i gau ysgol yn ystyried nid yn unig addysg, ond hefyd yr effaith gall y cau gael ar ddiwylliant ac ar iaith y gymuned. Pan fydd penderfyniad i gau ysgol, gan amlaf mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan ystyried addysg yn unig. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad hwnnw yn cael effaith ehangach ar y gymuned gyfan. Mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith hanfodol i'r gymuned, mae cau ysgol gyfrwng Cymraeg yn cael effaith enfawr, nid yn unig ar yr iaith, ond ar y gymdeithas gyfan.

Ar hyn o bryd, nid oes angen asesiad annibynnol llawn ar yr effaith gall cau ysgol cael ar yr iaith Gymraeg mewn cymuned. Yr ydym ni ar ochr hon y Siambr am weld asesiad annibynnol llawn, pan fydd awdurdod lleol yn cyhoeddi ei fwriad i gau ysgol, er mwyn bod yn sail i'r broses ymgynghori. Ar hyn o bryd, nid oes angen statudol i gyhoeddi asesiad annibynnol llawn ar yr effaith gall cau ysgol gael ar y gymuned. Cyn bod unrhyw un yn sefyll i fyny i ddweud y bydd asesiad yn digwydd yng Ngwynedd, deallaf fod Prifysgol Bangor yn bwriadu cyhoeddi asesiad ar gymunedau yng Ngwynedd yn sgîl

*inform the consultation process;*

*2. believes that such an impact assessment should be commissioned by the Minister responsible for the Welsh language until such time that the Office of the Welsh Language Commissioner is established, following which responsibility should be transferred to the commissioner. (NDM3897)*

It is a pleasure to propose this debate this afternoon in the name of William Graham on behalf of the Welsh Conservatives. This debate is very important because schools, particularly in rural areas, play a crucial role in our communities. They do not just educate our children, they also act as centres where people can meet and socialise. In some areas without a village hall, they truly are centres of the community, because they are used for social events.

Closing a small rural school, particularly in Welsh-speaking areas, is like ripping the heart out of a community. Therefore, it is crucially important that a decision to close a school should give consideration not only to education, but also to the impact the closure can have on the culture and language of the community. When a decision is taken to close a school, that decision is usually made on an educational basis only. However, that decision has a broader impact on the community as a whole. In communities where Welsh is an essential language for the community, the closure of a Welsh school has a huge effect, not only on the language, but also on the community as a whole.

Currently, there is no need for an independent impact assessment on the effect that closing a school can have on the Welsh language in a community. We, on this side of the Chamber, wish to see a full independent impact assessment when a local authority announces its intention to close a school, to be the basis for the consultation process. Currently, there is no statutory requirement to publish a full independent impact assessment of the effect that closure can have on the community. Before anyone gets up to say that an assessment is to take place in Gwynedd, I understand that Bangor University intends to

cau ysgolion, ond bydd hynny wedi'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'n bwysig fod asesiad llawn cyn unrhyw ymgynghoriad er mwyn i'r cyhoedd allu ymateb a bwydo i mewn i'r ymgynghoriad. Nid oes pwynt cael asesiad ar ôl i'r broses ymgynghori ddiwydd. Mae'n rhaid i'r asesiad ddiwydd yn gyntaf er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu ymateb.

**Alun Ffred Jones:** Credaf ei bod hi'n deg i mi gywiro dy ddatganiad. Mae'r asesiad sydd yn diwydd ym mhob achos lle mae argymhelliad i gau—sef yr hyn yr ydym yn sôn amdano—yn cydreddeg gyda'r broses ymgynghori llawn yng Ngwynedd.

**Paul Davies:** Deallaf y bydd y broses ymgynghori yn dod i ben cyn yr asesiad.

Mae hefyd yn bwysig fod pawb yn cael y cyfle i ddeall pa effaith gall cau ysgol gael ar y gymuned gyfan. Mae cau ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael effaith ar iaith y gymuned. Gwn fod Aelodau wedi gofyn yn y gorffennol beth yw'r cyswllt uniongyrchol rhwng ysgol ac iaith y gymuned. Yn sicr, mae cysylltiad. Os oes rhaid i rieni ddanfôn eu plant i ysgol lle mai Saesneg yw'r brif iaith, bydd hyn yn fygythiad i'w hiaith gan na chânt yr un cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ag y byddent mewn amgylchedd mwy Cymraeg. Bydd hyn felly yn cael effaith ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y dyfodol. Derbyniwn na allwn greu Cymru ddwyieithog go iawn heb sicrhau bod yr iaith yn symud o'r ysgol i mewn i'r gymuned hefyd. Fodd bynnag, mae cau ysgol sy'n sail i'r iaith yn y gymuned yn tansellio ein hamcan i weld y Gymraeg yn iaith fyw yn ein cymdeithas. Drwy sicrhau asesiad trylwyr, gallwn, gobeithiaf, ddeall yr effaith y gall cau ysgol gael ar yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned gyfan.

Mae bygythiad i gau ysgol mewn unrhyw gymuned yn torri calonnau ac yn creu

publish an assessment in communities in Gwynedd of the effect of closing schools, but that will happen after the public consultation.

It is important that full impact assessment should take place prior to any consultation so that the public can respond and feed into the consultation. There is no point in having an assessment after the consultation process has occurred. The assessment must happen first to ensure that everyone can respond.

**Alun Ffred Jones:** I think it is fair that I should correct your statement. The assessment that takes place in every case where there is a recommendation to close—which is what we are discussing—runs side by side with the full consultation process in Gwynedd.

**Paul Davies:** I understand the consultation process will end before the assessment.

It is also important that everyone should have an opportunity to understand the impact a school closure can have on the community as a whole. The closure of schools, particularly in rural areas, has an impact on the language of the community. I know Members have asked in the past what the direct link is between a school and the language of the community. Certainly, there is a link. If parents have to send their children to schools where English is the main language, this will be a threat to their language because they will not have the same opportunity to use the Welsh language as often as they would have done in an environment which is more Welsh. This, therefore, will have an impact upon the use of the Welsh language in the future. We accept that we cannot create a truly bilingual Wales without ensuring that the Welsh language moves from the school into the community also. However, closing a school which is a basis for the language in the community undermines our aim of seeing the Welsh language as a living language in our community. By ensuring a thorough assessment, we can, hopefully, understand the effect that closing a school can have on the Welsh language and on the community as a whole.

A threat to close a school in any community is heartbreaking and creates instability for

anseydlogrwydd i rieni, disgyblion, ac athrawon. Felly, mae clustnodi ysgol i'w chau mewn unrhyw ardal fach wledig yn creu ansicrwydd i ddyfodol y gymuned.

Mae mater mwy difrifol ynghlwm wrth gau ysgol, sef ei effaith ar ein diwylliant lleol, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod cymdeithas yn gwanhau pan fo ysgol yn cau. Mewn rhai ardaloedd, mae perygl y bydd y swyddfa bost a'r siop leol hefyd yn cau wedi i'r ysgol gau. Yn aml, mae'r ysgol yn ganolog i'r gymuned, ac wrth ei chau, gellir rhwygo'r gymuned honno.

Mae cymunedau gwledig fy etholaeth ambell waith yn teimlo'n unig oherwydd eu pellter oddi wrth boblogaethau mawr, ac felly y mae'r cymunedau hyn yn teimlo'n fwy unig byth pan fo gwasanaethau hanfodol, fel yr ysgol, yn cau. Mae cau ysgol yn golygu colli canolfan i'r gymdeithas. Dylem gofio bod llawer o'n hardaloedd yn rhai difreintiedig, ac mae'r ardaloedd hyn yn ceisio amddiffyn eu hysgolion i sicrhau dyfodol eu cymunedau.

**David Lloyd:** A ydych yn dadlau felly fod cau Ysgol Hermon yn dy etholaeth wedi bod yn gyflafan lwyr?

**Paul Davies:** Y realiti yw bod rhieni'n poeni'n fawr wrth i'r ysgol honno gau. Yr hyn sydd wedi digwydd yn y cyfamser yw bod ysgol newydd wedi'i hadeiladu yng Nghrymch, fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch.

Gwyddom oll am sawl awdurdod lleol sydd ar fin adrefnu eu hysgolion, neu sydd yn y broses, drwy gau y rhai bach a chreu rhai llawer mwy. Gall hyn olygu mwy o ddisgyblion yn teithio ymhellach i'r ysgolion mwy hynny. Yn anffodus, mae'r ysgolion mawr yn debygol o greu dosbarthiadau mwy, a gall hynny effeithio ar addysg y disgyblion. Yn bendant, os bydd plentyn yn teithio i ysgol fwy mewn ardal sydd yn benodol yn ddi-Gymraeg, bydd hynny'n effeithio ar yr iaith y mae'n ei siarad. Clywn yn rhy aml fod rhieni'n poeni eu bod yn gorfod danfon eu plant i ysgolion di-Gymraeg am fod yr ysgol yn eu cymuned wedi cau. Felly, wrth gau ysgol, mae bygythiad i'r iaith Gymraeg ac i'n diwylliant.

parents, pupils, and teachers. Therefore, earmarking a school for closure in any small rural area creates uncertainty for the future of the community.

There is a more serious issue in the closure of a school, namely its impact on our local culture, and there is evidence to suggest that society is weakened when a school closes. In some areas, there is a danger that the post office and the local shop will also close once the school has closed. The school is often central to the community, and closing a school can rip the community apart.

Rural communities in my constituency sometimes feel isolated because of their distance from large populations, therefore these communities feel even more isolated when crucial services, such as the school, are closed. A school closure means that a community loses a centre. We should bear in mind that many of our areas are disadvantaged, and these areas are trying to defend their schools in order to ensure the future of their communities.

**David Lloyd:** Are you arguing therefore that closing Hermon School in your constituency has been a complete catastrophe?

**Paul Davies:** The reality is that parents are extremely concerned when that school closes. What has happened in the meantime is that a new school has been built in Crymch, as I am sure you are aware.

We all know of many local authorities who are about to reorganise their schools, or are in the process of doing so, by closing smaller schools and creating much larger ones. This can mean pupils travelling further to those larger schools. Unfortunately, the large schools are likely to create larger classes, and that can impact upon pupils' education. Certainly, if a child travels to a larger school in an area which is specifically non-Welsh speaking, then that will have an impact upon the language of that pupil. All too often we hear of parents' concern that they have to send their children to non-Welsh-speaking schools because the school in their community has closed. Therefore, closing a school is a threat to the Welsh language and to our culture.

Gallai gweld mwy o ysgolion bach Cymraeg yn cau effeithio ar ddyfodol yr iaith, gyda chanlyniadau trychinebus. Ni allwn dderbyn y broses bresennol, lle gall ysgol gymunedol gau, heb asesiad o'r effaith bosibl ar y gymdeithas gyfan.

Yr unig ffordd o sicrhau dyfodol cadarn i'r iaith Gymraeg yw cyflwyno asesiad annibynnol llawn cyn bod ysgol yn cau.

In communities where Welsh is a living and intrinsic part of the social fabric, policies and the decisions taken in their wake, such as to close a school, can have a far-reaching effect on the future wellbeing of the language there, as well as in the community overall. With regard to school closures, I believe that important opportunities are being lost in the absence of a linguistic focus. If the Assembly is to succeed in securing the future wellbeing of Welsh as a community language, it must ensure that policies at the national and the local levels are compatible with that aim and support it in practice. There should be no ambiguity about the circumstances in which harm to the language can be used as a reason not to close a school.

Currently, there is no guidance on the type of information that can be used legitimately to assess the effect that a school closure would have on the wellbeing of the language. In other words, there is no process currently in place to show whether a proposal to close a school would cause demonstrable and disproportionate harm to the future of the language in an area. I believe therefore that a comprehensive impact assessment framework to improve our collective understanding of the overall impact that a school closure will have on the language and on the community that the school serves is fundamental. We on this side of the Chamber also believe that such an impact assessment should be commissioned by the Minister with responsibility for the Welsh language, and not the Minister with responsibility for education and lifelong learning, because a school closure could have wider implications beyond the remit of education.

I understand that the Assembly Government

Seeing more small Welsh schools close could effect the future of the Welsh language, with calamitous results. We cannot accept the current process where a community school can close without assessing the possible impact on the community as a whole.

The only way of ensuring a sound future for the Welsh language is to introduce a full independent assessment before a school is closed.

Mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn rhan fyw a chynhenid o wead cymdeithas, mae polisïau a'r penderfyniadau a wneir yn eu sgil, megis cau ysgol, yn gallu cael effaith bell-gyrhaeddol ar les yr iaith yn y dyfodol yno yn ogystal ag yn y gymuned yn gyffredinol. O ran cau ysgolion, credaf fod cyfleoedd pwysig yn cael eu colli yn absenoldeb ffocws ieithyddol. Os yw'r Cynulliad am lwyddo i sicrhau lles y Gymraeg yn y dyfodol fel iaith gymunedol, rhaid iddo sicrhau bod polisïau ar y lefelau cenedlaethol a lleol yn gydnaws â'r nod hwnnw a'i gefnogi'n ymarferol. Ni ddylai bod unrhyw amwysedd ynglŷn â'r amgylchiadau lle gellir defnyddio niwed i'r iaith fel rheswm i beidio â chau ysgol.

Ar hyn o bryd, nid oes dim cyfarwyddyd ynghylch y math o wybodaeth y gellir ei defnyddio'n gyfreithlon i asesu'r effaith y byddai cau ysgol yn ei chael ar les yr iaith. Mewn geiriau eraill, nid oes proses ar waith ar hyn o bryd i ddangos a fyddai cynnig i gau ysgol yn achosi niwed dangosadwy ac anghymesur i ddyfodol yr iaith mewn ardal. Credaf, felly, bod cael fframwaith cynhwysfawr ar gyfer asesu effaith i wella ein dealltwriaeth gyfunol o'r effaith gyffredinol y bydd cau ysgol yn ei chael ar yr iaith a'r gymuned y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu yn sylfaenol. Yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu hefyd y dylai asesiad effaith o'r fath gael ei gomisiynu gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg, nid y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros addysg a dysgu gydol oes, oherwydd gallai cau ysgol gael goblygiadau ehangach y tu hwnt i'r maes addysg.

Deallaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad,

will, in due course, introduce a legislative competence Order in relation to the Welsh language, which will possibly include proposals for a language commissioner. When the office of the Welsh language commissioner is established, it would make sense for the responsibility over assessing the impact of a school closure on the Welsh language is transferred to his or her office.

3.30 p.m.

Naturally, I am disappointed that the Government has tabled amendments to our motion today, because I genuinely believed that there would be consensus on this very important issue. Surely, undertaking a language impact assessment when considering a school closure is a sensible approach. Only by introducing such a process can we consider the full impact, both to the community and the language. I urge all Members to support the motion today.

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** I propose the following amendments in the name of Carwyn Jones. Amendment 1: delete point 1 and replace with:

*1. welcomes the intention of the Welsh Assembly Government to revise and strengthen the guidance provided to local authorities in Wales on school re-organisations and closures, including assessment of the impact on the Welsh language;*

Amendment 2: in point 2 delete 'such an impact assessment should be commissioned by' and replace with 'guidance should be produced in consultation with'.

Amendment 3: in point 2 delete all after 'language'.

**Nick Bourne:** This is an important issue and it was encapsulated extremely effectively by Paul Davies. The closure of any school is always going to be a matter of concern, and where that school provides a first-class education we believe that it should not close. In addition, there are always going to be community impacts where a school closes,

maes o law, yn cyflwyno Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yng nghyswllt yr iaith Gymraeg, a fydd o bosibl yn cynnwys cynigion ar gyfer comisiynydd iaith. Pan sefydlir swydd comisiynydd y Gymraeg, byddai'n gwneud synnwyr i'r cyfrifoldeb dros asesu effaith cau ysgol ar y Gymraeg gael ei drosglwyddo i'w swydd ef neu hi.

Yn naturiol, yr wyf yn siomedig fod y Llywodraeth wedi cyflwyno gwelliannau i'n cynnig heddiw, oherwydd yr oeddwn yn gwir gredu y byddai consensws ar y mater pwysig iawn hwn. Does bosibl nad yw cynnal asesiad o effaith ar yr iaith wrth ystyried cau ysgol yn ddull synhwyrol. Drwy gyflwyno proses o'r fath yn unig y gallwn ystyried yr effaith lawn, ar y gymuned ac ar yr iaith, fel ei gilydd. Anogaf yr holl Aelodau i gefnogi'r cynnig heddiw.

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Carwyn Jones. Gwelliant 1: dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

*1. yn croesawu bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwygio a chryfhau'r cyfarwyddyd a roddir i awdurdodau lleol yng Nghymru ar ad-drefnu a chau ysgolion, gan gynnwys asesu eu heffaith ar y Gymraeg;*

Gwelliant 2: ym mhwynt 2 dileu 'dylai'r' a rhoi yn ei le 'dylid cynhyrchu'r cyfarwyddyd ar ôl ymgynghori â'r'.

Gwelliant 3: ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'Gymraeg'.

**Nick Bourne:** Mae hwn yn fater pwysig ac fe'i crisialwyd yn effeithiol dros ben gan Paul Davies. Mae cau unrhyw ysgol bob amser yn mynd i fod yn achos pryder, ac os yw'r ysgol yn darparu addysg o'r radd flaenaf credwn na ddylai gau. Yn ogystal, bydd effeithiau bob amser ar y gymuned os bydd ysgol yn cau, yn enwedig mewn cymuned bentref fechan, ond

particularly in a small village community, but no doubt that is the case elsewhere as well. However, it can scarcely be suggested that, where an English-speaking school closes, it will have a detrimental effect on the English language. Such a proposal and suggestion would be risible. There is no need to protect the English language in relation to school closures. There is, however, a need to protect the Welsh language; I have become convinced of that.

I remember a visit to Henllan Amgoed school in Carmarthenshire—which is now sadly closed—which, I was told before I arrived, was a Welsh-language school. I arrived with my personal assistant during the play period. I turned to him, because I could hear nothing but English being spoken in the playground, and said, ‘I thought that this was a Welsh-speaking school’. He said, ‘It is’. As we went across into the school at the end of the play period, all the pupils changed immediately to speaking Welsh. That will not happen very often where a school closes in a Welsh-language community and those children go to another primarily English-speaking school. This is the serious consideration that we face.

It was a cathartic experience for me. I became convinced then that we needed to take special measures to protect communities where Welsh was the medium of instruction at the school, and yet, because of the strength of the media and the predominant nature of English, everyone switched to speaking English. That is why this is so essential and why the impact assessment must take place before the consultation. The consultation needs to be informed once the impact assessment has been concluded. It has to be a material part of that consultation, which is why we have, quite advisedly, included that.

We have also, quite advisedly, asked that this should be the responsibility of the Minister for the Welsh language, and I am disappointed that he is not here to hear the debate in person and to contribute to it. It is important that we hear the view of the Minister who is responsible for the Welsh language. I appreciate that it will be Jane Hutt, as the Minister for education, who will respond, and, no doubt, she will make some

nid oes amheuaeth nad yw hynny hefyd yn wir mewn mannau eraill. Er hynny, prin y gellir awgrymu, os bydd ysgol cyfrwng Saesneg yn cau, y caiff effaith andwyol ar yr iaith Saesneg. Byddai cynnig ac awgrym o’r fath yn chwerthinllyd. Nid oes dim angen gwarchod yr iaith Saesneg yng nghyswllt cau ysgolion. Er hynny, mae angen gwarchod yr iaith Gymraeg; yr wyf wedi dod yn argyhoeddedig o hynny.

Cofiaf ymweld ag ysgol Henllan Amgoed yn sir Gaerfyrddin—sydd wedi cau yn awr, yn anffodus—ysgol y dywedwyd wrthyf cyn imi gyrraedd a oedd yn ysgol Gymraeg. Cyrhaeddais gyda fy nghynorthwy-ydd personol yn ystod amser chwarae. Troais ato, gan na chlywn ddim ond Saesneg yn cael ei siarad ar yr iard, gan ddweud, ‘Yr oeddwn i’n meddwl mai ysgol Gymraeg oedd hon’. Dywedodd, ‘Dyna ydyw’. Wrth inni fynd i mewn i’r ysgol ar ddiwedd amser chwarae, trodd y plant ar unwaith i siarad Cymraeg. Ni fydd hynny’n digwydd yn aml iawn os bydd ysgol yn cau mewn cymuned Gymraeg a bod y plant hynny’n mynd i ysgol arall lle siaredir Saesneg yn bennaf. Dyna yw’r ystyriaeth ddirifol a wynebwn.

Yr oedd yn brofiad cathartig imi. Fe’m hargyhoeddwyd bryd hynny fod angen inni gymryd camau arbennig i warchod cymunedau lle’r oedd y Gymraeg yn gyfrwng dysgu, ac eto, oherwydd cryfder y cyfryngau a natur gryfaf y Saesneg, trodd pawb i siarad Saesneg. Dyna pam mae hyn mor hanfodol, a pham y mae’n rhaid cynnal yr asesiad effaith cyn yr ymgynghori. Mae angen hysbysu’r ymgynghoriad ar ôl i’r asesiad effaith gael ei gwblhau. Rhaid iddo fod yn rhan bwysig o’r ymgynghori hwnnw, a dyna pam yr ydym, yn ddoeth iawn, wedi cynnwys hwnnw.

Yr ydym hefyd, yn ddoeth iawn, wedi gofyn i hwn fod yn gyfrifoldeb i’r Gweinidog dros y Gymraeg, ac yr wyf yn siomedig nad yw ef yma i glywed y ddadl yn bersonol ac i gyfrannu ati. Mae’n bwysig inni glywed barn y Gweinidog sy’n gyfrifol am yr iaith Gymraeg. Sylweddolaf mai Jane Hutt, fel y Gweinidog dros addysg, a fydd yn ymateb, ac yn ddi-os bydd yn gwneud rhai o’r pwyntiau y byddem ni wedi’u gwneud. Ond ganddo ef

of the points that he would have made, but he has the responsibility for the Welsh language in Government and it is appropriate that he should be here to contribute to this debate. I regret that he is not, especially hard on the heels of what many people regard as letting down the Welsh-language community with the decision on the Welsh-language media and *Y Byd*. That is disappointing. I put it no stronger than that in the Chamber. [Interruption.]

If you want to make a contribution, and say—on your feet—that it was a cheap shot, I would be very happy to answer you. If you do not think it was cheap shot, then perhaps you would withdraw it.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. If anyone makes a comment while they are sitting down, it will not be reported in the Record of Proceedings. I would prefer, therefore, if you did not refer to it.

**Nick Bourne:** I appreciate that. However, when it is as audible as that was, it is very difficult to ignore it in the Chamber, as I am sure you would agree.

Moving on, this is an important debate, as I am sure that Members on all sides of the Chamber will appreciate. We are asking for something to protect Welsh-language communities and Welsh-language education. It is important—and I hope that the Minister addresses this point—that it falls within the ambit of the Minister responsible for the Welsh language until the Welsh language commissioner is in place. The responsibility would then be transferred to the commissioner under our proposals. This is a serious contribution to the debate. We all believe in strengthening the Welsh language but we seem to be the only ones putting forward constructive proposals as to how that can be brought about. Therefore, I trust that Members will decide to support this motion.

**David Lloyd:** Mae'n amlwg, o'ch geiriau diwethaf, eich bod yn credu mewn cryfhau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'i hymestyn i'r sector preifat. Gwelaf fod hynny'n bolisi newydd swyddogol yn y Blaid Geidwadol yng Nghymru.

y mae'r cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn y Llywodraeth, ac mae'n briodol y dylai ef fod yma i gyfrannu at y ddadl hon. Mae'n resyn gennyf nad ydyw, yn enwedig mor fuan ar ôl yr hyn yr oedd llawer yn ei ystyried yn siom i'r gymuned Gymraeg gyda'r penderfyniad am y cyfryngau Cymraeg ac *Y Byd*. Mae hynny'n siomedig. Ni ddefnyddiaf eiriau cryfach na hynny yn y Siambr. [*Torri ar draws.*]

Os ydych am gwneud cyfraniad, a dweud—ar eich traed—ei fod yn sylw ymosodol gwael, byddwn yn fodlon iawn eich ateb. Os na chredwch ei fod yn sylw ymosodol gwael, yna efallai y byddech yn ei dynnu'n ôl.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Os bydd unrhyw un yn gwneud sylw tra bydd ar ei eistedd, ni chaiff ei gofnodi yng Nghofnod y Trafodion. Byddai'n well gennyf, felly, pe na byddech yn cyfeirio ato.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn gwerthfawrogi hynny. Er hynny, pan fydd mor glywadwy ag yr oedd hwnnw, mae'n anodd iawn ei anwybyddu yn y Siambr, fel y byddech yn cytuno, mae'n sicr.

I symud ymlaen, mae hon yn ddadl bwysig, fel y bydd Aelodau ar bob ochr y Siambr yn ei sylweddoli, mae'n sicr. Yr ydym yn gofyn am rywbeth i warchod cymunedau Cymraeg ac addysg Gymraeg. Mae'n bwysig—a gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi sylw i'r pwynt hwn—iddo ddod o fewn cwmbras gwaith y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg nes bydd swydd Comisiynydd y Gymraeg wedi'i sefydlu. Byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r comisiynydd dan ein cynigion ni. Mae hwn yn gyfraniad difrifol i'r ddadl. Yr ydym i gyd yn credu mewn cryfhau'r iaith Gymraeg, ond mae'n ymddangos mai ni yw'r unig rai sy'n cyflwyno cynigion adeiladol i sicrhau hynny. Felly, hyderaf y bydd yr Aelodau'n penderfynu cefnogi'r cynnig hwn.

**David Lloyd:** It is obvious from your last comments that you believe in strengthening the Welsh Language Act 1993 and extending it to the private sector. I see that is the Welsh Conservatives' new official policy.

**Nick Bourne:** This debate is not about that, but I am happy to deal with that issue. You will know quite well that that is our view and that it was our view at the time of the Assembly elections. That is absolutely clear. If you are asking me to confirm that, I will do so. I always thought that it was part of Plaid Cymru's policy to support the Welsh language. Therefore, I trust that you will be supporting this motion, because that is what it does. You are beginning to be seen as patsies for the Labour Party on the language.

**Gareth Jones:** Cytunaf â'r egwyddor o wneud asesiadau iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r arfer o wneud asesiadau o effaith amgylcheddol yn gyffredin iawn bellach ac mae'r effaith ar iaith ardal yn ystyriaeth llawn mor ddilys. Anfonais lythyr at gyfarwyddwr addysg Conwy ychydig wythnosau'n ôl i ofyn iddo roi sicrwydd y byddai'n cynnal asesiad o'r fath cyn cyflwyno unrhyw gynllun i newid patrwm addysg gynradd yn y sir. Wrth alw am asesiad iaith, nid brawddeg neu ddwy gan yr awdurdod lleol y dylid eu cael, ond astudiaeth effaith o safon. Cytunaf â galwad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn hyn o beth:

'Ni ddylid caniatáu cam a allai olygu amharu ar addysg plant a thanseilio cymuned Gymraeg heb fod astudiaeth broffesiynol drylwyr'.

Yr ydym am weld gwella safon dysgu Cymraeg ym mhob ysgol fel bod pob plentyn yn cael cyfle i siarad yr iaith. Ar yr un pryd, mae'n hollol wir y gallai cau ysgolion effeithio'n sylweddol ar iaith disgyblion mewn rhai sefyllfaoedd. Dyna'r union bwynt a wnaed gan Nick Bourne.

Mae un enghraifft nodedig yn fy etholaeth i, sef Ysgol Ysbyty Ifan, lle mae pob un o'r plant yn dod o aelwyd Gymraeg. Byddai colli ysgol o'r fath yn golled i'r iaith yn ogystal ag i'r gymdeithas leol. Ond, wrth drafod effeithiau ieithyddol unrhyw benderfyniad, mae'n hollbwysig edrych ar y darlun ehangach. Yn aml, erbyn y daw ystyriaeth i gau ysgol, mae'n rhy hwyr, gan fod poblogaeth yr ardal wedi syrthio i lefel lle na

**Nick Bourne:** Nid am hynny y mae'r ddadl hon, ond yr wyf yn fodlon delio â'r mater hwnnw. Gwyddoch yn iawn mai dyna yw ein barn ac mai dyna oedd ein barn adeg etholiadau'r Cynulliad. Mae hynny'n gwbl glir. Os gofyn yr ydych imi gadarnhau hynny, gwnaf hynny. Yr oeddwn yn meddwl bob amser mai rhan o bolisi Plaid Cymru oedd cefnogi'r iaith Gymraeg. Felly, hyderaf y byddwch yn cefnogi'r cynnig hwn, oherwydd dyna y mae'n ei wneud. Yr ydych yn dechrau cael eich gweld fel bychod dihangol i'r Blaid Lafur o safbwynt yr iaith.

**Gareth Jones:** I agree with the principle of undertaking language impact assessments in different situations. Environmental impact assessments are quite common by now, and the impact on the language of an area is equally valid. I wrote to the director of education for Conwy some weeks ago asking for his assurance that he would conduct this type of assessment before bringing forward any plan to change the pattern of primary education in the county. A language impact assessment should not be a mere sentence or two by the local authority, but a high-quality impact assessment. I agree with the demand of the Welsh Language Society in this respect:

A move that could be detrimental to children's education and undermine a Welsh speaking community should not be allowed without a thorough professional study.

We want to see the standard of Welsh teaching in every school improve so that every child has an opportunity to speak the language. At the same time, it is true that school closures could have a substantial effect on pupils' language in some situations. Nick Bourne made the very same point.

There is one notable example in my constituency, namely Ysgol Ysbyty Ifan, where every child comes from a Welsh-speaking home. Losing this kind of school would be a loss to the language as well as to the local community. However, in discussing the language impact of any decision, it is essential that we look at the bigger picture. Often, when consideration is given to closing a school, it is too late because the area's



ellir cynnal ysgol. Felly, derbyniaf ddiffuantrwydd y Ceidwadwyr yn y ddadl hon ac yn eu cyflwyniad. Serch hynny, mae angen i ni, yng Nghymru, fynd llawer ymhellach. Mae'n rhaid symud rhywfaint ar y pwyslais, o ddiogelu ysgol neu ysgolion i ddiogelu cymunedau. Ni allwn ddiogelu dyfodol tymor hir unrhyw ysgol heb fod gennym strategaeth i gynnal poblogaeth y gymuned honno. Erfyniaf arnoch i ystyried hynny.

Cafwyd cyhoeddiad pwysig gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar ran Llywodraeth y Cynulliad yr wythnos diwethaf, dan y pennawd 'Gweledigaeth Leol', sy'n rhoi canllawiau statudol ar gyfer datblygu a chyflawni strategaethau cymunedol. Er nad wyf wedi cael cyfle i ddarllen y canllawiau'n fanwl, yr wyf yn falch o weld y sylw hwn yn cael ei roi i'r angen am gynllunio cymunedol. Mae'n hollbwysig bod cymunedau ledled Cymru yn datblygu gweledigaeth strategol hirdymor ar gyfer eu dyfodol, a rhaid sicrhau bod dinasyddion a phobl leol yn cael eu cynnwys yn y broses. Mae'n hollbwysig, hefyd, bod yr iaith Gymraeg yn cael sylw priodol yn y strategaethau a'r gweledigaethau hyn. Mae cryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gwbl allweddol os ydym am sicrhau dyfodol yr iaith. Rhaid i ni sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy os ydym am ddiogelu'n hysgolion bach.

3.40 p.m.

Rhan o'r rheswm fod cymaint o ysgolion o dan fygythiad yw na fu digon o wario ar yr adeiladau, gyda degawdau o Lywodraethau Torïaidd a Llafur wedi eu hesgeuluso. Mae hynny'n ffaith. Mae'n amlwg y bydd angen buddsoddi helaeth yn yr adeiladau i'w gwneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

I gyfiawnhau buddsoddi pellach, bydd rhaid sicrhau bod ein cymunedau'n gwneud y defnydd gorau o adeiladau ysgolion. Mae angen edrych ar y posibilïadau o ran defnydd helaethach gan y gymuned o'r asedau gwerthfawr hyn. Dyna'r union bwynt a wnaed gan Estyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu y bore yma. Y darlun ehangach hwnnw sy'n hollbwysig os ydym

population has fallen to a level at which a school cannot be maintained. I therefore accept the sincerity of the Conservatives in this debate and in their presentation. However, we in Wales must go much further. We must change the emphasis slightly, from protecting a school or schools to protecting communities. We cannot protect the long-term future of any school without having a strategy in place to sustain the population of that community. I beg of you to consider this.

The Minister for Social Justice and Local Government made an important announcement last week on behalf of the Assembly Government, under the heading 'Local Vision'. It will provide statutory guidance on developing and implementing community strategies. Although I have not had an opportunity to read the guidelines in detail, I am pleased to see this attention to the need for community planning. It is vital that communities throughout Wales should develop a strategic long-term vision for their future, and citizens and local people must be included in that process. It is also vital that the Welsh language be given appropriate attention in these strategies and visions. Strengthening Welsh-speaking communities is absolutely key if we are to secure the future of the language. We must also create sustainable economic development if we are to protect our small schools.

Part of the reason why so many schools are under threat is that not enough money was spent on the buildings, in decades of neglect under Conservative and Labour Governments. That is a fact. It is obvious that significant investment will be needed in these buildings to make them suitable for the twenty-first century.

In order to justify further investment, we will need to ensure that our communities make the best possible use of school buildings. We need to look at the possibilities with regard to wider use of these valuable assets by the community. Estyn made that very point in this morning's meeting of the Enterprise and Learning Committee. Looking at that bigger picture is vital if our communities are to have

am weld dyfodol i'n cymunedau, ac felly i'n hysgolion, ac felly i'r iaith Gymraeg. Yr wyf yn erfyn ar y Ceidwadwyr—er fy mod yn cytuno â'r diffuantrwydd ac yn deall yr hyn sy'n cael ei ystyried—i edrych ymhellach na'r datganiadau hyn neu'r asesiadau iaith yn unig. Yr hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau yw'r her, a dyna yr hoffwn ei weld yn cael ystyriaeth drylwyr.

**Eleanor Burnham:** Fel llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar yr iaith, hoffwn wneud y pwynt fod angen gwarchod ein cymunedau cefn gwlad, fel y dywedodd Gareth. Maent yn mynd drwy gyfnod o newid ac maent wedi dioddef ergydion economaidd ofnadwy yn ddiweddar oherwydd y pwysau ar y diwydiant amaeth. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae ad-drefnu ysgolion wedi bod yn y newyddion. Wrth i ffactorau economaidd eraill amharu ar gefn gwlad, credaf ei fod yn bwysig ein bod yn gwneud ein gorau. Mae archfarchnadoedd yn denu cwsmeriaid o siop y pentref ac mae Llafur, yn fy marn i, wedi dinistrio rhwydwaith y swyddfeydd post—yn ddiweddar, clustnodwyd 13 arall i'w cau.

Fis Tachwedd diwethaf, ceisiodd Mike German gyflwyno Mesur ar gau ysgolion a fyddai wedi gwneud yn union yr hyn a grybwyllodd Gareth yn gynharach, sef cynnal ymgynghoriad ehangach ar yr hyn sy'n digwydd yn ein hysgolion. Yr wyf yn teimlo'n gryf fod hon yn sefyllfa anodd i bawb, ond nid wyf yn beio neb nac yn pwyntio bys. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud ein gorau i helpu llywodraeth leol i ddarparu'r gwasanaethau hynny nad ydynt ar gael yn yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd i bobl yng Nghymru.

Croesawn egwyddor y cynnig, wrth gwrs, ond nid ydym yn cytuno o gwbl â gwelliant 3 yn enw Carwyn Jones. Yn ein manifesto, crybwyllwyd yr angen am asesiad o'r galw, pwysigrwydd ceisio cynllunio ac ystyried yn ehangach. Mae ar gynghorau lleol angen ein help ni, ac yr wyf yn gobeithio'n fawr y gallwn wneud ein gorau drostynt.

It is quite interesting that the Conservatives have developed an interest in the language. They made pioneering use of translation

a future and, in turn, our schools and the Welsh language. I beg of the Conservatives—although I agree with the sincerity and I understand what is being considered—to look further than these statements or the language impact assessments alone. The challenge lies in what is happening in our communities, and that is what I should like to see being given thorough consideration.

**Eleanor Burnham:** As the Liberal Democrat spokesperson on the Welsh language, I wish to make the point that rural communities, as Gareth said, need to be protected. They are going through a period of transition and they have been dealt some hefty economic blows recently as a result of the pressures on the agriculture industry. Over recent months, the reorganisation of schools has been in the headlines. Given that other economic factors are having an impact upon rural areas, it is important that we do our best. Supermarkets are taking customers away from the village shop, and Labour, in my opinion, has destroyed the post office network—another 13 have recently been earmarked for closure.

In November of last year, Mike German tried to introduce a Measure on school closures that would have done exactly what Gareth mentioned earlier—broader consultation on what happens in our schools. I feel strongly that this is an extremely difficult situation for everyone; I am not blaming anyone and I am not pointing the finger. It is important that we do our best to assist local government to provide those services that are currently unavailable through the medium of Welsh to people in Wales.

We welcome the principle of the motion, of course, but we do not agree at all with amendment 3 in the name of Carwyn Jones. In our manifesto, we mentioned the need for an assessment of demand, the importance of planning and giving this issue further consideration. Local councils need our help, and I very much hope that we can do our best for them.

Mae'n ddiddorol iawn fod y Ceidwadwyr wedi magu diddordeb yn yr iaith. Defnyddiwyd dyfeisiau cyfieithu mewn

devices in their last conference in Llandudno, which was of great interest to all of us.

**Alun Cairns:** Will you give way?

**Eleanor Burnham:** No, I do not have enough time. The debate is well-founded and we are obviously supporting your motion, but I thought that I would just mention that fact, because it is very interesting.

It is about securing a proper consultation procedure that takes Welsh-language provision fully into account in terms of school closures and reorganisations. It is a challenge to Plaid Cymru as well, because Gwynedd is not having an easy time. As I have said before, this is a very sensitive issue, in many respects, and I am loath to blame anyone or point the finger at anyone. However, that is the nature of politics and I suppose that we have to do it to some extent.

In truth, I believe that much of the motion is very worthy and I hope that we will all take these matters seriously, because *cefn gwlad*—the countryside—is bleeding and the economic distress that has befallen many of our communities is absolutely scandalous. The closure of post offices by the Labour Government is equally scandalous.

Therefore, with regard to what we can do to provide support to help the Welsh language, we should definitely look to our consciences when we vote.

**Kirsty Williams:** The Welsh Liberal Democrats very much welcome today's debate. It is interesting to note that it was Nick Bourne's visit to the school that suddenly convinced him of the need to take action in this area. So, I am grateful that that visit was arranged and that it brought this issue to the attention of the leader of the Welsh Conservatives because many of us on this side of the Chamber have been all too aware of how the reorganisation of schools can have a profound effect on the language in that area.

**Rhodri Glyn Thomas:** You referred to Nick Bourne's interest in this matter arising from a

modd arloesol ganddynt yn eu cynhadledd ddiwethaf yn Llandudno, rhywbeth a oedd o ddiddordeb mawr inni bob un.

**Alun Cairns:** A wnewch chi ildio?

**Eleanor Burnham:** Na wnaif, nid oes gennyf ddigon o amser. Mae seiliau cadarn i'r ddadl ac yr ydym yn amlwg yn cefnogi'ch cynnig, ond yr oeddwn am grybwyll y ffaith honno, gan ei bod yn ddiddorol iawn.

Mae'n ymwneud â sicrhau trefn ymgynghori briodol sy'n rhoi ystyriaeth lwyr i'r ddarpariaeth Gymraeg o safbwynt cau ysgolion ac ad-drefnu. Mae'n her i Plaid Cymru yn ogystal, oherwydd nid yw Gwynedd yn cael amser hawdd. Fel y dywedais o'r blaen, mae hwn yn fater sensitif iawn, mewn llawer ffordd, ac yr wyf yn gyndyn o feio neb na phwyntio bys at neb. Er hynny, dyna yw natur gwleidyddiaeth ac mae'n debyg ei bod yn rhaid inni wneud hynny i ryw raddau.

A dweud y gwir, credaf fod llawer o'r cynnig yn deilwng iawn, a gobeithio y byddwn i gyd yn cymryd y materion hyn o ddifrif, oherwydd mae cefn gwlad yn gwaedu ac mae'r straen economaidd a ddaeth i ran nifer o'n cymunedau yn gwbl warthus. Mae cau swyddfeydd post dan law Llywodraeth Lafur yr un mor warthus.

Felly, o ran yr hyn y gallwn ei wneud i ddarparu cymorth er mwyn cynorthwyo'r iaith Gymraeg, dylem yn sicr wrando ar ein cydwybod pan fyddwn yn pleidleisio.

**Kirsty Williams:** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r ddadl heddiw yn fawr iawn. Mae'n ddiddorol sylwi mai ymweliad Nick Bourne â'r ysgol a'i argyhoeddodd yn sydyn fod angen gweithredu yn y maes hwn. Felly, yr wyf yn ddiolchgar fod yr ymweliad hwnnw wedi'i drefnu ac iddo dynnu sylw arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig at hyn, oherwydd mae nifer ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr wedi bod yn ymwybodol iawn o'r ffordd y gall ad-drefnu ysgolion gael effaith ddifrifol ar yr iaith yn yr ardal honno.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddech yn cyfeirio at ddiddordeb Nick Bourne yn y

visit to a school. Are you surprised, like me, that he has suddenly decided to lose interest in this issue and has left the Chamber instead of listening to the rest of the debate? *[Interruption.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I was generous in allowing you to intervene, Rhodri Glyn, as you were not here either earlier in the debate. *[Applause.]* I am not used to being applauded by the Conservatives. So, Rhodri Glyn, I do not want to hear any more comments from your seat. I am sorry to interrupt you, Kirsty.

**Kirsty Williams:** I think that the Minister is on shaky ground because one would have thought that, as Minister with responsibility for the language, he would have been interested to be here for the entire debate. He is just as guilty, in the dereliction of his duty, as the leader of the Welsh Conservatives, who has made his point and run.

This is an important debate because we need to recognise the importance of the language when considering school reorganisation. We cannot run away from this debate. Anyone who was at the Enterprise and Learning Committee this morning and listened to the evidence of Estyn and of the Minister knows that they are both following a one-track cause of massive school reorganisation throughout Wales. We need to ensure that there are consultation processes and that the programme of school reorganisation is done correctly. Welsh-language provision and the impact of school reorganisation on the language have to be a key consideration.

I declare an interest, at this point, as a parent whose children attend a Welsh-medium school. Thankfully, in our case, the number of pupils is growing and, therefore, I hope that it will not find itself subjected to this reorganisation. However, there are other schools throughout the country where the Welsh language is the medium through which children are educated and where it is the community language. If the language is to survive in these communities, the place of the language in schools is crucial.

pwnc hwn yn sgil ei ymweliad ag ysgol. A ydych yn synnu, fel finnau, ei fod wedi penderfynu colli diddordeb yn y pwnc hwn yn sydyn ac wedi gadael y Siambr yn hytrach na gwrando ar weddill y ddadl? *[Torri ar draws.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Yr oeddwn yn hael yn caniatáu ichi ymyrryd, Rhodri Glyn, gan nad oeddech chi yma ychwaith yn gynharach yn y ddadl. *[Curo dwylo.]* Nid wyf yn gyfarwydd â chael cymeradwyaeth gan y Ceidwadwyr. Felly, Rhodri Glyn, nid wyf am glywed rhagor o sylwadau gennych o'ch sedd. Mae'n ddrwg gennyf dorri ar eich traws, Kirsty.

**Kirsty Williams:** Credaf fod y Gweinidog ar dir simsan, oherwydd byddai rhywun wedi meddwl, ac yntau'n Weinidog sy'n gyfrifol am yr iaith, y byddai ganddo ddiddordeb mewn bod yma ar gyfer y ddadl i gyd. Mae'r yr un mor euog, o esgeuluso'i ddyletswydd ag yw arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, sydd wedi gwneud ei bwynt a dianc.

Mae hon yn ddadl bwysig oherwydd mae angen inni gydnabod pwysigrwydd yr iaith wrth ystyried ad-drefnu ysgolion. Ni allwn ddianc rhag y ddadl hon. Gŵyr pawb a oedd yn y Pwyllgor Menter a Dysgu y bore yma ac a fu'n gwrando ar dystiolaeth Estyn a'r Gweinidog fod y ddau ohonynt ar lwybr unffordd sy'n arwain at ad-drefnu ysgolion ar raddfa anferth ledled Cymru. Mae angen inni sicrhau bod yna brosesau ymgynghori a bod y rhaglen ad-drefnu ysgolion yn cael ei gwneud yn iawn. Rhaid i'r ddarpariaeth Gymraeg ac effaith ad-drefnu ysgolion ar yr iaith fod yn ystyriaeth allweddol.

Datganaf fuddiant yn awr, a minnau'n rhiant i blant yn mynychu ysgol Gymraeg. Diolch byth, yn ein hachos ni mae nifer y disgyblion ar gynnydd, ac felly gobeithio na fydd yn ei chael ei hun yn destun yr ad-drefnu hwn. Fodd bynnag, mae yna ysgolion eraill drwy'r wlad lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu'r plant a lle mai hi hefyd yw'r iaith a ddefnyddir yn y gymuned. Er mwyn i'r iaith fyw yn y cymunedau hyn, mae lle'r iaith yn yr ysgolion yn hollbwysig.

As Liberal Democrats, we tried to push this issue with Mike German's Member proposed Measure earlier this year and it was of huge disappointment to us that the Government—both Plaid Cymru and Labour Members—decided not to allow that Measure to progress. The Measure looked to strengthen the guidance issued to local authorities so that they would pay due care and attention to issues surrounding the language and the other concerns that many communities face when their school is under threat.

We will support the amendments because we disagree with how the Conservatives hope to develop this policy. We do not believe that it is the role of the language commissioner to commission these kinds of reviews. The commissioner is the regulator—

**Nick Bourne:** I am grateful to Kirsty for giving way. It is our view that it should be done independently and at arm's length. If we are to have a commissioner's office and it is part of our policy that there should be such an office, then it is best dealt with at arm's length, away from the Government. That is why we propose that.

**Kirsty Williams:** Welcome back to the Chamber. I understand your point, but, from our perspective, the commissioner's role is that of a regulator who should give advice to ensure that the processes are robust and correct. However, it is not our view that the commissioner should be the person who is responsible for taking on these reviews. His or her role is to monitor the performance of the Welsh Assembly Government and that of local authorities in this area, rather than doing the job for them.

3.50 p.m.

However, the sentiments behind needing to strengthen rules, regulations and guidance in this area is one that we accept, and there is just a difference of opinion on how we would deliver that policy in a practical sense. I am grateful for the opportunity to contribute to this debate and I welcome the opportunity to state our support for the need to strengthen

Fel Democratiaid Rhyddfrydol, ceisiasom roi hwb i'r mater hwn drwy gyfrwng y Mesur Aelod a gynigiwyd gan Mike German yn gynharach eleni. Yr oeddem yn hynod o siomedig fod y Llywodraeth—yn Aelodau Plaid Cymru ac yn Aelodau Llafur—wedi penderfynu peidio â chaniatáu i'r Mesur hwnnw fynd rhagddo. Nod y Mesur hwnnw oedd cryfhau'r cyfarwyddyd a roddid i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gofal a sylw dyledus i faterion sy'n ymwneud â'r iaith ac i'r pryderon eraill y bydd llawer o gymunedau'n eu hwynebu pan fydd eu hysgol dan fygythiad.

Byddwn yn cefnogi gwelliant Llafur oherwydd ein bod yn anghytuno â'r ffordd y gobeithia'r Ceidwadwyr ddatblygu'r polisi hwn. Ni chredwn mai swyddogaeth y comisiynydd iaith yw comisiynu'r mathau hyn o adolygiadau. Y rheolydd yw'r comisiynydd—

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar i Kirsty am ildio. Ein barn ni yw y dylai gael ei wneud yn annibynnol ac o hyd braich. Os ydym am gael swyddfa comisiynydd ac os yw'n rhan o'n polisi y dylid cael swyddfa o'r fath, yna gwell delio â hynny o hyd braich, ar wahân i'r Llywodraeth. Dyna pam y cynigiwn hynny.

**Kirsty Williams:** Croeso yn ôl i'r Siambr. Yr wyf yn deallaf eich pwynt, ond o'n safbwynt ni swyddogaeth rheolydd a fydd gan y comisiynydd a dylai roi cyngor i sicrhau bod y prosesau'n gadarn ac yn gywir. Fodd bynnag, ni chredwn mai'r comisiynydd a ddylai fod yn gyfrifol am gynnal yr adolygiadau hyn. Ei swyddogaeth ef neu hi fydd monitro perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a pherfformiad awdurdodau lleol yn y maes hwn, yn hytrach na gwneud y gwaith hwnnw drostynt.

Fodd bynnag, mae'r egwyddor sy'n awgrymu bod angen cryfhau rheolau, rheoliadau a chyfarwyddyd yn y maes hwn yn un yr ydym yn ei derbyn, a'r unig wahaniaeth barn rhyngom yw sut y byddem yn gwireddu'r polisi hwnnw'n ymarferol. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon, a chroesawaf y cyfle i fynegi ein

guidance in this area. It is crucial at a time when we are going to see more local authorities coming forward with massive school reorganisation plans, and if we do not get it right, we could put back the cause of the language within many communities for generations to come.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Yr wyf yn siŵr bod Paul yn poeni'n wirioneddol am yr effaith y gallai cau ysgolion ei chael ar yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, o edrych ar gynnwys ei gynnig, yr wyf yn teimlo'i fod wedi camdeall rhai o elfennau sylfaenol y broses o ad-drefnu ysgolion.

Local authorities, not the Welsh Assembly Government, are responsible for the planning and provision of school places. It is they who must review and assess education provision in their areas, and, in most instances, it is they who will bring forward proposals for school reorganisation, including closures. Before publishing any proposals for change, they are required to consult extensively with all interested parties and give due consideration to the issues raised by consultees.

**Jonathan Morgan:** You cannot abdicate your responsibility in this area because it is Assembly Government guidance that establishes the exact procedure for school closures, so it is up to you.

**Jane Hutt:** That indicates that you might be supporting our amendment 1, Jonathan, because the amendment states that we are going to revise our guidance. I am delighted that Kirsty and the Liberal Democrats are supporting that. That would be the correct way to address the genuinely held commitments that you have in your motion. Through your motion, you have assured us that you want to safeguard the position of the Welsh language, which is the goal to which we all subscribe, and in the case of school reorganisation proposals I believe that the Government amendments set out the best way of doing this. I hope, therefore, that the Welsh Conservatives are now going to back our first amendment. If we wish to influence the way in which school reorganisation is implemented, it is vital that we start by

cefnogaeth i gryfhau'r cyfarwyddyd yn y maes hwn. Mae'n hollbwysig, a ninnau ar fin gweld mwy o awdurdodau lleol yn cyflwyno cynlluniau i ad-drefnu ysgolion ar raddfa anferth, ac os na lwyddwn i wneud hyn yn iawn, gallem fod yn gwneud difrod i'r iaith am genedlaethau mewn nifer o gymunedau.

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** I am sure Paul is truly concerned about the impact that the closure of schools can have on the Welsh language. However, looking at the content of his motion, I think he has misunderstood some fundamental elements of the process of reorganising schools.

Awdurdodau lleol, nid Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu lleoedd mewn ysgolion. Hwyl sy'n gorfod adolygu ac asesu'r ddarpariaeth addysg yn eu hardaloedd, a chan amlaf hwy a fydd yn cyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion, gan gynnwys cynigion i'w cau. Cyn cyhoeddi unrhyw gynigion ar gyfer newid, bydd gofyn iddynt ymgynghori'n eang â phawb sydd â diddordeb, a rhoi sylw dyledus i'r materion a godir gan y sawl yr ymgynghorir a hwy.

**Jonathan Morgan:** Ni allwch ildio'ch cyfrifoldeb yn y maes hwn, oherwydd cyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad sy'n sefydlu'r union weithdrefn ar gyfer cau ysgolion, felly, mater i chi yw hyn.

**Jane Hutt:** Mae hynny'n awgrymu y gallech fod yn cefnogi gwelliant 1, Jonathan, oherwydd mae'r gwelliant yn dweud ein bod yn bwriadu diwygio'n cyfarwyddyd. Yr wyf wrth fy modd fod Kirsty a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi hynny. Dyna'r ffordd iawn i fynd i'r afael â'r ymrwymadau dilys sydd yn eich cynnig. Drwy eich cynnig, yr ydych wedi'n sicrhau eich bod am ddiogelu sefyllfa'r Gymraeg, sef y nod yr ydym i gyd yn ei gefnogi, ac yng nghyswllt cynigion i ad-drefnu ysgolion, credaf mai gwelliannau'r Llywodraeth yw'r ffordd orau i wneud hyn. Felly, gobeithio bod y Ceidwadwyr Cymreig yn awr yn bwriadu cefnogi ein gwelliant cyntaf. Os dymunwn ddylanwadu ar y ffordd yr ad-drefnir ysgolion, mae'n hollbwysig inni gychwyn drwy gydnabod mai swyddogaeth

recognising that it is primarily a local authority function and that guidance from the Welsh Assembly Government is crucial in shaping the way in which authorities undertake this function. The amendments focus on this point as the key element. We cannot and should not take away or take over from local authorities the business of shaping local provision to suit local conditions. This refers to the point that Gareth made this morning in committee and this afternoon about the crucial role of community planning.

Current Welsh Assembly Government guidance on school reorganisation proposals is contained in Circular 23/02. That guidance places a clear emphasis on the potential for driving up standards of education as being the prime consideration when authorities bring forward proposals for any restructuring of schools. The guidance also indicates that authorities should consider the overall effect on the community of a proposed school closure and the extent to which the school serves the whole community as a learning resource. Paul, you made this point clearly, as did Kirsty, Gareth and others. You refer to other services and the culture of the community, and the community impact, including any possible impact on the Welsh language in the community, is important and must be properly assessed and considered, but, ultimately, the interests of learners are paramount.

I want to assure you, Paul and Kirsty, in relation to Welsh-medium education, that the guidance stresses the need for authorities to assess the level of demand for places at Welsh-medium schools and to bring forward proposals for additional capacity where that is needed. There is also an explicit expectation that proposals will be developed that are in line with and supportive of the objectives of each authority's Welsh education scheme.

Consultation is key. I am sure, Paul, that you would be supportive of the positive and proactive strategy that Pembrokeshire County Council—your local authority—has

awdurdodau lleol yw hyn yn bennaf, a bod cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n hanfodol er mwyn llywio sut y bydd awdurdodau'n ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Mae'r gwelliannau'n canolbwyntio ar y pwynt hwn fel yr elfen allweddol. Gwaith awdurdodau lleol yw llunio darpariaeth leol sy'n gweddu i amgylchiadau lleol, ac ni allwn ac ni ddylem dynnu'r gwaith hwnnw oddi arnynt na'i ysgwyddo ar eu rhan. Mae hyn yn cyfeirio at y pwynt a wnaeth Gareth y bore yma yn y pwyllgor a'r prynhawn yma ynglŷn â swyddogaeth hollbwysig cynllunio cymunedol.

Mae cyfarwyddyd presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r cynigion i ad-drefnu ysgolion i'w weld yng Nghylchlythyr 23/02. Mae pwyslais clir yn y cyfarwyddyd hwnnw ar yr hyn a ddylai fod yn brif ystyriaeth pan fydd awdurdodau'n cyflwyno cynigion ar gyfer unrhyw ailstrwythuro ysgolion, sef y potensial ar gyfer codi safonau addysg. Mae'r cyfarwyddyd yn dweud hefyd y dylai awdurdodau ystyried yr effaith gyffredinol ar y gymuned yn sgil cynnig i gau ysgol ac i ba raddau y mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned gyfan fel adnodd dysgu. Paul, gwnaethoch chi'r pwynt hwn yn glir, fel y gwnaeth Kirsty, Gareth ac aelodau eraill. Cyfeiriwch at wasanaethau eraill ac at ddiwylliant y gymuned, ac mae'r effaith ar y gymuned, gan gynnwys unrhyw effaith bosibl ar yr iaith Gymraeg yn y gymuned, yn bwysig a rhaid ei hasesu a'i hystyried yn iawn, ond yn y pen draw buddiannau dysgwyr sydd bwysicaf.

Dymunaf eich sicrhau, Paul a Kirsty, o ran addysg cyfrwng Cymraeg, fod y cyfarwyddyd yn pwysleisio bod angen i awdurdodau asesu lefel y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyflwyno cynigion ar gyfer lleoedd ychwanegol lle mae angen hynny. Mae na ddisgwyliad amlwg hefyd y datblygir cynigion sy'n unol ag amcanion cynllun addysg Gymraeg pob awdurdod a chynigion sy'n cefnogi'r amcanion hynny.

Mae ymgynghori'n hollbwysig. Yr wyf yn siŵr y byddech chi, Paul, yn cefnogi'r strategaeth gadarnhaol a rhagweithiol y mae Cyngor Sir Penfro—eich awdurdod lleol

established to deal with surplus primary capacity. That strategy has been in place for around 10 years, and it was gradually implemented on an area basis as need has dictated. There has been substantial investment in new or refurbished area schools, and there has been effective action to remove places, which has resulted in Pembrokeshire having the second lowest number of primary surplus places in January 2007, when it had just over 1,000 empty places. Pembrokeshire has been very proactive. Having visited schools in Pembrokeshire, I know that it was difficult to get to that point. It has set a good example for other authorities across Wales.

Consultation is key in planning school places. In terms of the information that must be provided during a consultation as supporting evidence for a proposal, we expect authorities to produce a consultation document that sets out the key information about a proposal. However, we are already planning to amend the guidance and to make this expectation much more explicit. We will extend it to include information on community impact. I keep telling and reassuring the Welsh Liberal Democrats that we are taking on board many of the aspects of Mike German's proposals, which are coming through in our revised guidance. I will repeat that it will include the community impact information, and that, in Welsh-speaking communities, the potential impact on the language will clearly be relevant to the assessment. I hope that you will reconsider our amendments, because they address what you want to achieve. We are looking to revise and strengthen our guidance on statutory proposals for a number of reasons, which, as I have already mentioned, include the circulars on policy and procedure, which are five and eight years old respectively.

**Nick Bourne:** Will the Minister give an undertaking that the Welsh impact assessment will take place before the consultation begins? If she will, we could reconsider our position. It is important that that Welsh impact assessment takes place and

chi—wedi'i sefydlu i ymdrin â lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd. Mae'r strategaeth honno wedi'i sefydlu ers oddeutu 10 mlynedd, ac fe'i rhoddwyd ar waith yn raddol fesul ardal yn ôl yr angen. Buddsoddwyd yn sylweddol mewn ysgolion ardal newydd neu ysgolion wedi'u hadnewyddu, a chymerwyd camau effeithiol i ddileu lleoedd gwag. Oherwydd hyn, yn sir Benfro yr oedd y nifer lleiaf o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd ym mis Ionawr 2007, pan nad oedd ganddi ond ychydig dros 1,000 o leoedd gwag. Mae Sir Benfro wedi bod yn rhagweithiol iawn. Ar ôl ymweld ag ysgolion yn Sir Benfro, gwn ei bod yn anodd iddi gyrraedd y fan honno. Mae wedi gosod esiampl dda i awdurdodau eraill ledled Cymru.

Ymgynghori yw'r allwedd wrth gynllunio lleoedd mewn ysgolion. O ran y wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu'n dystiolaeth i gefnogi cynnig yn ystod ymgynghoriad, disgwyliwn i awdurdodau gynhyrchu dogfen ymgynghori sy'n gosod allan y wybodaeth allweddol ynglŷn â chynnig. Fodd bynnag, yr ydym eisoes yn cynllunio i ddiwygio'r cyfarwyddyd ac i wneud y disgwyliad hwn yn fwy penodol o lawer. Byddwn yn ei ymestyn i gynnwys gwybodaeth am yr effaith ar y gymuned. Yr wyf yn dweud wrth Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru o hyd, i geisio tawelu eu meddwl, ein bod yn rhoi sylw i nifer o'r agweddau a oedd yng nghynigion Mike German, ac y bydd y rheini i'w gweld yn ein cyfarwyddyd diwygiedig. Dywedaf eto y bydd yn cynnwys y wybodaeth am yr effaith ar y gymuned, ac mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith bydd yr effaith bosibl ar yr iaith yn amlwg yn berthnasol i'r asesiad. Gobeithio y byddwch yn ailystyried ein gwelliannau, oherwydd maent yn rhoi sylw i'r hyn yr ydych am ei gyflawni. Ein nod yw diwygio a chryfhau ein cyfarwyddyd ynglŷn â chynigion statudol am nifer o resymau, sydd, fel yr wyf eisoes wedi crybwyll, yn cynnwys y cylchlythyron ar bolisi a gweithdrefn, sydd yn bump ac yn wyth mlwydd oed yn y drefn honno.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog addo cynnal yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg cyn dechrau'r ymgynghori? Os gwnaiff, galleml ailystyried ein safbwynt. Mae'n bwysig i asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gael ei gynnal a'i gwblhau cyn dechrau'r



is concluded before the consultation begins. ymgynghori.

**Jane Hutt:** I was going to go on to say that when we consult on the revised guidance and the amended regulations, I would be happy to ensure that they include more specific provisions that local authorities should assess the impact of their proposals on Welsh-medium education and the Welsh language, along with an assessment on community impact. I think that that probably gives you what you are seeking.

**Kirsty Williams:** I take the point that you have listened to the views of the Liberal Democrats and that you intend to act in that regard. When will you be going out to consultation on the revised guidance and regulations, and when do you expect to see that revised guidance in operation? The issue is that local authorities are going through this process now, and by the time you get round to publishing your new guidance and regulations, the damage may already have been done in many communities across Wales.

**Jane Hutt:** My officials are working on it now, and I expect it to be produced in the very near future. I will certainly come back to you with a timeline on that.

I hope that the Welsh Conservatives will consider what I have said, because we want to firm up the guidance to include more specific provisions for local authorities to assess the impact of their proposals on Welsh-medium education and the Welsh language, along with the community impact assessment. It will also take on board the fact that a new curriculum is being developed in relation to the 14-19 learning pathways and the foundation phase. Mike German made another key point about increasing the emphasis on listening to the views of young people in terms of this guidance.

I wish to move on quickly to amendments 2 and 3, which propose that this guidance be prepared in consultation with my colleague, the Minister for Heritage, who has

**Jane Hutt:** Yr oeddwn yn bwriadu mynd ymlaen i ddweud, pan fyddwn yn ymgynghori ynglŷn â'r cyfarwyddyd diwygiedig a'r rheoliadau diwygiedig, y byddwn yn falch sicrhau eu bod yn cynnwys darpariaethau mwy penodol. Bydd y rhain yn dweud y dylai awdurdodau lleol asesu effaith eu cynigion ar addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg, ynghyd ag asesiad o'r effaith ar y gymuned. Credaf fod hynny, mae'n debyg, yn rhoi ichi'r hyn yr ydych yn ei geisio.

**Kirsty Williams:** Derbyniaf y pwynt eich bod wedi gwrandao ar farn y Democratiaid Rhyddfrydol a'ch bod yn bwriadu gweithredu yn y cyswllt hwnnw. Pa bryd y byddwch yn dechrau ymgynghori am y cyfarwyddyd a'r rheoliadau diwygiedig, a pha bryd y disgwylwch weld y cyfarwyddyd diwygiedig hwnnw ar waith? Y broblem yw bod awdurdodau lleol yn mynd drwy'r broses hon yn awr, ac erbyn ichi gyhoeddi'ch cyfarwyddyd a'ch rheoliadau newydd, mae'n bosibl y bydd y difrod eisoes wedi'i wneud mewn nifer o gymunedau ledled Cymru.

**Jane Hutt:** Mae fy swyddogion yn gweithio arno'n awr, a disgwyliaf weld ei gynhyrchu yn y dyfodol agos iawn. Byddaf yn sicr yn dod yn ôl atoch gydag amserlen ar gyfer hynny.

Gobeithio y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ystyried yr hyn yr wyf wedi'i ddweud, oherwydd yr ydym am gryfhau'r cyfarwyddyd i gynnwys mwy o ddarpariaethau penodol ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn asesu effaith eu cynigion ar addysg cyfrwng Cymraeg ac ar yr iaith Gymraeg, ynghyd ag asesu'r effaith ar y gymuned. Bydd hefyd yn rhoi sylw i'r ffaith fod cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu yng nghyswllt y llwybrau dysgu 14-19 a'r cyfnod sylfaen. Gwnaeth Mike German bwynt allweddol arall ynglŷn â rhoi mwy o bwyslais ar wrando ar farn pobl ifanc yng nghyswllt y cyfarwyddyd hwn.

Dymunaf symud ymlaen yn gyflym at welliannau 2 a 3, sy'n cynnig y dylid paratoi'r cyfarwyddyd hwn drwy ymgynghori â'm cyd-Weinidog, y Gweinidog dros

responsibility for the Welsh language. I believe—and I hope that I will see a change from that side—that this goes along way towards achieving the appropriate input from the Minister in developing this guidance. I also hope that that gives Paul the assurance that he is seeking in terms of the responsibility for the Welsh language.

I gloi, yn fy marn i, gall darparu adeiladau ysgol gwell i wasanaethu cymunedau Cymraeg eu hiaith gefnogi'r iaith ac atgyfnerthu'r defnydd a wneir ohoni.

**Alun Cairns:** Mae tair neges glir wedi dod o'r ddadl bwysig hon heddiw. Yn gyntaf, nid oes yr un Aelod Llafur, heblaw am y Gweinidog, wedi cyfrannu at y ddadl. Mae hynny'n dangos y flaenoriaeth a roddir gan y Blaid Lafur i'r iaith.

4.00 p.m.

Obviously, we were expecting far better from Plaid Cymru, because, over the years, it has stated that it has saved the language or contributed to its development. Its contribution was a little better, but we heard only one real speech from a Plaid Cymru Member in such an important debate. To be fair to Gareth Jones, who contributed, he stated that he supported the principles, but he did not go any further. Perhaps my first comments have inspired a response from some Plaid Cymru Members. I will listen carefully to Alun Ffred's intervention.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for taking the intervention. It is good to hear you speaking Welsh in the Chamber; that does not happen very often, so I am not going to take a lecture from you on that. Although I have no problem with the messages regarding the impact assessments, the truth is that we are already implementing these. We have been doing so for many years in planning and with regard to Gwynedd schools. Therefore, although I agree with what you say, you are behind the times. However, I am pleased to see that you are catching up.

**Alun Cairns:** I do not accept that, but I would not have expected anything better

Dreftadaeth, sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg. Yr wyf yn credu—a gobeithiaf weld newid o'r ochr honno—yr aiff hyn gryn tipyn o ffordd tuag at sicrhau'r cyfraniad priodol gan y Gweinidog wrth ddatblygu'r cyfarwyddyd hwn. Gobeithio hefyd fod hynny'n rhoi'r sicrwydd i Paul y mae'n ei geisio o ran y cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg.

Finally, in my view, providing better school buildings to serve Welsh-speaking communities can support the language and reinforce its use.

**Alun Cairns:** There are three clear messages emanating from this afternoon's important debate. First, not one Labour Member, apart from the Minister, has contributed to the debate. That just shows the priority which the Labour Party attaches to the Welsh language.

Yn amlwg, yr oeddem yn disgwyl llawer gwell gan Blaid Cymru, oherwydd dros y blynyddoedd mae wedi dweud ei bod wedi achub yr iaith neu wedi cyfrannu at ei datblygiad. Yr oedd ei chyfraniad ychydig yn well, ond dim ond un araith wirioneddol a glywsom gan Aelod Plaid Cymru mewn dadl mor bwysig. I fod yn deg â Gareth Jones, a gyfrannodd, dywedodd ei fod yn cefnogi'r egwyddorion ond nid aeth ymhellach na hynny. Efallai fod fy sylwadau cyntaf wedi ysbrydoli ymateb gan rai o Aelodau Plaid Cymru. Gwrandawaf yn ofalus ar ymyriad Alun Ffred.

**Alun Ffred Jones:** Diolch ichi am gymryd yr ymyriad. Mae'n dda eich clywed yn siarad Cymraeg yn y Siambr; nid yw hynny'n digwydd yn aml iawn, felly nid wyf am dderbyn darlith gennych chi ar hynny. Er nad oes gennyf broblem â'r negeseuon ynglŷn â'r asesiadau effaith, y gwir yw ein bod eisoes yn rhoi'r rhain ar waith. Yr ydym wedi bod yn gwneud hynny am flynyddoedd lawer ym maes cynllunio ac yng nghyswllt ysgolion Gwynedd. Felly, er fy mod yn cytuno â'r hyn a ddywedwch, yr ydych ar ei hôl hi. Fodd bynnag, yr wyf yn falch gweld eich bod yn symud ymlaen.

**Alun Cairns:** Nid wyf yn derbyn hynny, ond ni fyddwn yn disgwyl dim gwell gan Aelod

from Labour Member No. 27, who has just contributed to the debate. There is a huge difference between what we are proposing in this motion and what Plaid Cymru is implementing in Gwynedd. Do not listen only to me on this, but to the Welsh Language Society, which says that the impact of your policies has been entirely superficial in Gwynedd and that the policies do not provide for full consultation and professional assessment, which is what we are calling for in this motion—[*Interruption.*] If there is another intervention, I am happy to take it, because I will argue this point all afternoon.

**The Deputy Presiding Officer:** You do not have time.

**Alun Cairns:** Our record is quite clear compared with yours in Gwynedd as you close schools.

**Alun Ffred Jones:** I am sorry, but Gwynedd Council's record on language issues is there for all to see. I doubt any council would compare with it. However, with regard to professional impact assessments, those assessments in Gwynedd are carried out by Bangor University. If you do not think that that is sufficiently professional, come out and say so.

**Alun Cairns:** I accept that Bangor University's assessments are professional, but when do they take place? They take place once you recommend that the schools close. Therefore, it is apparent that this motion calls for the assessment to be conducted before any school is threatened with closure. I do not need to criticise Gwynedd Council's and Plaid Cymru's policies there. We need only listen to some prominent members of Cymuned such as Seimon Glyn or, as I mentioned, the Welsh Language Society. They are extremely critical of Plaid Cymru's policies, not only in Gwynedd, but, crucially, in the Assembly.

The third message that I took from the debate was that it is the Welsh Conservative Party that is leading the debate in this area. We are mapping out the path, following the extremely robust policies introduced by Sir Wyn when we were in Government. I was

Llafur Rhif 27, sydd newydd gyfrannu at y ddadl. Mae gwahaniaeth enfawr rhwng yr hyn yr ydym ni'n ei gynnig yn y cynnig hwn a'r hyn y mae Plaid Cymru yn ei roi ar waith yng Ngwynedd. Peidiwch â chymryd fy ngair i'n unig ar hyn, ond gair Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, sy'n dweud bod effaith eich polisiau wedi bod yn gwbl arwynebol yng Ngwynedd ac nad yw'r polisiau'n darparu ar gyfer ymgynghori llawn ac asesiad proffesiynol, sef yr hyn yr ydym yn galw amdano yn y cynnig hwn—[*Torri ar draws.*] Os oes ymyriad arall, yr wyf yn fodlon ei dderbyn, oherwydd dadleuaf y pwynt hwn drwy'r prynhawn.

**Y Dirprwy Llywydd:** Nid oes gennych amser.

**Alun Cairns:** Mae ein record ni yn ddigon clir o'i chymharu â'ch record chi yng Ngwynedd wrth ichi gau ysgolion.

**Alun Ffred Jones:** Mae'n ddrwg gennyf, ond mae record Cyngor Gwynedd ar faterion iaith yno i bawb ei gweld. Yr wyf yn amau y gallai unrhyw gyngor gymharu ag ef. Fodd bynnag, o ran asesiadau effaith proffesiynol, yng Ngwynedd caiff yr asesiadau hynny eu gwneud gan Brifysgol Bangor. Os nad ydych yn credu bod hynny'n ddigon proffesiynol, dewch allan a dywedwch hynny.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn derbyn bod asesiadau Prifysgol Bangor yn broffesiynol, ond pryd y maent yn digwydd? Maent yn digwydd ar ôl ichi argymhell bod yr ysgolion yn cau. Felly, mae'n amlwg fod y cynnig hwn yn galw am i'r asesiad gael ei wneud cyn bod bygythiad i gau unrhyw ysgol. Nid oes angen imi feirniadu polisiau Cyngor Gwynedd a Phlaid Cymru yno. Nid oes ond angen inni wrando ar rai o aelodau blaenllaw Cymuned, fel Seimon Glyn neu, fel y soniais, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Maent yn eithriadol o feirniadol o bolisiau Plaid Cymru, nid yn unig yng Ngwynedd ond, yn dyngedfennol, yn y Cynulliad.

Y drydedd neges a gymerais o'r ddadl oedd mai Plaid Geidwadol Cymru sy'n arwain y ddadl yn y maes hwn. Yr ydym yn mapio'r llwybr, yn dilyn y polisiau hynod o gryf a gyflwynwyd gan Syr Wyn pan oeddem ni mewn Llywodraeth. Yr oeddwn yn siomedig

disappointed that Eleanor Burnham suggested that this was a recently acquired interest of the Conservative Party. It has been apparent since the establishment of the Welsh Language Board, from the Welsh Language Act 1993 and given the creation of S4C that our record is robust in this area. The third message is that it is up to us to develop the Welsh language and, in some communities, to save the language. That is the purpose of this debate: to save the Welsh language in communities. It is up to us to take the debate to the next level.

It is apparent that Plaid Cymru is trying to say that there are guidelines to be published. As Jane Hutt said, there are some Government guidelines to be published, but the question is when that will happen. Many of these schools will have been closed before that happens. Jane Hutt stated that there was to be a consultation on these guidelines. The consultation will be conducted and will be published after most of these schools have closed, as is happening in Gwynedd.

Dyma'r neges ddiwethaf sydd gennyf wrth apelio at Aelodau Plaid Cymru. Dywedodd Gareth Jones ei fod yn derbyn egwyddor y cynnig hwn ac yn cytuno ag ef. Nid yw'r cynnig yn arwain at unrhyw bolisi uniongyrchol, ond byddai ei dderbyn yn anfon neges gref at y Gweinidog dros Dreftadaeth sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, ac i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Os ydych yn cytuno â'r egwyddorion hynny, cefnogwch y cynnig.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that they do, and so we will defer the vote until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

## **Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate**

### **Deintyddiaeth yng Nghymru Dentistry in Wales**

**The Deputy Presiding Officer:** I have **Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol

fod Eleanor Burnham wedi awgrymu mai diddordeb y mae'r Plaid Geidwadol wedi'i gaffael yn ddiweddar yw hwn. Mae wedi bod yn amlwg ers sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chan gofio sut y crëwyd S4C fod ein record ni yn y maes hwn yn record gref. Y drydedd neges yw mai ni sydd i ddatblygu'r Gymraeg, ac mewn rhai cymunedau i achub yr iaith. Dyna ddiben y ddadl hon: achub yr iaith Gymraeg mewn cymunedau. Mater i ni yw codi'r ddadl i'r lefel nesaf.

Mae'n amlwg fod Plaid Cymru yn ceisio dweud bod yna ganllawiau i gael eu cyhoeddi. Fel y dywedodd Jane Hutt, mae rhai canllawiau gan y Llywodraeth i gael eu cyhoeddi, ond y cwestiwn yw pryd y bydd hynny'n digwydd. Bydd nifer o'r ysgolion hyn wedi cau cyn i hynny ddigwydd. Dywedodd Jane Hutt y byddai ymgynghori ar y canllawiau hyn. Bydd yr ymgynghori'n digwydd ac yn cael ei gyhoeddi wedi i'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn gau, fel sy'n digwydd yng Ngwynedd.

Here is my final message by way of appeal to Plaid Cymru Members. Gareth Jones said that he accepted the principle of the motion and agreed with it. The motion will not lead to the implementation of any direct policy, but accepting it will send a strong message to the Minister for Heritage, who has responsibility for the Welsh language, and to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. If you agree with those principles, support this motion.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod, ac felly, gohiriwn y bleidlais tan amser pleidleisio.

selected amendment 1 in the name of William Graham, and amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Carwyn Jones.

**Jenny Randerson:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*1. notes that the new dental contract has been in operation for two years;*

*2. notes the difficulty that many people in Wales still have in accessing an NHS dentist and that many NHS dentists have found the new contract to be unsatisfactory;*

*3. notes with concern that the dental contract has failed to solve many of the problems of NHS dentistry;*

*4. calls on the Welsh Assembly Government to undertake an urgent review of NHS dentistry in Wales with a view to replacing the dental contract with a re-drafted version with a strong emphasis on preventative care. (NDM3898)*

We bring this debate forward with a heavy heart. On 13 November—and not 17 November, as Labour’s amendment 4 says, which was a Saturday—I welcomed the setting up of the task-and-finish group to review the working of the NHS dental contract, but I made it clear that I was deeply disappointed with the way in which the contract had been set up and the way in which it was working. Prior to that, I was concerned when I proposed an amendment in the health committee to allow a preventative unit of dental activity to be included in the contract and it was defeated because it was not accepted by the then Minister for health.

However, time has moved on, and it has become clear that the situation is even worse than I had realised. Figures released just this month show that, in the last quarter for which figures are available, some 50,000 fewer patients accessed dental health services under the NHS in Wales than in the quarter ending just before the contract came in. That is some 2 per cent of the total patient population. It is the culmination of a steady downward trend

gwelliant 1 yn enw William Graham, a gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Carwyn Jones.

**Jenny Randerson:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn nodi bod y contract deintyddol newydd wedi bod ar waith ers dwy flynedd;*

*2. yn nodi'r anawsterau a gaiff nifer o bobl yng Nghymru o hyd wrth geisio cael gafael ar un o ddeintyddion y GIG a bod nifer o ddeintyddion y GIG yn teimlo bod y contract newydd yn anfodddhaol;*

*3. yn nodi â phryder bod y contract deintyddol wedi methu datrys nifer o broblemau deintyddiaeth y GIG;*

*4. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad brys o ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru gyda'r bwriad o ddisodli'r contract deintyddol gyda fersiwn wedi'i ailddrafftio gyda phwyslais cryf ar ofal ataliol. (NDM3898)*

Gyda chalon drom yr ydym yn cyflwyno'r ddadl hon. Ar 13 Tachwedd—ac nid 17 Tachwedd, fel y dywed gwelliant 4 gan Lafur, sef dydd Sadwrn—yr oeddwn yn croesawu sefydlu'r grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r ffordd y mae contract deintyddol y GIG yn gweithio, ond gwneuthum yn glir fy mod wedi fy siomi'n ddirfawr â'r ffordd y cafodd y contract ei sefydlu a'r ffordd yr oedd yn gweithio. Cyn hynny, yr oeddwn yn bryderus pan gynigiais welliant yn y pwyllgor iechyd i ganiatáu i uned ataliol o weithgarwch deintyddol gael ei chynnwys yn y contract, a bod hwn wedi ei drechu oherwydd na chafodd ei dderbyn gan y Gweinidog dros iechyd ar y pryd.

Fodd bynnag, mae amser wedi symud ymlaen, ac mae wedi dod yn glir fod y sefyllfa hyd yn oed yn waeth nag yr oeddwn yn sylweddoli. Mae ffigurau a ryddhawyd y mis hwn yn dangos, yn y chwarter olaf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer, fod rhyw 50,000 yn llai o gleifion wedi gallu cael gwasanaethau iechyd deintyddol o dan y GIG yng Nghymru nag yn y chwarter a orffennodd ychydig cyn i'r contract gael ei

since the contract was introduced. In addition, that figure includes some 3,000 fewer children who are not accessing dental health services. Over half of our country's children have suffered from tooth decay—53 per cent of our young children have tooth decay compared with only 36 per cent in England.

The Welsh Liberal Democrats believe that we should listen to the task-and-finish group, but the Government needs to be ready to go with a review of the entire contract, with a view, possibly, to ripping it up and starting again. The political will within the Government does not appear to go far enough in this respect. We believe that the task-and-finish group's remit is too constrained. The Government's amendment 4 says it all, because it shows that the Government is only prepared to consider ways in which the contract can be improved; it is not prepared to consider how it can be fundamentally changed. None of this means that any good things that are discovered to be in the current contract could not be incorporated in any new contract.

I want to focus sharply on preventative care and make comparisons with the GP contract. While the new GP contract has many critics, particularly regarding cost, very few would argue that it has not provided a new angle and approach to preventative care. When patients visit their GP now, they get not only lengthy advice on what is bad for you in relation to diet, alcohol and so on, but also a veritable health MOT. Although there are cost issues that need to be overcome, no-one would argue that it is a bad reflection of political and public health priorities. NHS dentistry should follow a similar pattern. Preventative care is the only thing that can save our children's teeth, and dentists need to be free to give advice and provide dental MOTs.

I draw your attention to another obvious problem with the dental contract: as a patient, I pay the same, and my dentist receives the

gyflwyno. Mae hynny oddeutu 2 y cant o'r boblogaeth cleifion drwyddi draw. Mae'n benllanw tuedd cyson ar i lawr ers i'r contract gael ei gyflwyno. Yn ogystal, mae'r ffigur hwnnw'n cynnwys rhyw 3,000 yn llai o blant nad ydynt yn manteisio ar wasanaethau iechyd deintyddol. Mae dros hanner y plant yn ein gwlad wedi dioddef pydredd dannedd—mae gan 53 y cant o'n plant ifanc bydredd dannedd o'u cymharu â dim ond 36 y cant yn Lloegr.

Cred Democrataid Rhyddfrydol Cymru y dylem wrando ar y grŵp gorchwyl a gorffen. Ond mae angen i'r Llywodraeth fod yn barod i fwrw iddi i adolygu'r contract cyfan, gyda golwg, o bosibl, ar ei rwygo'n ddarnau a dechrau eto. Nid yw'n ymddangos bod ewyllys wleidyddol y Llywodraeth yn mynd yn ddigon pell yn y cyswllt hwn. Credwn fod cylch gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn rhy gyfyng. Mae gwelliant 4 gan y Llywodraeth yn dweud y cyfan, oherwydd mae'n dangos bod y Llywodraeth yn barod dim ond i ystyried ffyrdd i wella'r contract; nid yw'n barod i ystyried sut mae modd ei newid yn sylfaenol. Nid oes dim o hyn yn golygu na ddylai unrhyw bethau da a ddarganfyddir yn y contract cyfredol gael eu hymgorffori mewn unrhyw gontract newydd.

Yr wyf am ganolbwyntio'n fanwl ar ofal ataliol ac am gymharu â'r contract meddygon teulu. Er bod gan y contract meddygon teulu newydd lawer o feirniaid, yn enwedig o ran cost, ychydig iawn o bobl a fyddai'n dadlau nad yw wedi darparu ongl newydd a ffordd newydd i ymdrin â gofal ataliol. Pan fydd cleifion yn ymweld â'u meddyg teulu yn awr, nid yn unig y maent yn cael cyngor maith am yr hyn sy'n ddrwg ichi o ran deiet, alcohol ac yn y blaen, ond hefyd cânt MOT iechyd go iawn. Er bod yna faterion cost y mae angen eu goresgyn, ni fyddai neb yn dadlau nad yw'n adlewyrchiad gwael o'r blaenoriaethau gwleidyddol a'r blaenoriaethau o ran iechyd y cyhoedd. Dylai deintyddiaeth y GIG ddilyn patrwm tebyg. Gofal ataliol yw'r unig beth a all achub dannedd ein plant, ac mae angen i ddeintyddion fod yn rhydd i roi cyngor a darparu MOT deintyddol.

Tynnaf eich sylw at broblem amlwg arall gyda'r contract deintyddol: fel claf, yr wyf yn talu'r un faint, ac y mae fy neintydd yn cael

same fee, whether I need one filling or seven.

yr un ffi, pa un a oes angen un llenwad ynteu saith arnaf.

4.10 p.m.

There is a correlation between the poverty and high levels of tooth decay: those who require the most fillings are more likely to be among the poorest in society. Strong evidence is emerging that it is those people in greatest need of a dentist who find it impossible to register with a dentist on the NHS. It stands to reason that only the most dedicated and committed of dentists will work, in effect, for free, in some cases of complex needs.

Mae cydberthynas rhwng tlodi a lefelau uchel o bydredd dannedd: mae'r rheini sydd ag angen y nifer mwyaf o lenwadau yn fwy tebygol o fod ymhlith y bobl dlotaf mewn cymdeithas. Mae tystiolaeth gref yn dod i'r amlwg mai'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf am wasanaeth deintydd sy'n ei chael yn amhosibl cofrestru gyda deintydd GIG. Mae'n sefyll i reswm mai'r deintyddion mwyaf ymroddedig yn unig a fydd, mewn gwirionedd, yn gweithio am ddim, mewn rhai achosion lle mae anghenion cymhleth.

The Government will undoubtedly reply that there are now more registered NHS dentists; the figure has moved from 3.5 dentists per 10,000 of the population to four dentists per 10,000 of the population. That does not compare well with Australia, which has 11 dentists per 10,000 of the population. However, that statistic is false. The British Dental Association points out that, in the past, you could work as an NHS dentist without being a registered contract-holder, but now, you must be registered as a contract-holder in order to work. Therefore, dentists who worked in the NHS before did not show up as part of that statistic, which is why we are not counting more dentists; we are simply counting the same number in a different way.

Mae'n sicr y bydd y Llywodraeth yn ateb bod gennym erbyn hyn fwy o ddeintyddion GIG cofrestredig; mae'r ffigur wedi symud o 3.5 deintydd am bob 10,000 o'r boblogaeth i bedwar deintydd am bob 10,000 o'r boblogaeth. Nid yw hynny'n cymharu'n dda ag Awstralia, sydd ag 11 deintydd am bob 10,000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae'r ystadegyn hwnnw'n un cyfeiliornus. Mae Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn tynnu sylw at y ffaith y gallech, yn y gorffennol, weithio fel deintydd GIG heb fod gennych gontract cofrestredig, ond yn awr rhaid ichi fod wedi'ch cofrestru gyda chontract er mwyn gweithio. Felly, nid oedd deintyddion a arferai weithio yn y GIG yn ymddangos fel rhan o'r ystadegyn hwnnw, a dyna pam nad ydym yn cyfrif mwy o ddeintyddion; nid ydym ond yn cyfrif yr un nifer mewn ffordd wahanol.

There is also evidence that some dentists are charging for treatments such as a scale and polish as optional extras, when they should be part of the national health service course of treatment. That may be a small minority of dentists, but it is still not acceptable.

Mae tystiolaeth hefyd fod rhai deintyddion yn codi tâl am driniaethau fel digennu a chaboli fel elfennau ychwanegol dewisol, pan ddylent fod yn rhan o gwrs o driniaeth dan y gwasanaeth iechyd gwladol. Efallai mai lleiafrif bach o ddeintyddion yw hynny, ond nid yw'n dderbyniol, serch hynny.

For all these reasons, the Welsh Assembly Government should acknowledge that the dental contract is not working. It does not just require minor tweaking, as the Government amendments suggest, but major dental surgery. In 1997, Tony Blair promised that everyone would have access to NHS dentistry. In practice, we have had a growing

Am yr holl resymau hyn, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod nad yw'r contract deintyddol yn gweithio. Nid dim ond mân dwtio sy'n ofynnol, fel y mae gwelliannau'r Llywodraeth yn ei awgrymu, ond llawdriniaeth ddeintyddol fawr. Yn 1997, addawodd Tony Blair y byddai pawb yn gallu cael gwasanaeth deintyddol GIG. Yn

dental divide—or a series of divides, really. In Wales, there has been a divide between rural and urban areas, and there is now a divide between rich and poor, which, in many cases, is a divide between those who most need treatment and those who need only minor treatment.

In setting up the new contract, I believe that the Government did so in what can broadly be described as ‘good faith’, but I believe that was misguided, and so we are willing to accept the Conservatives’ amendment 1, which reflects that. I urge the Government to look again at the whole contract, and I urge the Minister, when the task-and-finish group reports, to take her usual robust approach and not be afraid to have a different contract in Wales. It is not an insuperable problem.

To build on the good things in the contract, dentists tell me that they are not sorry to have seen the end of hundreds of different items of treatment for which they had to charge, but that the current scale units of dental activity are far too simplistic, do not reflect the amount of work that dentists must do, and do not reward them at all for preventative work. I urge the Government to support our motion, to accept that the contract has driven people away from NHS dentistry, and to accept that dentists, as well as the public, are beginning to question whether there is any future for NHS dentistry. There is a real fear that private dentistry is taking over year by year. I urge you to support our motion, but not the Government’s amendment, and let us make Wales smile again.

**Jonathan Morgan:** I propose amendment 1 in the name of William Graham. Insert as a new point 1 and renumber accordingly:

*accepts that the Assembly Government was wrong in its assertion that the new dental contract would give access to an NHS dentist for all those who need it.*

We welcome this important debate, given

ymarferol, mae gennym raniad deintyddol cynyddol—neu gyfres o raniadau, mewn gwirionedd. Yng Nghymru, gwelwyd rhaniad rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, a bellach mae rhaniad rhwng y cyfoethog a’r tlawd, sydd mewn llawer achos yn rhaniad rhwng y rhai sydd â’r angen mwyaf am driniaeth a’r rhai nad oes arnynt angen ond mân driniaeth.

Wrth sefydlu’r contract newydd, credaf fod y Llywodraeth wedi gwneud hynny gyda’r hyn y gellir yn fras ei alw’n ‘ewyllys da’. Ond credaf fod hynny’n gyfeiliornus, ac yr ydym felly yn barod i dderbyn gwelliant 1 gan y Ceidwadwyr, sy’n adlewyrchu hynny. Anogaf y Llywodraeth i edrych eto ar y contract cyfan, ac anogaf y Gweinidog, pan fydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cyflwyno’i adroddiad, i weithredu yn ei ffordd gadarn arferol a pheidio ag ofni cael contract gwahanol yng Nghymru. Nid yw hyn yn broblem anorchfygol.

I adeiladu ar y pethau da yn y contract, dywed deintyddion wrthyf nad yw’n flin ganddynt weld diwedd ar y cannoedd o wahanol eitemau triniaeth yr oedd rhaid iddynt godi amdanynt. Ond mae’r unedau graddfa cyfredol o weithgarwch deintyddol yn or-sym, nid ydynt yn adlewyrchu faint o waith y mae’n rhaid i ddeintyddion ei wneud, ac nid ydynt yn eu gwobrwyo o gwbl am waith ataliol. Anogaf y Llywodraeth i gefnogi ein cynnig, i dderbyn bod y contract wedi gyrru pobl oddi wrth ddeintyddiaeth GIG, ac i dderbyn bod deintyddion, yn ogystal â’r cyhoedd, yn dechrau gofyn a oes unrhyw ddyfodol i ddeintyddiaeth GIG. Mae yna ofn gwirioneddol fod deintyddiaeth breifat yn ennill tir o flwyddyn i flwyddyn. Anogaf chi i gefnogi ein cynnig, ond nid gwelliant y Llywodraeth, a gadewch inni wneud i Gymru wenu eto.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham. Cynnwys fel pwynt 1 newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy’n dilyn:

*yn derbyn y bu Llywodraeth y Cynulliad yn anghywir yn ei haeriad y byddai’r contract deintyddol newydd yn galluogi pawb a oedd angen deintydd GIG i gael gafael ar un.*

Yr ydym yn croesawu’r ddadl bwysig hon, o



that only 56 per cent of the population of Wales have had access to an NHS dentist. With the dentistry contract under fire, this afternoon's debate is particularly important, so I am grateful to the Welsh Liberal Democrats for choosing this subject.

I welcome the fact that the Minister for health is willing to examine the effectiveness of the dentistry contract, which, I hope, will have the scope to be radical if necessary. If you look at where we are with the dental contract, and what was intended, it is clear that the outcomes are not what we envisaged, and certainly are not what the Government envisaged at the time. When you look back to the debates that we had a few years ago on the dental contract, it was clear that the intention was that access to NHS dentistry would be made easier for people in Wales, and that the contract would also be beneficial to dentists. When you look at the statistics and at the problems—whether they are recorded or anecdotal—it is clear that the contract has not delivered what everyone expected.

I concur with the view that Jenny Randerson has just expressed about the issue of prevention versus treatment. When you look at the statistics, it is starkly apparent that economic factors have a huge impact, and are a significant indicator of areas where people are not getting the level of dental treatment or access to a dentist that they need. The quality of people's teeth in those areas is nowhere near as good as it is in the economically better-off areas of Wales. We simply cannot ignore those factors and statistics when this contract is reviewed.

We must remember the promises that were made by the First Minister. During our consideration of this contract almost two years ago, the Government was very joyful about it, and said that it would provide additional access for those who required a dentist. On 5 December 2006, the First Minister said that

'everyone who wants NHS dentistry should be able to get it'.

gofio mai 56 y cant yn unig o boblogaeth Cymru sydd wedi gallu cael gwasanaeth deintydd GIG. Gyda'r contract deintyddiaeth dan y lach, mae'r ddadl y prynhawn yma'n arbennig o bwysig, felly, yr wyf yn ddiolchgar i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru am ddewis y pwnc hwn.

Croesawaf y ffaith fod y Gweinidog iechyd yn fodlon archwilio effeithiolrwydd y contract deintyddiaeth: gobeithio y bydd lle iddo fod yn radical os bydd angen. Os edrychwch ar ble'r ydym ni gyda'r contract deintyddol, a beth a fwriadwyd, mae'n amlwg nad yw'r canlyniadau fel y rhagwelwyd gennym, ac yn sicr nid ydynt fel y rhagwelwyd gan y Llywodraeth ar y pryd. Pan edrychwch yn ôl ar y dadleuon a gawsom ychydig flynyddoedd yn ôl ar y contract deintyddol, yr oedd yn glir mai'r bwriad oedd y byddai'n ei gwneud yn haws i bobl yng Nghymru allu cael deintyddiaeth GIG, ac y byddai'r contract yn fuddiol i ddeintyddion hefyd. Pan edrychwch ar yr ystadegau ac ar y problemau—boed wedi'u cofnodi neu'n anecdotaidd—mae'n amlwg nad yw'r contract wedi cyflawni'r hyn a ddisgwyliai pawb.

Yr wyf yn cyd-fynd â'r farn y mae Jenny Randerson newydd ei mynegi ynghylch cwestiwn atal neu driniaeth. Pan edrychwch ar yr ystadegau, mae'n hollol amlwg fod ffactorau economaidd yn cael effaith aruthrol, a'u bod yn arwyddocaol wrth ddangos ardaloedd lle nad yw pobl yn cael lefel y driniaeth ddeintyddol na'r gwasanaeth deintyddol sy'n angenrheidiol iddynt. Mae ansawdd dannedd pobl yn yr ardaloedd hynny ymhell o fod cystal ag yn ardaloedd economaidd mwy ffyniannus Cymru. Ni allwn anwybyddu'r ffactorau a'r ystadegau hynny pan adolygir y contract hwn.

Rhaid inni gofio'r addewidion a wnaethpwyd gan y Prif Weinidog. Pan oeddem yn ystyried y contract hwn bron i ddwy flynedd yn ôl, yr oedd y Llywodraeth yn llawen iawn yn ei gylch, gan ddweud y byddai'n sicrhau mynediad ychwanegol i bobl a oedd ag angen deintydd. Ar 5 Rhagfyr 2006, dywedodd y Prif Weinidog

'y dylai pawb sydd eisiau deintyddiaeth y GIG allu ei chael'.

A few months before that, as early as May 2006, he said that even if people did not currently have an NHS dentist, he hoped that they would be able to access the service without any problems.

That simply is not the case at present. According to the Minister for health, Pembrokeshire and Carmarthenshire LHBS administer a database of people waiting to see an NHS dentist, and, at the end of January this year, there were 9,668 on the Pembrokeshire list, and 1,735 on the Carmarthenshire list. We do not know about the rest of Wales, because part of the beauty of the new contract was that there was no real requirement for local health boards to say whether they would maintain a list of those waiting. However, in those two local health boards, there are in excess of 10,000 people waiting to be registered with a dentist. Either the First Minister had his head in the clouds when he pronounced that the new contract would give access to dentistry to those who need it, or he deliberately misled the people of Wales. I do not know which it was, but I suspect that it was the former as opposed to the latter. Either way, it does not look good, because here was the Government saying that people in Wales would have access to a dentist, and that simply is not the case with this contract.

The contract negotiations for dentists did not go well, either. It was controversial among dentists, it was controversial among those who work in dental practices, and it did not get the support of the profession in the way that the GP and consultant contracts did.

Tomorrow, the Health, Wellbeing and Local Government Committee publishes its review into workforce planning. As Chair of that committee, I will not pronounce our findings in advance of the publication of the report, but we took evidence from dentists and those people who represent them, and I would urge the Minister to examine that report, see what we have said about the profession of dentistry, and respond positively. Quite simply, the Government has not got this right, and we must ensure that whatever

Ychydig fisoedd cyn hynny, mor gynnar â Mai 2006, dywedodd hyd yn oed os nad oedd gan bobl ddeintydd GIG ar hyn o bryd, y gobeithiai y byddent yn gallu cael y gwasanaeth heb ddim problemau.

Yn syml, nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Yn ôl y Gweinidog Iechyd, mae Byrddau Iechyd Lleol Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn gweinyddu cronfa ddata o bobl sy'n aros i weld deintydd y GIG, ac ddiwedd Ionawr eleni yr oedd 9,668 ar restr sir Benfro a 1,735 ar restr sir Gaerfyrddin. Ni wyddom am weddill Cymru, oherwydd rhan o hwylustod y contract newydd oedd nad oedd gofyniad gwirioneddol i fyrddau iechyd lleol ddweud a fyddent yn cadw rhestr o bobl sy'n aros. Fodd bynnag, yn y ddau fwrdd iechyd lleol hynny mae dros 10,000 o bobl yn aros i gael eu cofrestru gyda deintydd. Naill ai yr oedd pen y Prif Weinidog yn y cymylau pan gyhoeddodd y byddai'r contract newydd yn darparu deintyddiaeth i'r rhai y mae ei hangen arnynt, ynteu yn oedd yn fwriadol yn camarwain pobl Cymru. Ni wn p'run, ond yr wyf yn amau mai'r cyntaf yn hytrach na'r ail. Sut bynnag, nid yw'n edrych yn dda, oherwydd yr oedd y Llywodraeth yn dweud y byddai pobl yng Nghymru yn gallu cael gwasanaeth deintydd, ac nid dyna sy'n digwydd o gwbl gyda'r contract hwn.

Nid aeth y gwaith o drafod contract i ddeintyddion yn dda, ychwaith. Yr oedd yn ddadleuol ymhlith deintyddion, yr oedd yn ddadleuol ymhlith pobl sy'n gweithio mewn practisiau deintyddol, ac ni chafodd gefnogaeth y proffesiwn fel y cafodd contractau meddygon teulu ac ymgynghorwyr.

Yfory bydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi ei adolygiad o gynllunio gweithlu. Fel Cadeirydd y pwyllgor hwnnw, nid wyf am ddatgelu ein darganfyddiadau cyn cyhoeddi'r adroddiad, ond cawsom dystiolaeth gan ddeintyddion a'r bobl sy'n eu cynrychioli, ac anogaf y Gweinidog i archwilio'r adroddiad hwnnw, gweld yr hyn yr ydym wedi'i ddweud am y proffesiwn deintyddol, ac ymateb yn gadarnhaol. Yn syml iawn, nid yw'r Llywodraeth yn wedi taro deuddeg gyda hwn,

review is done of this contract produces not just a good system of access for those people who need it, but also a good contract that reflects the professionalism of dentists in Wales.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I propose the following amendments in the name of Carwyn Jones. Amendment 2: insert 'nearly' before 'two' in point 1.

Amendment 3: delete point 2 and replace with:

*2. welcomes the fact that thousands of extra NHS dental places are now available in Wales;*

Amendment 4: delete point 3 and replace with:

*3. endorses the decision of the Minister for Health and Social Services to set up a task and finish group to report on ways in which the working of the contract can be improved, as notified to the Assembly in an oral statement on 17 November 2007, and looks forward to its publication.*

Amendment 5: delete point 4.

4.20 p.m.

**Kirsty Williams:** Dentistry's problems are still at their worst in Wales's rural areas and communities. It is in these areas where those wishing to seek access to an NHS dentist are still finding it most difficult to achieve that. Who would have thought that, after nearly 11 years of a Labour Government, we would still be in such an integral mess when it comes to delivering NHS dentistry? What should be a core part of the NHS in Wales is still in a real mess.

Bizarrely, in the last two years, my postbag has seen a considerable reduction in the number of people complaining about getting access to an NHS dentist. However, having talked to my constituents, it is now obvious

a rhaid inni sicrhau bod pa bynnag adolygiad a wneir o'r contract hwn yn cynhyrchu nid yn unig system dda i'r bobl allu cael gwasanaeth deintyddol pan fydd arnynt ei hangen, ond contract da hefyd sy'n adlewyrchu proffesiynoldeb deintyddion yng Nghymru.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Carwyn Jones. Gwelliant 2: rhoi 'bron' cyn 'dwy' ym mhwynt 1.

Gwelliant 3: dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

*2. yn croesawu'r ffaith bod miloedd o leoedd deintyddol ychwanegol yn eu lle yn y GIG yng Nghymru;*

Gwelliant 4: dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

*3. yn cymeradwyo penderfyniad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i hysbysodd i'r Cynulliad mewn datganiad llafar ar 17 Tachwedd 2007, i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gyflwyno adroddiad ar sut i wella'r ffordd y mae'r contract yn gweithio, ac yn edrych ymlaen at weld ei gyhoeddi.*

Gwelliant 5: dileu pwynt 4.

**Kirsty Williams:** Mae problemau deintyddiaeth yn dal ar eu gwaethaf yn ardaloedd a chymunedau gwledig Cymru. Yn yr ardaloedd hyn y mae'r bobl sydd am allu cael gwasanaeth deintydd y GIG yn dal i gael yr anhawster mwyaf wrth wneud hynny. Pwy a fyddai wedi meddwl, wedi bron i 11 mlynedd o Lywodraeth Lafur, y byddem yn dal mewn cymaint o lanestr sylfaenol pan ddaw'n fater o ddarparu deintyddiaeth dan y GIG? Mae'r hyn a ddylai fod yn rhan greiddiol o'r GIG yng Nghymru yn dal yn llanastr gwirioneddol.

Yn rhyfedd iawn, yn y ddwy flynedd diwethaf mae fy sach bost wedi gweld lleihad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cwyno ynghylch gallu cael deintydd dan y GIG. Fodd bynnag, o siarad â'm hetholwyr mae'n

to me why that is. Plainly and simply, many people in rural Wales are being forced to go private or to resort to using a pair of pliers in their front room—literally, in some cases. That reflects the fact that more and more dentists are leaving the NHS and are concentrating on private work. We need to invest in rural dentistry, and we need to attract more graduates back to the areas where they grew up, following their studies, to establish practices in Wales.

We need to encourage that in the way that we support LHBs. Powys LHB found itself in the invidious position that, because it had been successful in recruiting dentists to some parts of the county, the rest of the money that the Assembly was going to spend on it was withdrawn, despite the fact that large parts of the county were still left without access to a dentist. Therefore, it was great news for people in Brecon—we had a new dentist there, and you could sign up. However, because we had been able to do that in Brecon, and because, in some ways, Powys had been seen to hit some of its targets, people in Presteigne, which is over an hour away, had to continue to suffer.

A new contract that builds on the best of what we have in the current contract, but acknowledges the current difficulties, could safeguard the future of NHS dentistry in this country, and in the countryside in particular. That is not being done at present. We either have to decide that dentistry is an essential part of healthcare in Wales and therefore part of the NHS and look after it accordingly, or leave it to die. I do not believe that any of us, including the Minister, morally or politically, would want to endorse that second option.

Members who may not have taken a close interest in dentistry in the past, but have instead seen it as a service that was there to be relied upon, need to wake up and to be under no illusion that it will be around forever. If you look at the balance between private and NHS dental practices, you can see

amlwg i mi'n awr pam y mae hynny. Yn blwmp ac yn blaen, mae nifer o bobl yng nghefn gwlad Cymru'n cael eu gorfodi i fynd yn breifat neu ddefnyddio gefel fach yn eu hystafell fyw—yn llythrennol, mewn ambell achos. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith fod mwy a mwy o ddeintyddion yn gadael y GIG ac yn canolbwyntio ar waith preifat. Mae angen inni fuddsoddi mewn deintyddiaeth yng nghefn gwlad, ac mae angen denu mwy o raddedigion yn ôl i'r ardaloedd lle cawsant eu magu, ar ôl eu hastudiaethau, i sefydlu practisiau yng Nghymru.

Mae angen inni annog hynny yn y ffordd yr ydym yn cefnogi byrddau iechyd lleol. Cafodd bwrdd iechyd lleol Powys ei hun yn y sefyllfa annymunol, oherwydd ei fod wedi llwyddo i recriwtio deintyddion i rai rhannau o'r sir, fod gweddill yr arian yr oedd y Cynulliad yn mynd i'w wario arno wedi ei dynnu'n ôl, er bod rhannau helaeth o'r sir lle na elid cael gwasanaeth deintydd. Felly, yr oedd yn newyddion gwych i bobl yn Aberhonddu—yr oedd gennym ddeintydd newydd yn y fan honno, ac yr oedd modd ymuno. Fodd bynnag, am ein bod wedi gallu gwneud hynny yn Aberhonddu, ac oherwydd, mewn rhai ffyrdd, fod Powys wedi ei gweld yn cyrraedd rhai o'i thargedau, yr oedd yn rhaid i bobl yn Llanandras, sydd dros awr i ffwrdd, ddal i ddiodef.

Gallai contract newydd sy'n adeiladu ar y gorau o'r hyn sydd gennym yn y contract cyfredol, ond yn cydnabod yr anawsterau cyfredol, ddiogelu dyfodol deintyddiaeth y GIG yn y wlad hon, ac yng nghefn gwlad yn arbennig. Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Rhaid inni naill ai benderfynu bod deintyddiaeth yn rhan hanfodol o ofal iechyd yng Nghymru ac felly'n rhan o'r GIG a gofalu amdani'n unol â hynny, ynteu ei gadael i farw. Ni chredaf y byddai'r un ohonom, gan gynnwys y Gweinidog, yn foesol nac yn wleidyddol am gefnogi'r ail ddewis hwnnw.

Mae angen i Aelodau sydd efallai heb gymryd diddordeb agos mewn deintyddiaeth yn y gorffennol, ond sydd yn hytrach wedi'i weld fel gwasanaeth a oedd yno i ddiybnyu arno, ddeffro a pheidio â chael camargraff y bydd gyda ni am byth. Os edrychwch ar y cydbwysedd rhwng practisiau deintyddol

that we are heading in the wrong direction.

Finally, I will turn to the Government's amendments. We have got used to the Government coming forward with amendments in some form or another, but why do the Minister and her special advisers not stop taking the cowardly route of watering things down beyond all meaning? Why do you not have the political backbone, Minister—you and your Plaid Cymru colleagues—to vote 'yes' or 'no' or to abstain on the matters of principle in the motions put before you? There is a difference between a constructive amendment that adds something to a motion, and simply relying on your majority to act thuggishly and to avoid voting on the issues that count.

**Val Lloyd:** I have listened attentively to what previous speakers have said, but I am still in no doubt, from my own experience, that the introduction of the current NHS dental contract has improved access to NHS dental services for patients in Wales, even in areas where there has been less than ideal provision. My own area of Swansea is well placed in terms of access to NHS dental services, and I am proud that the local health board has maintained the level of NHS commitment, despite difficulties encountered prior to the start of the contract, and again in late spring 2007.

However, I recognise that the implementation of the new contract has led to problems, and concerns have been raised with me by patients and dentists. First, it seems that the price paid to dentists for NHS work differs across practices. I am told that the value of a unit of dental activity can vary from £19 to £27 in Swansea, which causes concerns for dentists, who do not feel valued for the work that they do if they are paid less than their colleagues.

The banding for current treatment is very wide, and it is felt that there should be a breakdown in band 2 treatment to accurately reflect the fact that complex work, which is of benefit to patients, is currently not

preifat a rhai'r GIG, gwelwch ein bod yn symud i'r cyfeiriad anghywir.

Yn olaf, trof at welliannau'r Llywodraeth. Yr ydym wedi dod i arfer â gweld y Llywodraeth yn dod ymlaen â gwelliannau o ryw fath neu'i gilydd, ond pam na wnaiff y Gweinidog a'i chynghorwyr arbennig roi'r gorau i ddilyn y llwybr llwfr o lastwreiddio popeth y tu hwnt i bob ystyr? Pam nad oes gennych yr asgwrn cefn gwleidyddol, Weiniidog—chi a'ch cyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru—i bleidleisio 'ie' neu 'na' neu i atal eich pleidlais ar y materion o egwyddor yn y cynigion a osodir ger eich bron? Mae gwahaniaeth rhwng gwelliant adeiladol sy'n ychwanegu rhywbeth at gynnig, a dibynnu'n syml ar eich mwyafrif i weithredu fel fandal ac i osgoi pleidleisio ar y materion sy'n cyfrif.

**Val Lloyd:** Yr wyf wedi gwranddo'n astud ar yr hyn y mae siaradwyr blaenorol wedi'i ddweud, ond yr wyf yn dal yn hollol sicr, o'm profiad fy hun, fod cyflwyno contract deintyddol cyfredol y GIG wedi ei gwneud yn haws i gleifion allu cael gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae darpariaeth wedi bod yn llai na delfrydol. Mae fy ardal i yn Abertawe mewn sefyllfa dda o ran gallu cael gwasanaethau deintyddol y GIG, ac yr wyf yn falch fod y bwrdd iechyd lleol wedi cynnal lefel ymrwymiad y GIG, er yr anawsterau a gafwyd cyn dechrau'r contract, ac eto ddiwedd y gwanwyn 2007.

Fodd bynnag, sylweddolaf fod gweithredu'r contract newydd wedi achosi problemau, ac mae cleifion a deintyddion wedi mynegi eu pryderon wrthyf. Yn gyntaf, ymddengys fod y pris a delir i ddeintyddion am waith GIG yn amrywio o bractis i bractis. Dywedir wrthyf y gall gwerth uned o waith deintyddol amrywio o £19 i £27 yn Abertawe, sy'n achosi pryderon i ddeintyddion am nad ydynt yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith a wnânt os cânt lai o dâl na'u cyd-ddeintyddion.

Mae'r bandio ar gyfer triniaeth gyfredol yn llydan iawn, a themlir y dylid cael dadansoddiad mewn triniaeth band 2 i adlewyrchu'n gywir y ffaith nad yw gwaith cymhleth, sydd o fudd i gleifion, yn cael ei

rewarded sufficiently. That issue has been highlighted to me by both patients and practitioners—unfortunately, on one occasion, when I was in the dentist’s chair. [*Laughter.*] It is impossible to escape then, particularly when the dental nurse has a go at you as well. It is felt that the system, as it is currently structured, does not reward quality. Dentists, quite rightly, have to comply with minimum standards, but they tell me that there is no reward for measures such as investing in premises to support those standards. There also seems to be some difficulty with failure-to-attend rates. It seems that these have become worse since the new contract came into force, as dentists can no longer charge for missed appointments.

Finally, I would like to make a point about training. I know that we would all accept that training has an important place in dentistry. We need to look at the provision of training places for vocational dental practitioners in a more strategic way. In Swansea, for example, there is the ability to train VDPs, and many could and would stay on in practice. However, this is difficult without access to growth funding. Such growth funding could assist Swansea to become a fertile ground for training dentists, which would most likely benefit not just Swansea, but west Wales as a whole.

I sincerely believe that it is important to make the dental contract work in a way that benefits every patient in Wales. That is why I welcome the review announced by the Minister for health last November. The concerns that I have raised are exactly the kind of issues currently being considered, and I am confident that the difficulties will be overcome in order to provide the best NHS dental services for every patient across Wales.

**Eleanor Burnham:** The issue is just as pertinent in my region, north Wales, as anywhere else. There are huge problems. There is a great deal of testimony to suggest

wobrwyo’n ddigonol ar hyn o bryd. Mae hynny wedi’i bwysleisio imi gan gleifion ac ymarferwyr fel ei gilydd—yn anffodus, ar un achlysur, pan oeddwn yng nghadair y deintydd. [*Chwerthin.*] Mae’n amhosibl dianc bryd hynny, yn enwedig pan fydd y nyrs ddeintyddol yn pwysleisio hynny hefyd. Teimlir nad yw’r system, fel y mae wedi’i strwythuro ar hyn o bryd, yn gwobrwyo safon. Rhaid i ddeintyddion, yn gwbl deg, gydymffurfio â safonau sylfaenol, ond dywedant wrthyf nad oes dim gwobr am fesurau megis buddsoddi mewn adeilad i gynnal y safonau hynny. Mae’n debyg fod rhyw anhawster hefyd gyda chyfraddau’r boblnad ydynt yn cadw’u trefniant. Mae’n debyg fod y rhain wedi gwaethygu ers i’r contract newydd ddod i rym, gan na all deintyddion godi tâl mwyach am apwyntiadau a gollir.

Yn olaf, hoffwn wneud pwynt ynglŷn â hyfforddiant. Gwn y byddem i gyd yn derbyn bod lle pwysig i hyfforddiant mewn deintyddiaeth. Mae angen inni edrych yn fwy strategol ar ddarparu lleoedd hyfforddi i ymarferwyr deintyddol galwedigaethol. Yn Abertawe, er enghraifft, mae modd hyfforddi ymarferwyr deintyddol galwedigaethol, a byddai nifer yn parhau yn y practis ac yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn anodd os na ellir cael cyllid twf. Gallai cyllid twf o’r fath helpu Abertawe i fod yn dir ffrwythlon i ddeintyddion sy’n cael eu hyfforddi, a byddai hynny, mae’n bur debyg, yn fanteisiol nid yn unig i Abertawe, ond i’r gorllewin yn gyffredinol.

Credaf yn ddiffuant ei bod yn bwysig gwneud i’r contract deintyddol weithio mewn modd syd o fudd i bob claf yng Nghymru. Dyna pam yr wyf yn croesawu’r adolygiad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog iechyd fis Tachwedd diwethaf. Mae’r pryderon yr wyf wedi’u codi yn union fel y pryderon sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd, ac yr wyf yn hyderus y caiff yr anawsterau eu datrys er mwyn darparu’r gwasanaethau deintyddol gorau dan y GIG i bob claf ar hyd a lled Cymru.

**Eleanor Burnham:** Mae’r cwestiwn yr un mor berthnasol yn fy rhanbarth i yn y gogledd ag unrhyw le arall. Mae yna broblemau aruthrol. Mae llawer iawn o

that preventive dentistry can help people to avoid other health problems, such as cardiac problems. It is important that we give this our utmost consideration and financing. A report last week showed that 34 per cent of people across England and Wales have not visited a dentist since the new contract was introduced, which is shameful. It is impossible to disaggregate Wales from the total, but our poor record in dental health would suggest that the situation in Wales is even worse. No doubt, it is worse again in rural Wales.

Sylwais fod yr adroddiad a gyflwynwyd gan Dr Chris Jones ddoe yn canolbwyntio ar yr angen i wneud gwell defnydd o ddeintyddion o ran yr agenda iechyd cyhoeddus ehangach. Bu iddo sôn am ddefnyddio deintyddion, fferylllyddion ac optegwyr fel rhan o'r timau gofal iechyd cymunedol a sylfaenol, ac yr oedd am ehangu eu rôl.

I agree with him. Using the skills base of dentists, pharmacists, and opticians as part of the wider community team would certainly make a lot of sense. It would enhance services and governance, and probably with minimal cost.

We need to cherish the role that dentists can play. I am lucky to have had a wonderful dentist for some years, who was able to provide orthodontic treatment for my children that would otherwise have cost me an absolute fortune—and I am not keen on going private anyway, unless as an absolute last resort. However, we should ensure that no-one needs to make these difficult choices.

A BDA survey of dentists across England and Wales found that the new contract has not removed the treadmill effect in terms of the workload of dentists. Indeed, 97 per cent of those surveyed felt that the new contract had failed to do this as was promised. North Wales often faces the worst of Welsh public services, because of its geographical position and the east-west mentality or axis. The situation is no different in dentistry, and people are struggling to access NHS dentistry. We know of people having to make

dystiolaeth sy'n awgrymu y gall deintyddiaeth ataliol helpu pobl i osgoi problemau iechyd eraill, fel problemau ar y galon. Mae'n bwysig inni roi ein cyllid a'n hystyriaeth eithaf i hyn. Dangosodd adroddiad yr wythnos diwethaf fod 34 y cant o bobl ar draws Cymru a Lloegr heb ymweld â deintydd ers i'r contract newydd gael ei gyflwyno, sy'n gywilyddus. Mae'n amhosibl tynnu Cymru allan o'r cyfanswm, ond awgryma ein record wael o ran iechyd deintyddol fod y sefyllfa yng Nghymru hyd yn oed yn waeth. Yn ddi-os, mae'n waeth fyth yng nghefn gwlad Cymru.

I noted that the report presented by Dr Chris Jones yesterday concentrated on the need to make better use of dentists in terms of the wider public health agenda. He mentioned using dentists, pharmacists and opticians as part of the community and primary healthcare teams, and wanted to expand their role.

Yr wyf yn cytuno ag ef. Byddai defnyddio sylfaen sgiliau deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr fel rhan o'r tîm cymunedol ehangach yn sicr yn gwneud llawer o synnwyr. Byddai'n cynyddu gwasanaethau a rheolaeth, a hynny mae'n debyg heb fawr o gost.

Mae angen inni werthfawrogi'r rôl y gall deintyddion ei chwarae. Yr wyf yn ffodus o fod wedi cael deintydd ardderchog ers rhai blynyddoedd, a allodd ddarparu triniaeth orthodontig i'm plant a fyddai fel arall wedi costio ffortiwn imi—ac nid wyf yn awyddus i gael gwasanaeth preifat beth bynnag, heblaw fel y dewis olaf un. Fodd bynnag, dylem sicrhau nad oes angen i neb wneud y dewisiadau anodd hyn.

Dangosodd arolwg gan y BDA o ddeintyddion ar draws Cymru a Lloegr nad yw'r contract newydd wedi dileu'r effaith melin draed o ran llwyth gwaith deintyddion. Yn wir, teimlai 97 y cant o'r rhai a holwyd fod y contract newydd wedi methu gwneud hyn fel yr addawyd. Mae gogledd Cymru'n aml yn cael y gwaethaf o wasanaethau cyhoeddus Cymru, oherwydd ei safle daearyddol a'r syniad o'r echelin dwyrain-gorllewin. Nid yw'r sefyllfa'n ddim gwahanol mewn deintyddiaeth, ac mae pobl

horrendous journeys, for example from the Llŷn peninsula to Liverpool and other places over the border. I know of some people in north Wales who go to Crewe to access an NHS dentist.

**Irene James:** Will you take an intervention?

4.30 p.m.

**Eleanor Burnham:** I do not know that I have the time, you have been so generous and I have spoken so much this afternoon, Deputy Presiding Officer. I am afraid that I am not going to give way—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I have not limited your time, Eleanor Burnham, but by the sound of it, you are not taking an intervention—

**Eleanor Burnham:** Shall I be magnanimous, as long as—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You are either taking an intervention or you are not.

**Eleanor Burnham:** I will take a very brief intervention.

**Irene James:** It will be brief, Eleanor. You have talked about the problem that people have in accessing an NHS dentist, but how would you explain that, in an area such as mine, where there were only 62 dentists prior to this contract, there are now 81 dentists?

**Eleanor Burnham:** I am absolutely delighted. What can I say? However, I am talking about my own region, and lest anyone accuses me of trying to improve my axis of influence, I will confine my comments to north Wales.

In conclusion, in the last Assembly election, the Welsh Liberal Democrats, as many know, campaigned for more mobile dentistry. It is not rocket science—if you do not have the facilities, then surely mobile units can be a very useful plugging of the gap, utilising dental hygienists and therapists. In reviewing the contract we need to look at the role

yn ei chael yn anodd cael gwasanaeth deintyddol y GIG. Gwyddom am bobl sy'n gorfod teithio pellter anferth, er enghraifft, o Benllŷn i Lerpwl a lleoedd eraill dros y ffin. Gwn am rai pobl yn y gogledd sy'n mynd i Crewe i weld deintydd dan y GIG.

**Irene James:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Eleanor Burnham:** Ni wn a oes amser gennyf, yr ydych wedi bod mor hael ac yr wyf wedi siarad cymaint y prynhawn yma, Ddirprwy Lywydd. Mae arnaf ofn nad wyf am ildio—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid wyf wedi cyfyngu'ch amser, Eleanor Burnham, ond yn ôl eich llais, nid ydych am dderbyn ymyriad—

**Eleanor Burnham:** A wyf am fod yn fawrfrydig, cyhyd ag y bydd—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Un ai yr ydych am dderbyn ymyriad neu nad ydych.

**Eleanor Burnham:** Derbyniaf ymyriad byr iawn.

**Irene James:** Bydd yn un byr iawn, Eleanor. Yr ydych wedi sôn am y broblem a gaiff pobl wrth geisio cael gwasanaeth deintyddol y GIG, ond sut y byddech yn esbonio achos fel fy ardal i, lle'r oedd dim ond 62 deintydd cyn y contract, ond sydd ag 81 yn awr?

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn falch iawn clywed. Beth allaf ei ddweud? Fodd bynnag, yr oeddwn yn sôn am fy rhanbarth fy hun, a rhag ofn i rywun fy nghyhuddo o geisio ehangu cylch fy nylanwad, cyfyngaf fy sylwadau i'r gogledd.

I gloi, yn etholiadau diwethaf y Cynulliad bu Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, fel y gŵyr llawer, yn ymgyrchu dros fwy o ddeintyddiaeth symudol. Nid yw hyn mor astrus â hynny—os nad yw'r cyfleusterau gennyf, yna gall unedau symudol fod yn ddefnyddiol i gau'r bwlch, gan ddefnyddio hylenywyr a therapyddion deintyddol. Wrth



played by all of these important people in order to improve services, particularly in rural areas and regions such as north Wales, and particularly for people who do not have the wherewithal or money to travel. With the cost of fuel rising—and the Chancellor will probably have added to our woes—it is crucial that we look at these very important matters.

**Mark Isherwood:** When a meeting of the North Wales Regional Committee focused on dental services about two years ago, it was one of the best attended and most heated meetings that I have ever attended, either as a member of the audience or on the stage. Figures provided at that meeting confirmed that, of 101 dentists in north Wales's local health board areas at that time, only three were accepting NHS patients. In subsequent weeks, we learned that that figure had fallen to one. As we have heard, the Welsh Assembly Government at the time, under this First Minister, and with a current Cabinet Minister in charge, claimed to have converted 40 Welsh dental practices to the personal dental services scheme, creating an extra 45,000 places. However, unless they converted from private practice, these must have been existing NHS practices that were already offering treatment, which suggests that the Assembly Government then was fabricating and that no extra places were, in fact, created. Further, when practices convert from offering NHS treatment to private treatment or Denplan, there is a reduction of around 50 per cent in the number of registered patients. Hence, even if all those being offered NHS treatment were able to go private, the resources would not be able to cope. In fact, evidence suggests a significant reduction in those able to access NHS treatment; this would comprise, for the most part, the most vulnerable people in society, for which the NHS has acted as a safety net since 1946.

Before the new dental contract was launched, the British Dental Association told me that

adolygu'r contract mae angen inni edrych ar rôl yr holl bobl bwysig hyn i wella gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd a rhanbarthau gwledig fel y gogledd, ac yn arbennig yn achos pobl sydd heb y modd neu'r arian i deithio. Gan fod cost tanwydd yn codi—ac mae'n debyg y bydd y Canghellor wedi ychwanegu at ein gofidiau—mae'n hanfodol inni edrych ar y materion pwysig iawn hyn.

**Mark Isherwood:** Pan fu cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn edrych ar wasanaethau deintyddol tua dwy flynedd yn ôl, yr oedd yn un o'r cyfarfodydd llawnaf a'r drafodaeth fwyaf tanllyd imi ei fod ynddo erioed, un ai fel aelod o'r gynulleidfa neu ar y llwyfan. Yr oedd ffigurau a gyflwynwyd yn y cyfarfod yn cadarnhau, o'r 101 o ddeintyddion yn ardaloedd byrddau iechyd lleol y gogledd ar y pryd, mai tri yn unig a oedd yn derbyn cleifion y GIG. Yn ystod yr wythnosau wedi hynny, clywsom fod y ffigur hwnnw wedi gostwng i un. Fel y clywsom, honnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd, o dan y Prif Weinidog hwn, a chyda Gweinidog o'r Cabinet presennol wrth y llyw, ei bod wedi symud 40 practis deintyddol yng Nghymru i'r cynllun gwasanaethau deintyddol personol, gan greu 45,000 o leoedd ychwanegol. Fodd bynnag, oni bai eu bod wedi eu symud o bractis preifat, mae'n rhaid bod y rhain yn bractisiau GIG eisoes a oedd yn cynnig triniaeth yn barod, sy'n awgrymu felly fod Llywodraeth y Cynulliad yn ein camarwain ac nad oedd dim lleoedd ychwanegol wedi eu creu mewn gwirionedd. Hefyd, pan fydd practis yn newid o gynnig triniaeth i gleifion y GIG i driniaeth breifat neu Denplan, gwelir gostyngiad o tua 50 y cant yn nifer y cleifion cofrestredig. Felly, hyd yn oed petai'r holl bobl hynny a oedd yn cael cynnig triniaeth y GIG yn gallu mynd yn breifat, ni fyddai'r adnoddau'n gallu ymdopi. Mewn gwirionedd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu gostyngiad sylweddol yn nifer y rheini sy'n gallu cael triniaeth y GIG; byddai hyn yn cynnwys, gan amlaf, y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, y rheini y mae'r GIG wedi gweithio i'w diogelu er 1946.

Cyn lansio'r contract deintyddol newydd, dywedodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain

the only way to deal with the problem of lack of NHS provision would be to ensure that proper funding was in place and that parity with the rest of the NHS was achieved. It added that it looked very grim for young dentists starting out, and that the concern regarding the new system was that it would encourage a supervised neglect-type care, with no incentive to work harder or longer. It concluded by stating that it did not believe that there was any magic fix, that the Assembly Government had sat back for too long and that time had run out. Therefore, almost two years after the new dental contract was launched, it should come as no surprise to learn that dentists believe that NHS dentistry is being set back 20 years and that patients can expect to have more teeth taken out than fixed. They blame the contract introduced by the Assembly Government in 2006. The new contract means that dentists now get paid the same amount to fill one tooth as they do to fill 25. A dental technician who went public said that his NHS work had dropped by 50 per cent since the introduction of the new contract. That means 50 per cent fewer bridges, crowns and dentures. He added that, in his experience, what the patient gets from the dentist now has gone backwards.

Statements made at the north Wales regional committee over two years ago, but still pertinent today, included that the previous contract was not well received by dentists—I fully accept that—but it is over the last eight years that we have seen dentists withdrawing from NHS provision on a large scale.

Some 50 per cent of people are not receiving regular check-ups, matching the 50 per cent fall in registered patients seen when dentists switch to private practice. The demands on dentists come from those suffering serious problems who have not had regular check-ups, but the new contract results in even fewer regular check-ups. Less than 0.5 per cent of the national insurance stamp goes to dental services. As regular dental check-ups have decreased, the dentist's role in identifying such conditions as head and neck cancer and salivary gland disease has been

wrthf mai'r unig ffordd i ddelio â phroblem diffyg darpariaeth yn y GIG oedd drwy sicrhau bod cyllid digonol ar gael a sicrhau cydraddoldeb gyda gweddill y GIG. Ychwanegodd ei bod yn edrych yn llwm iawn ar ddeintyddion ifanc ar ddechrau eu gyrfa, ac mai'r ofn ynghylch y system newydd oedd y byddai'n annog gofal math-esgeulus dan oruchwyliaeth, heb ddim cymhelliant i weithio'n galetach nac yn hwy. Diweddodd drwy ddweud nad oedd yn credu bod ateb hawdd o gwbl i'w gael, bod Llywodraeth y Cynulliad wedi llaesu dwylo'n rhy hir ac nad oedd amser ar ôl. Felly, bron i ddwy flynedd ar ôl lansio'r contract deintyddol newydd, ni ddylai beri syndod i ddeall bod deintyddiaeth y GIG yn camu'n ôl 20 mlynedd ac y gall cleifion ddisgwyl i fwy o'u dannedd gael eu tynnu nag a gaiff eu trin. Maent yn beio'r contract a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2006. Mae'r contract newydd yn golygu bod deintyddion yn awr yn cael eu talu'r un faint am lenwi un dant ag am lenwi 25. Dywedodd technegydd deintyddol a roddodd ei farn fod ei waith GIG wedi gostwng 50 y cant ers cyflwyno'r contract newydd. Mae hynny'n golygu 50 y cant yn llai o bontydd, corunau a dannedd gosod. Ychwanegodd fod yr hyn y mae'r claf yn ei gael gan y deintydd, yn ôl ei brofiad ef, yn gam yn ôl.

Ym mhwyllgor rhanbarth y gogledd dros ddwy flynedd yn ôl, ond sy'n berthnasol o hyd, dywedwyd ymhlith pethau eraill nad oedd y contract blaenorol wedi cael croeso cynnes gan ddeintyddion—ac yr wyf yn derbyn hynny—ond mai yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf yr ydym wedi gweld deintyddion yn cefnu ar ddarpariaeth y GIG ar raddfa fawr.

Mae oddeutu 50 y cant o bobl nad ydynt yn cael archwiliadau rheolaidd, sy'n cyd-fynd â'r gostyngiad o 50 y cant yn nifer y cleifion cofrestredig a welir pan fydd deintyddion yn newid i fod yn bractis preifat. Daw'r galw ar ddeintyddion gan y rheini sy'n dioddef problemau difrifol ac nad ydynt wedi cael archwiliadau rheolaidd, ond mae'r contract newydd yn golygu llai fyth o archwiliadau rheolaidd. Mae llai na 0.5 y cant o'r stamp yswiriant gwladol yn mynd ar wasanaethau deintyddol. Gan fod archwiliadau deintyddol rheolaidd wedi gostwng, mae hyn wedi

compromised. Hospitals are now seeing increased attendances at out-patient departments and accident and emergency departments by people with dental problems. We are moving from the individual dentist to large commercial providers because the Welsh Assembly Government is not listening.

Commercial dentistry units on industrial parks are a form of crisis management. As my own extremely demoralised Flintshire dentist told me, these threaten the personal relationship between dentist and patient, and end up providing emergency treatment for people who are no longer registered elsewhere rather than tackling the long-term preventative care needs of the population.

I conclude by referring to concerns raised with me at the time by the National Autistic Society about the difficulties that young people with special needs encounter when trying to access NHS dentistry. In addition to tackling the wider concerns raised today, I urge the Minister to pay particular attention to this issue, so that any barriers to their treatment, or that of other people who have additional needs, may be removed.

**Peter Black:** The Government's amendments would lead one to imagine a rosy picture of smiling white teeth, with children wandering without a care in the world into a dentist's surgery, where a beaming dentist happily inspects their teeth and finds that all is well with their dental health. Sadly, that is not the true picture of what we have come to expect of dentistry in Wales or the United Kingdom. The Government plays a dangerous game every time that it refuses to recognise the true picture of public services. Like candyfloss on a child's teeth, this blindness is decaying Welsh politics.

Several Members have referred to the BDA survey carried out last year across England and Wales, which included some depressing findings about dentists' views of this

effeithio ar rôl y deintydd i ddarganfod cyflyrau megis canser y pen a'r gwddf a chlefyd y chwarennau poer. Mae ysbytai'n awr yn gweld mwy o gleifion sydd â phroblemau deintyddol yn dod i adrannau cleifion allanol ac adrannau damweiniau ac achosion brys. Yr ydym yn symud oddi wrth y deintydd unigol at ddarparwyr masnachol mawr oherwydd nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwrando.

Mae unedau deintyddol masnachol ar ystadau diwydiannol yn fath o reoli argyfwng. Fel y dywedodd fy neintydd fy hun wrthyf yn sir y Fflint, ac sydd wedi digalonni'n llwyr, mae'r rhain yn bygwth y berthynas bersonol rhwng y deintydd a'r claf, ac yn y pen draw maent yn darparu triniaeth frys i bobl nad ydynt bellach wedi eu cofrestru gyda neb, yn hytrach na mynd i'r afael ag anghenion gofal ataliol y boblogaeth.

Yr wyf am gloi drwy gyfeirio at y pryderon a fynegwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ynghylch yr anawsterau sy'n wynebu pobl ifanc ag anghenion arbennig wrth geisio cael gwasanaeth deintydd y GIG. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r pryderon mwy cyffredinol a godwyd heddiw, pwysaf ar y Gweinidog i roi sylw arbennig i'r mater hwn, er mwyn chwalu unrhyw beth sy'n eu rhwystro nhw neu bobl eraill sydd ag anghenion ychwanegol rhag cael triniaeth.

**Peter Black:** Byddai gwelliannau'r Llywodraeth yn gwneud i rywun ddychmygu darlun perffaith o ddannedd gwynion yn gwenu, a phlant yn cerdded yn gwbl ddibryder at y deintydd, lle mae deintydd gyda gwên fawr ar ei wyneb yn archwilio'u dannedd ac yn gweld bod popeth yn iawn o ran eu hiechyd deintyddol. Yn anffodus, nid yw hwn yn ddarlun cywir o'r hyn yr ydym wedi dod i'w ddisgwyl gan ddeintyddiaeth yng Nghymru na'r Deyrnas Unedig. Mae'r Llywodraeth yn chwarae gêm beryglus bob tro pan fydd yn gwrthod cydnabod gwir sefyllfa gwasanaethau cyhoeddus. Fel cwmwl siwgr ar ddannedd plentyn, mae'r dallineb hwn yn pydru gwleidyddiaeth Cymru.

Mae nifer o Aelodau wedi cyfeirio at arolwg Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr y llynedd ac a oedd yn cynnwys darganfyddiadau

contract. Some 85 per cent believe that the new contract has not improved access to NHS dentistry for patients. How can Plaid and Labour Members have a conscience when voting for an amendment that essentially says the opposite? Plaid has always painted itself as a party that listened to clinicians and experts, rather than one that dictates its views. Here is a chance for its Members to demonstrate that with their vote. Are you going to support the Welsh dentists, or will you go with the Labour Party whip?

The survey also found that 93 per cent believe that the new contract does not encourage a preventative approach to care. The amendment aims to support the task and finish group that has been prevented from the outset from doing what needs to be done. The task and finish group does not have the power to start again. We need a proper review—not tweaking the edges of the contract or scraping the plaque away, but ripping up the contract and starting again.

The survey's most worrying finding of all is that 95 per cent of NHS dentists in England and Wales are now more worried about the future of NHS dentistry than they were two years ago. The clinicians know it, the patients know it, and we all know it, really. Who are you going to listen to? Are you going to pass another self-congratulatory motion, or—I say this to Plaid in particular—are you going to admit that the contract was a mistake and vote for a fresh start? For two supposedly public-service-supporting parties, you will show yourselves to be full of decay if you fail to recognise the problems. If NHS dentistry dies—it may well be heading towards its death—you will not be able to do the usual thing of blaming the previous Conservative Government, because the record will show that you have done it today.

**David Lloyd:** Yr wyf yn falch o gyfrannu at y ddadl hon ar ddeintyddiaeth, er nad oeddwn yn bwriadu gwneud hynny. Yr wyf yn siarad

digalon am farn deintyddion am y contract hwn. Mae tuag 85 y cant yn credu nad yw'r contract newydd wedi ei gwneud yn haws gallu cael gwasanaeth deintydd y GIG i gleifion. Sut all Aelodau Plaid a Llafur fyw gyda'u cydwybod wrth bleidleisio dros welliant sydd i bob pwrpas yn dweud y gwrthwyneb? Mae Plaid wedi portreadu ei hun erioed fel plaid sy'n gwrando ar glinigwyr ac arbenigwyr, yn hytrach na phlaid sy'n gorfodi ei barn ar eraill. Dyma gyfle i'w Haelodau ddangos hynny drwy eu pleidlais. A ydych am gefnogi deintyddion Cymru, ynteu a ydych am ddilyn chwip y Blaid Lafur?

Darganfu'r arolwg hefyd fod 93 y cant yn credu nad yw'r contract newydd yn annog ymagwedd ataliol at ofal. Mae'r gwelliant yn ceisio cefnogi'r grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi'i rwystro o'r cychwyn rhag gwneud yr hyn y mae angen ei wneud. Nid oes gan y grŵp gorchwyl a gorffen bwerau i ddechrau o'r dechrau eto. Mae arnom angen arolwg llawn—nid rhyw bigo ymylon y contract neu grafu'r plac i ffwrdd, ond rhwygo'r contract a dechrau o'r dechrau.

Darganfyddiad mwyaf pryderus yr arolwg yw bod 95 y cant o ddeintyddion y GIG yng Nghymru a Lloegr yn fwy pryderus ynghylch dyfodol deintyddiaeth y GIG yn awr nag oeddent ddwy flynedd yn ôl. Mae'r clinigwyr yn gwybod hynny, mae'r cleifion yn gwybod hynny, ac yr ydym ni i gyd yn gwybod hynny, a dweud y gwir. Ar bwy ydych chi am wrando? A ydych am basio cynnig hunanfodddhaus arall, ynteu—a chyfeiriaf hyn at Aelodau Plaid Cymru yn fwyaf arbennig—a ydych am gyfaddef bod y contract yn gamgymeriad a phleidleisio dros ddechrau newydd? I ddwy blaid sy'n honni eu bod yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus, byddwch yn dangos eich bod yn llawn pydredd os na chydabyddwch y problemau. Os bydd deintyddiaeth y GIG yn marw—ac mae'n ddigon posibl ei bod ar fin marw—ni allwch wneud y peth arferol a beio'r Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, oherwydd bydd y cofnod yn dangos mai chi sydd wedi'i wneud heddiw.

**David Lloyd:** I am pleased to contribute to this debate on dentistry, although I had not intended to do so. I am, in a way, speaking on

ar ran rhywun arall, fel petai, y prynhawn yma, gan fod Helen Mary Jones mewn apwyntiad gyda'i deintydd—deintydd y gwasanaeth iechyd gwladol, yn naturiol.

**Eleanor Burnham:** I am interested in knowing where Helen Mary Jones is, because, as far as I know, she is attending a committee that I could not attend because I am contributing to the Liberal Democrat debate.

**David Lloyd:** Cyfraniad gwerthfawr, fel arfer, Eleanor.

4.40 p.m.

Nid oes dwywaith bod problemau gyda'r cytundeb deintyddol diweddaraf. Mae deintyddion wedi bod yn cilio oddi wrth y gwasanaeth iechyd gwladol ers 1992, pan leihawyd lefel y ffioedd a dalwyd. Yr ydym wedi clywed y rhesymau am hyn. Mae triniaethau yn cael eu gwyro i gyd-fynd â goblygiadau'r cytundeb diweddaraf hwn, ac mae tystiolaeth bod triniaethau cymhlethach yn cael eu gohirio neu eu hosgoi yn gyfan gwbl am nad yw'r tâl yn adlewyrchu'n ddigonol y gwaith na'r amser y byddai'r triniaethau cymhleth hyn yn eu golygu i'r deintydd. Busnesau bach, annibynnol a hunan gyflogedig yw deintyddion gan amlaf, fel meddygon teulu.

Mae deintyddion yn dweud wrthyf nad oes digon o bwyslais ar ochr ataliol eu gwaith y dyddiau hyn—nid oes digon o bwyslais wedi bod erioed ar yr ochr a ddylai fod bwysicaf, sef atal problemau iechyd a deintyddol yn y lle cyntaf. Yr wyf yn dal i gredu y dylai deintyddiaeth fod yn ddarpariaeth graidd yn y gwasanaeth iechyd, ac yn ddarpariaeth gynhwysfawr ledled Cymru, dan adain y gwasanaeth iechyd, fel y mae meddygon teulu. Mae nifer y cleifion sydd wedi cofrestru gyda deintydd yn y gwasanaeth iechyd gwladol wedi bod yn disgyn dros y ddegawd ddiwethaf, ac mae hynny'n anffodus iawn, gan fod rôl ataliol bwysig i'w chwarae gan y deintydd. Mae ganddo rôl mewn atal canser y geg, canser y tafod a nifer o gyflyrau eraill o fewn y geg. Dyna ddiben yr archwiliad rheolaidd—mae gan y deintydd rôl ataliol sy'n bwysicach na dim ond trin eich dannedd. Gyda 2,000 o farwolaethau

someone else's behalf this afternoon, as Helen Mary Jones has an appointment with her dentist—an NHS dentist, naturally.

**Eleanor Burnham:** Hoffwn wybod ble mae Helen Mary Jones, oherwydd hyd y gwn i mae hi mewn pwyllgor na allwn i fynd iddo am fy mod yn cyfrannu at ddadl y Democratiaid Rhyddfrydol.

**David Lloyd:** Another valuable contribution, Eleanor.

Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment defeated.*

Motion NDM3898 as amended: that

Cynnig NDM3898 fel y'i diwygiwyd: bod

*1. notes that the new dental contract has been in operation for nearly two years;*

*1. yn nodi bod y contract deintyddol newydd wedi bod ar waith ers bron dwy flynedd;*

*2. welcomes the fact that thousands of extra NHS dental places are now available in Wales;*

*2. yn croesawu'r ffaith bod miloedd o leoedd deintyddol ychwanegol yn eu lle yn y GIG yng Nghymru;*

*3. notes with concern that the dental contract has failed to solve many of the problems of NHS dentistry.*

*3. yn nodi â phryder bod y contract deintyddol wedi methu datrys nifer o broblemau deintyddiaeth y GIG.*

*Cynnig NDM3898 fel y'i diwygiwyd: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 15.  
Motion NDM3898 as amended: For 35, Abstain 0, Against 15.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Gareth

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Jones, Ieuan Wyn  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM3898 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM3898 as amended carried.*

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Gwleidyddiaeth Boblogaidd—Ailddyfeisio Democratiaeth drwy Roi'r Bobl wrth y Llyw Popular Politics —Reinventing Democracy by Putting the People in Charge**

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Those of you not staying for the short debate should leave the Chamber quietly and quickly.

**Alun Davies:** Thank you for the opportunity to speak on this subject. Today, I wish to attempt to make the connection between two of what I believe to be the great challenges facing us in politics today. The first is to re-engage the wider population in the political process, and the second is to resolve the widespread lack of popular involvement in the delivery of public services. By that, I mean not only a new style of politics, but a fundamental change to the way in which we do our politics.

For many of us, one of the most depressing legacies of the Thatcher Government was the centralisation and almost the nationalisation of too many of our local services. For a decade, reforms that were presented as being put in place to increase local accountability were actually designed in such a way as to take power away from communities and place it in the hands of unaccountable quangos.

The schools that opted out of local authorities were therefore opting out of the local community, which placed them in the hands of a Secretary of State. At the same time, more than 300 new health quangos were

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Dylai'r rheini ohonoch nad ydych yn aros ar gyfer y ddadl fer adael y Siambr yn dawel ac yn gyflym.

**Alun Davies:** Diolch am y cyfle i siarad ar y pwnc hwn. Heddiw, hoffwn geisio gwneud y cysylltiad rhwng dwy o'r hyn a ystyriaf yn sialensiau mawr sy'n ein hwynebu mewn gwleidyddiaeth heddiw. Y un gyntaf yw ailgynnwys y boblogaeth ehangach yn y broses wleidyddol, a'r ail yw datrys y diffyg cyfraniad poblogaidd eang at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Wrth hynny, golygaf nid yn unig arddull newydd o wleidyddiaeth, ond newid sylfaenol yn y ffordd y cyflawnwn ein gwleidyddiaeth.

I nifer ohonom, un o gymynroddion mwyaf torcalonnu Llywodraeth Thatcher oedd canoli a bron gwladoli gormod o'r gwasanaethau lleol. Am ddegawd yr oedd diwygiadau a gyflwynwyd fel rhai a oedd yn cael eu sefydlu i gynyddu atebolrwydd lleol mewn gwirionedd wedi eu cynllunio yn y fath fodd fel eu bod yn cymryd grym oddi ar gymunedau a'i osod yn nwylo cwangos nad oeddent yn atebol i neb.

Yr oedd yr ysgolion a eithriodd allan o ofal awdurdodau lleol felly yn eithrio o'r gymuned leol, a hynny'n eu gosod yn nwylo Ysgrifennydd Gwladol. Ar yr un pryd, crëwyd dros 300 o gwangos iechyd newydd,



created, none of which was accountable to the local population in any way. Many of us will remember that time of the abolition of local health authorities as the abolition of local accountability and local involvement in the national health service. It created a serious imbalance of power between Whitehall and the rest of the United Kingdom, stifling and suffocating local creativity. The process of devolution has begun to reverse that trend, but, in devolving power to this place, we have the opportunity to do more than simply create another centre of power in Cardiff bay.

The first point that I wish to make is that greater use of direct democracy may invigorate the political process, and a presumption that we will seek to deliver and manage services as close to the community as possible will revolutionise the face of our democracy.

5.10 p.m.

At present, Switzerland is possibly the strongest example to be found of modern direct democracy, at local and federal levels. In some 120 years, more than 240 initiatives have been put to a referendum. Another distinctive example is that of the United States, where, at state level and local community level, there are opportunities for citizen-sponsored ballot initiatives, and the vast majority of the states have means by which people can create opportunities for referenda or widespread debate.

We have some experience of that in Wales. Some of us will remember the referenda that we used to hold on opening pubs on a Sunday. It might come as a surprise to some Members to learn that I voted against that proposal on two occasions. Those referenda certainly created a debate and an opportunity for the local population to shape the communities in which they lived.

It is no secret that involvement in the political process has been in decline for many years. I do not want to spend this afternoon rehearsing the reasons for that, but I will say that interest and participation in politics would be increased if the opportunities for

dim un ohonynt yn atebol i'r boblogaeth leol mewn unrhyw ffordd. Bydd nifer ohonom yn cofio'r cyfnod hwnnw o ddiddymu awdurdodau iechyd lleol fel diddymu atebolrwydd lleol a chyfraniad lleol yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Creodd anghydbwysedd difrifol o ran grym rhwng Whitehall a gweddill y Deyrnas Unedig, gan dagu a mygu creadigrwydd lleol. Mae'r broses ddatganoli wedi dechrau newid y tueddiad hwnnw, ond wrth ddatganoli grym i'r fan hon, mae gennym y cyfle i wneud llawer mwy na dim ond creu canolfan grym arall ym mae Caerdydd.

Y pwynt cyntaf yr hoffwn ei wneud yw y gallai defnyddio democratiaeth uniongyrchol yn helaethach fywiogi'r broses wleidyddol, a bydd rhagdybiaeth y byddwn yn ceisio darparu a rheoli gwasanaethau cyn agosed at y gymuned â phosibl yn chwyldroi wyneb ein democratiaeth.

Ar hyn o bryd, mae'n bosibl mai'r Swistir yw'r enghraifft gryfaf sydd i'w gweld o ddemocratiaeth uniongyrchol fodern, ar lefelau lleol a ffederal. Mewn oddeutu 120 o flynyddoedd, mae dros 240 o fentrau wedi eu penderfynu drwy refferendwm. Enghraifft nodedig arall yw'r Unol Daleithiau, lle mae cyfleoedd ar lefel talaith ac ar lefel cymuned ar gyfer mentrau pleidleisio a noddir gan y dinesydd, ac mae gan y mwyafrif helaeth o daleithiau gyfrwng lle gall pobl greu cyfleoedd ar gyfer refferenda neu drafodaeth eang.

Mae gennym rywfaint o brofiad o hynny yng Nghymru. Bydd rhai ohonom yn cofio'r refferenda yr arferem eu cael ar agor tafarnau ar y Sul. Gallai fod yn destun syndod i rai Aelodau ddeall imi bleidleisio yn erbyn y cynnig hwnnw ddwywaith. Yr oedd y refferenda hynny, yn sicr, yn creu trafodaeth a chyfle i'r boblogaeth leol lunio'r cymunedau lle'r oeddent yn byw.

Nid yw'n gyfrinach fod ymwneud â'r broses wleidyddol yn dirywio ers blynyddoedd lawer. Nid wyf am dreulio'r prynhawn yma'n trafod y rhesymau dros hynny, ond dywedaf y byddai diddordeb a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth yn cynyddu petai cyfleoedd

popular intervention and involvement in local decision-making were increased. I recognise that the Assembly Government has already begun a programme of widening participation to increase interest in local government candidacy, but we have to go much further than that.

I want to see the introduction of a citizen's initiative, where local referenda or petitions can force a public vote on policy or oblige local authorities at least to consider a subject. I remember the referendum that was held in Ceredigion a few years ago on having a local mayor. It was the first time that I—and many of us, possibly—could imagine having a popular debate on the nature of local democracy. It is a good thing. Our newly established petitions system is an example that can be exported to local government. However, I do not believe that directly elected heads of health or education services or even police forces would improve the performance of those services. I am sure that Members will be pleased to hear that, while I believe in the importance of representative democracy, I would not advocate an instant recall process, either.

I want to create opportunities that complement the representative democracy that we have. However, I understand the arguments that, behind the romantic notions of community, there is a real world of insular, not-in-my-back-yard politics, where the parochial concerns of narrow-minded individuals can threaten the possibilities of wider, more progressive and inclusive politics. I also understand that we need to address the inequalities faced by particular communities, and that will require much wider regional or national intervention. Creating more scope for local decision-making can, in some ways, simply help to reinforce existing inequalities.

For me, this is about far more than simple community engagement or empowerment; it is more specific and profound. It is about establishing a new and energising way of governing our communities and how

ar gyfer ymyriad a chyfranogiad poblogaidd mewn gwneud penderfyniadau lleol yn cael eu cynyddu. Yr wyf yn cydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi dechrau rhaglen o ehangu cyfranogiad i gynyddu diddordeb mewn ymgeisyddiaeth llywodraeth leol, ond rhaid inni fynd lawer ymhellach na hynny.

Yr wyf am weld cyflwyno menter y dinesydd, lle bydd refferenda neu ddeisebau lleol yn gallu gorfodi pleidlais gyhoeddus ar bolisi, neu orfodi awdurdodau lleol o leiaf i ystyried pwnc. Cofiaf y refferendwm a gynhaliwyd yng Ngheredigion rai blynyddoedd yn ôl ynglŷn â chael maer lleol. Dyna'r tro cyntaf i mi—a nifer ohonom, o bosibl—allu dychmygu cael dadl boblogaidd am natur democratiaeth leol. Mae'n beth da. Mae ein system ddeisebau sydd newydd ei sefydlu yn enghraifft y gellir ei throsglwyddo i lywodraeth leol. Fodd bynnag, ni chredaf y byddai penaethiaid gwasanaethau iechyd neu addysg neu hyd yn oed heddluoedd wedi eu hethol yn uniongyrchol yn gwella perfformiad y gwasanaethau hynny. Yr wyf yn sicr y bydd Aelodau'n falch clywed, er fy mod yn credu ym mhwysigrwydd democratiaeth gynrychioladol, na fyddwn ychwaith yn annog proses ail-alw yn y fan a'r lle.

Y mae arnaf eisiau creu cyfleoedd sy'n ategu'r ddemocratiaeth gynrychioladol sydd gennym. Fodd bynnag, yr wyf yn deall y dadleuon fod yna, y tu ôl i'r darlun rhamantus o gymuned, fyd gwirioneddol o wleidyddiaeth ynysig, ddim-yn-fy-libart-i, lle mae pryderon plwyfol unigolion unllygeidiog yn gallu peryglu posibiladau gwleidyddiaeth ehangach, fwy blaengar a chynhwysol. Yr wyf hefyd yn deall bod angen inni fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n wynebu cymunedau penodol, a bydd hynny'n gofyn am ymyriad rhanbarthol neu genedlaethol llawer ehangach. Gall creu mwy o gyfle ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol, mewn rhai ffyrdd, helpu atgyfnerthu'r anghydraddoldebau presennol.

I mi, mae hyn lawer yn fwy na dim ond ymgysylltu neu rymuso cymunedol; mae'n fwy penodol ac yn ddyfnach. Mae'n ymwneud â sefydlu ffordd newydd ac egnïol o lywodraethu ein cymunedau a'r ffordd y

collective decisions about public services are made. The creation of local service boards will lead to improved public service delivery and an improved citizen experience of services but, as the Assembly Government has recognised, it will also raise questions of accountability. The test of much of what we seek to achieve in Welsh public service is how our services and democracy are experienced at the most local level of communities, neighbourhoods and streets. It is on those streets and in our homes that we must test our ambitions for citizen engagement, access and the co-ordination of services.

The Beecham process has identified many of these issues, but I believe that, while the steps taken as a result of that are important steps in the right direction, if we are to achieve real change and real public and community involvement in the delivery of services, we need to go much further and much faster.

In Communities First, we recognised the creative energy that may be released when individual communities have the opportunity to set their own priorities and programmes. In countries across Europe and throughout the world, small communities are able to manage and deliver important public services for themselves. Let me give you two examples. Two issues have arisen recently that could be dealt with by individual communities taking over the delivery of public services. The first is the availability of broadband; the second relates to primary education.

On broadband, we know that many communities would like to have access to those sorts of telecommunications, but are unable to do so for all sorts of different structural reasons. However, there are means by which communities can work together to deliver those services. Similarly, if a local community wants to create the means by which it can educate its children, I am happy for it to do so, assuming that those schools meet the standards in terms of the quality of the education, and that the teachers enjoy nationally agreed terms and conditions.

gwneir penderfyniadau ar y cyd ynghylch gwasanaethau cyhoeddus. Bydd creu byrddau gwasanaethau lleol yn golygu darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well ac at well profiad o wasanaethau i'r dinesydd. Ond fel y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei gydnabod, bydd hefyd yn codi cwestiynau ynghylch atebolrwydd. Prawf o lawer o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw profiad pobl o'n gwasanaethau a'n democratiaeth ar y lefel fwyaf lleol mewn cymunedau, cymdogaethau ac ar y strydoedd. Ar y strydoedd hynny ac yn ein cartrefi y mae'n rhaid inni brofi ein huchelgeisiau ar gyfer ymgysylltu'r dinesydd, mynediad a chydlynu gwasanaethau.

Mae proses Beecham wedi nodi nifer o'r materion hyn, ond er bod y camau a gymerwyd yn sgil hynny yn gamau pwysig i'r cyfeiriad iawn, os ydym i sicrhau newid gwirioneddol a chyfraniad gwirioneddol gan y cyhoedd a chan y gymuned wrth ddarparu gwasanaethau, credaf fod angen inni fynd lawer ymhellach a llawer yn gyflymach.

Gyda Chymunedau yn Gyntaf, yr oeddem yn cydnabod yr egni creadigol y gellir ei ryddhau pan fydd cymunedau unigol yn cael cyfle i osod eu blaenoriaethau a'u rhaglenni eu hunain. Mewn gwledydd ar draws Ewrop a ledled y byd, mae cymunedau bach yn gallu rheoli a darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig drostynt hwy eu hunain. Gadewch imi roi dwy enghraifft i chi. Mae dau fater wedi codi'n ddiweddar y gellid bod wedi eu datrys drwy i gymunedau unigol ysgwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Y cyntaf yw darparu band eang; mae'r ail yn ymwneud ag addysg gynradd.

O ran band eang, gwyddom y byddai nifer o gymunedau'n hoffi gallu cael y mathau hyn o ddulliau telathrebu, ond na allant eu cael am bob math o wahanol resymau strwythurol. Fodd bynnag, y mae ffyrdd i gymunedau weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Yn yr un modd, os bydd cymuned leol am greu'r modd i addysgu ei phlant, yr wyf yn hapus iddi wneud hynny, a chymryd y bydd yr ysgolion hynny'n bodloni'r safonau o ran ansawdd yr addysg, a'r athrawon yn cael telerau ac amodau sydd wedi eu cytuno'n genedlaethol.

I would like us to empower local community councils, if they so wish—I do not want us to compel, but to empower—to take over the delivery of such services. At present, we are seeing a pretty miserable and sterile debate, which is about decisions emanating from Cardiff or imposed from a distance at local authority level. If we empowered community councils to deliver public services in a far more profound way, I am sure that they could take over the delivery of many of these services—again, if they so chose and if those services are viable. They could also deliver those services in ways that would suit the needs and requirements of the particular community, and I would be happy to see them involving the voluntary sector or other providers if they believed that that is what the community requires and needs, and if that is how the community can sustain the service.

We can extend this to planning and environmental issues, housing, and dealing with crime and anti-social behaviour—we can unleash the creative power of ordinary people, who know their communities far better than we will ever do, and we can enable them to take democratic decisions and be a part of the self-government of their own communities, while we as a Government in Cardiff ensure that the minimum standards are met.

I understand that this might be difficult for some to accept, because it questions the role of the Assembly and the place of the Assembly Government. I believe that the Assembly Government must try to create a new democratic settlement and a new relationship between us in Cardiff and local government across Wales. Local decision-making cannot be an excuse for poor levels of service or a postcode lottery, whereby people are sometimes disadvantaged because of where they live. My argument is that this new relationship will mean that people will be able to deliver public services in different ways, and we can have a very different debate about the nature of public services. We can move away from some of the more sterile debates that we have had over the past few years, and talk about things in different

Carwn inni rymuso cynghorau cymuned lleol, os dymunant hynny—nid wyf am inni orfodi, ond yn hytrach rymuso—i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gyflwyno gwasanaethau felly. Ar hyn o bryd, dadl go ddiffas a diffwrth a glywn, am benderfyniadau'n dod o Gaerdydd neu'n cael eu gosod o bell ar lefel awdurdod lleol. Petaem yn grymuso cynghorau cymuned i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd ddyfnach o lawer, yr wyf yn siŵr y gallent ymgymryd â darparu nifer o'r gwasanaethau hyn—unwaith eto, o'u dewis eu hunain, ac os yw'r gwasanaethau hynny'n ymarferol. Gallent hefyd ddarparu'r gwasanaethau hynny mewn ffyrdd a fyddai'n addas i anghenion a gofynion y gymuned benodol, a byddwn yn falch eu gweld yn cynnwys y sector gwirfoddol neu ddarparwyr eraill petaent yn credu mai dyna a fyddai ar y gymuned ei angen ac mai dyma sut y gallai'r gymuned gynnal y gwasanaeth.

Gallwn ymestyn hyn i faterion cynllunio ac amgylcheddol, tai, a mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol—gallwn ryddhau grym creadigol pobl gyffredin, sydd lawer yn fwy cyfarwydd â'u cymunedau nag a fyddwn ni byth. Gallwn eu galluogi i wneud penderfyniadau democrataidd a bod yn rhan o hunanlywodraeth eu cymunedau eu hunain, tra byddwn ni fel Llywodraeth yng Nghaerdydd yn sicrhau bodloni'r isafswm safonau.

Deallaf y gallai hyn fod yn anodd i rai ei dderbyn, am ei fod yn cwestiynu rôl y Cynulliad a lle Llywodraeth y Cynulliad. Credaf y dylai Llywodraeth y Cynulliad geisio creu setliad democrataidd newydd a pherthynas newydd rhyngom ni yng Nghaerdydd a llywodraeth leol ledled Cymru. Ni all gwneud penderfyniadau'n lleol fod yn esgus dros lefelau gwael o wasanaeth neu loteri cod post, lle rhoddir rhai pobl dan anfantais oherwydd ble maent yn byw. Fy nadl i yw y bydd y berthynas newydd hon yn golygu y gall pobl ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd gwahanol, a gallwn gael dadl dra gwahanol am natur gwasanaethau cyhoeddus. Gallwn symud i ffwrdd o rai o'r dadleuon mwy diffwrth a gawsom dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a siarad am bethau mewn gwahanol

contexts. For example, I am happy to talk about local policing, community safety and local planning policies, and I would be happy to see local government take over large parts of the current responsibilities of the police, because I think that synergies can be created between different elements of local government services.

To conclude, too often our arguments about the nature and place of our democracy revolve around tired and sterile arguments about powers in this place and at Westminster. It is time for us to change that debate and create public interest. I hope that we will be able to create and lead a popular debate on the nature of our democracy and the shape of local services. That debate may inspire people to take part in the political process, reshape our communities and re-energise the delivery of our public services.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** A hundred and sixty years ago saw the culmination of the great Chartist campaign, based on the people's charter and the presentation of a petition signed by 6 million people to Parliament on extending the franchise to ordinary people in the United Kingdom. As she represents Newport West, the Deputy Presiding Officer will know of the contribution that the Chartist movement in Newport made to that democratic initiative in 1839.

5.20 p.m.

While the Chartist campaign ended in short-term failure, and many of those who stood up for democracy in those days ended up in prison, and were transported for the rest of their lives or even sentenced to death, about 20 years later, the vote was extended to skilled and respectable working people. Those people were given the right to vote, but the unskilled and the poor were deemed unfit to be part of the electoral process, and not capable of making decisions to guide their own destiny. Indeed, another decade and a half had to pass before the right to vote was extended to most men, and it was only 90 years ago that women got the right to vote—again, after bitter campaigning, involving

gyd-destunau. Er enghraifft, yr wyf yn ddigon bodlon siarad am blismona lleol, diogelwch cymunedol a pholisïau cynllunio lleol, a byddwn yn fodlon gweld llywodraeth leol yn ymgymryd â chyfran helaeth o gyfrifoldebau presennol yr heddlu, oherwydd fcredaf fod modd creu synergeddau rhwng gwahanol elfennau o wasanaethau llywodraeth leol.

I gloi, yn rhy aml mae ein dadleuon am natur a lle ein democratiaeth yn gogrdroi o gwmpas hen ddadleuon diffwrth am bwerau'r lle hwn a San Steffan. Mae'n bryd inni newid y ddadl honno a chreu diddordeb ymhlith y cyhoedd. Gobeithio y bydd modd inni greu ac arwain dadl boblogaidd am natur ein democratiaeth a ffurf gwasanaethau lleol. Gall y ddadl honno ysbrydoli pobl i gymryd rhan yn y broses wleidyddol, ail-ffurfio ein cymunedau ac ail-egnio darpariaeth ein gwasanaethau cyhoeddus.

**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Gant a thrigain o flynyddoedd yn ôl, gwelsom binacl ymgyrch fawr y Siartwyr, yn seiliedig ar siatr y bobl a chyflwyno deiseb wedi ei llofnodi gan 6 miliwn o bobl i'r Senedd ar ymestyn yr etholfraint i bobl gyffredin yn y Deyrnas Unedig. Gan ei bod yn cynrychioli Gorllewin Casnewydd, bydd y Dirprwy Lywydd yn ymwybodol o gyfraniad mudiad y Siartwyr yng Nghasnewydd at y fenter ddemocrataidd honno yn 1839.

Er mai methiant yn y tymor byr fu ymgyrch y Siartwyr, ac er i nifer o'r rheini a safodd dros ddemocratiaeth yn y dyddiau hynny fynd i'r carchar, a chael eu halltudio weddill eu hoes neu hyd yn oed eu dedfrydu i farwolaeth, tuag 20 mlynedd yn ddiweddarach ymestynnwyd y bleidlais i weithwyr creffus a pharchus. Cafodd y bobl hynny'r hawl i bleidleisio, ond barnwyd nad oedd y rhai digrefft a'r tlodion yn deilwng i fod yn rhan o'r broses etholiadol, ac nad oedd ganddynt y crebwyll i benderfynu hynt eu tynged eu hunain. Yn wir, aeth degawd a hanner arall heibio cyn ymestyn yr hawl i bleidleisio i'r rhan fwyaf o ddynion, a 90 mlynedd yn ôl yn unig y cafodd menywod yr hawl i

people going to jail or even losing their lives. It is just 80 years since we have had a full adult franchise in the United Kingdom.

We need to remember that democracy is not something that is embedded in the natural order of things in the United Kingdom. It was something that, within the lifetimes of some in Wales, had to be struggled for, and many people had to pay a tremendous price to deliver the universal franchise and the kind of democracy that we now have in Wales. We often forget that, and the barriers to delivering that democracy were the people in power, representing the vested interests of the rich and powerful. They denigrated the rights of ordinary, decent working people and their ability to have a say in how their lives were run.

It was only 10 years ago that democracy in the UK got a further boost in the devolution process. Again, that did not happen by chance, and those of us involved in that campaign realise just how close-run it was. However, devolution in Wales must be seen as an opportunity, as Alun said in his contribution, to deepen and develop the democratic process in Wales—which is very much in line with the radical, democratic principles that permeate the culture of Wales. As an Assembly Government, we are taking real steps to achieve that.

Democracy is more than the formal electoral process, and certainly does not end at the Butetown tunnel. Elections are an indispensable part of our democracy, but public engagement and the ongoing dialogue between the Government and the citizen must be seen to be intrinsic to the kind of new democracy that we are building here in Wales, and which Alun illustrated so graphically in his talk. A number of the developments in the Government of Wales Act 2006, and, indeed, subsequent Assembly Government policies, underpin this new ethos: we have partnership councils, which

bleidleisio—unwaith eto, wedi ymgyrchu chwerw a olygodd garcharu pobl neu hyd yn oed golli eu bywydau. Prin 80 mlynedd sydd ers inni gael etholfraint lawn i oedolion yn y Deyrnas Unedig.

Mae angen inni gofio nad yw democratiaeth yn rhywbeth sydd wedi'i gwreiddio yn nhrefn naturiol pethau yn y Deyrnas Unedig. Yr oedd yn rhywbeth y bu'n rhaid ymdrechu amdano, a hynny yn ystod oes rhai pobl yng Nghymru. Bu' rhaid i lawer o bobl dalu'n ddrud am gael yr etholfraint gyffredinol a'r math o ddemocratiaeth sydd gennym ni bellach yng Nghymru. Yr ydym yn aml yn anghofio hynny, a'r hyn a oedd yn rhwystro cyflwyno'r ddemocratiaeth honno oedd y bobl oedd mewn grym, yn cynrychioli diddordebau personol pobl gyfoethog a grymus. Dirmygent hawliau gweithwyr cyffredin, parchus a'u gallu i gael dweud eu dweud am y modd y rheolid eu bywydau.

Dim ond 10 mlynedd sydd ers i ddemocratiaeth yn y DU gael hwb arall yn y broses ddatganoli, Unwaith eto, nid hap a damwain oedd hynny, ac y mae'r rheini ohonom a fu'n rhan o'r ymgyrch honno yn sylweddoli mor agos fu hynny. Fodd bynnag, rhaid gweld datganoli yng Nghymru fel cyfle, fel y dywedodd Alun yn ei gyfraniad, i ddyfnhau a datblygu'r broses ddemocrataidd yng Nghymru—sy'n cyd-fynd yn llwyr â'r egwyddorion radical, democrataidd sy'n treiddio drwy ddiwylliant Cymru. Fel Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn cymryd camau gwirioneddol i sicrhau hynny.

Mae democratiaeth yn fwy na'r broses etholiadol ffurfiol, ac yn sicr nid yw'n dod i ben wrth dwnel Butetown. Mae etholiadau'n rhan hanfodol o'n democratiaeth, ond rhaid gweld ymwneud y cyhoedd a'r deialog parhaus rhwng y Llywodraeth a'r dinesydd fel rhan annatod o'r math o ddemocratiaeth newydd yr ydym yn ei chreu yma yng Nghymru, ac a ddarluniwyd mor fyw gan Alun yn ei gyfraniad. Mae nifer o'r datblygiadau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, ac, yn wir, bolisiau Llywodraeth y Cynulliad wedi hynny, yn sylfaen i'r ethos hwn: mae gennym gynghorau partneriaeth,

are key players here in Wales, with local government, with the third or voluntary sector, and we have the business partnership. There are also other welcome innovations such as the interfaith forum, which is chaired by the First Minister and makes an invaluable contribution to improving the inclusiveness of Welsh society.

However, moving beyond these formal, set-piece arrangements, it must also be acknowledged that we have established Funky Dragon, for example, which has engaged with young people in a way that is unparalleled in the United Kingdom. All schools have school councils, and all local authorities have youth fora, which are welcome developments. Indeed, all local authorities have a wide range of formal and informal arrangements to get the views of older citizens, as part of a new type of democracy.

As an Assembly Government, we have made it clear that the major local strategic and policy initiatives must be the result of engagement with local citizens—they must be engaged in the development of community strategies, local development plans, health, social care and wellbeing strategies, and children and young people plans. Policy formation must be a dynamic and interactive process, involving local people, rather than a top-down mechanism.

However, we also need to promote a more democratic and participatory democracy in Wales, in line with the Beecham agenda, as Alun said, shifting the focus towards a citizen-based model of delivery, and working to create a public service culture in Wales that strives to eliminate organisational, administrative and geographical boundaries in how public services are delivered. We must work to promote a new public service ethos, which we hope will create more accountable and effective public services than those based on commercialisation or the contracting out of public services.

However, this move to more citizen-based governance will only work if the partnership

sydd â rhan allweddol yma yng Nghymru, gyda llywodraeth leol, gyda'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol, ac mae gennym y bartneriaeth fusnes. Mae mentrau newydd eraill i'w croesawu hefyd, megis y fforwm aml-ffydd dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, ac mae'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at wneud cymdeithas yng Nghymru yn fwy cynhwysol.

Fodd bynnag, i symud y tu hwnt i'r trefniadau set, ffurfiol hyn, rhaid cydnabod hefyd ein bod wedi sefydlu, er enghraifft, y Ddraig Ffynici, sydd wedi cynnwys pobl ifanc mewn ffordd nad oes mo'i thebyg yn y Deyrnas Unedig. Mae gan bob ysgol gyngor ysgol, a phob awdurdod lleol fforymau ieuencid, sy'n ddatblygiadau i'w croesawu. Yn wir, mae gan bob awdurdod lleol ystod eang o drefniadau ffurfiol ac anffurfiol i gael barn dinasyddion hŷn, fel rhan o fath newydd o ddemocratiaeth.

Fel Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym wedi gwneud yn glir ei bod yn rhaid i'r prif fentrau strategol a pholisi lleol ddeillio o ymwneud â dinasyddion lleol—rhaid iddynt ymwneud â datblygu strategaethau cymunedol, cynlluniau datblygu lleol, strategaethau ieuchyd, gofal cymdeithasol a lles, a chynlluniau plant a phobl ifanc. Rhaid i lunio polisiau fod yn broses ddeinamig a rhyngweithiol, sy'n cynnwys pobl leol, yn hytrach na bod yn fecanwaith o'r brig i lawr.

Fodd bynnag, rhaid inni hefyd hybu democratiaeth fwy democrataidd a chyfranogol yng Nghymru, yn unol ag agenda Beecham, fel y dywedodd Alun, gan symud y canolbwynt at batrwm cyflwyno sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a gweithio i greu diwylliant o wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n ceisio dileu ffiniau trefniadol, gweinyddol a daearyddol yn y ffordd yn caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Rhaid inni weithio i hybu ethos o wasanaeth cyhoeddus newydd a fydd, gobeithio, yn creu gwasanaethau cyhoeddus mwy atebol ac effeithlon na'r rheini sy'n seiliedig ar fasnacheiddio neu osod gwasanaethau cyhoeddus allan ar gontract.

Fodd bynnag, bydd y symud hwn at lywodraethu sy'n canolbwyntio mwy ar y

agenda is more closely linked to the service improvement agenda. They must go hand in hand. We cannot stand on the moral high ground in terms of our commitment to public service delivery, if that does not deliver services of consistent quality. An enhanced citizen focus in public services, a commitment to partnership and improvement, and the promotion of social responsibility and voluntary action, all contribute to social glue, social solidarity and social capital in trying to create a socially cohesive society in Wales, which ultimately results in a more prosperous, fairer country that is at ease with itself.

The Assembly Government is looking at how we can make local democracy more accountable and more transparent, with more challenges to our elected members, whether at the unitary authority level, or at the community and town council level, as Alun suggested. Indeed, we are looking at options to broaden it beyond elected members, to see whether there are ways in which key lay stakeholders and members of the public can be engaged in this process. We are also looking at new ways in which the citizen can be empowered in calling for action, whether through the petitions process in the Assembly, or locally in their communities.

In some ways, the process by which we are trying to engage with this new participatory democracy can be seen through our Communities First programme, which is targeted at our most disadvantaged communities. We believe that those communities, given the opportunity and support, have the resilience and the creative spirit to regenerate their areas, in contrast to people's early struggles to build democracy, when disadvantaged people were not thought fit to make decisions about how public services should be run.

Communities First is not a top-down, centrally driven programme. It is about mobilising local communities to work with a wide range of partners to build a solid foundation for sustainable regeneration. It is a more innovative way of driving regeneration, and is also more democratic

dinesydd yn gweithio dim ond os cysylltir yr agenda bartneriaeth yn agosach â'r agenda o wella gwasanaeth. Rhaid iddynt fynd law yn llaw. Ni allwn foesoli o ran ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus os nad yw hynny'n darparu gwasanaeth o safon yn gyson. Mae mwy o ganolbwyntio ar y dinesydd mewn gwasanaethau cyhoeddus, ymrwymiad i bartneriaeth a gwella, a hybu cyfrifoldeb cymdeithasol a gweithredu gwirfoddol i gyd yn cyfrannu at ymlyniad cymdeithasol, uno cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol wrth geisio creu cymdeithas gymdeithasol gydlynus yng Nghymru, sydd yn y pen draw yn arwain at wlad fwy ffyniannus a theg sy'n teimlo'n gysurus amdani'i hun.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio gweld sut y medrwn wneud democratiaeth leol yn fwy atebol ac yn fwy eglur, gan herio mwy ar ein haelodau etholedig, boed ar lefel awdurdod unedol ynteu ar lefel cyngor cymuned a thref, fel yr awgrymodd Alun. Yn wir, yr ydym yn edrych ar ddewisiadau i'w ehangu y tu hwnt i aelodau etholedig, i weld a oes ffyrdd i randdeiliaid lleyg allweddol a'r cyhoedd ymwneud â'r broses. Yr ydym hefyd yn edrych ar ffyrdd newydd i rymuso'r dinesydd i alw am weithredu, boed drwy'r drefn ddeisebau yn y Cynulliad ynteu'n lleol yn eu cymunedau.

Mewn rhai ffyrdd, gellir gweld y broses o geisio ymwneud â'r ddemocratiaeth gyfranogol newydd hon drwy ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n targedu ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Credwn fod gan y cymunedau hynny, o gael y cyfle a'r gefnogaeth, y gwytnwch a'r ysbryd creadigol i adfywio'u hardaloedd, yn wahanol i ymdrechion cynnar pobl i lunio democratiaeth, pan na chredid bod pobl dan anfantais yn addas i wneud penderfyniadau am y modd y dylid rhedeg gwasanaethau cyhoeddus.

Nid rhaglen o'r brig i lawr yn cael ei rhedeg yn ganolog mo Cymunedau yn Gyntaf. Mater ydyw o symbylu cymunedau lleol i weithio gydag ystod eang o bartneriaid i adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer adfywio cynaliadwy. Mae'n ffordd fwy newydd o yrru adfywio ymlaen, ac mae hefyd yn fwy democrataidd a



and more accountable than the Lady Bountiful or command-and-control approaches that were tried in the past and which, unfortunately, failed. However, Communities First and Communities Next are long-term projects. We need to realise that not all communities are starting from the same point; indeed, many lack the indigenous capacity to respond to the challenges that they face.

That is why it was so important, in the initial phases of Communities First, to empower our local communities and to provide them with the capacity to tackle the challenges. That first phase is now coming to an end, and, as Communities Next is being consulted on, we need to move towards an approach based on delivery and outcomes, but we must have faith in the capacity, the ingenuity and the creativity of our most disadvantaged people to contribute to their communities' regeneration.

Therefore, for us, democracy is not just about formal electoral processes, but is central and indispensable to our view of a new democracy in Wales. We must acknowledge that the traditional way in which we have done politics in the formal sense is facing a crisis of confidence, as Alun said. We are facing declining turnouts in elections, reduced participation in political parties, and politicians and elected representatives are frequently held in low esteem by the public. These are real challenges for all of us. However, that should not deter us from having faith in our commitment to a wider level of public engagement, from having faith in the ability of the people to participate in working to create a better Wales, from having a clear focus on the citizen in how we do business, and from creating the new type of popular democracy that Alun launched in his speech.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's business to a close.

mwy atebol na'r agweddau haelioni-at-y-tlodion neu orchymyn-a-rheoli y rhoddyd cynnig arnynt yn y gorffennol ac a fethodd, yn anffodus. Fodd bynnag, prosiectau tymor hir yw Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Nesaf. Rhaid inni sylweddoli nad yw pob cymuned yn cychwyn o'r un fan; yn wir, nid yw'r gallu cynhenid gan lawer i ymateb i'r her sy'n eu hwynebu.

Dyna pam y mae mor bwysig, yng nghyfnodau cychwynnol Cymunedau yn Gyntaf, i rymuso ein cymunedau lleol a rhoi'r gallu iddynt fynd i'r afael â'r her. Mae'r cyfnod cyntaf hwnnw yn awr yn dirwyn i ben, ac wrth i'r ymgynghori ddigwydd ar Cymunedau Nesaf mae angen inni symud at agwedd yn seiliedig ar gyflwyno a deilliannau. Ond rhaid inni gael ffydd yng ngallu, dyfeisgarwch a chreadigrwydd ein pobl fwyaf difreintiedig i gyfrannu at adfywio eu cymunedau.

Felly, i ni nid mater o brosesau etholiadol ffurfiol yn unig yw democratiaeth; yn hytrach, mae'n ganolog ac yn hanfodol i'n golwg ar ddemocratiaeth newydd yng Nghymru. Rhaid inni gydnabod bod y ffordd draddodiadol yr ydym wedi gwleidyddia yn yr ystyr ffurfiol yn wynebu argyfwng hyder, fel y dywedodd Alun. Yr ydym yn wynebu llai o bobl yn pleidleisio mewn etholiadau, llai yn cymryd rhan mewn pleidiau gwleidyddol, ac yn aml nid yw'r cyhoedd yn meddwl llawer o wleidyddion na chynrychiolwyr etholedig. Mae hyn yn her wirioneddol i ni bob un. Fodd bynnag, ni ddylai hynny ein hatal rhag cael ffydd yn ein hymrwymiad i lefel ehangach o ymwneud cyhoeddus, i gael ffydd yng ngallu'r bobl i gymryd rhan mewn gwaith i greu Cymru well, i ganolbwyntio'n glir ar y dinesydd yn y ffordd yr ydym yn cynnal busnes, ac i greu'r math newydd o ddemocratiaeth boblogaidd a lansiodd Alun yn ei araith.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hyn â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.27 p.m.  
The meeting ended at 5.27 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)